# Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/2024

# (Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024)

HC 57
CMA/2024/07

CMA
Competition & Markets Authority

# Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24

(Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024)

Cyflwynwyd i Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 14(3)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(4) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 29 Gorffennaf 2024.

**HC 57**
**CMA/2024/07**

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i Strategy, Competition and Markets Authority, 25 Cabot Square, London, E14 4QZ neu drwy e-bost i general.enquiries@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5072-4

E03164537 07/24

# Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar Berfformiad** | **5** |
| **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** | **69** |
| **Yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff** | **112** |
| **Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio** | **132** |
| **Datganiadau Ariannol y CMA** | **145** |
| **Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA** | **175** |

# Adroddiad ar Berfformiad

Diben yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yw helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

Ein huchelgais yw hyrwyddo amgylchedd lle y gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg, lle y gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu, a lle y gall economi gyfan y DU dyfu mewn modd cynhyrchiol a chynaliadwy.

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer 2023/24.

Mae 2024 yn nodi 10 mlynedd ers i'r CMA agor ei ddrysau fel prif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Mae'n fraint cael cadeirio'r sefydliad wrth i ni gyrraedd y garreg filltir hon – yn arbennig o ystyried faint sydd wedi newid yn y DU, a ledled y byd, yn ystod y degawd diwethaf.

Mae'r newid hwn yn parhau'n ddi-dor. Rydym bellach yn wynebu un o'r cyfnodau mwyaf heriol mewn hanes economaidd wrth i dri grym mawr gyfuno, sef: anwadalrwydd macro-economaidd a geowleidyddol sy'n ailgodi; chwyldro technoleg parhaus; newid yn yr hinsawdd sy'n cyflymu.

Mae pob un o'r uchod wedi dod â ni i drobwynt pwysig fel gwlad, yn fy marn i. Mae'n amlwg ein bod yn wynebu heriau sylweddol. Ond rydym hefyd yn wynebu cyfleoedd gwych i ddatblygu economi ffyniannus, gadarn a chynaliadwy. Economi sy'n cael ei llywio gan ddatblygiadau arloesol a'i hategu gan dwf cryf mewn cynhyrchiant. Economi sy'n denu buddsoddiad ac uchelgais entrepreneuraidd o bob cwr o'r byd, am fod arloeswyr yn gallu bod yn hyderus bod y DU yn sicrhau tegwch i fusnesau sy'n bargeinio'n deg a'u buddsoddwyr, yn ogystal â fframwaith cyfreithiol tryloyw a chadarn.

Ers tro byd bu ymrwymiad y DU i hyrwyddo cystadleuaeth deg ac agored yn atyniad pwerus ar gyfer buddsoddiad - gan ddangos i'r byd bod y DU ar agor i fusnes ac ar agor i'r rhai sy'n fodlon cystadleuaeth yn ôl teilyngdod a sicrhau'r manteision sy'n deillio o roi cwsmeriaid yn gyntaf. Mae cystadleuaeth hefyd yn rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl sy'n gweithio'n galed – nid yn unig drwy brisiau is, ansawdd gwell a mwy o ddewis, ond hefyd am fod angen i gwmnïau sy'n gorfod cystadlu am dalent, gynnig cyflog, buddion a gweithleoedd gwell er mwyn denu'r dalent honno. Mewn economi lle mae cystadleuaeth deg ac effeithiol yn gyffredin, mae'r effaith gadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant yn cyfuno ag effaith sydd yr un mor gadarnhaol ar gyflogau ac amodau gwaith i greu cylch rhinweddol o fuddsoddiad a thwf. Yn olaf, mewn byd o gadwyni cyflenwi rhyngwladol sy'n ymrannu, mae cystadleuaeth iach yn sicrhau amrywiaeth y cyflenwad sydd ei angen ar y wlad er mwyn i'r economi allu adfer yn gyflym ar ôl digwyddiadau allanol annisgwyl ac osgoi dod yn wystl i fethiannau unigol.

Am y rhesymau hyn, credaf fod angen CMA annibynnol a diduedd yn fwy nag erioed. Dileu rhwystrau i fynediad ar gyfer arloeswyr a buddsoddwyr, er mwyn iddynt allu dod â'u dyfeisgarwch a'u hawydd i fentro a sicrhau'r manteision sy'n deillio o hynny.

Sicrhau bod llwyddiant yn y farchnad yn seiliedig ar gynhyrchion a gwasanaethau o safon uwch yn hytrach na manteision sy'n bodoli eisoes. Cosbi'r rhai â bwriadau drwg am arferion anghyfreithlon er mwyn i bobl allu cyfranogi yn yr economi mewn modd ymddiriedus a hyderus. Diogelu amgylchedd busnes dynamig lle y gall busnes sy'n bargeinio'n deg gystadlu a, thrwy hynny, sicrhau bod gan gwsmeriaid ryddid i ddewis ac y gall ein heconomi wrthsefyll anwadalrwydd. Diogelu'r gystadleuaeth deg, agored ac effeithiol sy'n rhagofyniad ar gyfer arloesedd, dewis, cynhyrchiant, buddsoddiad a thwf. Dyma sydd wrth wraidd popeth a wnawn a'r effaith rydym yn ei sicrhau ar gyfer y DU – heddiw ac yn y dyfodol.

Yn y cyd-destun hwnnw, ac o dan arweinyddiaeth newydd, nododd y CMA strategaeth hirdymor newydd yng Nghynllun Blynyddol 2023/24. Cafodd y strategaeth ei llunio i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl, busnesau ac economi'r DU yn ystod y blynyddoedd i ddod, gan roi sicrwydd a sefydlogrwydd pwysig i bob un o'n rhanddeiliaid. Prif nod ein strategaeth yw rhoi ffocws ar gamau gweithredu, yn gyson, ar y rhannau hynny o'r economi lle mae angen sicrhau cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr fwyaf a lle mae'r agweddau hynny yn wynebu'r bygythiad mwyaf. Mae hynny'n golygu sicrhau y gall pobl fanteisio ar ddewisiadau gwych a bargeinion teg, yn enwedig mewn meysydd gwariant hanfodol; gan wneud yn siŵr bod marchnadoedd yn parhau i fod ar agor i fusnesau sy'n bargeinio'n deg, er mwyn i herwyr a busnesau sy'n bodoli eisoes allu cystadlu, arloesi a thyfu; helpu technolegau a sectorau sy'n datblygu i gyflawni eu potensial i ysgogi twf cyflym, cynhyrchiol a chynaliadwy. Am y tro cyntaf, mae'r CMA bellach yn adrodd ar y strategaeth newydd honno.

Gan edrych ar yr hyn y mae'r CMA wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd, rwy'n gweld tri newid mawr. Yn gyntaf, ffocws cryf ar wneud dewisiadau – pennu blaenoriaethau a chadw atynt – er mwyn sicrhau manteision amlwg, pendant i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu. O ganlyniad, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi llai o sylw i adnoddau'r CMA a mwy o sylw i'r ffordd y gwnaethom eu defnyddio i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â chystadleuaeth a defnyddwyr sy'n bwysig iawn i bobl, busnesau ac economi'r DU. Parhau i ganolbwyntio ar y canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni, targedu ein hadnoddau lle y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf, mabwysiadu dull gweithredu 'offeryn-niwtral', gweithredu mewn ffordd amserol ac ystwyth – mae hyn oll wedi bod yn rhan o'r broses o sicrhau'r effaith go iawn y byddwch yn ei gweld drwy gydol y crynodeb hwn o'n gwaith dros y 12 mis diwethaf.

Yn ail, rydym wedi atgyfnerthu ein trefniadau arwain a llywodraethu – gan gynnal, fel bob amser, werthoedd craidd rhagoriaeth a didueddrwydd, ond hefyd gan gynyddu ein hamrywiaeth o brofiad ac arbenigedd ym maes gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r pwerau a'r cyfrifoldebau y mae'r Senedd wedi'u rhoi i'r CMA o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol,

Cystadleuaeth a Defnyddwyr a ddaeth i rym yn ddiweddar. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi symleiddio ein strwythur gweithredol mewn meysydd allweddol eraill, gan gynnwys defnyddwyr a marchnadoedd, rheoli prosesau uno, gorfodi cystadleuaeth, strategaeth, data a thechnoleg. Mae'r rolau arwain diwygiedig rydym wedi'u creu eisoes yn ysgogi ffocws cryfach fyth ar gael effaith. Mae'n bleser gennyf weld llawer o'r rolau hyn yn cael eu llenwi gan gydweithwyr o'r tu mewn i rengoedd y CMA ei hun, yn unol â'n hymrwymiad i feithrin a datblygu'r rhai mwyaf talentog yn ein sefydliad. Roedd hefyd yn bleser gennyf groesawu ein Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd i'n Bwrdd ym mis Mawrth. Mae'r Cyfarwyddwr Anweithredol a Gweithredol newydd yn dod â chyfoeth o brofiad a safbwyntiau ychwanegol a fydd yn cryfhau ein Bwrdd ymhellach ar yr adeg bwysig hon i'r CMA.

Yn olaf, rydym wedi cyflawni'r ymrwymiad a wnaed yn ein strategaeth i sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd ym mhopeth a wnawn, a hynny'n fwriadol ac yn gyson. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r CMA wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu mwy agored gydag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid, yn amlach nag erioed o'r blaen. Boed hynny yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, yn y DU neu'n rhyngwladol, o'r busnesau byd-eang mwyaf i'r BBaCh a chymuned yr herwyr – mae gwrando, dysgu ac ymateb i'n nifer mawr o randdeiliaid wedi dod yn rhan o'n DNA. Mae hyn yn ein helpu i wella ein dealltwriaeth, yn enwedig mewn sectorau cymhleth sy'n datblygu'n gyflym. Mae'n helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau bob amser yn ddiduedd ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, nid ar farn y lleisiau hynny sy'n gweiddi uchaf. Ac yn anad dim, mae'n helpu i ennyn ymddiriedaeth a hyder yn ein penderfyniadau a'n gweithredoedd, ymhlith y rhai rydym yn eu gwasanaethu a'r rhai rydym yn atebol iddynt. Dyna pam mae'r CMA wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â mwy o Bwyllgorau Seneddol a Seneddwyr eleni nag mewn unrhyw flwyddyn yn ein hanes.

Mae pob un o'r newidiadau hyn wedi cyfrannu at yr effaith gadarnhaol y mae gwaith y CMA wedi'i chael eleni. Ymyrryd er mwyn sicrhau tryloywder a dewis o ran y petrol a'r nwyddau groser rydym yn eu prynu bob wythnos. Gwneud argymhellion i'r llywodraeth ynglŷn â dileu rhai o'r rhwystrau sy'n atal cartrefi rhag cael eu hadeiladu a sicrhau bod y cartrefi hynny yn fwy fforddiadwy. Cymryd camau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedïau a osodwyd gennym yn flaenorol yn y farchnad gofal angladdau a lansio adolygiad newydd o wasanaethau milfeddygol - y mae'r ddau ohonynt yn feysydd lle y gall pobl fod yn arbennig o agored i gamfanteisio. Defnyddio ein pwerau i reoli prosesau uno i ddiogelu cystadleuaeth mewn marchnadoedd sy'n ehangu'n gyflym megis gemau cwmwl, atal grym y farchnad rhag cael ei grynhoi i fyny ac i lawr y gadwyn werth mewn ffordd a fyddai'n cloi cwsmeriaid i mewn ac yn cloi darpar gystadleuwyr allan. Sicrhau prisiau is (a chostau is i drethdalwyr) ar gyfer y rhwydwaith radio symudol a ddefnyddir gan ein gwasanaethau brys. Cymryd camau penderfynol yn erbyn arferion cynyddol soffistigedig i gamarwain defnyddwyr a chamfanteisio arnynt mewn marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ar-

lein. Cefnogi'r ymdrechion i greu economi gynhyrchiol a chynaliadwy sy'n tyfu drwy ein gwaith ar ddeallusrwydd artiffisial, marchnadoedd llafur a chytundebau cynaliadwyedd. Mae'r CMA wedi cymryd camau pendant ym mhob un o'r meysydd hyn yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rwy'n hyderus y bydd y momentwm cadarnhaol hwn yn parhau wrth i ni ddechrau cyflawni ein cyfrifoldebau ychwanegol o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Bwrdd yn brysur iawn yn paratoi'r CMA ar gyfer y fframwaith digidol a'r fframwaith defnyddwyr newydd, gan gynnwys ym meysydd llywodraethu, blaenoriaethu, sgiliau ac adnoddau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r CMA wedi bod yn cynllunio ar gyfer y pwerau newydd hyn ers bron i dair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn barod o'r Diwrnod Cyntaf i ddechrau agor y drws i ddegawd newydd o fuddsoddiad mewn marchnadoedd digidol a helpu defnyddwyr i gael bargen decach ynghynt.

Yn olaf, ac yn arbennig ar ôl cyrraedd y garreg filltir o fod yn weithredol ers 10 mlynedd, hoffwn gydnabod ymdrechion staff talentog ac ymroddedig y CMA, sy'n sail i'n llwyddiant. Rwy'n hynod o ddiolchgar am waith caled ein cydweithwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wrth iddynt barhau i gyflawni ein blaenoriaethau bob dydd mewn cyfnod heriol iawn. Mae angen y gwaith hwnnw heddiw yn fwy nag erioed.

## Amdanom ni

Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o lywodraeth y DU a bu'n gweithredu fel prif awdurdod cystadleuaeth a defnyddwyr y DU ers 2014. Rydym yn helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg. Mae cylch gorchwyl y CMA yn cwmpasu'r DU. Rydym yn cyflogi tua 1,080 o bobl ac mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain a Manceinion.

Rydym yn gweithio mewn ffordd integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddewis yr adnoddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol, yn ein barn ni, i bobl a busnesau (ble bynnag y maent yn byw ac yn gweithredu yn y pedair gwlad), yn ogystal ag economi'r DU.

### Llywodraethu

Caiff y CMA ei ariannu gan Drysorlys EF a'i noddi gan yr Adran Busnes a Masnach ac mae'n atebol i Senedd y DU. Rydym yn gosod ein Cynllun Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon gerbron y Senedd a phob un o'r deddfwrfeydd datganoledig. Mae ein strwythur llywodraethu yn sicrhau tegwch, annibyniaeth, gonestrwydd, gwaith dadansoddi trylwyr, trin gwybodaeth sensitif yn ofalus a defnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon. Cawn ein rheoli gan Fwrdd, sy'n cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol a dau aelod o Banel y CMA. Y Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA, sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei drin yn ddarbodus ac yn effeithlon gan y CMA. Rhaid i rai o swyddogaethau'r Bwrdd gael eu cyflawni gan aelodau o Banel y CMA. Gweision sifil yw staff y CMA.

# Effaith ein gwaith

## Y budd ariannol uniongyrchol i ddefnyddwyr

Bob blwyddyn mae'r CMA yn amcangyfrif budd ariannol uniongyrchol ein gwaith i ddefnyddwyr. Rydym yn ystyried bod ein hamcangyfrifon yn rhai ceidwadol am eu bod yn seiliedig ar dybiaethau gofalus. Serch hynny, maent yn dangos ein bod wedi sicrhau effaith sylweddol i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu eleni.

- Cyfanswm amcangyfrifedig y buddiannau i ddefnyddwyr a sicrhawyd dros y tair blynedd diwethaf: £8.2bn
- Cyfartaledd blynyddol amcangyfrifedig y buddiannau i ddefnyddwyr a sicrhawyd dros y tair blynedd diwethaf: £2.7bn
- Cymhareb amcangyfrifedig buddiannau i ddefnyddwyr: gwariant gweithredu : 23: 1

Dadansoddiad o adnoddau, a fynegir fel cyfartaledd blynyddol:

- Gorfodi cystadleuaeth: £123.5m
- Gorfodi defnyddwyr: £175.2m
- Astudiaethau ac ymchwiliadau marchnadoedd £1.8bn
- Rheoli prosesau uno: £685.2m

Am resymau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, nid yw'r CMA yn cyhoeddi amcangyfrifon o effeithiau ar gyfer ein hachosion a'n prosiectau unigol, er eu bod yn cael eu gwirio'n drylwyr gan adolygwr annibynnol. Rydym yn nodi rhagor o wybodaeth am ein methodoleg yn yr Asesiad Effaith, yr ydym wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Effaith anuniongyrchol

Mae ein hamcangyfrifon yn debygol o fod yn geidwadol gan nad yw buddiannau ariannol uniongyrchol yn cynnwys llawer o effeithiau ehangach pwysig gweithgareddau'r CMA. Mae'n werth nodi nad ydynt yn cynnwys effaith ataliol ein gwaith, sy'n debygol o fod yn sylweddol. Mae'r llenyddiaeth bresennol yn darparu tystiolaeth dda o effaith ataliol sylweddol.[1] Er enghraifft, dengys arolygon bod cryn nifer o gartelau, rhwng pump a 28, yn cael eu hatal ar gyfer pob un a ddelir.

[1] The deterrent effect of competition authorities' work: Literature Review (2017)

At hynny, mae tystiolaeth ddamcaniaethol ac empiraidd gref i awgrymu y gall marchnadoedd mwy cystadleuol, a pholisi a gweithgarwch gorfodi cystadleuaeth effeithiol, wella cynhyrchiant yn yr economi.[2] Yn fras, dengys y dystiolaeth, mewn marchnadoedd cystadleuol, y gall defnyddwyr newid yn rhwydd rhwng cynhyrchion a busnesau. O ganlyniad, gall y busnesau mwyaf cynhyrchiol ehangu, gan ddenu mwy o weithwyr a chyfalaf. Wrth i weithwyr ddod o hyd i gyflogaeth sy'n gweddu'n well i'w sgiliau, gallai cynhyrchiant gynyddu ymhellach. Yn olaf, gall entrepreneuriaid newydd ymuno â marchnadoedd cystadleuol yn hawdd, gan ddisodli cwmnïau aneffeithiol neu gwmnïau sydd eisoes yn rhan o'r farchnad a dod â ffyrdd newydd o feddwl i'r economi sy'n ysgogi twf yn gyffredinol. Ymhlith blaenoriaethau ymchwil Uned Micro-economeg newydd y CMA mae ystyried y gydberthynas rhwng cystadleuaeth a chynhyrchiant ymhellach.

Yn fwy cyffredinol, mae'r CMA yn ceisio cynyddu effaith ein gwaith fel rhan o'r defnydd cynyddol ystwyth o'n hystod lawn o bwerau. Rydym yn cynnal ymgyrchoedd i atal ymddygiad gwrthgystadleuol a chodi ymwybyddiaeth o niweidiau pwysig i ddefnyddwyr. Er enghraifft, mae ein hymgyrch ‘Cheating or Competing’ wedi galluogi busnesau a phobl i adnabod ac osgoi cartelau anghyfreithlon a rhoi gwybod amdanynt, gyda thua 7,000 o bobl yn ymweld â thudalen ein hymgyrch y llynedd. Ategwyd yr ymgyrch hon gan raglen allgymorth i gaffaelwyr yn y sector cyhoeddus er mwyn eu helpu i ddiogelu arian trethdalwyr drwy adnabod arwyddion o rigio ceisiadau gan gartelau anghyfreithlon. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys mwy na 40 o anerchiadau wedi'u targedu eleni, a oedd yn canolbwyntio ar addysg a chodi ymwybyddiaeth o sut i atal arferion gwael, adnabod rhybuddion a rhoi gwybod am weithgarwch amheus. Yn yr un modd, mae ein hymgyrch, ‘Online Rip-Off Tip-Off’, wedi helpu pobl i adnabod tactegau gwerthu niweidiol a chamarweiniol ar-lein a rhoi gwybod amdanynt. Mewn dim ond deufis yn 2023, defnyddiodd 1,000 o ddefnyddwyr ein ffurflen ar-lein i roi gwybod am dacteg gwerthu ar-lein gamarweiniol, gan gynnwys taliadau cudd, trapiau tanysgrifio a gwerthu dan bwysau.

Rydym hefyd yn gweithio'n ddiwyd gyda'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus i weithredu ar argymhellion, sy'n aml yn deillio o'n gwaith ar farchnadoedd. Mae'r argymhellion hyn yn gofyn i eraill weithredu os na all y CMA wneud hynny neu os nad yw yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Eleni, er enghraifft, rhoddodd llywodraeth y DU argymhellion y CMA o'n hastudiaeth i'r farchnad o rwydweithiau gwres, a gynhaliwyd yn 2017, ar waith. Drwy Ddeddf Ynni 2023, mae llywodraeth y DU wedi rhoi system ar waith ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau gwres, gan ei gwneud yn bosibl i gartrefi gael eu gwresogi mewn ffordd fwy effeithlon ac ecogyfeillgar, atgyfnerthu mesurau diogelu defnyddwyr a gwella ansawdd a safonau gwasanaeth.

[2] Productivity and competition: a summary of the evidence (2015)

Ochr yn ochr ag argymhellion eraill a wnaed gennym mewn perthynas â phrisio nwyddau groser fesul uned ac adeiladu tai, eleni gwnaethom ddau argymhelliad i Lywodraeth y DU er mwyn ysgogi cystadleuaeth o'r newydd yn y farchnad tanwydd ffordd, sef: 1) cyflwyno cynllun tryloywder prisiau sy'n rhoi prisiau agos at amser real i ddefnyddwyr, gan eu helpu i ddod o hyd i'r tanwydd rhataf ac ysgogi cystadleuaeth rhwng manwerthwyr, a 2) sefydlu corff monitro er mwyn olrhain prisiau ac elw dros amser. Mae'r argymhellion hyn yn atgyfnerthu ei gilydd. Er ein bod yn falch bod llywodraeth y DU wedi derbyn y ddau argymhelliad yn llawn, dim ond yn ddiweddar y mae deddfwriaeth wedi'i phasio mewn perthynas â'r ail argymhelliad. Nes i ddeddfwriaeth gael ei phasio ar y cynllun tryloywder prisiau statudol, bydd llai o gymhellion i fanwerthwyr brisio tanwydd yn fwy cystadleuol. Mae'r CMA yn edrych ymlaen at weithio gyda llywodraeth newydd y DU er mwyn helpu i sicrhau bod y farchnad hollbwysig hon yn cyflawni dros yrwyr ledled y DU.

## Atebolrwydd a thryloywder

Mae'r CMA yn atebol i'r Senedd am gyflawni ein dyletswydd statudol i hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr y tu mewn a'r tu allan i'r DU. Rydym hefyd yn ystyried ein hunain yn atebol i'r bobl a'r busnesau yn y DU rydym yn eu gwasanaethu, sef rhywbeth a adlewyrchir yn ein Diben, ac rydym yn cydnabod y rôl bwysig rydym yn ei chwarae o ran cefnogi cynhyrchiant, arloesedd a thwf ym mhob rhan o economi'r DU. Rydym yn cymryd yr atebolrwydd hwn o ddifrif ac wedi mynd ati'n rhagweithiol i geisio ei atgyfnerthu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig am ein bod wedi derbyn cyfrifoldebau newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys mwy o ymdrech nag erioed o'r blaen i wella tryloywder ac ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid allweddol, gan feithrin dealltwriaeth o'n gwaith a chydnabod bod mwy i'w wneud bob amser i wrando, dysgu a chodi ymwybyddiaeth.

Rydym yn adrodd yn rheolaidd i'r Senedd a'r deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys drwy'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yma) ac yn croesawu eu diddordeb cynyddol yn ein gwaith, gan wrando ar adborth a oedd yn annog gweithgarwch ymgysylltu amlach ac ehangach ei gwmpas â Phwyllgorau Seneddol a Seneddwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU.  Y tu hwnt i'r Senedd, rydym hefyd wedi ymgysylltu'n fwy rhagweithiol ac yn helaethach gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar draws ein portffolio o waith, yn ogystal â thrwy'r broses ymgynghori ar gyfer ein Cynllun Blynyddol sy'n nodi ein strategaeth ar gyfer y flwyddyn.

- Gwnaethom groesawu cyfleoedd i roi tystiolaeth ffurfiol i **12** o bwyllgorau Seneddol yn San Steffan ac yn y deddfwrfeydd datganoledig eleni. Gwnaethom hefyd ymgysylltu ag **11** o Grwpiau Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan er mwyn esbonio ein gwaith a rhoi barn arbenigol ar amrywiaeth o bynciau.

- Gan nodi ein hymrwymiad i wasanaethu pob rhan o'r DU, cyfarfu Bwrdd y CMA **bedair** gwaith y tu allan i Lundain – yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Manceinion – gan fanteisio ar y cyfle i gyfarfod â rhanddeiliaid lleol a deall y problemau penodol sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a busnesau mewn gwahanol rannau o'r DU.

- At hynny, cynhaliodd y CMA fwy na **100** o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eleni, gan gynnwys digwyddiad yng Ngogledd Iwerddon lle y gwnaethom hyfforddi mwy na **250** o arbenigwyr ym meysydd cyllid a chaffael cyhoeddus sut i adnabod achosion o rigio ceisiadau.

- Cyfrannodd arbenigwyr y CMA at fwy na **200** o gynadleddau, gweminarau, podlediadau a digwyddiadau eraill eleni (sef cynnydd o bron i 20% o flwyddyn i flwyddyn), gan gyfleu agweddau ar ein gwaith a gwrando ar safbwyntiau ein rhanddeiliaid.

- Gan gynyddu'r gwaith paratoi ar gyfer cyfrifoldebau'r gyfundrefn ddigidol newydd, cynhaliodd ein Huned Marchnadoedd Digidol tua **230** o gyfarfodydd a gweithgareddau ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn y sector digidol – o fusnesau newydd a grwpiau defnyddwyr, i gwmnïau sefydledig, cyrff diwydiant ac arbenigwyr yn y byd academaidd a'r trydydd sector.

- Rhoesom gyflwyniadau i tua **30** o bwyllgorau, cynadleddau a digwyddiadau diwydiant eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gydberthynas rhwng cyfraith cystadleuaeth a chynaliadwyedd, gan helpu cwmnïau i ddatblygu eu huchelgeisiau o ran Sero Net yn hyderus ac â sicrwydd.

Mae'n amlwg bod gallu'r CMA i gyrraedd y rhai rydym yn eu gwasanaethu ac ymgysylltu'n ystyrlon â nhw yn cynyddu wrth i ni ganolbwyntio'n ddygn ar feysydd sy'n bwysig iawn i bobl a busnesau. P'un a yw'n ymwneud â chost byw, tegwch marchnadoedd ar-lein i fusnesau bach neu ffyrdd o osgoi cael eich twyllo gan fasnachwyr diegwyddor, mae ein gwaith yn esgor ar lefelau cynyddol o ymgysylltu ac ymwybyddiaeth. Mae ein gweithgarwch cyfathrebu yn gwella tryloywder ac yn helpu i annog y gweithgarwch ymgysylltu hwn. Mae hefyd yn sicrhau bod ein hymyriadau yn cael yr effaith fwyaf posibl, gan gynyddu'r effaith ataliol yn erbyn arferion annheg ac anghyfreithlon (a nodir uchod), yn ogystal â chyfleu neges gadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau sy'n bargeinio'n deg bod y CMA yn llwyr ymrwymedig i ddiogelu eu buddiannau, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i ni gan y Senedd:

- O ganlyniad i'n hadolygiad o'r farchnad yn y sector milfeddygol, cysylltodd nifer digynsail o bobl (**56,000**), gan gynnwys perchenogion anifeiliaid anwes a gweithwyr milfeddygol proffesiynol, â ni er mwyn rhannu eu profiadau. Dyma'r lefel uchaf o ymgysylltu ag un o brosiectau'r CMA a welwyd hyd yma.

- Edrychwyd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y CMA **15 miliwn** o weithiau yn 2023/24, gan dreblu ers 2022. Edrychwyd ar ein tudalen GOV.UK **2.5 miliwn** o weithiau. Edrychwyd ar un o'n fideos, ar ein hastudiaeth o'r farchnad tanwydd ffordd, **660,000** o weithiau.

- Gwnaethom ymdrin â **5,900** o eitemau o ohebiaeth ysgrifenedig gan y cyhoedd, a oedd yn cynnwys llawer o adroddiadau gan ddefnyddwyr a busnesau am ymddygiad gwrthgystadleuol neu broblemau mewn marchnadoedd.

- Cyfeiriwyd at y CMA tua **20,000** o weithiau mewn cyfryngau print, darlledu a gwe eleni. O filfeddygon, nwyddau groser a thanwydd ffordd i'n gwaith ar gynlluniau uno yn y sector telathrebu a'n hymchwiliad i gartel adeiladu tai, mae ein gweithgarwch cyfathrebu yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion rydym yn gyfrifol am fynd i'r afael â nhw.

## Ein strategaeth

Yng Nghynllun Blynyddol 2023/24, cyflwynodd y CMA fframwaith strategol tair blynedd newydd. Mae'r buddsoddiad hwn mewn cynllun tymor canolig cadarn yn golygu bod y CMA bellach mewn sefyllfa gref i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn wyneb amgylchedd mwy anwadal, sy'n heriol yn economaidd ac sy'n tarfu ar dechnoleg i bawb. Rydym bellach yn adrodd ar y strategaeth newydd hon am y tro cyntaf.

Mae gan y CMA Ddiben clir a sefydlog, sy'n deillio o'r brif ddyletswydd y mae'r Senedd wedi'i rhoi inni: rydym yn helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

Mae'r canlyniadau diriaethol rydym am eu cyflawni i Bobl, Busnesau ac Economi'r DU yn y tymor hwy yn cael eu nodi yn ein Huchelgais. Diben y rhain yw sicrhau'r canlynol:

(a) Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg.
(b) Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu.
(c) Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy.

Mae ein **Blaenoriaethau Tymor Canolig** yn cysylltu â'r canlyniadau hyn ac yn nodi'r marchnadoedd y byddwn yn gweithredu ynddynt dros gyfnod o dair blynedd. Maent yn llywio ein **Meysydd Ffocws Blynyddol**, a nodwyd gennym yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 ac a fu'n sail i gyflawniad yn 2023/24.

Mae ein fframwaith strategol hefyd yn cynnwys ein **Gofynion Sylfaenol a'n Galluogwyr Craidd**. Drwy ein **Gofynion Sylfaenol**, rydym yn cyflawni buddiannau amlwg ac yn defnyddio ein holl adnoddau ac rydym yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl, yn gyson â thrylwyredd a thegwch gweithdrefnol. Mae ein **Galluogwyr Craidd** yn cwmpasu set o newidiadau mewnol sy'n ein gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon yn y modd rydym yn gweithio. Er enghraifft, rydym yn gwella'r ffordd rydym yn trefnu ein hunain ac yn gweithio ar brosiectau, gan wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial yn ein gwaith ac adnewyddu ein ffocws ar ddatblygu a chadw ein talent.

# Adolygiad y Prif Weithredwr

## Cyflwyniad

Mae 2024 yn flwyddyn nodedig i'r CMA, wrth i ni gyrraedd degawd o fod yn weithredol. Mae hefyd yn adeg bwysig i gyfundrefnau cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU, yn sgil pasio'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, sy'n rhoi cyfrifoldebau newydd pwysig i'r CMA.

Gan fyfyrio ar y garreg filltir hon, rwy'n falch o'r hyn y mae'r CMA wedi'i gyflawni i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu ers 2014. O sicrhau ad-daliadau gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd i gwsmeriaid a ataliwyd rhag teithio yn ystod pandemig COVID-19, i roi pen ar gwmnïau fferyllol yn codi gormod ar y GIG am feddyginiaethau hanfodol. Paratôdd y CMA y ffordd i chwyldro Bancio Agored y DU greu marchnad seiliedig ar arloesi gwerth £4bn y flwyddyn i economi'r DU. Drwy ein gwaith ar gynlluniau uno, gwnaethom sicrhau bod marchnadoedd twf arloesol fel dilyniannu DNA a meddalwedd yn parhau i fod ar agor i arloeswyr a herwyr Gwnaethom sicrhau ymrwymiadau allweddol gan Instagram, Facebook ac eBay i fynd i'r afael ag adolygiadau ffug ac rydym yn parhau i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw drwy ymyrryd yn benderfynol mewn marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd, fel bwyd a thanwydd.

Mae'r achosion hyn, a llawer mwy, yn dangos bod ein sefydliad yn ymrwymedig i helpu pobl a busnesau'r DU, yn ogystal â hybu llwyddiant hirdymor a chadernid ein heconomi. Mewn termau real, mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at lwyddiant y CMA i ddarparu buddiannau ariannol uniongyrchol gwerth o leiaf £20.3bn i ddefnyddwyr yn y DU dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, am bob £1 a wariwyd gan y CMA ar gostau gweithredu, y budd cyfartalog i ddefnyddwyr oedd £23.

Mae ehangder y gwaith hwn, y canlyniadau cadarnhaol sydd wedi deillio ohono a'r holl fuddiannau y mae wedi'u sicrhau, yn tystio i werth cyfundrefn cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr gadarn ac annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r DU. Wrth gyflawni ein dyletswyddau o dan y gyfundrefn hon, mae'r CMA, yn ddiwyro, wedi diogelu defnyddwyr rhag niwed, gan sicrhau y gall pobl gyfranogi'n weithredol ac yn hyderus yn yr economi. Rydym wedi meithrin a diogelu'r amodau ar gyfer cystadleuaeth deg, agored ac effeithiol ac, wrth wneud hynny, wedi chwarae rôl hollbwysig o ran rhoi cymhelliant i fusnesau fuddsoddi, arloesi a dod yn fwy effeithlon. Rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio'n ddygn ar ein rôl i hybu iechyd a sefydlogrwydd economi ehangach y DU, yn arbennig drwy gefnogi marchnadoedd

sy'n bwysig yn strategol i gyflawni eu potensial fel ysgogwyr twf economaidd a helpu i gynyddu cynhyrchiant.

Fel sefydliad, mae'r CMA wedi ymateb i'r nifer cynyddol o gyfrifoldebau sydd wedi'u rhoi i ni dros y degawd diwethaf. Rydym wedi ehangu o ran maint a daearyddiaeth, gyda swyddfeydd bellach mewn chwe lleoliad ym mhob un o bedair gwlad y DU. Rydym wedi dangos ein gallu i addasu'n llwyddiannus i newid, gan ddatblygu'r arbenigedd a'r strwythurau sydd eu hangen i gyflawni ein rôl ble bynnag y gelwir arnom i wneud hynny. Wrth wneud hynny, rydym wedi sefydlu swyddogaethau newydd effeithiol, sef Swyddfa'r Farchnad Fewnol, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a'n Uned Micro-economeg, gan fuddsoddi'n gyson yn ein galluoedd a'n sgiliau yn y sefydliad ehangach. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar fod yn gyflogwr cynhwysol ac yn lle gwych i weithio.

Fodd bynnag, fel bob amser, mae llawer mwy i'w wneud ac rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau gwirioneddol iawn y mae pobl yn y wlad hon a'n heconomi ehangach yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Credaf y gall y CMA chwarae rôl bwysig o ran helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn. P'un a yw'n ymwneud â gwella cynhyrchiant, denu buddsoddiad, neu hybu twf a chadernid economaidd; lliniaru pwysau costau byw; mynd i'r afael â'r argyfwng tai; cefnogi'r ymdrechion i gyflawni Sero Net; neu ymdrin â grym cwmnïau digidol mawr a'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, a allai fod yn ddigynsail – ym mhob un o'r meysydd hyn, gall y CMA gyfrannu at lwyddiant a llesiant y DU, nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn gwneud hyn drwy flaenoriaethu ein gwaith lle mae ei angen fwyaf, gan fuddsoddi yn y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnom i addasu wrth i'r byd o'n cwmpas newid a pharhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl, busnesau a'n heconomi.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn dechrau defnyddio cyfrifoldeb newydd trawsnewidiol a roddwyd i ni drwy'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Wrth gwrs, bydd yn cymryd amser i'r cyfundrefnau newydd a sefydlwyd o dan y Ddeddf esgor ar bob un o'r buddiannau posibl rydym yn credu y gallant eu sicrhau. Fodd bynnag, mae'r CMA wedi bod yn paratoi ers sawl blwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar y Diwrnod Cyntaf ac rydym yn hyderus y bydd y pwerau newydd hyn yn gwella ein gallu i gyflawni gwerth a chanlyniadau cadarnhaol i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn yr hirdymor, yn sylweddol.

Bwriedir i'r gyfundrefn ddigidol newydd sydd o blaid cystadleuaeth fynd i'r afael â grym pellgyrhaeddol nifer bach o gwmnïau technoleg yn y farchnad drwy alluogi'r CMA i fynd ati'n rhagweithiol i ysgogi marchnadoedd digidol mwy dynamig ac atal arferion niweidiol sy'n rhwystro arloesedd a thwf. Gwnaethom nodi ein hegwyddorion gweithredu ar gyfer y gyfundrefn newydd ym mis Ionawr 2024 sy'n cynnwys, yn bwysig ddigon, ddull gweithredu cymesur, tryloyw ac wedi'i dargedu. Mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael â niweidiau a'u hatal yn gyflym ac yn gynaliadwy, yn bennaf

drwy gystadleuaeth ac, ar yr un pryd, barhau i fod yn gwbl atebol am y penderfyniadau a wnawn. Gwyddom ei bod yn hanfodol bod busnesau a buddsoddwyr, cyrff masnach, eiriolwyr defnyddwyr a llawer mwy o randdeiliaid pwysig yn deall y fframwaith newydd ac yn ymddiried ynddo. Byddwn yn gweithredu mewn modd cyfranogol, sy'n golygu gweithgarwch ymgysylltu teg, cynhwysol ac eang ei gwmpas â phartïon y mae'r agwedd hon ar ein gwaith yn effeithio arnynt neu y mae ganddynt ddiddordeb ynddi.

Yn ail, bydd y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn rhoi pwerau cryfach i ni orfodi cyfraith defnyddwyr drwy'r model gweinyddol defnyddwyr newydd. Hyd yma, mae gan y CMA hanes da o ddiogelu pobl rhag niweidiau sy'n deillio o achosion o dor-cyfraith ym maes diogelu defnyddwyr. Gwnaethom gynnig diwygiadau i fynd i'r afael â'r ‘gosb teyrngarwch’ sy'n effeithio ar filiynau o gwsmeriaid hirsefydlog. Gwnaethom ryddhau miloedd o berchnogion cartrefi lesddaliadol o dermau rhent tir annheg a oedd yn golygu ei bod yn amhosibl iddynt werthu neu ailforgeisio eu cartrefi. Gwnaethant gymryd camau hefyd i fynd i'r afael â'r ffordd y mae gwefannau tocynnau yn cyflwyno gwybodaeth i gwsmeriaid a gwnaethom sicrhau bod pobl sy'n dewis gamblo ar-lein mewn sefyllfa i gerdded i ffwrdd â'u harian eu hunain pryd bynnag y maent am wneud hynny. Lle mae'r CMA wedi nodi cyfleoedd i sefyll i fyny dros hawliau pobl a chosbi'r rhai sy'n ceisio cwtogi arnynt, rydym wedi arfer ein pwerau defnyddwyr presennol i'r graddau eithaf posibl.

Serch hynny, mae'r model gweinyddol defnyddwyr newydd yn nodi newid mawr yn ein gallu i ddiogelu pobl rhag arferion diegwyddor. Bydd hyn yn sicrhau bod pwerau'r CMA i orfodi cyfraith diogelu defnyddwyr yn cyfateb i'r model presennol ar gyfer gorfodi cystadleuaeth, gan ein galluogi i gymryd camau mwy uniongyrchol a phenderfynol fyth i ddiogelu defnyddwyr yn y DU, gan gynnwys y gallu i roi cosbau o hyd at 10% o drosiant byd-eang cwmnïau. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio i roi'r model newydd hwn ar waith ac yn benderfynol o sicrhau y bydd y gyfundrefn newydd yn sicrhau buddiannau gwirioneddol i ddefnyddwyr yn y DU yn y blynyddoedd i ddod.

Y tu hwnt i'n gweithgarwch gorfodi, mae effaith gwaith y CMA yn aml yn dibynnu ar lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn datblygu polisi ac yn pasio deddfwriaeth mewn ymateb i'n hargymhellion. Mae amseriad Etholiad Cyffredinol 2024 wedi torri ar draws mentrau deddfwriaethol penodol a ymatebodd i gynigion y CMA ac, mewn rhai achosion, wedi arwain at eu gohirio. Er enghraifft, y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol oedd y cyfrwng arfaethedig ar gyfer cyflwyno cynllun tryloywder prisiau ar gyfer prisiau tanwydd ffordd, sef elfen allweddol ein cynigion i ysgogi cystadleuaeth o'r newydd rhwng manwerthwyr tanwydd a ddeilliodd o'n hastudiaeth o'r farchnad tanwydd ffordd. Yn yr un modd, mae ansicrwydd bellach ynghylch a gyflwynir cynllun data clyfar newydd ar gyfer Bancio Agored, a fyddai'n rhoi hwb pellach i'r sector hwn sy'n tyfu, sydd eisoes wedi trawsnewid y ffordd y mae miliynau o bobl a busnesau ledled y DU yn rheoli ein cyllid. Yn y sector nwyddau

groser, bydd argymhellion y CMA i helpu pobl i siopa o amgylch drwy wella gwybodaeth am arferion prisio fesul uned – a dderbyniwyd gan y llywodraeth flaenorol – yn gofyn i weinidogion roi sylw o'r newydd i gynnydd.

Rydym yn awyddus i weithio gyda llywodraeth nesaf y DU ar ei hagenda polisi a deddfwriaethol yn y meysydd hyn. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu ynghylch argymhellion eraill y CMA a allai lywio blaenoriaethau'r llywodraeth newydd neu helpu i'w rhoi ar waith, gan gynnwys yr argymhellion hynny o'n hastudiaeth o'r farchnad adeiladu tai sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblem barhaus cyflenwad annigonol o gartrefi newydd. Gallai gwaith y CMA ar fformiwla babanod a gwasanaethau milfeddygol, sy'n dal i fynd rhagddo, hefyd arwain at argymhellion ynglŷn â rheoleiddio a pholisi lle y gallai gweithredu ar ran y llywodraeth wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran y ffordd y mae'r farchnad yn cyflawni.

Am y tro cyntaf, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yma yn adrodd ar ein fframwaith strategol newydd, fel y'i nodwyd yng Nghynllun Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y fframwaith hwn yn fuddsoddiad pwysig ac amserol i'r CMA wrth i ni ddechrau ar ein hail ddegawd. Mae ein strategaeth tymor canolig i hirdymor yn helpu i sicrhau diben cliriach, ffocws cadarn ar ganlyniadau a defnydd mwy ystwyth a rhagweithiol o'n pecyn adnoddau cynyddol. Mae'r buddiannau eisoes i'w gweld yn glir yn effaith y gwaith rydym wedi'i ddatblygu a'r ffordd symlach rydym wedi'i wneud. Gan ddilyn ein strategaeth, rydym wedi cyflwyno prosesau newydd ar gyfer blaenoriaethu ein prosiectau arfaethedig, gan dargedu adnoddau at feysydd lle y gall y CMA gael yr effaith fwyaf a bod yn fwy ystwyth a rhagweithiol yn ein hymyriadau, a hynny'n fwriadol.

Rydym wedi datblygu rhaglenni uchelgeisiol o newidiadau mewnol sy'n adlewyrchu'r Galluogwyr Craidd yn ein strategaeth (a nodir isod). Mae'r Galluogwyr Craidd hyn wedi bod yn sail i'n gallu i sicrhau gwerth gwell i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn cynnwys addasu ein model busnes, er enghraifft gan wneud defnydd helaethach o arbenigedd a phartneriaid allanol; meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hollbwysig, yn enwedig drwy drawsnewidiad digidol uchelgeisiol; ac uwchradddio ein datganiad gwerth i gyflogeion mewn sawl ffordd, gan gynnwys er mwyn gwneud y CMA yn gyflogwyr mwy amrywiol a chynhwysol fyth. Gyda'i gilydd, mae'r Galluogwyr Craidd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn addas at y dyfodol – yn alluog, yn effeithlon ac yn gynhyrchiol. Maent hefyd yn helpu i sicrhau ein bod yn barod i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr o'r Diwrnod Cyntaf.

Rydym wedi gwrando ar adborth rhanddeiliaid ar gyfrifoldeb y CMA i roi mwy o eglurder a sicrwydd ynglŷn â'n sefydliad a'n gweithgareddau ac wedi croesawu'r adborth hwnnw. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at ddod yn sefydliad mwy tryloyw ac atebol fyth, ac mae'n amlwg

ein bod wedi gwneud mwy o ymdrech i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhai rydym yn eu gwasanaethu a'r rhai rydym yn atebol iddynt. Rhoddodd y CMA dystiolaeth mewn 12 o ymddangosiadau ffurfiol gerbron Pwyllgor Seneddol ledled y DU eleni, sydd bedair gwaith yn fwy na'r nifer a gofnodwyd yn 2019. Hefyd, gwnaethom gynnal pedwar cyfarfod o'r bwrdd y tu allan i Lundain y llynedd a chefais y pleser o siarad mewn digwyddiadau a drefnwyd ym mhob un o bedair gwlad y DU.

Rydym hefyd wedi cynnal cydberthnasau cryf ac adeiladol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn y DU a thramor - o grwpiau defnyddwyr a chyrff diwydiant i'r byd academaidd a'r trydydd sector, yn ogystal â rheoleiddwyr yn y DU ac asiantaethau cystadleuaeth tramor. Gwnaethom gyfrannu at fwy na 200 o gynadleddau, gweminarau, podlediadau a digwyddiadau eraill, sef cynnydd o bron i 20% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi mabwysiadu dull mwy rhagweithiol a chynhwysfawr o esbonio ein gwaith drwy'r cyfryngau a'n sianeli cyfathrebu ein hunain, gan helpu defnyddwyr i ddeall eu hawliau ac anfon neges glir i fusnesau bod y DU yn cynnig chwarae teg i bawb gan sicrhau y bydd arloesedd a buddsoddiad yn talu ar eu canfed. Mae mwy o gynnydd i'w wneud bob amser, ond rwy'n hyderus bod yr angen i wrando, dysgu, cyfathrebu a hysbysu'n rhagweithiol yn cael ei ddeall a'i ymgorffori fwyfwy yn holl waith y CMA, yn ogystal â'i ddiwylliant.

Ddeng mlynedd ar ôl i'r CMA gael ei greu, mae llawer i'w wneud o hyd ac rwy'n llawn egni a gobaith ar gyfer y dyfodol. Gwn fod tîm arwain y CMA, ein Cadeirydd a'n Bwrdd a'r sefydliad ehangach o'r un farn â mi. Mae'n ein strategaeth yn darparu sail gadarn ar gyfer y dyfodol – dyfodol lle rydym mewn sefyllfa well ac yn fwy penderfynol nag erioed i sefyll i fyny dros fuddiannau'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn wyneb amgylchedd allanol heriol. Rwy'n hyderus y gall y CMA barhau i gyflawni canlyniadau cryf i bobl a busnesau a gwneud cyfraniad gwerthfawr at yr amodau ar gyfer twf a chynhyrchiant yn economi'r DU.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu gwaith helaeth y CMA yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan nodi sut rydym wedi mynd ati i gyflawni ein strategaeth ac adlewyrchu'r tri chanlyniad a nodir yn eiin Huchelgeisiau, sef:

(a) Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg.
(b) Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu.
(c) Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy.

## Uchelgais: Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg

*Nododd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 bedwar Maes Ffocws a lywiodd ein gwaith drwy gydol y flwyddyn o dan yr Uchelgais hon, sef:*

a) *Gweithredu ym meysydd gwariant hanfodol a lle mae pobl dan bwysau ariannol penodol, fel llety, nwyddau groser a gofalu amdanom ein hunain ac am eraill.*

b) *Mynd i'r afael â phwysau gwerthu ac arferion prisio ffug neu gamarweiniol, gan gynnwys trwy saernïaeth dewis ar-lein.*

c) *Atal ymddygiad gwrthgystadleuol, gan gynnwys cartelau ym maes caffael cyhoeddus a meysydd eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar wariant cyhoeddus a gwariant aelwydydd.*

d) *Nodi materion posibl ynghylch cystadleuaeth o fewn* marchnadoedd llafur y DU.

*Darperir gwybodaeth am gyflawni yn erbyn pob un o'r Meysydd Ffocws hyn isod, ynghyd â thair astudiaeth achos sy'n nodi'n fanwl sut y gwnaethom gymryd camau yn y maes hwn. Mae proffil o'n cyfrifoldebau estynedig am ddiogelu defnyddwyr yn dilyn ar ddiwedd yr adran hon sy'n ymdrin â'n Huchelgais ar gyfer Pobl.*

Mewn economi fywiog, iach, mae cystadleuaeth yn sicrhau dewis dilys ac mae gan fusnesau gymhellion cryf i roi bargen deg i bobl. O ganlyniad, mae defnyddwyr yn teimlo'n hyderus a'u bod wedi'u grymuso pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, nododd ystadegau diweddar a gyhoeddwyd gan Which? pan oedd yr argyfwng costau byw ar ei anterth y lefelau isaf erioed o foddhad ac ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr. Yn benodol, gostyngodd lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn sectorau allweddol wrth i brisiau godi ym mhob rhan o'r economi, [3] gydag ymddiriedaeth yn y sector nwyddau groser yn gostwng i'r lefel isaf erioedd ym mis Awst 2023.[4]

Mae'r cefndir hwn, sy'n peri pryder, yn cyfiawnhau'r camau penderfynol rydym wedi'u cymryd er mwyn sicrhau na chaiff effeithiau'r argyfwng costau byw eu gwaethygu gan gystadleuaeth wan neu aneffeithiol na mesurau diogelu defnyddwyr gwael. Rydym yn canolbwyntio ar y meysydd sydd o'r pwys mwyaf i bobl – fel cael rhywle i fyw, bwydo ein teuluoedd, gofalu amdanom ein hunain ac eraill, a phrynu'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom ar-lein. Oherwydd amodau economaidd heriol, bu'n rhaid i ni weithredu'n ddi-oed i ddiogelu pobl yn effeithiol ac nid ydym wedi petruso cyn defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd hyblyg, ystwyth ac amserol pan fu'n rhaid inni wneud hynny.

### Astudiaethau achos – Pobl: Costau byw

Yn wyneb yr argyfwng costau byw parhaus, mae gan y CMA rôl glir a hollbwysig i ddiogelu pobl rhag ymddygiad gwrthgystadleuol ac arferion annheg Rydym wedi

---

[3] Which? (2024), Consumer trust and satisfaction in February 2024
[4] Which? (2023), Consumers and the cost of food

gweithredu'n gyflym ac yn benderfynol, gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd gennym, er mwyn sicrhau na chaiff prisiau uwch eu cynyddu ymhellach gan gystadleuaeth wan ac y caiff hawliau defnyddwyr eu diogelu'n briodol. Rydym yn dangos enghreifftiau o hyn yn ein tair astudiaeth achos gyntaf isod, ac yn fanylach yn nes ymlaen, gan ddangos sut yr aethom ati i ddiogelu pobl mewn sawl maes gwariant hanfodol eleni.

### Astudiaeth achos – Pobl: Tanwydd ffordd

Mae'r farchnad tanwydd ffordd yn hollbwysig i fywydau a bywoliaethau pobl ledled y DU, gyda phrisiau uchel yn effeithio ar filiynau o yrwyr eleni.

Gan adeiladu ar yr adolygiad cyflym o'r farchnad tanwydd ffordd a gynhaliwyd gan y CMA yn 2022, gwnaethom gynnal adolygiad ffurfiol o'r farchnad ym mis Gorffennaf 2023. Cadarnhaodd fod diffyg cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad, yn ogystal â'r ffaith bod yr elw cynyddol roedd archfarchnadoedd yn ei wneud o werthu tanwydd yn golygu bod gyrwyr yn talu chwe cheiniog ychwanegol y litr, ar gyfartaledd.

Yn ein hadroddiad ar yr astudiaeth o'r farchnad, gwnaethom ddau argymhelliad i ysgogi cystadleuaeth o'r newydd ymhlith manwerthwyr tanwydd. 1) Cyflwyno cynllun rhannu data prisiau amser real, sef y cynllun canfod tanwydd, a 2) Corff monitro statudol newydd er mwyn dwyn y diwydiant i gyfrif. Byddai'r cynllun canfod tanwydd yn galluogi gyrwyr i gymharu prisiau tanwydd ffordd agos at amser real rhwng gorsafoedd, gan eu helpu i ddod o hyd i'r tanwydd rhataf a sicrhau bod manwerthwyr yn gorfod cystadlu'n galetach am eu busnes. Gallai hyn ostwng prisiau yn yr hirdymor. Byddai'r corff monitro yn olrhain prisiau ac elw yn barhaus ac yn argymell camau gweithredu pellach petai cystadleuaeth yn parhau i wanhau yn y farchnad. Byddai hefyd yn gallu deall effaith lleihad yn y galw am betrol a diesel wrth i'r DU newid i economi Sero Net ac effaith hyn ar ddefnyddwyr sy'n agored i niwed sy'n parhau i fod yn ddibynnol ar betrol a diesel am fwy o amser, yn ogystal â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd â dewis cyfyngedig o orsafoedd tanwydd.

Roeddem yn falch bod Llywodraeth y DU wedi derbyn ein hargymhellion yn llawn, a hynny'n ddi-oed. Bydd y CMA yn cael pwerau newydd yn y dyfodol, ar ôl i ddeddfwriaeth ddod i rym ym Mai 2024, i weithredu fel y corff monitro a bydd yn paratoi'n ofalus ar gyfer y cyfrifoldebau newydd pwysig hyn. Ni chafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, a fyddai wedi galluogi Llywodraeth y DU i gyflwyno cynllun data agored ar gyfer prisiau tanwydd, ei ddeddfu gan y Senedd cyn iddi gael ei diddymu. Mae hyn yn golygu, fel y mae pethau ar hyn o bryd, y bydd modurwyr ar eu colled am na fydd ganddynt wybodaeth gyhoeddus, gynhwysfawr am brisiau tanwydd. Rydym hefyd wedi nodi'n glir fod argymhellion y CMA yn atgyfnerthu ei gilydd o ran eu prif nod o gynyddu'r cymhellion i fanwerthwyr brisio tanwydd yn fwy

cystadleuol.[5] Felly, rydym yn argymell yn gryf y dylai llywodraeth nesaf y DU gyflwyno deddfwriaeth, cyn gynted â phosibl, er mwyn helpu i sicrhau bod prisiau tanwydd yn gwbl dryloyw i ddefnyddwyr.

Cyn i ni gael pwerau ffurfiol, rydym wedi cymryd camau i ysgogi pwysau cystadleuol yn y farchnad a galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth heddiw.  Ar gais llywodraeth y DU, ar ôl i'n hastudiaeth o'r farchnad ddod i ben, rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i sefydlu cynllun gwirfoddol yn gyflym er mwyn i'r prif fanwerthwyr tanwydd allu darparu eu prisiau dyddiol. Mae 14 o fanwerthwyr bellach yn rhan o'r cynllun, sy'n cyfrif am tua 40% o flaen-gyrtiau'r DU a tua 50% o'r tanwydd a werthir. Er bod y cynllun hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'w throsglwyddo i yrwyr, byddai cynllun statudol yn mynd llawer ymhellach drwy ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr mewn amser real, a allai gael ei defnyddio gan weithredwyr sy'n delio â defnyddwyr, megis darparwyr gwefannau ac apiau.

Rydym hefyd wedi parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad tanwydd ffordd, a arweiniodd at gyhoeddi adroddiadau diweddaru ym mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024. Er ein bod wedi llwyddo i fonitro'r farchnad ar lefel uchel, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd yn wirfoddol gan fanwerthwyr, bydd ein gallu i ddefnyddio pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth lawer dyfnach o ddatblygiadau yn y farchnad. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a fyddai'n dod o gynllun data agored statudol at ddibenion monitro'r farchnad nes i ddarpariaeth gael ei gwneud ar gyfer cynllun yn y dyfodol.

Mae gwaith y CMA ar danwydd ffordd, gan gynnwys ein rôl fonitro yn y dyfodol, yn ategu'r camau gweithredu a'r canlyniadau a ddeilliodd o'n hastudiaeth flaenorol o'r farchnad gwefru cerbydau trydan. Yn sgil argymhellion dilynol a wnaed gan y CMA, cyflwynwyd rheoliadau newydd gan lywodraeth y DU yn 2023 a fydd yn gwneud prisiau yn fwy tryloyw i yrwyr cerbydau trydan. Bydd sicrhau bod gyrwyr ceir confensiynol a cherbydau trydan yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau effeithiol yn rhoi cymhelliant pwysig i fanwerthwyr tanwydd pennu prisiau mewn modd cystadleuol. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod cystadleuaeth gryfach yn cyflawni canlyniadau gwell i bob modurwr yn y DU.

---

[5] Gweler ymateb y CMA i ymgynghoriad yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net ar Rymuso gyrwyr a chynyddu cystadleuaeth yn y farchnad fanwerthu tanwydd ffordd: cynllun data agored a swyddogaeth monitro parhaus ar gyfer prisiau tanwydd ffordd.

### Astudiaeth achos – Pobl: Nwyddau groser

Yn anad dim, y gallu i gael a fforddio bwyd yw'r rheswm pam mae cystadleuaeth yn bwysig i fywydau pobl bob dydd, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Dyna pam mae'r CMA wedi bod yn gweithio'n galed ers degawd i sicrhau bod cystadleuaeth rhwng archfarchnadoedd yn parhau'n gryf ym mhob tref a chymuned yn y DU. Rydym wedi gwneud hyn drwy ddefnyddio ein pwerau gorfodi i fynd i'r afael ag achosion o dorri Gorchymyn cyfreithiol sy'n atal archfarchnadoedd rhag gosod cyfyngiadau newydd ar allu cystadleuwyr i agor siopau newydd gerllaw. Eleni, mae'r CMA wedi nodi bron i 100 o gytundebau tir anghyfreithlon a gwrthgystadleuol gan Morrisons, Sainsbury's, Asda a Marks & Spencer, ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu ar hanes da o ymdrechu dygn i fynd i'r afael ag achosion o dor-cyfraith gan Tesco a Waitrose yn ystod y blynyddoedd diwethaf – gyda mwy o weithredu i ddod – ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddwn yn gallu sicrhau cystadleuaeth effeithiol a mwy o ddewis i ddefnyddwyr ledled y DU.

Mae'r gwaith hwn yn bwysicach fyth ar adeg pan fo chwyddiant prisiau bwyd wedi gosod pwysau enfawr ar gyllidebau aelwydydd, gyda llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau nwyddau groser wythnosol. Mae'n hanfodol nad yw materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth yn ychwanegu at y baich hwn ac, felly, cymerodd y CMA gamau sylweddol yn y sector nwyddau groser eleni, gan wneud defnydd ystwyth a hyblyg o'n pecyn cymorth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i siopwyr. Roedd hyn yn cynnwys ein hadolygiad o arferion prisio fesul uned, sef system labelu y bwriedir iddi helpu defnyddwyr i gymharu costau cymharol cynhyrchion gwahanol, waeth beth fo eu maint wedi'i becynnu. Arweiniodd adolygiad y CMA at argymhellion i lywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon er mwyn gwella tryloywder i siopwyr drwy ddiwygio Gorchymyn Marcio Prisiau 2004 a deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon. Yn ein barn ni, gallai'r argymhellion hyn helpu siopwyr i gael gwybodaeth fwy ystyrlon, gan hwyluso dewisiadau seiliedig ar wybodaeth a rhoi arian yn ôl ym mhocedi siopwyr. Edrychwn ymlaen at weithio gyda llywodraeth nesaf y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar roi'r argymhellion hyn ar waith.

Mae camau gweithredu'r CMA yn y maes hwn yn ategu ein harchwiliad helaeth o gystadleuaeth yn y sector manwerthu nwyddau groser, lle y gwnaethom asesu a oedd cystadleuaeth wan yn cadw prisiau yn uwch nag y gallent fod fel arall. Sbardunodd yr asesiad hwnnw waith mwy penodol, gyda'r CMA, fel sy'n briodol, yn lansio astudiaeth o'r farchnad fformiwla plant ym mis Chwefror 2024 ar ôl nodi cynnydd mewn prisiau o 25% dros y ddwy flynedd diwethaf. Cynnyrch sy'n hanfodol i iechyd miliynau o fabanod ledled y DU yw fformiwla plant. Rydym yn disgwyl i'n hastudiaeth o'r farchnad daflu goleuni ar b'un a all pobl wneud dewisiadau hyddysg ac a oes gan gyflenwyr y cymhellion cywir i gynnig cynhyrchion am brisiau cystadleuol, yn ogystal â rôl y fframwaith rheoleiddio o ran dylanwadu ar ganlyniadau

yn y farchnad. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain at argymhellion i'r llywodraeth yn ddiweddarach yn 2024.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen ag adolygiad o gynlluniau teyrngarwch archfarchnadoedd er mwyn ystyried a yw unrhyw agweddau ar y cynlluniau hyn yn gamarweiniol a'r effeithiau ehangach y mae prisiau hyrwyddol sydd ond ar gael i bobl sy'n cofrestru ar gyfer cardiau teyrngarwch yn eu cael ar ddefnyddwyr a chystadleuaeth.

### Astudiaeth achos – Pobl: Tai a llety

Mae'r ffordd y mae'r farchnad dai yn gweithredu yn cael effaith sylweddol ar gyllid ac amodau byw bron pob person yn y DU. Mae'r effaith hon yn fwy sylweddol fyth ar adeg pan fo pris hanfodion eraill, megis bwyd a thanwydd ffordd, hefyd wedi cynyddu. Nododd y CMA fod llety yn faes gwariant hanfodol allweddol i ni weithredu arno eleni a defnyddiodd amrywiaeth eang o adnoddau i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar berchnogion cartrefi 'r rhai sy'n ceisio prynu cartref.

Ein prif bryder yw problem barhaus cyflenwad annigonol o dai newydd ledled y DU – gyda llai na 250,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu rhwng 2021 a 2022 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, sydd ymhell islaw'r targed o 300,000 ar gyfer Lloegr yn unig. Cynhaliaodd y CMA astudiaeth o'r farchnad, a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2024, er mwyn ystyried yr amrywiaeth o faterion cymhleth a chydgysylltiedig yn y farchnad a allai fod yn atal catrefi newydd rhag cael eu hadeiladu ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen. Wrth i'r astudiaeth fynd yn ei blaen, gwnaethom ymgynghori'n eang drwy gyhoeddi papurau gwaith ar drefniadau cynllunio, bancio tir a rheoli ystad, a oedd wedi ein galluogi i glywed yn uniongyrchol gan gyfranogwyr yn y farchnad a pherchnogion cartrefi y mae materion yn y sector yn effeithio arnynt.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddadansoddwyd gennym, daethom i'r casgliad fod angen ymyrryd ar raddfa fawr yn y farchnad adeiladu tai ym Mhrydain Fawr er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o gartrefi o ansawdd da yn y mannau lle mae eu hangen ar bobl. Mae system gynllunio gymhleth ac anrhagweladwy, ynghyd â dibyniaeth ar ddatblygiadau preifat hapfasnachol, wedi arwain at gyflenwad annigonol o dai a bwlch sy'n ehangu rhwng yr hyn y bydd y farchnad yn ei ddarparu a'r hyn sydd ei angen ar gymunedau. At hynny, mae'r duedd gynyddol i adeiladwyr tai ddatblygu ystadau ag amwynderau cyhoeddus a reolir yn breifat yn golygu bod rhai perchenogion cartrefi yn wynebu costau mawr, anrhagweladwy, yn ogystal â threfniadau cynnal a chadw anfoddhaol. Mae hyn yn rhan o ddarlun lle y gall diffyg cymhellion i gystadlu a llwybrau cymhleth i brynwyr geisio iawn, gael effaith negyddol ar ansawdd tai newydd.

Gwnaeth y CMA sawl argymhelliad i lywodraethau ledled y DU mewn meysydd lle rydym yn gweld cyfleoedd i fynd i'r afael â'r materion hyn heb orfod cyfaddawdu ryw lawer ag amcanion polisi eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fabwysiadu amwynderau ar bob ystad dai newydd.
- Cyflwyno mesurau diogelu defnyddwyr cryfach ar gyfer perchnogion cartrefi ar ystadau presennol a reolir yn breifat.
- Sefydlu Ombwdsmon Cartrefi Newydd a phennu un cod defnyddwyr gorfodol er mwyn sicrhau bod perchnogion cartrefi mewn gwell sefyllfa i fynd ar ôl adeiladwyr tai gydag unrhyw broblemau o ran ansawdd y maent yn eu hwynebu.

Gwnaethom hefyd nodi opsiynau i'w hystyried gan lywodraethau mewn perthynas â diwygio'r system gynllunio, gan adlewyrchu'r cyfaddawdu ehangach â pholisi a'r cymhlethdodau sy'n rhan annatod o'r system gynllunio bresennol. Nid yw'r opsiynau a gyflwynwyd gennym yn rhagnodol ond maent yn annog llywodraethau i feddwl yn ofalus ac yn greadigol am atebion polisi a allai gyflawni'r canlyniadau gorau yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi cynlluniau lleol ar waith a'u bod yn cael eu harwain gan dargedau clir a chyson sy'n adlewyrchu'r angen am gartrefi newydd yn eu hardal.
- Symleiddio'r systemau cynllunio er mwyn cynyddu gallu adeiladwyr tai i ddechrau gweithio ar brosiectau newydd ynghynt yn sylweddol.
- Cyflwyno mesurau i gynyddu nifer y safleoedd tai sy'n cael eu datblygu drwy roi cymhellion i adeiladwyr amrywio deiliadaethau'r cartrefi a'r math o gartrefi a ddarperir.

Bydd y CMA yn mynd ati i weithredu ar yr argymhellion a'r opsiynau hyn yr ydym yn credu y gallent sicrhau newid sydd ei fawr angen yn y farchnad hollbwysig hon i'r rhai sy'n berchen ar eu cartref eu hunain neu sy'n ceisio prynu cartref. Rydym yn awyddus i weithio gyda llywodraeth nesaf y DU, yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn cyfrannu'n llawn at sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel.

Daeth ein hastudiaeth o'r farchnad o hyd i dystiolaeth y gallai rhai cwmnïau adeiladu tai fod yn rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif â'u cystadleuwyr mewn ffordd a allai fod yn dylanwadu ar y trefniadau ar gyfer adeiladu ar safleoedd a phrisiau cartrefi newydd. Ar y sail hon, lansiodd y CMA ymchwiliad i wyth adeiladwr tai ym Mhrydain Fawr ym mis Chwefror 2024.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym hefyd wedi ystyried problemau a wynebir gan rentwyr preifat. Ym mis Awst 2023, yn dilyn cyfnod o dri mis o ymgysylltu â

rhanddeiliaid, gwnaethom gyhoeddi diweddariad i'n prosiect diogelu defnyddwyr ar broblemau a wynebir gan denantiaid rhentu preifat. Tynnodd ein hadroddiad sylw at sawl mater rydym wedi'u hystyried yn ofalus, megis y 'ffioedd digwydiad', fel y'u gelwir, a godir ar breswylr pan fyddant yn gadael neu'n gwerthu cartrefi ymddeol.

Rydym hefyd wedi parhau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chamwerthu cartrefi lesddaliadol o bosibl a thelerau contractau (yr oedd cost rhenti tir wedi dyblu yn achos rhai ohonynt) a allai fod dorri cyfraith defnyddwyr ac achosi cryn niwed i berchnogion cartrefi. Ym mis Mawrth 2024, addawodd wyth cwmni i ddileu cymalau problemus o'u contractau lesddaliad yn dilyn camau gweithredu gan y CMA, gan ryddhau 500 o aelwydydd o gymalau o'r fath a dod â chyfanswm yr aelwydydd a ryddhawyd dros y pum mlynedd diwethaf i 21,000. Rydym wedi nodi'n glir ers sawl blwyddyn bellach mai dim ond yn rhannol y gall camau gweithredu gan y CMA ddatrys y problemau a wynebir gan lesddeiliaid a'n bod yn gryf o blaid cyflwyno deddfwriaeth i wella canlyniadau i ddefnyddwyr. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu'r Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a gafodd ei deddfu gan y Senedd ym mis Mai 2024, a waharddodd werthu cartrefi lesddaliadol newydd yng Nghymru a Lloegr o dan lawer o amgylchiadau. Fodd bynnag, nid oedd cynigion i gapio rhenti tir i lesddeiliaid presennol yn cael eu hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth derfynol. Mae'r CMA yn annog llywodraeth nesaf y DU i ystyried diwygio rhenti tir ymhellach, am ein bod o'r farn y gallai fod angen ymyrraeth statudol er mwyn diogelu defnyddwyr rhag problemau parhaus sy'n gysylltiedig â rhenti tir drud.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r holl bwerau sydd gennym i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r rhai sydd â buddiant yn y farchnad dai.

### Maes Ffocws – Pobl: Gweithredu ym meysydd gwariant hanfodol a lle mae pobl dan bwysau ariannol penodol, fel llety a gofalu amdanom ein hunain ac am eraill

Ochr yn ochr â nwyddau groser, tai a llety a thanwydd ffordd, mae'r CMA wedi cymryd camau cadarn mewn sawl maes gwariant hanfodol arall ar gyfer pobl ledled y DU.

O ran gofalu amdanom ein hunain ac eraill, rydym wedi gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael bargen deg o ran cynhyrchion a gwasanaethau gofal iechyd. Gwnaethom sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleifion a threthdalwyr drwy atal rhan o gynllun uno ym mis Mehefin 2023 rhwng dau o'r cwmnïau pwysicaf yn y sector mewnblannu dyfeisiau clywed, Cochlear Limited ac Oticon Medical. Petai'r cynllun uno llawn wedi mynd yn ei flaen, gallai fod wedi lleihau arloesedd ac ansawdd i gleifion sy'n dibynnu ar y mewnblaniadau clywed hyn sy'n newid bywyd, yn ogystal â chostio mwy i'r GIG drwy brisiau uwch.

Dylai gweithgarwch gorfodi cystadleuaeth weithio gyda'r llif o ddatblygiadau arloesol mewn meysydd hanfodol, nid yn ei erbyn. Felly, rydym wedi'i gwneud hi'n haws i gwmnïau cyffuriau gydweithio i ddatblygu triniaethau hanfodol i'w defnyddio yn y GIG, gan sbarduno datblygiadau mewn meddyginiaethau sy'n achub bywyd er budd cleifion y GIG. Ar ôl cyhoeddi datganiad ym mis Tachwedd 2023 yn egluro na chaiff mathau penodol o ymgysylltiadau rhwng cwmnïau cyffuriau sy'n cystadlu â'i gilydd eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad gan y CMA, rydym bellach yn ei gwneud yn bosibl i 'therapïau cyfunol' sy'n cynnwys dau gyffur unigol neu fwy mewn un driniaeth gael eu datblygu. Mae triniaethau o'r fath yn debygol o gael eu defnyddio fwyfwy yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer gofal canser.

Ar y llaw arall, mae'r CMA yn parhau i gymryd camau penderfynol pan fydd cwmnïau yn ymddwyn yn ddiegwyddor neu'n anghyfreithlon wrth gyflenwi meddyginiaethau. Mae ein hanes da o fynd i'r afael â phroblem cwmnïau fferyllol yn pennu prisiau rhy uchel wedi arbed degau o filiynau o bunnau i'r GIG mewn prisiau gormodol am gyffuriau hanfodol, sef canlyniad a atgyfnerthwyd eleni pan gadarnhaodd y Tribiwnlys Apelau Cystadlu benderfyniadau'r CMA a oedd yn ymwneud â dirwyon gwerth £84m a osodwyd ar gwmnïau a oedd ynghlwm wrth gyflenwi liothyronin, sef meddyginiaeth hanfodol i drin diffyg hormonau thyroid. Cadarnhaodd dyfarniad arall gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu gosbau a osodwyd gan y CMA ar gwmnïau sydd ynghlwm wrth gyflenwi tabledi hydrocortison am dorri cyfraith cystadleuaeth drwy bennu prisiau gormodol ac annheg.

Y tu hwnt i'r sector gofal iechyd, mae'r camau rydym wedi'u cymryd yn y sector milfeddygol wedi cyffwrdd â chalonnau degau o filoedd o bobl ledled y DU sy'n gofalu am anifeiliaid anwes. Unwaith eto, rydym wedi mabwysiadu dull cyfannol o ddefnyddio ein hadnoddau yn y maes hwn. I ddechrau, lansiodd y CMA adolygiad anffurfiol o'r sector a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024. Cafwyd bron i 45,000 o ymatebion i'r adolygiad gan berchnogion anifeiliaid anwes (y lefel uchaf o ymgysylltiad defnyddwyr ag un o brosiectau'r CMA hyd yma), ac oddeutu 11,000 o ymatebion gan bobl sy'n gweithio yn y sector milfeddygol. Gwnaethom weithredu'n gyflym i ddechrau defnyddio pwerau ffurfiol drwy ymgynghori ar Atgyfeiriad ar gyfer Ymchwiliad i'r Farchnad ym mis Mawrth 2024, a gafodd gefnogaeth gref. Wedyn, gwnaethom lansio ymchwiliad ffurfiol i'r farchnad, sef y ffordd orau o ystyried yn llawn y materion y rhannodd perchnogion anifeiliaid anwes â ni, gan gynnwys profiadau o dalu gormod am feddyginiaethau o bosibl a'r ffaith nad oeddent bob amser yn cael gwybodaeth ddigonol am yr opsiynau gorau a oedd ar gael o ran triniaeth.

Mae'r gwaith hwn ar farchnadoedd sy'n cwmpasu'r sector cyfan yn adeiladu ar hanes y CMA o hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol rhwng darparwyr gwasanaethau milfeddygol mewn ardaloedd lleol ledled y DU. Arweiniodd ein hymchwiliad i gynlluniau uno a oedd yn ymwneud â 17 o achosion o gaffael busnesau milfeddygol annibynnol gan MediVet, er enghraifft, at ymrwymiadau (a dderbyniwyd gan y CMA

ym mis Medi 2023) a fydd yn sicrhau buddiannau o ran dewis i ddefnyddwyr, prisiau ac ansawdd gwasanaeth yn lleol.

Mae'r CMA yn pryderu o hyd ynghylch effaith bosibl cyfuno busnesau yn y sector a'r cymhellion i grwpiau milfeddygol mawr, integredig weithredu mewn ffyrdd sy'n rhoi llai o ddewis i ddefnyddwyr. Felly, ar yr un pryd ag y lansiwyd ein hymchwiliad i'r farchnad, gwnaethom gyhoeddi awgrymiadau i ddefnyddwyr er mwyn eu helpu i ddewis practis milfeddygol a thriniaethau ar gyfer eu hanifeiliaid anwes. Mae'r CMA yn benderfynol o sicrhau bod ein portffolio o waith parhaus yn y maes hwn yn helpu i sicrhau y bydd y farchnad filfeddygol hollbwysig yn gwasanaethu perchnogion anifeiliaid anwes ledled y DU yn well.

Yn olaf, mae gwasanaethau dyfeisiau symudol yn chwarae rôl hanfodol ym mywydau defnyddwyr yn y DU bob dydd, gyda miliynau o bobl yn dibynnu arnynt am gystadleuaeth effeithiol yn y farchnad dyfeisiau symudol er mwyn iddynt allu cael y bargeinion gorau iddyn nhw. Ym mis Mawrth 2024, cwblhaodd y CMA ein hasesiad cychwynnol o gynllun uno a oedd yn ymwneud â'r cytundeb cydfenter arfaethedig rhwng Vodafone UK a Three UK, a fyddai'n dod â'r 27 miliwn o gwsmeriaid presennol y ddau gwmni o dan un darparwr rhwydwaith. Yn ogystal â nodi pryderon y gallai'r cytundeb arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr, nododd y CMA hefyd y gallai colli pwysau cystadleuol yn y farchnad leihau cymhelliant pwysig i weithredwyr rhwydweithiau wella eu gwasanaethau, gan gynnwys drwy fuddsoddi yn ansawdd rhwydweithiau. Felly, gwnaethom ddechrau ar ymchwiliad Cam 2 manwl i gynllun uno, gan benodi aelodau Panel annibynnol i grŵp ymchwilio, er mwyn ystyried y materion hyn ymhellach.

### Maes Ffocws – Pobl: Mynd i'r afael â phwysau gwerthu ac arferion prisio ffug neu gamarweiniol, gan gynnwys trwy saernïaeth dewis ar-lein

Yn 2023, nododd Cyngor ar Bopeth fod defnyddwyr wedi gwario cyfanswm o bron i £2.1bn ar bethau nad oedd eu heisiau arnynt, nad oedd eu hangen arnynt neu yr oeddent yn difaru eu prynu yn ddiweddarach dros gyfnod o 12 mis oherwydd saernïaeth dewis ar-lein.[6] Mae saernïaeth dewis ar-lein yn cyfeirio at y ffordd y mae amgylcheddau ar-lein wedi'u dylunio i effeithio ar ein penderfyniadau a'n gweithredoedd. Gall y nodweddion dylunio hyn (gan gynnwys prisiau diferol, rhagosodiadau ymwthiol a dulliau optio allan camarweiniol) fod yn gynnil a gallant ein llywio tuag at benderfyniadau nad ydynt, o bosibl, er ein lles pennaf.

Dyna pam mae'r CMA wedi ymgymryd â rhaglen ymwybyddiaeth barhaus er mwyn diogelu defnyddwyr rhag adolygiadau ffug, gwerthu dan bwysau a saernïaeth dewis ar-lein gamarweiniol ym mhob rhan o'r sector manwerthu ar-lein. Bwriadwyd i'n

[6] Cyngor ar Bopeth (2023), Pushed to Purchase: Counting the cost of deceptive digital design in e-commerce

hymgyrch 'Online Rip-Off Tip-Off' roi gwybod i bobl am arferion gwerthu ar-lein a allai fod yn gamarweiniol a'u hannog i ddweud wrthym am arferion o'r fath. Mewn dim ond deufis yn 2023, defnyddiodd 1,000 o ddefnyddwyr ein ffurflen ar-lein i roi gwybod am dacteg gwerthu ar-lein gamarweiniol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau hawdd eu deall i fusnesau ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol a'r hyn nad yw'n ymddygiad derbyniol. Ym mis Awst 2023, aethom ymhellach drwy gydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gyhoeddi papur sefyllfa ar waith dylunio niweidiol mewn marchnadoedd digidol, gan gynnwys set o ddisgwyliadau ar y cyd ar gyfer cwmnïau er mwyn cefnogi arferion da.

Gan gydnabod maint y niwed i ddefnyddwyr yn y maes hwn, a'i effeithiau ar siopwyr ar-lein, lansiodd y CMA gamau gorfodi wedi'u targedu hefyd eleni. Gwnaethom gymryd camau i fynd i'r afael â phryderon a oedd yn ymwneud ag arferion gwerthu ar-lein a allai fod yn gamarweiniol ar ran Emma Sleep a Wowcher, gan ddatblygu ymchwiliadau drwy gydol y flwyddyn a lansio ymchwiliad pellach i Simba Sleep ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r busnesau hyn, i wahanol raddau, wedi defnyddio tactegau megis amseryddion sy'n cyfrif i lawr, yn ogystal â honni bod galw mawr am gynhyrchion neu fod cynhyrchion yn cael eu cynnig am brisiau gostyngol, mewn ffyrdd sy'n peri pryder i ni y gallent gamarwain defnyddwyr neu ddylanwadu arnynt. Rydym yn parhau i ymgysylltu â busnesau er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon drwy ddefnyddio ein pwerau gorfodi defnyddwyr presennol.

### Maes Ffocws – Pobl: Atal ymddygiad gwrthgystadleuol, gan gynnwys cartelau ym maes caffael cyhoeddus a meysydd eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar wariant y cyhoedd a'r cartref

Mae'r CMA yn gweithio'n helaeth er mwyn atal ymddygiad gwrthgystadleuol er mwyn diogelu pobl a phwrs y wlad rhag prisiau wedi'u cynyddu'n artiffisial neu lai o ddewis. Byddwn bob amser yn cymryd camau cadarn yn erbyn y lleafrif bach o gwmnïau y mae eu gweithredoedd yn tanseilio gweithrediad priodol cystadleuaeth deg, agored ac effeithiol. Eleni, mae hynny wedi cynnwys ein hymchwiliad i achosion a amheuir o ymddygiad gwrthgystadleuol gan JD Sports Fashion Plc a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerlŷr. Ym mis Gorffennaf 2023, nodwyd gennym fod y ddau gwmni wedi torri'r gyfraith drwy gydgynllwynio i gyfyngu ar gystadleuaeth wrth werthu dillad wedi'u brandio â Dinas Caerlŷr. Gwnaethom osod dirwyon gwerth £880,000 ar Glwb Pêl-droed Dinas Caerlŷr a'i riant-gwmnïau, gan ddiogelu buddiannau cefnogwyr brwdfrydig sydd â'r hawl i ddewis gwirioneddol a phrisiau teg am y dillad pêl-droed y maent yn eu gwisgo â balchder.

Gwnaethom hefyd adeiladu ar ein hanes da o waith rydym wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â chartelau anghyfreithlon yn y sector adeiladu. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r CMA wedi parhau i fynd i'r afael ag achosion o rigio ceisiadau ar gyfer contractau i wneud gwaith dymchwel gwerth mwy na £150m. Roedd ein hymchwiliad yn ymwneud ag adeiladau cyhoeddus pwysig, megis llys a

chyfleusterau a ddefnyddir gan yr Heddlu Metropolitanaidd, yn ogystal â datblygiadau preifat gan gynnwys canolfannau siopa mawr a swyddfeydd. Ar ôl gosod dirwyon gwerth bron i £60m ar 10 cwmni y llynedd, gwnaethom sicrhau gorchymyn anghymhwyso cyfarwyddwyr arall am saith mlynedd ym mis Mai 2023, gan ddod â chyfanswm y gorchmynion anghymhwyso cyfarwyddwyr o'r achosion hyn i bedwar. Mae gorchmynion anghymhwyso cyfarwyddwyr yn ddull pwysig o ddiogelu'r cyhoedd a byddant yn fesur atal pwerus, gan wneud yn siŵr bod y rhai ar ben y gadwyn yn cael eu dwyn i gyfrif os bydd eu cwmnïau yn torri cyfraith cystadleuaeth.

Yn fwy cyffredinol, ar adeg pan fo'n hanfodol gwneud popeth posibl i leihau'r pwysau ar gyllid cyhoeddus, rydym yn parhau i ddatblygu gweithgarwch ymgysylltu ag amrywiaeth o gyrff a busnesau yn y sector cyhoeddus er mwyn codi ymwybyddiaeth o gartelau ym maes caffael cyhoeddus a cheisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Cymerodd staff y CMA ran mewn mwy na 40 o anerchiadau wedi'u targedu eleni a oedd yn canolbwyntio ar addysg a chodi ymwybyddiaeth o sut i atal arferion gwael, adnabod rhybuddion a rhoi gwybod am weithgarwch amheus. Mae ein gwaith parhaus yn y maes hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd atal ymddygiad anghyfreithlon a allai niweidio mantolen y sector cyhoeddus a ariennir gan y trethdalwr, yn ogystal â sicrhau bod busnesau sy'n bargeinio'n deg yn cael cyfle i gystadlu.

### Maes Ffocws – Pobl: Nodi materion posibl ynghylch cystadleuaeth o fewn marchnadoedd llafur y DU

Mae marchnadoedd llafur sy'n gweithio'n dda yn galluogi gweithwyr i gael y swyddi cywir ar gyfer eu sgiliau a'u dewisiadau, gan gynyddu boddhad swydd a sicrhau manteision ehangach ym mhob rhan o'r economi o ran gwell effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Ochr yn ochr â'r gwaith dadansoddi ac ymchwil a wneir gan yr Uned Micro-economeg yn y maes hwn (gweler y proffil isod), mae'r CMA wedi cynnal rhaglen o waith ymchwilio er mwyn mynd i'r afael ag achosion posibl o ymddygiad gwrthgystadleuol ym marchnadoedd llafur y DU eleni. Gwnaethom agor dau achos sy'n ymwneud â phrynu gwasanaethau gan ddarparwyr llawrydd sy'n cefnogi gweithgarwch cynhyrchu a darlledu ar gyfer y teledu, yn ogystal ag ehangu ymchwiliad presennol yn y diwydiant persawrau defnyddwyr er mwyn cynnwys trefniadau 'dim dwyn' anghyfreithlon a amheuir. Fel ymchwiliadau i achosion a amheuir o dorri cyfraith cystadleuaeth, mae'r achosion hyn yn rhan o bortffolio ehangach y CMA i ymchwilio i ymddygiad gwrthgystadleuol a'i atal.

### Proffil pobl: Deddf Marchnadoedd Digidiol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr – Grymuso'r CMA i weithredu'n fwy effeithiol fyth i ddiogelu pobl drwy ddiwygio mesurau diogelu defnyddwyr

## Niwed i ddefnyddwyr

Mae'r CMA yn gorfodi cyfraith diogelu defnyddwyr, gan weithio'n agos gyda gorfodwyr defnyddwyr eraill (megis Safonau Masnach), yn ogystal â chyrff sectoraidd rydym yn rhannu llawer o gyfrifoldebau am ddiogelu defnyddwyr rhag niwed â nhw. Rydym wedi defnyddio ein pwerau i ymdrin â llawer o'r problemau mwyaf dybryd y mae defnyddwyr wedi'u hwynebu dros y 10 mlynedd diwethaf – o deithiau pecyn, gamblo a gwerthu tocynnau ar-lein i farchnadoedd ar-lein a honiadau gwyrdd camarweiniol.

Fodd bynnag, yn ôl yr Astudiaeth Diogelu Defnyddwyr ddiweddaraf,[7] roedd 69% o ddefnyddwyr yn y DU wedi cael problem gyda nwyddau a brynwyd ganddynt rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ebrill 2021, a oedd yn ymwneud yn bennaf â thrafodion ar-lein. Mae hyn yn cyfateb i 36 miliwn o ddefnyddwyr a chyfanswm cost i economi'r DU o tua £54.2bn. Mae ymadroddion megis 'Rip-Off Britain' bellach ar lafar gwlad, sydd i'w briodoli'n rhannol i gynnydd yn nifer yr achosion o dwyll digidol, sgamiau ac adolygiadau ffug. Mae gwaith hyrwyddwyr defnyddwyr, fel Martin Lewis o Money Saving Expert, bellach yn denu sylw cyhoeddus a sylw yn y cyfryngau torfol. Mae'r galw gan ddefnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi am gymorth cynghorol am ddim gan Cyngor ar Bopeth a Safonau Masnach wedi cynyddu'n sylweddol tra bod cyllid ac adnoddau'r gwasanaethau hyn yn lleihau'r sylweddol.

Yn hanesyddol, bu'r pwerau sydd ar gael i'r CMA orfodi cyfreithiau diogelu defnyddwyr wedi bod yn wannach na'r rhai y gallwn eu defnyddio ar gyfer cylch gwaith gorfodi cyfraith cystadleuaeth. Felly, hyd yma, nid oedd gennym y pŵer i wneud penderfyniadau cyfrwymol ein hunain ynghylch pryd mae cyfreithiau diogelu defnyddwyr wedi'u torri (fel y gallwn ei wneud wrth ymchwilio i ymddygiad gwrthgystadleuol megis cartelau anghyfreithlon) ac nid ydym wedi llwyddo i ddwyn busnesau yn uniongyrchol i gyfrif drwy roi dirwyon.

## Ein cyfrifoldebau newydd

Mae'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn cyflwyno cyfundrefn orfodi uniongyrchol newydd ar gyfer diogelu defnyddwyr a fydd yn galluogi'r CMA i gyflawni ein dyletswydd i ddiogelu defnyddwyr yn y DU yn fwy effeithiol. O dan y fframwaith newydd, gall y CMA benderfynu a oes deddfwriaeth allweddol benodol ynglŷn â defnyddwyr wedi'i thorri heb orfod fynd â busnesau i'r llys. Os bydd y gyfraith wedi'i thorri, gall y CMA roi dirwyon o hyd at 10% o drosiant blynyddol y cwmni ledled y byd, yn ogystal â gorfodi'n uniongyrchol ymrwymiadau y cytunwyd arnynt â chwmnïoedd i ddatrys problem sy'n effeithio ar ddefnyddwyr.

---

[7] Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2022), Consumer protection study 2022

Drwy rymuso'r CMA i fynd i'r afael ag arferion anghyfreithlon yn fwy uniongyrchol a rhoi cosbau ystyrlon, mae'r diwygiadau yn galluogi'r CMA i wneud penderfyniadau sy'n gosod cynsail. Dylai penderfyniadau o'r fath gael effaith ataliol eang ei chwmpas a chreu cymhellion pwerus i fusnesau gydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr. Yn bwysig ddigon, mae'r Ddeddf yn galluogi gorfodwyr eraill cyfraith diogelu defnyddwyr, megis safonau masnach a rheoleiddwyr sectoraidd, i wneud cais i lysoedd sifil am yr un cosbau ariannol (hyd at 10% o drosiant blynyddol byd-eang) ar y gall y CMA eu rhoi am dorri cyfraith defnyddwyr. Mae hyn yn golygu bod cosbau ariannol sylweddol ar gael i'w defnyddio gan orfodwyr cyhoeddus ehangach cyfraith diogelu defnyddwyr, sy'n darparu mesur ataliol cryfach rhag achosion o dorri cyfraith defnyddwyr yn gyffredinol.

Gallai hyn fod yn drobwynt o ran gallu'r CMA i fynd i'r afael ag achosion o dwyllo, arferion gwerthu camarweiniol a thelerau annheg, gan weithredu ochr yn ochr â gorfodwyr cyfraith defnyddwyr eraill a fydd yn parhau i chwarae rôl hanfodol o ran diogelu pobl rhag arferion anghyfreithlon a diegwyddor. Fel y mae ar hyn o bryd, bydd gorfodi yn un o amrywiaeth o ddulliau y gall y CMA eu defnyddio ac mae'n bosibl nad gorfodi fydd yr unig ddull o gyflawni canlyniad cadarnhaol na'r dull gorau. Felly, bydd y CMA yn parhau i asesu problemau yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd wrth law, gan weithredu mewn ffordd ystwyth a hyblyg i ddefnyddio pa ymyriadau bynnag a all fod fwyaf priodol. Ochr yn ochr â chamau gorfodi, gallai hyn gynnwys rhoi canllawiau i fusnesau, cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr neu weithio gyda phartneriaid diogelu defnyddwyr, gan gynnwys eu helpu i wneud y defnydd gorau posibl o'u pwerau eu hunain ochr yn ochr â phecyn adnoddau cynyddol y CMA. Rydym yn parhau i baratoi'n ofalus ar gyfer dechrau ein cyfrifoldebau newydd a byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar sut rydym yn disgwyl eu harfer maes o law.

## Uchelgais: Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu

*Nododd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 dri Maes Ffocws a lywiodd ein gwaith drwy gydol i flwyddyn o dan yr Uchelgais hon.*

*a) Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad i farchnadoedd digidol fel porwyr symudol a dosbarthu gwasanaethau gemau cwmwl, e-fasnach a hysbysebion digidol.*

*b) Atal ymddygiad gwrthgystadleuol.*

*c) Annog* cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg.

*Darperir gwybodaeth am gyflawni yn erbyn y Meysydd Ffocws hyn isod, ar ôl dwy astudiaeth achos o gamau rydym wedi'u cymryd er mwyn sicrhau mynediad i fusnesau mewn marchnadoedd digidol pwysig. Nodir astudiaeth achos derfynol o'n gwaith i helpu i lywio'r farchnad sy'n datblygu ar gyfer Modelau Sylfaen Deallusrwydd Artiffisial ar ddiwedd yr adran hon ar ein Huchelgais ar gyfer Busnesau, ochr yn ochr â phroffiliau ar ddiwygio'r gyfundrefn uno a'n cyfrifoldebau o dan y gyfundrefn ddigidol newydd.*

Ceir gwahanol fathau o gyfyngiadau ar gystadleuaeth effeithiol, sef: marchnadoedd sy'n cael eu domineiddio gan nifer bach o gwmnïau pwerus sy'n defnyddio eu safleoedd i atal herwyr rhag ymuno â marchnadoedd ac ehangu; mynediad cyfyngedig i fewnbynnau allweddol ar gyfer llwyddiant; ac, wrth gwrs, gartelau a chydgynllwynio. Yr un yw'r canlyniad – canlyniadau gwaeth i ddefnyddwyr, canlyniadau gwaeth i fuddsoddwyr a busnesau ac, yn y pen draw, niwed i'n heconomi ehangach.

Mae amodau marchnad agored a chystadleuol yn arbennig o bwysig mewn marchnadoedd newydd sy'n datblygu'n gyflym ac a arweinir gan arloesedd, megis technoleg a'r farchnad ddigidol. Gallai'r marchnadoedd hyn hybu cynhyrchiant a thwf ond gallent hefyd ddatblygu mewn ffyrdd sy'n niweidiol i gystadleuaeth a defnyddwyr. Mae'r CMA yn rhoi sylw arbennig i weithredu amserol yn y maes hwn er mwyn helpu i sicrhau'r manteision mwyaf posibl a bod marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg yn datblygu mewn ffyrdd sydd o fudd i bawb.

### Astudiaethau achos – Busnesau: Galluogi mynediad i farchnadoedd

Yn y ddwy astudiaeth achos ganlynol, rydym yn nodi sut rydym wedi cymryd camau er mwyn sicrhau y gall busnesau barhau i gael mynediad i farchnadoedd digidol pwysig, gan gynnwys y cwsmeriaid a'r mewnbynnau sydd eu hangen arnynt i dyfu.

### Astudiaeth achos – Busnesau: Microsoft/Activision

Mae diogelu cystadleuaeth mewn marchnadoedd sy'n ehangu'n gyflym yn hanfodol i ddiogelu buddiannau defnyddwyr o ran dewis, prisiau is a gwasanaethau gwell. Mae hefyd yn cefnogi'r amodau ar gyfer twf a arweinir gan arloesedd ym mhob rhan o'r economi ehangach. Mae rheoli prosesau uno yn rhan bwysig o hyn, gan sicrhau bod cytundebau sy'n cael effaith andwyol ar gystadleuaeth yn cael eu gwahardd neu eu haddasu a bod marchnadoedd, felly, yn parhau'n agored i gystadleuaeth effeithiol yn y tymor canolig a'r hirdymor. Mae hyn o fudd nid yn unig i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU sy'n dibynnu ar y marchnadoedd hynny ond hefyd i fusnesau yn y DU a busnesau rhyngwladol sy'n awyddus i fuddsoddi, tyfu ac arloesi mewn marchnad gystadleuol.

Y sector gemau yw sector adloniant mwyaf y DU, gyda'r farchnad gemau cwmwl arloesol ar y blaen. Nodweddir y sector gemau cwmwl gan dwf cyflym a alluogir gan dechnoleg ddigidol a gwnaeth nifer y defnyddwyr gweithredol yn y DU fwy na threblu rhwng dechrau 2021 a diwedd 2022. Rhagwelir y bydd y farchnad yn werth cyfanswm o £11bn yn fyd-eang, ac £1bn yn y DU, erbyn 2026. Felly, roedd cytundeb arfaethedig Microsoft i brynu cyhoeddwyr gemau Activision Blizzard, un o'r cyhoeddwyr gemau fideo mwyaf yn y byd, sef cytundeb a oedd yn werth $68.7bn, yn ddigwyddiad arwyddocaol ar adeg hollbwysig yn natblygiad y sector hynod boblogaidd hwn.

O ystyried maint y cytundeb a phroffil y cwmnïau cysylltiedig, denodd y cynllun uno, wrth reswm, rywfaint o sylw cyhoeddus a gwleidyddol. Ym mis Ebrill 2023, ar ôl sawl mis o waith helaeth yn ystod ein hymchwiliad Cam 2 manwl, ataliodd Panel annibynnol y CMA y cytundeb. Roedd y Panel yn pryderu y byddai'r cynllun uno arfaethedig yn atgyfnerthu grym Microsoft fel arweinydd presennol y farchnad, gan ei gwneud yn anos i herwyr newydd ehangu yn y farchnad ac, felly, i ddefnyddwyr gael budd o'r dewis, y gwasanaeth a'r prisiau gwell y gallai cystadleuaeth eu darparu. Yn yr un modd, nodwyd y niwed posibl hwn i'r egin-farchnad gan y Comisiwn Ewropeaidd (a ganiataodd i'r cynllun uno fynd yn ei flaen â rhwymedïau ymddygiadol) a'r Comisiwn Masnach Deg (a geisiodd atal y cytundeb drwy ymgyfreitha yn yr Unol Daleithiau).

Yn y pen draw, achosodd dull gweithredu annibynnol, cadarn a chyson y CMA, a oedd yn seiliedig ar ein penderfyniad i ddiogelu chwaraewyr gemau yn y DU rhag effeithiau negyddol y cynllun uno, i Microsoft gynnig cytundeb wedi'i ailstrwythuro'n sylweddol a arweiniodd at werthu hawliau gemau cwmwl Activision i gystadleuwr annibynnol. Wedyn, cliriodd y CMA y cytundeb newydd ym mis Hydref 2023, yn dilyn ymchwiliad Cam 1 newydd, ar ôl atal arweinydd y diwydiant rhag cyfyngu, o bosibl, ar weithgarwch dosbarthu cynnwys hynod poblogaidd (gan gynnwys gemau poblogaidd iawn fel 'Call of Duty', 'Overwatch' a 'World of Warcraft') a sicrhau y byddai'n sector hwn, a oedd yn datblygu'n gyflym, yn parhau i fod yn agored i amrywiaeth o fusnesau gwahanol sy'n cystadlu â'i gilydd.

### Astudiaeth achos – Busnesau: Platfformau manwerthu Amazon/Meta

Marchnad e-fasnach y DU yw'r drydedd fwyaf yn y byd ar ôl Tsieina a'r UD, gyda gwerthiant yn cyrraedd tua £120 biliwn yn 2023. Er mwyn i fusnesau ffynnu yn yr economi fodern, lle mae presenoldeb digidol a galluoedd e-fasnach yn fwyfwy allweddol i lwyddiant, mae'n hanfodol y gallant gael mynediad i blatfformau manwerthu ar-lein ar delerau teg. Mae'r CMA wedi cyflawni canlyniadau sylweddol i fusnesau yn y DU a miliynau o ddefnyddwyr eleni drwy sicrhau cystadleuaeth deg mewn perthynas â dau o'r rhain, sef: Amazon Marketplace (sef y cwmni mwyaf ym

marchnad e-fasnach y DU ac arweinydd y farchnad honno) a Facebook Marketplace, a weithredir gan Meta.

Ym mis Tachwedd 2023, yn dilyn ymchwiliadau ar wahân, gwnaethom dderbyn ymrwymiadau cyfreithiol gyfrwymol gan y ddau gwmni a fydd o fudd i werthwyr a defnyddwyr y platfformau hyn. Bydd ymrwymiadau a sicrhawyd gan Amazon yn helpu gwerthwyr trydydd parti yn y Farchnad i gystadlu o dan amodau teg ac i gwsmeriaid yn y DU gael y bargeinion gorau. Mae'r ymrwymiadau yn cynnwys Amazon yn cymryd camau er mwyn rhoi cyfle teg i gynigion gwerthwyr annibynnol yn y DU gael eu cynnwys yn y 'Buy Box', a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid i brynu eitemau ar Amazon). Bydd Amazon hefyd yn caniatáu i werthwyr negodi eu cyfraddau dosbarthu eu hunain â darparwyr annibynnol gwasanaethau dosbarthu Prime, gan lacio'r cyfyngiad i ddefnyddio gwasanaethau warysau a dosbarthu Amazon ei hun yn hytrach na busnesau logisteg sy'n cystadlu ag ef. At hynny, caiff Amazon ei atal rhag defnyddio data a gafwyd gan werthwyr ar Amazon Marketplace a allai roi mantais annheg iddo wrth gystadlu â'r gwerthwyr hynny fel manwerthwr.

Bydd ymrwymiadau a sicrhawyd gan Meta yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch ei ddefnydd o ddata hysbysebion penodol a allai roi mantais annheg iddo wrth gystadlu â busnesau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan mai Meta yw cyflenwr mwyaf hysbysebion a arddangosir yn ddigidol yn y DU, a hynny o bell ffordd. Ni fydd Meta yn gallu defnyddio data hysbysebion cystadleuwyr i wella Facebook Marketplace mwyach, er enghraifft drwy ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o ryngweithio defnyddwyr â hysbysebion trydydd parti ar Facebook i dargedu defnyddwyr â rhestriadau Marketplace.

Croesawodd y CMA y ffordd adeiladol y cafodd ein pryderon eu datrys, sy'n golygu bod llai o gyfle i gwmnïau mawr weithredu mewn ffyrdd sy'n rhoi anfantais annheg iddyn nhw eu hunain, gan ei gwneud yn amhosibl i gystadleuwyr gystadlu o dan amodau teg. Rydym yn disgwyl gweld mwy o'r fath ganlyniadau wedi'u targedu, effeithiol gan fod y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr bellach wedi dod i rym.

### Maes Ffocws – Busnesau: Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad i farchnadoedd digidol fel porwyr symudol a dosbarthu gwasanaethau gemau cwmwl, e-fasnach a hysbysebion digidol

Mae'r CMA wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn diogelu mynediad i farchnadoedd digidol eleni, fel y dangosir gan astudiaethau achos 4 a 5 uchod sy'n ymwneud â chynllun arfaethedig Microsoft i gaffael Activision yn y farchnad gemau cwmwl a'r canlyniadau a sicrhaodd y CMA gan Amazon a Meta mewn perthynas ag e-fasnach a hysbysebion digidol.

Ymchwiliodd Panel annibynnol y CMA hefyd i gytundeb arfaethedig Adobe i brynu Figma, sef cytundeb a oedd yn werth $20bn, gan weithio'n agos gyda chymheiriaid yn y Comisiwn Ewropeaidd ac Adran Gyfiawnder yr UD, a adolygodd y cynllun uno hwn ar y cyd â'r Panel. Adobe a Figma yw dau o ddarparwyr meddalwedd mwyaf y byd ar gyfer dylunwyr apiau a gwefannau ac roeddent yn dibynnu fwyfwy ar fusnesau ledled y DU i farchnata eu cynhyrchion a'u gwasanaethau. Ym mis Tachwedd 2023, canfyddiad dros dro'r CMA oedd y byddai'n cynllun uno yn arwain at lai o ddewis ac arloesi, gan rwystro, o bosibl, ddatblygiad cynhyrchion amgen newydd a chael effaith negyddol ar y diwydiant dylunio digidol a oedd yn werth bron i £60bn i economi'r DU. Yn yr un mis, anfonodd y Comisiwn Ewropeaidd ddatganiad o wrthwynebiadau at y partïon yn nodi pryderon ynghylch effaith y cynllun uno ar gystadleuaeth yn Ewrop. Ar ôl hynny, rhoddodd Adobe a Figma y gorau i'w cytundeb.

Yn dilyn achos ymgyfreitha a ddyfarnodd o blaid y CMA, gwnaethom hefyd ailddechrau ein hymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â phorwyr gwe symudol a'r prosesau ar gyfer dosbarthu gwasanaethau gemau cwmwl drwy siopau apiau ar ddyfeisiau symudol ym mis Ionawr 2024. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn ystyried pryderon ynghylch yr effeithiau y mae deuopoli effeithiol Apple a Google yn eu cael ar ecosystemau symudol sy'n eu galluogi i dagu systemau gweithredu, storfeydd apiau a phorwyr gwe ar ddyfeisiau symudol. Mae'r CMA yn gwerthuso a oes angen rheolau newydd i ysgogi canlyniadau gwell, gan gynnwys mwy o ddewis a dileu rhwystrau i ddatblygwyr sy'n awyddus i ddod ag apiau newydd arloesol i'r farchnad.

Drwy ein hymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â gwasanaethau seilwaith cwmwl, rydym hefyd yn ystyried a yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda yn y farchnad hollbwysig hon, sy'n galluogi mynediad o bell i adnoddau cyfrifiadurol ar gais a dros rwydwaith. Mae llawer o fusnesau bellach yn dibynnu ar y cwmwl fel rhan hanfodol o'r ffordd y caiff llawer o wasanaethau digidol eu darparu i ddefnyddwyr. Ar ôl i'r farchnad hon gael ei hatgyfeirio atom gan Ofcom, penododd y CMA grŵp ymchwilio annibynnol ym mis Hydref 2023 i gynnal ymchwiliad i'r farchnad. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith isod.

### Maes Ffocws – Busnesau: Atal ymddygiad gwrthgystadleuol

Rydym wedi nodi uchod sut mae mesurau cadarn i atal ymddygiad gwrthgystadleuol yn helpu i sicrhau bargen deg i ddefnyddwyr a threthdalwyr, yn arbennig wrth fynd i'r afael â rigio ceisiadau yn y sector adeiladu. Drwy roi cosbau sylweddol a sicrhau bod cyfarwyddwyr yn cael eu hanghymhwyso, rydym hefyd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i fusnesau (yn ogystal â chyrff cyhoeddus) y mae cynyddu prisiau yn artiffisial, a all ddeillio o gydgynllwynio anghyfreithlon, yn effeithio arnynt, fel cwsmeriaid. Rydym hefyd wedi mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgystadleuol a allai darfu ar y gallu i sicrhau chwarae teg mewn marchnadoedd yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, bydd ymrwymiadau a sicrhawyd gan Amazon a Meta (a drafodwyd yn

astudiaeth achos berthnasol uchod) yn helpu i atal arferion a allai fod wedi rhoi mantais gystadleuol annheg i'r cwmnïau hyn dros gwmnïau sy'n cystadlu â nhw. Bydd hyn yn galluogi cystadleuaeth fwy effeithiol rhwng cwmnïau sy'n marchnata eu nwyddau neu'n hysbysebu ar-lein.

Y tu hwnt i'r enghreifftiau hyn, rydym wedi ehangu ein portffolio o waith eleni. Er enghraifft, rydym wedi ailddechrau ein hymchwiliad i gwmnïau awyrennau sy'n rhan o Gyd-gytundeb Busnes yr Iwerydd er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol ar lwybrau hedfan rhwng Llundain a nifer o gyrchfannau yn UDA – a allai effeithio ar gwsmeriaid busnes yn ogystal â defnyddwyr. Mae'r CMA hefyd yn gweithio gyda'n cymheiriaid rhyngwladol, gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, i ymchwilio i achosion a amheuir o ymddygiad gwrthgystadleuol mewn perthynas â chyflenwi cemegion i'w defnyddio yn y diwydiant adeiladu. Mae'r sector hwn yn hanfodol i economi'r DU a bu'n destun craffu dwys gennym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â gweithio i gyflawni dros y GIG a chleifion, rydym hefyd yn gweithio i sicrhau mynediad teg i'r farchnad ar gyfer cwmnïau sy'n bargeinio'n deg, drwy lansio ymchwiliad ym mis Ionawr 2024 i honiadau a allai fod yn gamarweiniol a wnaed i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan un o'r prif gyflenwyr triniaethau hollbwysig ar gyfer diffyg haearn, ynghylch y cynhyrchion sy'n cael eu marchnata gan gwmni sy'n cystadlu ag ef.

### Maes Ffocws – Busnesau: Annog cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg

Mae cyflymder presennol newid a arweinir gan arloesedd yn golygu bod llawer o’r marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg rydym yn ymyrryd ynddynt heddiw, er mwyn hwyluso cystadleuaeth effeithiol, yn ymwneud â thechnoleg a digidol.

Mae rheoli prosesau uno yn chwarae rôl bwysig yn hyn o beth, gan sicrhau y caiff yr amodau ar gyfer cystadleuaeth ffyniannus eu creu o'r cychwyn cyntaf a'u cynnal wrth i farchnadoedd ddechrau datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo buddiannau cyhoeddus pwysig, yn arbennig twf economaidd, arloesedd, mwy o ddewis a phrisiau is i ddefnyddwyr.

Cyflawnodd portffolio cynlluniau uno y CMA ganlyniadau cadarnhaol mewn sawl marchnad sy'n dod i'r amlwg dros y 12 mis diwethaf. Ym mis Mai 2023, er enghraifft, cliriodd y CMA y cynllun uno arfaethedig rhwng Viasat ac Inmarsat, sy'n gwmnïau allweddol yn y farchnad cysylltiadau lloeren sy'n tyfu'n gyflym. Yn dilyn proses graffu fanwl, roedd y dystiolaeth yn dangos y bydd y sector yn parhau i dyfu wrth i'r galw am gysylltedd lloeren gynyddu. Felly, roeddem wedi ein bodloni y byddai'r cwmni cyfunol yn parhau i gael ei herio gan gystadleuwyr newydd a phresennol, ac y gallai busnesau sy'n dibynnu ar gysylltedd lloeren i allu darparu gwasanaethau (megis y rhyngrwyd, e-bost a galwadau fideo, gan gynnwys i'w defnyddio ar awyrennau) barhau i gael budd o gystadleuaeth ffyniannus yn y farchnad hon.

Ym mis Medi 2023, cliriodd CMA i gytundeb gwerth £1.2 bn rhwng UnitedHealth ac EMIS. Mae cwmnïau technoleg a meddalwedd gofal iechyd arbennig yn darparu gwasanaethau i'r GIG sy'n dibynnu fwyfwy ar dechnoleg ddigidol a dadansoddeg data i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Ar ôl ystyried ystod eang o dystiolaeth yn ofalus, ac ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, roedd Panel annibynnol y CMA wedi'i fodloni ni fyddai'r cytundeb yn lleihau cystadleuaeth. Mae hyn yn golygu y gall y GIG barhau i fanteisio ar yr opsiynau a'r datblygiadau arloesol a ddarperir gan dechnoleg newydd a thechnoleg sy'n datblygu, er budd parhaol cleifion.

Bu ein gwaith helaeth ar Fodelau Sylfaen Deallusrwydd Artiffisial wrth wraidd ffocws y CMA ar farchnadoedd sy'n dod i'r amlwg eleni. Gallai'r technolegau newydd cyffrous hyn gynyddu cynhyrchiant yn sylweddol a thrawsnewid llawer o gynhyrchion a gwasanaethau presennol i fusnesau a defnyddwyr. Fodd bynnag, er mwyn i'r addewid hwn gael ei wireddu'n llawn, mae'n bwysig bod y farchnad ar gyfer Modelau Sylfaen yn datblygu mewn ffordd sy'n sicrhau cystadleuaeth deg, agored ac effeithiol. Fel y nodir yn astudiaeth achos berthnasol isod, mae'r CMA wedi cyhoeddi ymchwil a gwaith dadansoddi manwl i Fodelau Sylfaen eleni, gan gynnwys set o egwyddorion er mwyn mynd i'r afael â risgiau i gystadleuaeth a diogelu defnyddwyr yn y maes hwn. Bwriedir i'r egwyddorion helpu i sicrhau y gall defnyddwyr a busnesau gael budd o farchnadoedd sy'n ymwneud â Modelau Sylfaen a nodweddir gan ddewis, ansawdd a phrisiau is, gan alluogi llif o ddatblygiadau arloesol y mae'n bosibl na welwyd mo'u tebyg o'r blaen a manteision economaidd ehangach. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol â gwahanol randdeiliaid ynghylch y defnydd a wneir o'r egwyddorion hyn, yn ogystal â bwrw ymlaen â phortffolio ehangach o waith sy'n ymwneud â'r farchnad hon sy'n hollbwysig yn systemig. Trafodir hyn yn yr astudiaeth achos isod.

### Astudiaeth achos – Busnesau: Modelau sylfaen deallusrwydd artiffisial

Fel trydan neu'r rhyngrwyd, mae modelau sylfaen yn fath o dechnoleg ‘dibenion cyffredinol’, a nodweddir gan y ffaith y gellir ei defnyddio mewn llawer o wahanol sectorau (gofal iechyd, ynni, trafnidiaeth, manwerthu a mwy), yn ogystal â'r potensial i ddylanwadu'n sylfaenol ar y ffordd y mae ein heconomi a'n cymdeithas yn gweithredu dros amser. Prin yw'r enghreifftiau o dechnolegau dibenion cyffredinol ond, yn hanesyddol, maent wedi cael effeithiau eang a thrawsnewidiol pan fyddant yn dod i'r amlwg, gan darfu ar brosesau a systemau sefydledig, creu a dinistrio diwydiannau ac ysgogi newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio.

Mae'r CMA wedi bod yn dadansoddi'r farchnad ar gyfer modelau sylfaen, sy'n tyfu yn gyflym iawn, ers dechrau 2023. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad cychwynnol ym mis Medi y flwyddyn honno, ar ôl ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfranogwyr yn y farchnad o fusnesau newydd i gwmnïau mawr, grwpiau eirioli

defnyddwyr, y byd academaidd a'r trydydd sector. Cydnabu ein hadroddiad y manteision a allai ddeillio o'r modelau hyn, a allai fod yn fanteision sylweddol, gan nodi, ar yr un pryd, y risg y gallai marchnadoedd modelau sylfaen ddatblygu mewn ffyrdd a fyddai'n peri pryder o safbwynt cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr. Er mwyn lliniaru'r risg honno, cynigiodd y CMA set o egwyddorion er mwyn helpu i gynnal arloesedd bywiog ac arwain marchnadoedd tuag at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU a'n heconomi ehangach. Yr egwyddorion hyn yw:

- Mynediad: mynediad rhwydd parhaus i fewnbynnau allweddol.
- Amrywiaeth: er mwyn sicrhau amrywiaeth barhaus o fodelau a mathau o fodelau.
- Dewis: galluogi digon o ddewis i fusnesau a defnyddwyr allu penderfynu sut i ddefnyddio modelau sylfaen.
- Bargeinio'n deg: dim bwndelu, clymu na hunan-ffafrio gwrthgystadleuol, er enghraifft.
- Tryloywder: sicrhau bod gan ddefnyddwyr a busnesau y wybodaeth gywir am risgiau a chyfyngiadau modelau.
- Atebolrwydd: sicrhau bod datblygwyr a chyflwynwyr yn atebol am allbynnau.

Gwnaethom barhau i olrhain datblygiadau mewn marchnadoedd ac ymgysylltu'n eang ag amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol ynghylch ein hegwyddorion arfaethedig, gan gynnwys cynnal gweithdy hanner diwrnod yn swyddfeydd y CMA i 65 o randdeiliaid. Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom gyhoeddi ail adroddiad, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws ecosystem modelau sylfaen a barhaodd i ddatblygu'n gyflym, gan gynnwys lansio modelau newydd, buddsoddiadau a phartneriaethau, penodiadau proffil uchel (ac, mewn rhai achosion, ymadawiadau), yn ogystal â hyrwyddo arloesedd ac achosion defnydd newydd.

Nododd ein diweddariad bresenoldeb cynyddol nifer bach o gwmnïau technoleg mewn marchnadoedd modelau sylfaen, sef cwmnïau sydd eisoes mewn safleoedd grymus mewn llawer o'r marchnadoedd digidol pwysicaf a welir heddiw. Mae'r cwmnïau mewn safleoedd cryf o ran cyflenwi mewnbynnau hollbwysig ar gyfer datblygu modelau (fel cyfrifiannu, data a thalent) ac o ran cyflwyno modelau o'r fath, drwy bwyntiau neu lwybrau mynediad allweddol i'r farchnad, fel apiau, platfformau neu ecosystemau symudol y mae pobl a busnesau ledled y DU yn dibynnu arnynt bob dydd. Tynnodd yr adroddiad sylw at dair risg gydgysylltiedig allweddol i gystadleuaeth deg, agored ac effeithiol, sef:

- Gall cwmnïau sy'n rheoli mewnbynnau hollbwysig ar gyfer datblygu modelau sylfaen gyfyngu ar fynediad er mwyn diogelu eu hunain rhag cystadleuaeth.
- Gall cwmnïau pwerus sydd eisoes yn bodoli fanteisio ar eu safleoedd mewn marchnadoedd sy'n delio â defnyddwyr neu fusnesau er mwyn ystumio dewis

mewn gwasanaethau modelau sylfaen a chyfyngu ar gystadleuaeth o ran cyflwyno modelau sylfaen.

- Gallai partneriaethau sy'n cynnwys cwmnïau allweddol yn y farchnad waethygu safleoedd grymus presennol yn y farchnad drwy'r gadwyn werth.

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gallai'r risgiau hyn i gystadleuaeth deg, agored ac effeithiol mewn marchnadoedd sy'n ymwneud â modelau sylfaen gael effaith andwyol ar fusnesau a defnyddwyr yn y DU, yn y pen draw. Gallent wneud hyn, er enghraifft, drwy gyfyngu ar allu arloeswyr a herwyr i ymuno â'r farchnad, gan gwtogi ar ddewis a chynyddu prisiau i gwsmeriaid ac, yn y pen draw, leihau potensial y technolegau hyn i gyfrannu'n llawn at dwf economaidd.

Esboniodd ein hadroddiad sut y gallai pob risg gael ei lliniaru gan yr egwyddorion ac amlinellodd i randdeiliaid y camau roedd y CMA yn eu cymryd, ac yn ystyried eu cymryd yn y dyfodol agos, er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Gwnaethom nodi'n glir y byddai'r CMA yn mabwysiadu dull gweithredu 'offeryn-niwtral' gan gynnwys ymchwiliadau i farchnadoedd, adolygu cynlluniau uno, ymchwil barhaus, ac fel rhan o'r ystyriaeth y byddwn yn ei rhoi i ba weithgareddau digidol y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr (gan nodi nad ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau blaenoriaethu dros dro eto).

Fel y nodir yn ein hadroddiad, mae'r CMA bellach yn datblygu gwahanol feysydd gwaith sy'n cyffwrdd â'r maes hwn. Rydym yn defnyddio pwerau i gasglu gwybodaeth drwy ein hadnodd uno i ddeall a yw sawl partneriaeth a buddsoddiad strategol rhwng cwmnïau sydd eisoes yn rhan o'r farchnad a phrif ddarparwyr modelau sylfaen (y mae rhai ohonynt yn eithaf cymhleth ac amhenodol) yn dod o dan reolau uno neu'n codi pryderon ynghylch cystadleuaeth yn y DU. Mae hyn yn cynnwys ystyried partneriaeth Microsoft ag OpenAI (a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2023), yn ogystal â phartneriaethau rhwng Amazon ac Anthropic; Microsoft a Mistral AI;[8] a threfniant Microsoft i gyflogi cyn-gyflogeion a threfniadau cysylltiedig ag AI (y lansiwyd pob un ohonynt ym mis Ebrill 2024). Mae ein Panel o arbenigwyr annibynnol hefyd yn asesu'r effaith y gallai modelau sylfaen ei chael ar y ffordd y darperir gwasanaethau cwmwl fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i'r farchnad seilwaith cwmwl. Mae ein hymchwil i fodelau sylfaen a'n gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y defnydd o'r egwyddorion yn parhau, yn ogystal â thrafodaethau yngylch blaenoriaethu gweithgareddau digidol ar gyfer buddsoddiad o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr.

[8]Ym mis Mai 2024, gwnaethom benderfynu nad oedd partneriaeth Microsoft Corporation â Mistral AI yn gymwys i fod yn destun ymchwiliad o dan y darpariaethau statudol perthnasol.

Mae'r CMA o'r farn y dylai technolegau sy'n dod i'r amlwg a allai ail-lunio ein heconomi, ein ffyrdd o wneud busnes a'n bywydau, wneud hynny mewn ffordd gadarnhaol sydd o fudd i bawb yn y DU. Byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda chyfranogwyr yn y farchnad, rhanddeiliaid ehangach a rheoleiddwyr eraill ledled y byd (sydd hefyd yn archwilio modelau sylfaen a deallusrwydd artiffisial yn fwy cyffredinol) er mwyn sicrhau bod y dyfodol cadarnhaol hwn yn cael ei wireddu.

### Proffil busnesau: Diwygio'r gyfundrefn uno

Yn ei hanfod, mae a wnelo rheoli prosesau uno â sicrhau bod marchnadoedd yn parhau i gynnal cystadleuaeth deg, agored ac effeithiol, gan gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a all ddeillio o farchnadoedd pan fyddant yn gweithredu ar eu gorau. Mae cystadleuaeth ffyniannus yn hyrwyddo buddiannau cyhoeddus pwysig – yn arbennig twf economaidd, arloesedd, mwy o ddewis a phrisiau is i ddefnyddwyr. Mae gwaith rheoli uno effeithiol, wedi'i hategu gan awdurdod cystadleuaeth annibynnol a chadarn yn y DU, hefyd yn helpu i sicrhau amgylchedd sefydlog a rhagweladwy i fusnesau yn y DU a busnesau rhyngwladol sy'n awyddus i fuddsoddi a thyfu mewn marchnad gystadleuol. Mae hwn yn amgylchedd lle mae'r amodau yn bodoli er mwyn iddynt allu ymuno â'r farchnad, cystadlu'n deg â chwmnïau sydd eisoes yn rhan o'r farchnad ac elwa ar gynhyrchion a gwasanaethau newydd ac arloesol a gynigir i gwsmeriaid. Felly, nid dim ond rhwystr biwrocrataidd i daro bargen yw rheoli prosesau uno. Mae'n sail i economi fywiog ac arloesol, yn ogystal â mesur diogelu sylfaenol ar gyfer llesiant defnyddwyr a buddiannau busnesau a'u buddsoddwyr.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau uno yn ddiniwed ac, fel y dengys ystadegau'r flwyddyn hon, mae dull gweithredu'r CMA yn gymesur gan mai dim ond cyfran fach o'r degau o filoedd o gytundebau sy'n mynd yn eu blaen bob blwyddyn a adolygir ganddo.

Nodwyd tua 50,000 o gytundebau uno a chaffael yn ystod 2023.[9] O blith y rhain, ystyriodd y CMA 913 o achosion uno yn 2023/24, gan gynnal 54 o adolygiadau Cam 1. Arweiniodd un o bob tri adolygiad (18) at gliriad diamod ac arweiniodd 26 o adolygiadau eraill at gliriad â rhwymedïau er mwyn lliniaru effeithiau lleihad sylweddol mewn cystadleuaeth. Mae cytuno ar rwymedïau mewn achosion uno yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr a busnesau drwy gynnal cystadleuaeth ac, felly, ddewis mewn marchnadoedd.

Gwnaethom gynnal ymchwiliadau Cam 2 manwl mewn perthynas â naw achos lle roeddem o'r farn y gallai'r cynllun uno leihau cystadleuaeth yn y DU, gan gynnwys lle na wnaethom lwyddo i gytuno ar rwymedïau boddhaol ar Gam 1 er mwyn ymdrin â'n

---

[9] PWC (2024), Global M&A Industry Trends: 2024 Outlook

pryderon. Arweinir pob ymchwiliad Cam 2 gan grŵp a benodir o Banel y CMA o arbenigwyr annibynnol, sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ar yr achos. Cafodd y mwyafrif o'r rhain (pump) eu clirio'n ddiamod a chafodd dau arall eu clirio â rhwymedïau. Penderfynwyd gwahardd un cynllun uno eleni ar ddiwedd proses Cam 2. Rhoddodd y partïon y gorau i gyfanswm o dri chynllun uno (dau ar Gam 1 ac un ar Gam 2).

Mandad y CMA, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, yw hyrwyddo cystadleuaeth er budd busnesau a defnyddwyr yn y DU. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol am asesu effaith llawer o gytundebau rhyngwladol, a fyddai wedi cael eu hystyried gan y Comisiwn Ewropeaidd yn flaenorol, ar y DU. Ar y cyfan, mae proses rheoli uno y DU wedi bod yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, ynghlwm wrth gyfrifoldeb cynyddol mae rhwymedigaeth i sicrhau ein bod bob amser yn gwerthuso ffyrdd o atgyfnerthu'r canlyniadau y mae'r CMA yn eu cyflawni i'r rhai a wasanaethir gennym, gan gynnwys gwrando ar randdeiliaid a datblygu ein prosesau er mwyn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Dyna pam y gwnaethom gynnal archwiliad o'n proses uno Cam 2 ac ymgynghori ar ddiwygiadau gweithdrefnol ym mis Tachwedd 2023. Ar yr un pryd, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'n trothwy 'de minimis'. Arweiniodd yr ymgynghoriadau hyn at gyhoeddi canllawiau diwygiedig ym mis Ebrill 2024, y bwriedir iddynt sicrhau bod cyfundrefn uno'r DU yn gweithredu mewn ffordd symlach, gyda'r lefel uchaf o dryloywder a sicrwydd, a'r baich lleiaf posibl ar fusnesau sy'n uno.

Nid yw'r profion cyfreithiol y mae'r CMA yn eu defnyddio i asesu cynlluniau uno wedi newid. Fodd bynnag, dylai'r diwygiadau hyn i brosesau wella'r ffordd y caiff ein hymchwiliadau eu cynnal, gyda'r potensial i sicrhau newid sylweddol gwirioneddol mewn agweddau ar y ffordd y mae cyfundrefn uno'r DU yn gweithredu, gan gynnwys er budd y busnesau sy'n ymgysylltu'n adeiladol â nhw. Yn benodol, bydd y broses ddiwygiedig yn symleiddio dechrau'r ymchwiliad Cam 2, gan ein galluogi i ganolbwyntio ynghynt ar y materion allweddol sydd yn y fantol yn yr achos. Bydd hefyd yn gwella'r cyfleoedd a ddarperir i bob busnes y mae cynllun uno yn effeithio arno ymgysylltu â grŵp ymchwilio'r CMA sy'n goruchwylio'r ymchwiliad, gan gynyddu lefel yr adborth i'r partïon wrth i'r broses ddatblygu a chymedroli'r agweddau chwilysol ar y system â dulliau mwy ymresymiadol. Mae'r broses rhwymedïau hefyd wedi'i diwygio er mwyn cynnig mwy o gymhellion i bartïon sy'n uno gyflwyno rhwymedïau credadwy er mwyn ymdrin â phryderon cyn gynted â phosibl. Dengys y canlyniadau a sicrhawyd yn achos Microsoft/Activision, y cyfeiriwyd ato yn yr astudiaeth achos uchod, sut y gall hyn ryddhau manteision sylweddol – a bod cyflwyno'r atebion hyn i'w hystyried ar yr adeg gywir er budd pawb. Mae'r CMA hefyd wedi cynyddu'r trothwy 'de minimis' o £15 miliwn i £30 miliwn er mwyn sicrhau y gallwn flaenoriaethu'r cynlluniau uno pwysicaf yn fwy effeithiol.

Bwriedir i'r diwygiadau hyn wella prosesau rheoli uno y DU drwy roi gweithdrefnau o'r radd flaenaf sy'n glir, yn dryloyw, yn ystwyth ac yn effeithiol ar waith ac maent wedi dod i rym yn sgil cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru. Yn y dyfodol, caiff unrhyw achosion Cam 1 newydd a agorir gan y CMA ac a atgyfeirir i fod yn destun ymchwiliad Cam 2 manwl, eu cynnal o dan y broses Cam 2 newydd.

### Proffil busnesau: Y Ddedf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr – cyflwyno cyfundrefn gystadleuaeth newydd ar gyfer marchnadoedd digidol

Mae cyflymder a maint y trawsnewidiad digidol dros y ddau ddegawd diwethaf wedi bod yn eithriadol ac mae wedi dod â manteision sylweddol iawn i bobl, busnesau ac economïau ledled y byd. Mae sector digidol y DU yn parhau i dyfu'n gyflym, gan gyfrannu biliynau o bunnoedd a galluogi miliynau o swyddi, ym mhob rhan o'r economi. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae grym y farchnad wedi'i grynhoi i raddau helaeth ymhlith nifer bach o gwmnïau technoleg mewn gwahanol farchnadoedd digidol. Rydym wedi gweld enghreifftiau o'r grym hwnnw yn cael ei ddefnyddio i atal cwmnïau newydd rhag ymuno â'r farchnad, rhwystro arloesi a chamfanteisio ar bobl a busnesau, er enghraifft drwy saernïaeth niweidiol ar-lein neu arferion clymu a bwndelu cynhyrchion a gwasanaethau gwrthgystadleuol.

Gallai'r gyfundrefn cystadleuaeth newydd ar gyfer marchnadoedd digidol drawsnewid gallu'r CMA i fynd i'r afael ag effaith y crynhoi hwn yn fwy effeithiol, gan ysgogi mwy o ddynamiaeth yn y marchnadoedd hyn a sicrhau mai'r DU yw un o'r lleoedd gorau yn y byd ar gyfer arloesedd technolegol a buddsoddi mewn technoleg. Mae hyn yn cynnwys atal arferion niweidiol sy'n cyfyngu ar allu herwyr ac arloeswyr i ymuno â marchnadoedd digidol, gan sicrhau amrywiaeth a dewis i ddefnyddwyr, a helpu i sicrhau amodau teg lle y bydd arloesi a buddsoddi yn talu ar eu canfed.

Yn hytrach na system reoleiddio 'sy'n addas at bob diben' o'r math a allai greu rhwystrau i arloesedd neu feichiau diangen ar fusnesau, lluniwyd y Ddeddf yn fwriadol i fod yn hyblyg iawn, yn bwrpasol ac wedi'i dargedu o ran ei dull gweithredu. Mae'r adnoddau hefyd wedi'u haddasu i gyd-fynd â'r marchnadoedd digidol amrywiol sy'n datblygu'n gyflym, er mwyn i'r CMA allu mynd i'r afael â materion mewn ffordd amserol a chymesur. Mae gan y CMA y pŵer i lunio gofynion penodol sy'n gymwys i gwmnïau rydym yn nodi bod ganddynt Statws Marchnad Strategol mewn perthynas â gweithgaredd digidol penodol. Bydd i'r gofynion hyn derfyn amser a bydd yn ofynnol i ni eu hadolygu bob pum mlynedd, a fydd yn ein galluogi i adlewyrchu newidiadau mewn marchnadoedd a thechnoleg.

Rydym hefyd wedi nodi'n glir y bydd ein dull gweithredu yn seiliedig ar ddeialog adeiladol a pharhaus â darpar gwmnïau dynodedig a rhanddeiliaid ehangach. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn nodi'r materion pwysicaf y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn llunio'r ymyriadau mwyaf effeithiol ac yn gweithio i ddatrys problemau

mewn ffordd fwy ystwyth ac effeithlon, lle bynnag y gallwn, drwy gytuno ar atebion er mwyn osgoi camau gorfodi.

Mae hwn yn gyfrifoldeb pwysig i'r CMA ac rydym wedi bod yn paratoi'n drylwyr eleni er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa gref i weithredu ein pwerau o dan y gyfundrefn ddigidol newydd yn effeithiol o'r adeg y byddwn yn eu cael. Isod, rydym yn rhoi rhagor o fanylion am ein paratoadau i gyflawni'r swyddogaethau newydd hyn.

Er mwyn helpu busnesau i ddeall y gyfundrefn newydd a dechrau paratoi ar ei chyfer, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o'n dull amodol ar gyfer rhoi'r gyfundrefn ar waith ym mis Ionawr 2024. Rydym bellach wedi lansio ymgynghoriad ar ganllawiau drafft y gyfundrefn ar ôl i ddeddfwriaeth ynglŷn â Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr gael ei deddfu ym mis Mai 2024 a byddwn yn ceisio casglu mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Rhagwelwn y byddwn yn gallu lansio ein hymchwiliadau Statws Marchnad Strategol cyntaf yn fuan iawn ar ôl i'n cyfrifoldebau newydd ddechrau, y rhagwelwn y bydd yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, byddem yn disgwyl dechrau rhwng tri a phedwar ymchwiliad Statws Marchnad Strategol.

## Uchelgais: Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy

*Nododd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 bum Maes Ffocws a lywiodd ein gwaith drwy gydol i flwyddyn o dan yr Uchelgais hon, sef:*

*a)* Gweithredu mewn marchnadoedd presennol a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy. *Gwneud gwaith pellach ar honiadau gwyrdd ac ar effeithlonrwydd ynni.*

*b) Nodi'r meysydd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant a gweithredu yn y meysydd hynny, a dylanwadu ar ddatblygiad pro-gystadleuol marchnadoedd.*

*c) Sicrhau bod marchnadoedd digidol yn gystadleuol, gan gynnwys trwy baratoi ar gyfer cyflwyno pwerau statudol newydd i'r CMA.*

*d) Nodi risgiau economaidd y mae'r CMA mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nhw er mwyn cefnogi* cadernid economi'r DU.

*e) Rhoi cyngor i lywodraethau i gefnogi prosesau masnachu effeithiol rhwng gwledydd y DU drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a gweithredu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau fel rhan o'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau domestig newydd.*

*Darperir gwybodaeth am gyflawni yn erbyn pob un o'r Meysydd Ffocws hyn isod, ar ôl dwy astudiaeth achos sy'n nodi'n fanwl sut rydym wedi cymryd camau i gefnogi twf cynaliadwy eleni. Mae astudiaeth achos derfynol o'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn dilyn ar ddiwedd yr adran hon ar ein Huchelgais ar gyfer Economi'r DU, ynghyd â phroffil ar yr Uned Micro-economeg.*

Mae'r CMA yn gwbl ymrwymedig i chwarae ein rhan i helpu i adfer economi'r DU, gan gynnwys drwy feithrin amodau marchnad gystadleuol sy'n allweddol i ysgogi cynhyrchiant a thwf. Mae tystiolaeth empiraidd gref bod cysylltiad rhwng cystadleuaeth, cynhyrchiant a chynnydd mewn cyflogau, yn ogystal â'r gydberthynas rhwng bodolaeth ac effeithiolwydd polisi cystadleuaeth a chynhyrchiant yn gyffredinol.[10] Hefyd, nododd adolygiad y CMA ei hun o'r gydberthynas rhwng cystadleuaeth a chynhyrchiant fod pwysau cystadleuol yn allweddol i wella effeithlonrwydd ac ysgogi arloesi ar lefel cwmni, a'i fod yn ffactor pwysig o ran galluogi cwmnïau sydd ar ei hôl hi i adael y farchnad a chreu lle i gwmnïau newydd mwy cynhyrchiol ymuno â'r farchnad.[11]

Fel yr amlinellir yn ein strategaeth, mae'r CMA yn mabwysiadu dull penodol o gefnogi twf ac rydym yn gweithredu mewn marchnadoedd o arwyddocâd strategol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i economi'r DU. Mae hyn yn cynnwys sectorau sydd â photensial penodol i sbarduno twf a chynhyrchiant, megis y sector digidol, lle y bydd cyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn ein galluogi i fynd ati'n rhagweithiol i ysgogi marchnadoedd mwy dynamig ac atal arferion niweidiol sy'n rhwystro arloesedd a thwf.

Gan adlewyrchu'r heriau i'n heconomi a chymdeithas ehangach sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, rydym hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi twf cynaliadwy a helpu'r DU i newid i economi Sero Net. Mae gweithredu ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd i fusnesau (a amlinellir yn astudiaeth achos berthnasol isod) yn sicrhau na chaiff arloesedd mewn sectorau gwyrdd ei rwystro gan bryderon ynghylch torri cyfraith cystadleuaeth. Mae polisi drws agored i fusnesau sy'n awyddus i gydweithio i ddatblygu technolegau newydd, mwy cynaliadwy yn sicrhau y gall arloesedd barhau i ffynnu yn economi'r DU.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Uned Micro-economeg (gweler y proffil perthnasol isod) yn ystyried sut y gall y CMA gefnogi twf a chadernid economaidd drwy sawl ffrwd waith ymchwil barhaus a chynlluniedig wahanol. Mae hyn yn cynnwys llunio papurau trafod sy'n ymwneud ag arloesedd, cystadleuaeth a thwf; cyhoeddi trydydd adroddiad y

---

[10] Er enghraifft, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2014), Taflen ffeithiau ar y ffordd y mae polisi cystadleuaeth yn effeithio ar ganlyniadau macro-economaidd

[11] Productivity and competition: a summary of the evidence (2015)

CMA ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn; a gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Busnes a Masnach a Thrysorlys EF ar wahanol agweddau ar fanteision economaidd ehangach polisi cystadleuaeth. Mae gwaith ein Huned Micro-economeg, yn ogystal â Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, sy'n destun astudiaeth achos derfynol ar ddiwedd yr adran hon, yn enghraifft o'r ffordd y gall y CMA gefnogi economi sy'n gweithio'n dda drwy roi cyngor i'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill. Y tu hwnt i'r meysydd gweithgarwch hyn, gwnaethom helpu cyrff cyhoeddus ledled y DU i ystyried effeithiau eu dewisiadau polisi ar gystadleuaeth drwy ddiweddaru ein canllawiau ar Asesiadau o'r Effaith ar Gystadleuaeth ym mis Gorffennaf 2023.

Mae'r holl waith gwerthfawr hwn yn rhan o gyfraniad ehangach y CMA at syniadaeth (o fewn y llywodraeth ac ym mhob rhan o'r gymuned bolisi) ynglŷn â ffyrdd o ysgogi ac atgyfnerthu ein heconomi. Rydym yn parhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar y nod hwn – boed hynny drwy wahardd cynlluniau uno a allai gael effaith andwyol ar gystadleuaeth, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgystadleuol er mwyn i fusnesau sy'n bargeinio'n deg gael mynediad i farchnadoedd twf neu ddylanwadu ar ddatblygiad marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau'r amodau ar gyfer cystadleuaeth ffyniannus o'r cychwyn cyntaf.

Mae cyfundrefn cystadleuaeth gadarn ac annibynnol hefyd yn sicrhau bod gan fusnesau a buddsoddwyr y sicrwydd i ymuno â marchnadoedd yn y DU a chystadlu ynddynt o dan amodau teg, gan wybod y bydd busnesau effeithlon ac arloesol yn llwyddo ar sail teilyngdod. Mae gweithgarwch ymgysylltu'r CMA â'r gymuned buddsoddwyr yn cadarnhau'n gyson fod sicrwydd o ran prosesau cadarn, diduedd a thryloyw a gynigir gan awdurdodau, llysoedd a thribiwnlysoedd annibynnol y DU oll yn ffactorau pwysig o ran atyniad y DU fel cyrchfan ar gyfer buddsoddiad. Mae'r CMA yn ceisio ymgorffori'r dull diduedd a thryloyw hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'n gweithgareddau a'n prosesau ymgynghori.

### Astudiaethau Achos – yr Economi: Cefnogi twf economaidd cynaliadwy

Mae strategaeth y CMA yn adlewyrchu ffocws cryf ar helpu'r DU i newid i economi Sero Net. Ynghyd â'r manteision cymdeithasol sy'n deillio o fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gallai'r broses o gyflawni Sero Net fod yn sail i drawsnewidiad systemig ym mron pob agwedd ar yr economi. Gallai economi werdd gynaliadwy ysgogi twf economaidd ac arloesedd technolegol sylweddol yn y degawdau i ddod, yn fyd-eang yn ogystal ag yn y DU. Mae'r CMA wedi datblygu ffrydiau gwaith arbenigol yn y maes hwn, gan feithrin sgiliau ac arbenigedd technegol, datblygu ymchwil fanwl, ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol (yn y llywodraeth a'r tu allan iddi) a defnyddio nifer o'n pwerau i gyflawni canlyniadau pendant.

### Astudiaeth achos – yr Economi: Canllawiau ar gytundebau gwyrdd

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf difrifol a systemig a wynebir gan ein heconomi a'n cymdeithas. Dyna pam mae'r CMA wedi blaenoriaethu camau gweithredu i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol a chyflymu newid y DU i economi Sero Net ynghynt. Gallai busnesau yn y DU gael effaith enfawr o ran mynd i'r afael â niweidiau amgylcheddol, gan ysgogi twf gwyrdd ac elwa arno ar yr un pryd. Fodd bynnag, dim ond os ymdrinnir â rhwystrau i weithredu fel y gellir manteisio ar gyfleoedd y bydd hyn yn digwydd.

Lle bynnag y bydd y CMA yn canfod cytundebau gwirioneddol wrthgystadleuol sy'n cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr a busnesau eraill sy'n bargeinio'n deg, byddwn bob amser yn defnyddio ein pwerau i orfodi cystadleuaeth i fynd i'r afael â nhw a'u hatal. Yn y cyd-destun amgylcheddol, gallai hyn gynnwys cytundebau rhwng busnesau i atal technolegau ac arferion busnes sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, er enghraifft, rhag cael eu datblygu neu eu mabwysiadu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd sefyllfaoedd lle y gallai fod angen i gystadleuwyr gydweithio er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, er enghraifft er mwyn graddol ddileu elfennau sy'n llygru o gadwyni cyflenwi, cynyddu'r galw er mwyn sicrhau arbedion maint neu ymchwilio i dechnolegau mwy cynaliadwy a'u datblygu. Yn wir, mae cydweithio rhwng diwydiannau yn debygol o fod yn arbennig o bwysig i gyflawni ymrwymiadau rhyngwladol cyfrwymol a rhwymedigaethau deddfwriaethol domestig y DU ac mae llawer o gydweithrediadau pro-amgylcheddol dilys y gall busnesau a diwydiannu ymgymryd â nhw heb dorri cyfraith cystadleuaeth.

Yn 2022, rhoddodd y CMA gyngor i'r llywodraeth ar gynaliadwyedd amgylcheddol, lle y nodwyd gennym fod busnesau am gael mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n gyfreithlon a'r hyn nad yw'n gyfreithlon wrth gydweithio yn y cyd-destun hwn. Clywsom gan rai busnesau y gall pryderon ynghylch gorfodi cyfraith cystadleuaeth eu hatal rhag cydweithio â busnesau eraill er budd yr amgylchedd. Felly, aeth y CMA ati i roi'r eglurder hwn i fusnesau sy'n awyddus i newid i arferion busnes mwy cynaliadwy, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydweithrediad dilys rhwng diwydiannau.

Er mwyn helpu i ymdrin â phryderon yn uniongyrchol, gwnaethom lansio ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd ym mis Hydref 2023. Lluniwyd y canllawiau hyn er mwyn rhoi cyngor i gwmnïau sy'n awyddus i gydweithredu er mwyn datblygu nodau amgylcheddol uchelgeisiol heb dorri'r gyfraith. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Canllawiau mor hygyrch a hawdd i'w deall â phosibl, gan gynnwys i fusnesau y gall fod ganddynt lai o brofiad o'r CMA ac o gyfraith cystadleuaeth yn fwy cyffredinol. Mae'r Canllawiau yn cynnwys enghreifftiau o rai o'r arferion sy'n debygol/annhebygol o fod yn dderbyniol, wedi'u nodi mewn tair prif adran:

- Enghreifftiau o gytundebau cynaliadwyedd amgylcheddol sy'n annhebygol o dorri cyfraith cystadleuaeth.
- Canllawiau ar gytundebau a allai godi pryderon ac, felly, y mae angen eu hystyried yn ofalus.
- Canllawiau ar gytundebau a allai fod yn gymwys i gael eu heithrio oherwydd y manteision amgylcheddol sy'n deilio ohonynt – a sut i asesu'r manteision hyn.

Rydym hefyd wedi rhoi 'polisi drws agored' ar waith, sy'n golygu y gall busnesau, sefydliadau anllywodraethol, cymdeithasau masnach ac elusennau gysylltu â'r CMA i gael cyngor anffurfiol ar gytundebau arfaethedig rhwng busnesau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae nifer o fusnesau a sefydliadau eraill wedi cysylltu â ni i weld a all y polisi drws agored eu helpu. Mae'r rhain wedi cynnwys amrywiaeth o fentrau posibl ym mhob rhan o'r economi sydd wedi peri, er enghraifft, i'r CMA gyhoeddi canllawiau anffurfiol i'r Sefydliad Masnach Deg (ym mis Tachwedd 2023) a WWF-UK (ym mis Mawrth 2024) – yr oedd y naill a'r llall yn ymwneud â mentrau cynaliadwyedd a oedd yn ymwneud â chynhyrchu a chyflenwi nwyddau groser. Drwy'r cyfuniad hwn o ganllawiau a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n gosod cynsail, mae'r CMA wedi sefydlu ei hun fel un o'r prif awdurdodau cystadleuaeth yn y byd o ran ystyried y rhyngweithio rhwng cyfraith cystadleuaeth, newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd.

### Astudiaeth achos – yr Economi: Honiadau gwyrdd camarweiniol

Mae rhaglen waith y CMA i fynd i'r afael â honiadau gwyrdd camarweiniol wedi helpu i sicrhau y gall defnyddwyr amgylcheddol ymwybodol gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau gwirioneddol gynaliadwy, yn ogystal ag ennyn ymddiriedaeth yn yr economi werdd. Yn ôl KPMG[12], dywed dau o bob tri defnyddiwr eu bod yn ceisio chwilio am opsiynau gwyrdd neu gynaliadwy ar gyfer rhai o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y maent yn eu prynu. Fodd bynnag, mae un o bob tri yn amau labeli gwyrdd a honiadau ynglŷn â chynaliadwyedd a dywed dros hanner y byddent yn rhoi'r gorau i brynu nwyddau gan gwmni y canfuwyd bod ei honiadau ynglŷn â chynaliadwyedd yn gamarweiniol. Mae'r data hyn, a chyfoeth o ddata tebyg, yn pwysleiso pa mor bwysig ydyw y gall pobl ymddiried yn yr honiadau y maent yn eu gweld a pheidio â chael eu camarwain i brynu eitemau yr honnir, drwy dwyll, eu bod yn ecogyfeillgar. Mae gwaith y CMA yn helpu i ennyn yr ymddiriedaeth hon ac yn gweithredu fel cymhelliant i fusnesau wella eu harferion. Mae ein hymdrechion eleni wedi rhychwantu amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys ffasiwn, nwyddau defnyddwyr a werthir yn gyflym a'r sector gwresogi gwyrdd.

[12] KPMG (2023), Over half of UK consumers prepared to boycott brands over misleading green claims

Yn y sector ffasiwn, mae gweithgareddau'r CMA wedi arwain at drobwynt i'r diwydiant. Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom sicrhau ymrwymiadau nodedig gan dri brand blaenllaw, sef ASOS, Boohoo a George at Asda – sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud elw o fwy na £4.4bn y flwyddyn o werthiannau ffasiwn. Mae'r ymrwymiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau newid y ffordd y maent yn arddangos, yn disgrifio ac yn hyrwyddo eu rhinweddau gwyrdd. Mae hyn yn golygu y gall miliynau o gwsmeriaid ddisgwyl gweld honiadau gwyrdd clir a chywir, yn ogystal â gosod meincnod ar gyfer y ffordd y dylai manwerthwyr fod yn marchnata eu cynhyrchion. Mae'n ofynnol i'r tri chwmni gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r CMA ar eu cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau. Yn sgil hyn, rydym wedi anfon llythyr agored at fanwerthwyr eraill yn y sector, gan eu hannog i adolygu eu honiadau a'u harferion eu hunain.

Ym mis Rhagfyr 2023, lansiodd y CMA ymchwiliad i honiadau a allai fod yn gamarweiniol a wnaed gan Unilever mewn perthynas â nwyddau defnyddwyr a werthir yn gyflym, yn dilyn adolygiad eang ei gwmpas o gydymffurfiaeth gan gwmnïau yn y sector. Mae nwyddau defnyddwyr a werthir yn gyflym yn eitemau hanfodol y mae pobl yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu hailbrynu'n rheolaidd, gyda siopwyr yn gwario tua £140bn arnynt bob blwyddyn. Maent yn cynnwys bwyd a diod, cynhyrchion glanhau, nwyddau ymolchi ac eitemau gofal personol. Mae'r CMA yn pryderu y gall Unilever fod yn gorddatgan pa mor wyrdd yw rhai o'r cynhyrchion hyn drwy ddefnyddio honiadau amwys a chyffredinol, datganiadau aneglur ynghylch ailgylchadwyedd a lluniau a logos 'naturiol' yr olwg. Rydym yn dadansoddi'r honiadau hyn yn fanwl er mwyn asesu a oes unrhyw dystiolaeth o wyrddgalchu a byddwn yn cymryd camau cadarn ar unwaith i ddiogelu defnyddwyr lle y bo angen.

Rydym hefyd yn craffu ar y sector gwresogi ac inswleiddio gwyrdd. Ar sail cais cychwynnol am wybodaeth, a oedd yn gofyn am farn defnyddwyr a busnesau, gwnaethom gyhoeddi adroddiad canfyddiadau ym mis Mai 2023 ar ddiogelu defnyddwyr yn y sector. Nododd yr adroddiad hwn y gall pobl sy'n awyddus i brynu technolegau gwresogi 'cartref gwyrdd' – megis paneli solar a phympiau gwres – ei chael hi'n anodd dod o hyd i ffynonellau dibynadwy o gyngor ac nad ydynt yn cael eu trin yn deg gan fusnesau bob amser. Roedd y meysydd a oedd yn peri pryder a nodwyd gennym yn cynwys arferion a allai fod yn gamarweiniol ac annheg ar ran busnesau – gan gynnwys mewn perthynas â boeleri. Gan adeiladu ar y canfyddiadau hyn, gwnaethom lansio ymchwiliad i Worcester Bosch ym mis Hydref 2023 ynghylch honiadau marchnata a allai fod yn gamarweiniol a allai wneud i siopwyr feddwl bod eu boeleri cartref 'parod ar gyfer cymysgedd hydrogen' yn fwy ecogyfeillgar nag ydynt mewn gwirionedd. Ar ôl anfon llythyrau rhybudd i 12 o fusnesau eraill a oedd yn cymryd rhan mewn arferion tebyg, rydym hefyd wedi ysgrifennu i Worcester Bosch yn nodi ein pryderon. Mae hyn yn rhoi cyfle i Worcester Bosch ddilyn esiampl y brandiau ffasiwn a fu'n destun camau gweithredu

gan y CMA, drwy lofnodi ymrwymiadau i ymdrin â'n pryderon yn ffurfiol a newid eu harferion marchnata.

### Maes Ffocws – yr Economi: Gweithredu mewn marchnadoedd presennol a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy. Gwneud gwaith pellach ar honiadau gwyrdd ac ar effeithlonrwydd ynni

Mae'r CMA wedi canolbwyntio'n helaeth ar sicrhau bod marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy yn gweithio'n dda i bobl a busnesau, gan gefnogi twf yr economi werdd yn y pen draw. Fel yr amlinellwyd uchod, rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â honiadau gwyrdd camarweiniol, gan feddwl yn ofalus ac yn greadigol am sut y gall polisi cystadleuaeth gefnogi, yn hytrach na rhwystro, dwf gwyrdd drwy ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd, y gwnaethom ei lansio ym mis Hydref 2023.

Rydym hefyd yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg a chael gafael ar nwyddau a gwasanaethau gwirioneddol gynaliadwy yn y sector gwresogi gwyrdd a'r sector ynni effeithlonrwydd. Fel rhan o'n hadroddiad ar ddiogelu cwsmeriaid yn y sector gwresogi gwyrdd ac inswleiddio (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023), gwnaethom edrych ar daith nodweddiadol defnyddiwr ar gyfer rhywun sy'n awyddus i inswleiddio ei gartref neu brynu technoleg gwresogi gwyrdd newydd. Gwnaethom nodi nifer o bwyntiau hollbwysig lle roedd risg y byddai defnyddwyr yn rhoi'r gorau i brynu nwyddau/gwasanaethau oherwydd diffyg gwybodaeth glir, tirwedd safonau gymhleth neu honiadau a allai fod yn gamarweiniol gan fusnesau. Arweiniodd y canfyddiadau hyn, yn y pen draw, at gamau gorfodi yn erbyn Worcester Bosch mewn perthynas â honiadau marchnata a allai fod yn gamarweiniol.

Roedd yr adroddiad hwn hefyd wedi sbarduno rhagor o waith i wella taith y prynwr a nodwyd a chynyddu hyder defnyddwyr. Ar gyfer defnyddwyr, gwnaethom lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth gydag ‘awgrymiadau defnyddiol’, yn ogystal â chanllaw mwy manwl sy'n nodi ystyriaethau allweddol i bobl ar bob cam o'r broses brynu ac amlinelliad o'u hawliau o dan gyfraith diogelu defnyddwyr. Gwnaethom helpu busnesau i ddeall a chyflawni eu rhwymedigaethau yn well drwy ymgynghori ar gyngor drafft ar gydymffurfiaeth ar gyfer marchnata cynhyrchion gwresogi gwyrdd. Gan nodi rôl bwysig cyrff sicrhau ansawdd, gwnaethom hefyd gyhoeddi set o egwyddorion arfer da i gyrff sicrhau ansawdd er mwyn codi safonau yn y sector. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy effeithiol wrth fuddsoddi mewn systemau gwresogi cartref gwyrddach, gan wella eu gallu i ddefnyddio eu grym gwario i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Eleni, gwelwyd cam arall ymlaen i ddefnyddwyr sydd am ddefnyddio ffynonellau ynni mwy ecogyfeillgar drwy roi argymhellion o astudiaeth y CMA o'r farchnad rhwydweithiau gwres, a gynhaliwyd yn 2017, ar waith. Bydd Deddf Ynni 2023 (a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Hydref) yn helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn

cael budd o weithgarwch rheoleiddio rhwydweithiau gwres sy'n cyflenwi gwres a dŵr poeth i gartrefi o ffynhonnell ganolog drwy bibellau wedi'u hinswleiddio, yn yr un ffordd ag ar gyfer cyfleustodau eraill.

### Maes Ffocws – yr Economi: Nodi'r meysydd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant a gweithredu yn y meysydd hynny, a dylanwadu ar ddatblygiad pro-gystadleuol marchnadoedd

Mae ysgogi arloesedd a chynhyrchiant yn rhan annatod o lawer o feysydd gwaith y CMA, fel y dangosir gan wahanol ffrydiau gwaith o'r flwyddyn hon. Mae rheoli prosesau uno yn effeithiol, yn arbennig mewn sectorau dynamig, yn helpu i sicrhau bod marchnadoedd yn parhau'n agored i gystadleuaeth ac y gall herwyr arloesol a chwmnïau newydd ymuno â nhw. Mae gwaith ymchwil a chynghori sy'n arwain y diwydiant gan yr Uned Micro-economeg (gweler y proffil perthnasol isod) yn galluogi'r CMA i ddarparu gwybodaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau economaidd dybryd fel y ‘pysl cynhyrchiant’. Bwriedir i'n hymdrechion i lywio'r farchnad hollbwysig sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Modelau Sylfaen eleni (gweler yr astudiaeth achos o Fodelau Sylfaen uchod) ryddhau manteision llawn marchnad sy'n seiliedig i raddau helaeth iawn ar arloesedd gydag effeithiau a allai fod yn bellgyrhaeddol ar gynhyrchiant, na chânt eu gwireddu'n llawn oni fydd yn datblygu i gyfeiriad pro-gystadleuol.

Un o feysydd gwaith pwysicaf y CMA mewn perthynas ag arloesedd eleni oedd lansio ein hymchwiliad i'r farchnad i wasanaethau seilwaith cwmwl ym mis Hydref 2023, ar ôl i'r farchnad gael ei hatgyfeirio atom gan Ofcom. Mae gwasanaethau cwmwl yn rhoi mynediad i fusnesau at adnoddau cyfrifiadurol graddadwy ar gais. Mae hyn yn fwyfwy hanfodol i lawer o fusnesau digidol, ond yn enwedig busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu sy'n awyddus i ddatblygu a chyflwyno cynhyrchion arloesol yn gyflym heb wario symiau sylweddol o arian ymlaen llaw ar seilwaith TG. Mae gwasanaethau cwmwl hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi twf nifer o sectorau a thechnolegau newydd sy'n bwysig yn strategol, megis deallusrwydd artiffisial, dadansoddeg data, y Rhyngrwyd Pethau a chyfrifiadura ymyl. Mae'r farchnad hollbwysig hon sy'n tyfu'n gyflym yn werth £7.5bn i'r DU heddiw a disgwylir iddi fod yn sail i dwf sylweddol wedi'i alluogi'n ddigidol yn yr economi ehangach.

Penodwyd aelodau o Banel annibynnol y CMA, fel sy'n briodol, i grŵp ymchwilio i weithredu fel gwneuthurwyr penderfyniadau yn yr ymchwiliad i'r farchnad. Mae'r Panel yn ystyried, ymhlith pethau eraill, a yw rhwystrau technegol a ffioedd trosglwyddo penodol yn ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr newid darparwyr neu ddefnyddio sawl darparwr, a hynny'n ddiangen. Mae hefyd yn ystyried a yw arferion trwyddedu meddalwedd yn cyfyngu ar ddewis cwsmeriaid ac yn atal cystadleuaeth effeithiol ac a yw'r ffordd y mae cytundebau gwariant ymrwymedig yn cael eu strwythuro yn cynyddu rhwystrau i ymuno â'r farchnad. Er nad yw ein hymchwiliad wedi'i gwblhau eto, rydym wedi ymgynghori ar ddatganiad o faterion sy'n amlinellu

damcaniaethau niwed cychwynnol yn ogystal â rhwymedïau posibl. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r set gyntaf o bapurau gwaith, sy'n galluogi partïon â diddordeb i gyflwyno eu barn ac unrhyw dystiolaeth berthnasol. Drwy ystyried rhwystrau posibl i gystadleuaeth yn y farchnad hon a'r ymyriadau a allai wella'r cyflenwad o'r gwasanaethau pwysig hyn yn ofalus, gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol i economi'r DU ac i fusnesau sy'n dibynnu ar wasanaethau cwmwl i arloesi, lleihau costau, dod yn fwy cynhyrchiol a pharhau'n gystadleuol drwy addasu'n gyflym i ofynion y farchnad.

### Maes Ffocws – yr Economi: Sicrhau bod marchnadoedd digidol yn gystadleuol, gan gynnwys trwy baratoi ar gyfer cyflwyno pwerau statudol newydd i'r CMA

Er bod marchnadoedd digidol wedi sicrhau manteision sylweddol i economi'r DU, gallai'r ffaith bod grym y farchnad wedi'i grynhoi yn nwylo nifer bach o gwmnïau technoleg mewn gwahanol farchnadoedd digidol atal y canlyniadau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, gwyddom o'n gweithgarwch ymgysylltu â chwmnïau technoleg (mawr a bach), mewn rhai achosion, fod cwmnïau yn ymatal rhag gwneud buddsoddiadau oherwydd ymddygiad rhai cwmnïau pwerus. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial marchnadoedd digidol i ysgogi twf economaidd, dylid rhoi cyfle teg i gwmnïau newydd ymuno â'r farchnad, gan ddal i fyny â safleoedd sefydledig y cwmnïau digidol mawr a welir heddiw ac, o bosibl, ddisodli'r cwmnïau hynny. Dyma sail y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, a fydd yn helpu defnyddwyr a busnesau ledled y DU i fanteisio ar wasanaethau newydd a chael bargeinion gwell, yn ogystal ag agor y drws i gyfnod newydd o fuddsoddi mewn marchnadoedd digidol.

Mae'r CMA wedi datblygu gwaith helaeth eleni i roi'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd ar waith, a fydd yn cynnwys ein swyddogaethau digidol newydd. Rydym wedi cefnogi llywodraeth y DU wrth i ddeddfwriaeth Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr fynd drwy'r Senedd ac rydym wedi datblygu paratoadau mewnol dwys, gan greu tîm ystwyth o tua 200 o bobl sy'n gweithio ar draws ein swyddogaethau digidol erbyn i'r gyfundrefn gychwyn. Ym mis Ionawr 2024, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o'n dull amodol o roi'r gyfundrefn newydd ar waith ac rydym wedi datblygu canllawiau manylach i ymgynghori arnynt gan fod deddfwriaeth bellach wedi'i deddfu. Rydym hefyd wedi rhoi ein hymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus ac yn adeiladol â rhanddeiliaid ar waith drwy fwrw ymlaen â rhaglen uchelgeisiol o tua 230 o gyfarfodydd a gweithgareddau ymgysylltu ym mhob rhan o'r ecosystem (gan gynnwys, ymhlith eraill, gwmnïau a allai gael eu dynodi'n gwmnïau â Statws Marchnad Strategol yn y dyfodol).

Nid yw'r paratoadau hyn wedi amharu ar y defnydd cyson o'n pwerau presennol i ymchwilio i faterion a allai fod yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol a mynd i'r afael â nhw. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi

gwneud defnydd llawn o'n hadnoddau ac wedi cymryd camau mewn sawl maes o gemau cwmwl a gwasanaethau cwmwl i blatfformau manwerthu ar-lein, a phorwyr symudol.

Er mwyn arfer ein cyfrifoldebau newydd yn effeithiol, mae'r CMA yn ymwybodol o'r angen i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn marchnadoedd digidol sy'n newid yn gyflym. Rydym yn gwbl ymrwymedig i ddeall nid yn unig y technolegau a'r marchnadoedd presennol ond hefyd syniadaeth ynglŷn â'r rhai a allai ddod i'r amlwg yn y dyfodol. Rydym wedi creu swyddogaeth Sganio Gorwel Technoleg, a arweinir ar y cyd gan yr Uned Marchnadoedd Digidol a'n Huned Data, Technoleg a Dadansoddeg. Adroddiad eang ei gwmpas a ddadansoddodd ddatblygiadau posibl yn y dyfodol ac effeithiau 10 tuedd ddigidol ar gystadleuaeth a defnyddwyr oedd cyhoeddiad cyntaf y swyddogaeth hon ym mis Rhagfyr 2023 (a fanteisiodd ar arbenigedd Grŵp Arbenigwyr Digidol y CMA).

Mae'r CMA wedi parhau i gyfrannu dull cydlynol o reoleiddio marchnadoedd digidol fel un o aelodau sylfaenol y Fforwm Cydweithredu Rheoleiddio Digidol, sy'n dwyn ynghyd y CMA, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom. Drwy ei aelodaeth o'r Fforwm Cydweithredu Rheoleiddio Digidol, mae'r CMA wedi ceisio mynd i'r afael â'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â rheoleiddio platfformau digidol mewn ffordd gydgysylltiedig, gan gyfrannu at gyhoeddiadau ar bynciau megis algorithmau, cwantwm a thechnolegau trochol. Rydym hefyd yn helpu cwmnïau technoleg yn y DU i gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd i'r farchnad ynghynt drwy'r Hwb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol a lansiwyd yn ddiweddar. Mae'r gwasanaeth cynghori anffurfiol, arbenigol hwn yn siop un stop, drwy wefan y Fforwm Cydweithredu Rheoleiddio Digidol, i arloeswyr â chwestiynau trawsreoleiddiol cymhleth. Drwy gynnig proses symlach i fusnesau, ein nod yw helpu i ddatgloi arloesedd yn y sector technoleg a chyfrannu at dwf economaidd yn y DU.

### Maes Ffocws – yr Economi: Nodi risgiau economaidd y mae'r CMA mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nhw er mwyn cefnogi cadernid economi'r DU

I ddechrau, bwriadwyd i'r maes ffocws hwn i'r CMA helpu i gefnogi cadernid marchnadoedd allweddol yn sgil pandemig COVID-19. Wrth i natur yr heriau a wynebir gan economi'r DU newid, rydym ninnau wedi newid ein ffocws er mwyn mynd i'r afael â risgiau economaidd eraill. Gwnaethom gymryd camau i fynd i'r afael â'r risgiau sylweddol i'r llywodraeth, trethdalwyr a'r economi ehangach a gododd o ganlyniad i effeithiau monopoli digyfyngiad bron Motorola ar y rhwydwaith radio symudol a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys i gyfathrebu'n ddiogel. Oherwydd y monopoli hwn, roedd Motorola yn codi ffioedd rhy uchel o tua £200m y flwyddyn, sy'n dangos yr effeithiau negyddol a all godi pan fydd marchnadoedd ar gau i gystadleuaeth - gyda diffyg tensiwn cystadleuol yn arwain at lai o ddewis a phrisiau uwch, yn yr achos hwn gyda'r baich yn cael ei ysgwyddo gan drethdalwyr y DU.

Cymerodd y CMA gamau gweithredu ym mis Ebrill 2023 er mwyn gostwng prisiau i lefel a fyddai'n gymwys mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithio'n dda drwy gyflwyno system rheoli ffioedd, gan argymell y dylai llywodraeth y DU roi cynllun ar waith er mwyn sicrhau y caiff prisiau eu pennu'n gystadleuol pan ddaw'r system rheoli ffioedd i ben.

Mae'r CMA hefyd wedi meithrin cadernid yn y sector hedfan eleni, drwy arfer ein swyddogaeth fel y corff apelio ar gyfer penderfyniadau penodol a wneir gan reoleiddwyr eraill. Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi ein dyfarniad ar benderfyniad rheoli prisiau a wnaed gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn dilyn apeliadau gan Faes Awyr Heathrow a thri chwmni awyrennau, a oedd yn adlewyrchu effaith pandemig COVID-19 ar y sector cludiant awyr. Bydd y dyfarniad hwn, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Hedfan Sifil ailystyried tair rhan o'i benderfyniad, yn helpu i sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei gynnal rhwng prisiau fforddiadwy i deithwyr ac annog buddsoddi yn y maes awyr. Er bod cysylltedd awyr yn bwysig i ysgogi twf, mae i hyn fanteision ehangach i economi'r DU.

### Maes Ffocws – yr Economi: Rhoi cyngor i lywodraethau i gefnogi prosesau masnachu effeithiol rhwng gwledydd y DU drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a gweithredu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau fel rhan o'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau domestig newydd

Wrth i'r CMA gael mwy o gyfrifoldeb a swyddogaethau newydd dros y 10 mlynedd diwethaf, rydym wedi meithrin arbenigedd a dealltwriaeth werthfawr y tu hwnt i'n cymwyseddau craidd gwreiddiol. Fel y nodir gennym yn ein hastudiaeth achos derfynol isod, mae Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau y CMA wedi chwarae rhan bwysig yn ei blwyddyn weithredu lawn gyntaf fel rhan o gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU. Yn ogystal â bwrw ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer monitro gweithrediad effeithiol y gyfundrefn ac adrodd arno, mae wedi rhoi cyngor i awdurdodau cyhoeddus ar gymorthdaliadau a chynlluniau cymorthdaliadau sy'n bodloni meini prawf penodol a nodir mewn deddfwriaeth.

Hefyd, drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, rydym bellach yn cefnogi masnachu effeithiol yn y DU drwy ddarparu gwybodaeth bwysig i lunwyr polisi am ffyrdd o leihau unrhyw effeithiau negyddol y mae prosesau llunio polisi yn eu cael ar fasnach o fewn y DU. Mae'r fasnach hon, sy'n werth tua £190bn y flwyddyn, yn hanfodol i ffyniant economaidd y DU. Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn defnyddio arbenigedd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol, sef grŵp annibynnol o arbenigwyr o bob rhan o'r DU a benodwyd ym mis Tachwedd 2023, sy'n ei helpu i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn ei Hadroddiad Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.

### Astudiaeth achos – yr Economi: yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau

Daeth Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau y CMA yn weithredol ym mis Ionawr 2023 ac mae'n chwarae rôl bwysig yng nghyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU (sy'n rheoli'r ffordd y darperir cymorth ariannol), yn ogystal â monitro effeithiolrwydd y gyfundrefn ei hun.

Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn rhoi cyngor annibynnol anghyfrwymol, o dan amgylchiadau penodol, i awdurdodau cyhoeddus, megis adrannau'r llywodraeth neu gynghorau lleol, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau effeithiol ynghylch y cymorthdaliadau y maent yn eu rhoi. Gall cymorthdaliadau i fusnesau gynnwys grantiau, benthyciadau neu fanteision o ran treth er mwyn cyflawni amcanion polisi cyhoeddus.

Fel arfer, mae a wnelo cyngor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau â chymorthdaliadau â'r gwerth uchaf, neu gymorthdaliadau sy'n bodloni meini prawf eraill a nodir mewn deddfwriaeth ac mae'n gwerthuso'r asesiadau o gydymffurfiaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus eu cynnal yn erbyn yr Egwyddorion Rheoli Cymorthdaliadau a nodir yn y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch cymorthdaliadau, yn rhoi cymorthdaliadau mewn ffordd sy'n osgoi ystumio cystadleuaeth.

Yn 2023/24, rhoddodd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gyngor helaeth i awdurdodau cyhoeddus ym mhob un o bedair gwlad y DU, gan gynnwys adrannau llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o gyrff rhanbarthol, gan gyhoeddi cyfanswm o 35 o adroddiadau, y cwblhawyd pob un ohonynt heb estyniadau i'r terfyn amser statudol o 30 diwrnod gwaith. Roedd pob un o adroddiadau'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau eleni yn ymwneud â chymorthdaliadau a chynlluniau a oedd y cyrraedd y trothwy i gael eu hatgyferio'n orfodol at yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a nodir mewn deddfwriaeth (heb unrhyw adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar gymorthdaliadau a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad gwirfoddol). Maent yn rhychwantu'r ystod lawn o weithgarwch economaidd a pholisi'r llywodraeth – o gefnogi Sero Net i wahanol fentrau ynni gwyrdd, gan ysgogi buddsoddi mewn gweithgynhyrchu a datblygu rhanbarthol mewn lleoliadau o Ucheldiroedd yr Alban i Orllewin Canolbarth Lloegr, a datblygu amcanion polisi cymdeithasol megis trafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddol twristiaeth a'r celfyddydau a darparu tai cymdeithasol.

Yn y cyfamser, datblygodd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gynigion hefyd ar gyfer ei swyddogaeth fonitro statudol, gan ymgynghori ar y cynigion hyn ym mis Chwefror 2024. Wrth ymgymryd â'r swyddogaeth hon, bydd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn adrodd yn rheolaidd ar ba mor effeithiol y mae'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn cael ei gweithredu a'i heffaith ar gystadleuaeth a

buddsoddi yn y DU. Fel asesiad annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bydd hyn yn helpu'r llywodraeth i sicrhau bod y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau yn cyflawni ei hamcanion.

### Proffil yr economi: yr Uned Micro-economeg

Mae'r Uned Micro-economeg, a sefydlwyd o fewn y CMA yn 2022 fel 'chwaer ficro-economaidd' swyddogaeth ymchwil facro-economaidd Banc Lloegr, yn dwyn ynghyd arbenigedd dwfn a thechnegau arloesol er mwyn datblygu gwaith ymchwil a dadansoddi i gefnogi economi gadarn a ffyniannus yn y DU. Mae'r Uned Micro-economeg wedi'i lleoli ar Gampws Economeg y llywodraeth yn Darlington ac mae'n gweithio mewn cydweithrediad gweithredol gyda phob rhan o'r gymuned ymchwil ac academaidd, gan gynnwys partneriaeth gynhyrchiol iawn â Phrifysgol Durham.

Mae'r Uned Micro-economeg yn helpu i sicrhau bod y CMA yn cadw i fyny â materion sy'n dod i'r amlwg a'r dulliau diweddaraf ym maes economeg ddiwydiannol, gan ein helpu i ddatblygu'r gwaith dadansoddi a wneir yn ein gwaith achos craidd. Mae'r Uned hefyd yn gweithredu fel canolfan gydweithredol annibynnol a mynediad agored o arbenigedd ym maes ymchwil ficro-economaidd ar gyfer y llywodraeth yn fwy cyffredinol, gan ganolbwyntio ar feysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw ar fyrder, megis y 'pysl cynhyrchiant' a wynebir gan y DU yn debyg i lawer o economïau datblygedig eraill, yn ogystal â nodi cyfleoedd posibl ar gyfer twf.

Lansiodd yr Uned Micro-economeg ei hadroddiad blaenllaw cyntaf, sef 'Competition and Market Power in UK Labour Markets', ym mis Ionawr 2024. Mae'r ymchwil newydd bwysig hon (sy'n cynnwys gwaith ymchwil cwbl arloesol) yn ategu ac yn datblygu'r corff cadarn o dystiolaeth am fanteision marchnadoedd llafur sy'n gweithio'n dda, y cydnabyddir yn eang eu bod yn bwysig i ysgogi twf economaidd a chynyddu cynhyrchiant. Lle mae marchnadoedd llafur yn gweithio'n dda, gall gweithwyr gael y swyddi cywir iddyn nhw a gall cwmnïau ddod o hyd i'r gweithwyr sydd eu hangen arnynt yn ffordd hawsaf a mwyaf effeithlon. Mae'r swm y gall pob gweithiwr ei gynhyrchu yn cynyddu, mae gweithwyr mwy addas yn cyfrannu mwy mewn awr benodol sydd, yn ei dro, yn cynyddu refeniw a chyflogau, gan helpu i gynyddu cyfranogiad a thyfu'r economi. Felly, mae sicrhau bod marchnad lafur y DU yn gweithio'n dda i bawb o fudd i weithwyr, cwmnïau a llywodraethau fel ei gilydd. Mae sawl maes ymchwil addawol bellach yn cael ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid niferus yr Uned Micro-economeg o fewn y llywodraeth a'r tu allan iddi. Tynnodd yr ymchwil hon sylw hefyd at bwysigrwydd y camau gorfodi cystadleuaeth cadarn i fynd i'r afael ag achosion a amheuir o gydgynllwynio anghyfreithlon a allai danseilio gweithrediad effeithiol marchnadoedd llafur, yr ydym yn eu disgrifio'n fanylach uchod.

Mae'r Uned Micro-economeg hefyd yn monitro'r sefyllfa o ran cystadleuaeth yn economi'r DU. Yn ystod 2023/24, mae'r Uned wedi gweithio tuag at y sail dystiolaeth ar gyfer trydydd adroddiad y CMA ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth, a gaiff ei

gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2024. Bydd gwybodaeth o'r gwaith dadansoddi arbenigol hwn, yn ogystal â rhaglen waith arfaethedig ehangach yr Uned Micro-economeg yn y flwyddyn sydd i ddod, yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a datgloi atebion i heriau systemig y mae economi'r DU yn eu hwynebu.

## Galluogwyr craidd y CMA

Mae'r CMA yn ymrwymedig i wella ein perfformiad a'n cynhyrchiant yn barhaus er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i ni yn cael yr effaith fwyaf posibl i bobl, busnesau ac economi'r DU.

Rydym yn gwneud cynnydd ardderchog yn erbyn nifer o raglenni newid mewnol amlflwyddyn sy'n meithrin gallu, yn ysgogi effeithlonrwydd ac yn gwella tryloywder y CMA a'n gwaith. Mae a wnelo'r rhaglenni hyn â'r Galluogwyr Craidd yn ein fframwaith strategol sydd, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod y CMA yn addas at y dyfodol wrth i ni ddechrau ar ein hail ddegawd o gyflawni.

**Addasu ein model busnes.** Mae'r CMA wedi dod yn fwy dynamig drwy gyflwyno mentrau mewnol er mwyn galluogi mwy o hyblygrwydd ar gyfer prosiectau staffio. Mae'r rhain yn cynnwys ein model ‘prif faes/is-faes’ lle mae staff yn treulio llawer o'u hamser mewn maes arbenigol ‘cartref’, yn ogystal â chael cyfle i weithio mewn is-faes ar wahân. Mae hyn yn darparu ar gyfer defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy ystwyth i gyflawni prosiectau ac yn helpu staff i feithrin profiad a sgiliau ehangach.

Rydym wedi cyflwyno adnoddau a phrosesau newydd sy'n sail i waith blaenoriaethu effeithiol ac sy'n helpu i sicrhau y caiff strategaeth y CMA ei hintegreiddio'n llawn yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Mae cyflwyno Pwyllgor Adnoddau, Prosiectau Arfaethedig a Chynllunio wedi sicrhau llawer mwy o eglurder a chysondeb o ran y ffordd rydym yn dewis ac yn blaenoriaethu ein gwaith dewisol ac mae ein Hegwyddorion Blaenoriaethu wedi'u diweddaru (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023 ar ôl ymgynghori) yn sicrhau tryloywder o ran y ffactorau y mae'r CMA yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylem gymryd unrhyw gamau.

Rhan o'r broses o addasu ein model busnes yw cydnabod pwysigrwydd defnyddio ecosystem ehangach o arbenigedd allanol er mwyn sicrhau bod gwaith y CMA bob amser yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth gadarn. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar raddfa fwy ac ehangach nag erioed o'r blaen. Rydym hefyd yn manteisio ar gydberthnasau penodol ag arbenigwyr allanol, er enghraifft partneriaeth yr Uned Micro-economeg â Phrifysgol Durham a Grŵp Arbenigwyr Digidol y CMA y mae eu cynghorwyr annibynnol yn cefnogi ein marchnadoedd digidol, yn ogystal â'r gwaith paratoi ar gyfer y gyfundrefn ddigidol newydd.

**Meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hollbwysig.** Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn meithrin ein galluoedd digidol a'n galluoedd o ran deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ymhellach. Ar lefel systemau, rydym wedi llwyddo i gyflwyno

saernïaethau a gwasanaethau mentrau cwmwl preifat a chyhoeddus, ynghyd â strategaeth cyfrifiadura defnyddwyr terfynol diogel a modern. Mae hyn yn ein galluogi i symleiddio prosesau, gwella graddadwyedd ac atgyfnerthu diogelwch data. Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer rhaglen fawr i foderneiddio ein prosesau adnoddau dynol, cyllid a chaffael drwy gyflwyno system Cynllunio Adnoddau Menter (ERP) newydd, a fydd yn helpu i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y CMA, gan gynnwys drwy ddefnyddio data yn fwy effeithiol.

Drwy ein Rhaglen Drawsnewid Ddigidol, rydym yn gwerthuso'r potensial ar gyfer mwy o awtomeiddio, ailbeiriannu prosesau a'r gallu i fanteisio ar adnoddau a thechnolegau newydd gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial mewn llawer o'n meysydd gwaith - o achosion defnydd penodol ar waith achos, gan gynnwys dadansoddi, creu tystiolaeth ac adolygu dogfennau cyfreithiol, i ffocws mwy cyffredinol ar gynhyrchiant ym mhob rhan o'r sefydliad yn gyffredinol. Rydym yn bwrw ymlaen â rhaglen o gynlluniau Deallusrwydd Artiffisial peilot a ystyriwyd yn ofalus ac a reolir yn ganolog, a ddefnyddir mewn amgylchedd diogel, er mwyn profi galluoedd rhai o'r Modelau Iaith Mawr mwyaf yn ein meysydd gwaith.

Mae'r gwaith o roi ein Rhaglen Drawsnewid Ddigidol ar waith yn adeiladu ar lwyddiant y CMA i sefydlu'r Uned DaTa, sy'n wedi tyfu'n sylweddol eleni ac sydd bellach yn swyddogaeth drawsddisgyblaethol iawn ag arbenigedd ym meysydd technoleg, gwyddor data, peirianneg data, gwyddor ymddygiadol, eDdarganfod a Fforenseg Ddigidol, yn ogystal â Labordy Rhyngrwyd cudd. Defnyddir y setiau sgiliau a'r asedau technegol hyn ar draws portffolio llawn y CMA, gan gynhyrchu gwybodaeth, gwaith dadansoddi a thystiolaeth ar achosion sy'n amserol ac yn gadarn – gan gynnwys ar bob achos digidol mawr – a llywio gwaith thematig, rhagweithiol mewn meysydd fel Saernïaeth Dewis Ar-lein a Modelau Sylfaen. Mae'r galluoedd hyn yn ein galluogi i ymyrryd yn effeithiol drwy gadw i fyny â newid technegol nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, gan gynnwys defnydd cynyddol o ddata ac algorithmau sy'n drawsnewid modelau busnes ar draws sectorau.

Y tu hwnt i hyn, mae'r CMA yn atgyfnerthu galluoedd hollbwysig mewn sawl maes. Rydym yn parhau i feithrin arbenigedd yn yr Uned Marchnadoedd Digidol, gyda staff yn gweithio ar nifer o brosiectau'r CMA y llynedd er mwyn paratoi ar gyfer cyflawni rhag-brosiectau rheoleiddio newydd. Rydym hefyd yn graddol feithrin arbenigedd ym meysydd strategaeth a'r dyfodol ac yn ei integreiddio yn y gwaith o ddatblygu ein fframwaith strategol ehangach, gan gynnwys buddsoddi yn ein gallu i nodi a monitro macrodueddiadau yn ein hamgylchedd allanol ac ymateb iddynt. Rydym yn hybu rhai galluoedd hanfodol sydd wedi bod yn gonglfaen i'n pecyn adnoddau ers peth amser, megis ein gallu i ddarparu cyngor a gwasanaeth eirioli effeithiol i'r llywodraeth, gan gynnwys drwy greu swyddogaeth Polisi Cyhoeddus newydd.

At hynny, yn ddiweddar gwnaethom greu Cyfarwyddiaeth Diogelu Defnyddwyr a Marchnadoedd cyfunol. Mae gwaith y timau yn gydategol i raddau helaeth ac mae prosiectau diweddar y CMA yn aml wedi cynnwys gorfodi cyfraith diogelu

defnyddwyr a gwaith cyfochrog ar farchnadoedd er mwyn ystyried materion dyfnach a all fod yn atal marchnadoedd rhag gweithio'n dda i ddefnyddwyr a busnesau cyfrifol.  Drwy ddod â'r gwaith hwn yn agosach at ei gilydd ac ystyried marchnadoedd ac pryderon ynghylch diogelu defnyddwyr yn holistaidd, rydym yn gobeitihio cael hyd yn oed mwy o effaith. Bydd y Gyfarwyddiaeth hefyd yn cynnwys swyddogaeth Apeliadau Rheoleiddiol y CMA a bydd yn gyfrifol am fonitro a gorfodi rhwymedïau.

Felly, y Gyfarwyddiaeth fydd yn gyfrifol am y rhaglen waith i fireinio'r ffordd rydym yn llunio, yn gweithredu ac yn monitro rhwymedïau yn ein hymchwiliadau i farchnadoedd yn dilyn yr adolygiad ‘gwersi a ddysgwyd’ o Fancio Agored a arweiniwyd gan Kirston Baker. Mae llawer o'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad hwn eisoes wedi'u dangos yn ein dull o weithredu'r system rheoli ffioedd ar Motorola (a nodwyd gennym uchod). Er enghraifft, gwnaethom sicrhau trefniadau llywodraethu mewnol cadarn drwy roi Grŵp Llywio ar waith, gan sefydlu system effeithiol ar gyfer rheoli risg a goruchwylio'r ffordd y rhoddir rhwymedïau ar waith. Ystyriodd y CMA gwestiynau ynglŷn â gweithredu yn ystod y cam llunio rhwymedïau, gan ymgorffori llwybrau at y broses cyflawni a gweithredu drwy gymal ynglŷn ag adolygiad tymor canolig yn y Gorchymyn cyfreithiol a oedd yn gweithredu'r system rheoli ffioedd. Yn yr un modd, rydym wedi rhoi trefniadau llywodraethu gwell ar waith ar gyfer rhwymedïau mewn marchnadoedd nwyddau groser, gofal iechyd preifat ac angladdau, ac rydym yn parhau i ymgorffori argymhellion Kirstin Baker yn ein portffolio ehangach o rwymedïau. Bydd y CMA yn bwrw ymlaen â gwerthusiad o rwymedi marchnad cymhleth yn y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn ein galluogi i adeiladu ar waddol y chwyldro Bancio Agored, y gwnaeth y CMA fraenu'r tir ar ei gyfer gyda'n hymchwiliad i'r farchnad bancio manwerthu.

**Uwchraddio ein datganiad gwerth i gyflogeion.** Mae gallu'r CMA i gyflawni ein cyfrifoldebau a sicrhau gwerth i'r DU yn dibynnu'n uniongyrchol ar ein gallu i recriwtio a chadw staff o'r safon sydd ei hangen i wneud y gwaith cymhleth hwn sy'n aml yn arbenigol. Gan nodi'r gystadleuaeth ffyrnig yn y sector preifat o ran cyflogau, rydym yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau bod y CMA yn ddeniadol fel cyflogwr a gwella ein gallu i gynnig y profiad gorau posibl i'n staff fel cyflogeion.

Fel y nodir yn ein Hadroddiad Staffio, rydym yn rhoi Cynllun Profiad Cyflogeion ar waith, gan ymgorffori diwylliant lle y gall cydweithwyr: gyfrannu'n effeithiol; teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu grymuso a'u cynnwys; dysgu a datblygu eu gyrfa; cael gwaith diddorol sy'n cael effaith. Rydym yn darparu amgylchedd gwaith hyblyg, sy'n rhan hanfodol o'n gallu i recriwtio a chadw talent mewn marchnad gystadleuol. Rydym yn gwella ein cynlluniau prentisiaeth a recriwtio graddedigion llwyddiannus er mwyn creu cyflenwad o dalent o'r wlad hon. Mae'r CMA yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a datblygu, gan gynnwys rhaglen ar sgiliau digidol er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau digidol, technoleg a data. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y CMA yn weithle amrywiol, cynhwysol a pharchus, gan barhau i gyflawni ein hail gynllun gweithredu dwy flynedd fel rhan o'n strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pedair blynedd bresennol.

## Edrych i'r dyfodol: Risgiau, heriau a chyfleoedd

Gan edrych ymlaen at amgylchedd gweithredu'r CMA dros y 12 mis nesaf, rhagwelwn y bydd cryn ansicrwydd o hyd ac, o bosibl, anwadalrwydd mewn sawl maes. Yn arbennig, rhagwelwn y bydd hyn yn cynnwys pwysau costau byw parhaus, gwrthdaro milwrol parhaus yn Ewrop a'r Dwyrain Canol, tarfu pellach, o bosibl, a achosir gan hinsawdd sy'n newid ac, yn olaf, drawsnewidiad digidol a thechnolegol parhaus sy'n digwydd ar gyflymder na welwyd mo'i debyg o'r blaen.

Bwriedir i'r broses o ddatblygu strategaeth y CMA ystyried y fath newidiadau ac ansicrwydd yn ein hamgylchedd gweithredu, a fydd yn ein galluogi i addasu ein blaenoriaethau er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hyn. Yn unol â'r broses hon, diweddarodd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024/25 ein Meysydd Ffocws er mwyn ein helpu i flaenoriaethu ein hymdrechion lle mae eu hangen fwyaf a lle y gallant sicrhau'r gwerth mwyaf yn ystod y flwyddyn.

### Twf economaidd a chynhyrchiant

Mae ein cyfrifoldebau mewn perthynas â'r gyfundrefn ddigidol newydd o dan ddeddfwriaeth Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn gyfle nodedig i agor y drws i gyfnod newydd o fuddsoddi ac arloesedd mewn marchnadoedd digidol sy'n newid yn gyflym. Er nad ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau dros dro eto ynghylch pa weithgareddau digidol y dylid ymdrin â nhw gyntaf, rydym yn ystyried ein dull gweithredu yn ofalus. Byddwn hefyd yn parhau i fod yn ystwyth a rhagweithiol o ran ein cymorth i farchnadoedd newydd sy'n seiliedig ar arloesi, gan leihau'r rhwystrau i ymuno â marchnadoedd i'r eithaf a sicrhau chwarae teg er mwyn annog buddsoddi a tharfu cadarnhaol mewn sectorau sydd â'r potensial mwyaf i ysgogi twf a gwella cynhyrchiant.  Fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol, bydd hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â'n hymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â gwasanaethau cwmwl, er enghraifft, yn ogystal â pharhau i helpu'r DU i newid i economi sero net a sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy gymryd camau pellach i roi ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd ar waith.

Y tu hwnt i hyn, rhagwelwn y bydd ein Huned Micro-economeg yn chwarae rôl fwyfwy gwerthfawr o ran cyfrannu syniadaeth a thystiolaeth newydd mewn perthynas â heriau economaidd dybryd. Mae'r CMA yn ymrwymedig i sicrhau bod y wybodaeth sy'n deillio o'r Uned Micro-economeg yn parhau i wneud cyfraniad amserol, perthnasol a gwybodus at brosesau llunio polisi'r llywodraeth, yn ogystal â syniadaeth ehangach ym mhob rhan o'r gymuned polisi ac ymchwil.

### Costau byw

Rydym yn dra ymwybodol o hyd o'n cyfrifoldeb pwysig i helpu i liniaru heriau ar gyfer pobl ac aelwydydd sydd o dan bwysau ariannol drwy ddyblu ein hymdrechion mewn meysydd gwariant hanfodol. Bydd y CMA yn parhau i ddefnyddio ein pwerau presennol – gan gynnwys ym meysydd gorfodi cystadleuaeth, rheoli prosesau uno, marchnadoedd ac eiriolaeth – fel rhan o'n dull ystwyth a holistaidd o ymdrin â'r maes hwn. Fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol, mae hyn yn cynnwys parhau i wneud cynnydd o ran llety, gan ddatblygu ein hymchwiliad i achosion a amheuir o ymddygiad gwrthgystadleuol gan adeiladwyr tai. Byddwn hefyd yn paratoi i ymgymryd â chyfrifoldebau monitro newydd pwysig ar gyfer y farchnad tanwydd ffordd. Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith hirsefydlog i fynd i'r afael â niweidiau costus i ddefnyddwyr a achosir gan saernïaeth dewis ar-lein a honiadau gwyrdd camarweiniol. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'n hastudiaeth o'r farchnad mewn perthynas â fformiwla babanod, yn ogystal â'n hymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â'r sector milfeddygol, ar ran y degau o filoedd o berchnogion anifeiliaid anwes a gweithwyr proffesiynol a rannodd eu profiadau yn y maes hwn â ni.

### Diogelu defnyddwyr

Rydym yn parhau i baratoi'n ddiwyd ar gyfer y model gweinyddol newydd ar gyfer gorfodi cyfraith defnyddwyr sy'n cynnig cyfle i newid y ffordd y diogelir pobl rhag arferion niweidiol ac y cosbir busnesau sy'n ceisio eu cyflawni yn sylweddol. Mae'r CMA yn bwriadu gweithredu'r gyfundrefn newydd mewn ffordd strategol a phenodol iawn, gan flaenoriaethu meysydd lle y gallwn gyflawni'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymdrech fwriadol i ddefnyddio ein holl adnoddau ar gyfer diogelu defnyddwyr, ffurfiol ac anffurfiol – gan gynnwys casglu gwybodaeth, gorfodi, cyhoeddi canllawiau, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth wedi'u targedu at ddefnyddwyr a busnesau a gweithio gyda phartneriaid ar draws y dirwedd diogelu defnyddwyr – er mwyn mynd i'r afael ag achosion mwyaf dybryd niwed i ddefnyddwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

Y tu hwnt i hyn, bydd y CMA hefyd yn gyfrifol am gynnal yr Arolwg Niwed i Ddefnyddwyr, a gynhelir bob dwy flynedd, yn ddiweddarach yn 2024. Byddwn yn manteisio ar y cyfle hwn i wella'r sail dystiolaeth ar gyfer ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr, gan ddefnyddio'r data gwerthfawr ar y problemau a wynebwyd gan defnyddwyr o ran eu pryniannau dros y ddwy flynedd diwethaf.

### Gweithio gyda'r llywodraeth

Bydd y CMA yn parhau i weithio'n adeiladol gyda llywodraethau ym mhob rhan o'r DU – gan gynnwys llywodraeth newydd y DU – er mwyn sicrhau bod marchnadoedd yn cyflawni canlyniadau da i bobl, busnesau a'r economi. Mae llawer y gall y CMA ei gyflawni, ac mae'n benderfynol o'i gyflawni, drwy ein pwerau estynedig, gan gynnwys y cyfrifoldebau newydd a roddwyd i ni gan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth ehangach hefyd yn

chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda, gan gynnwys drwy ddatblygu polisi a deddfwriaeth mewn meysydd lle mae angen sicrhau manteision llawn cystadleuaeth effeithiol neu ddiogelu defnyddwyr yn well.

Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â llywodraeth newydd y DU ynghylch yr argymhellion y mae'r CMA wedi'u gwneud, yn ogystal â defnyddio ein harbenigedd er mwyn helpu i lywio agweddau perthnasol ar yr agenda polisi a deddfwriaethol newydd. Ymhlith yr argymhellion allweddol rydym yn gobeithio ffurfio partneriaeth â'r llywodraeth i'w gweithredu mae:

- Tanwydd ffordd a data clyfar. Rydym yn gryf o blaid ailgyflwyno deddfwriaeth er mwyn i gynlluniau data clyfar statudol allu cael eu datblygu. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i gynllun tryloywder prisiau gael ei lunio ar gyfer tanwydd ffordd, a fyddai'n golygu bod gwybodaeth gynhwysfawr o ffynhonnell gyhoeddus ar gael – sef yr argymhelliad allweddol o'n hastudiaeth o'r farchnad sydd ei angen er mwyn ysgogi cystadleuaeth o'r newydd ymhlith manwerthwyr tanwydd. Byddai hefyd yn galluogi cynllun data clyfar a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r sector Bancio Agored dyfu a datblygu y tu hwnt i Orchymyn 2017 y CMA.

- Tai. Byddwn yn ymgysylltu â llywodraeth newydd y DU ynghylch yr argymhellion a wnaed yn ein hastudiaeth o'r farchnad adeiladu tai. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys diwygiadau er mwyn symleiddio'r system gynllunio, mesurau newydd er mwyn i fwy o safleoedd tai gael eu datblygu a threfniadau diogelu defnyddwyr gwell ar gyfer perchenogion cartrefi. Os cânt eu rhoi ar waith, gallai hyn helpu i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n cael eu hadeiladu. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r llywodraeth ynghylch yr ymyrraeth statudol rydym o'r farn y gallai fod ei hangen i ddiogelu perchenogion cartrefi lesddaliadol rhag problemau parhaus sy'n gysylltiedig â rhenti tir drud.

- Nwyddau groser. Mae ein gwaith yn y sector nwyddau groser eisoes wedi argymell diwygiadau i ddeddfwriaeth ynglŷn â phrisio fesul uned, ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, er mwyn helpu pobl i siopa o gwmpas a chael y bargeinion gorau. Hoffem weld cynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu'r cynigion hyn. Mae'n bosibl y bydd ein gwaith ar farchnadoedd mewn perthynas â fformiwla babanod, gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, yn argymell newidiadau i'r gyfraith a pholisi, wrth i'r fframwaith rheoleiddio gael effaith wirioneddol ar y canlyniadau y mae'r farchnad yn eu cyflawni.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn barod i weithio gyda llywodraethau ledled y DU, boed hynny er mwyn gweithredu ar argymhellion y mae'r CMA wedi'u gwneud iddynt; nodi cyfleoedd polisi i fanteisio ar fuddiannau cystadleuaeth effeithiol; neu asesu

effeithiau cynigion ar gyfer polisi, deddfwriaeth a rheoleiddio ar gystadleuaeth a defnyddwyr.

### Rhyngwladol

Yn y pen draw, cyfrifoldeb y CMA (yn unol â'n mandad gan y Senedd) yw gwneud penderfyniadau er budd defnyddwyr a busnesau yn y DU ac er mwyn eu diogelu. Er bod pob awdurdod cystadleuaeth, gan gynnwys y CMA, yn parhau i fod yn annibynnol ac yn sofran o ran ei benderfyniadau, mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd cydweithio fel aelod gweithredol o'r gymuned gystadleuaeth ryngwladol mewn byd a nodweddir gan farchnadoedd a masnach fyd-eang gydgysylltiedig a gyfyngir lai a llai gan ffiniau rhynglwadol. Mae trefniadau cydweithio a chyfathrebu rhyngwladol effeithiol, lle mae i farchnadoedd ddynameg ranbarthol neu ryngwladol neu lle mae cartelau ac ymddygiad gwrthgystadleuol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau, yn cynnig cyfleoedd pwysig. Yn ein barn ni, gallai trefniadau o'r fath sicrhau manteision gweithdrefnol drwy ein galluogi, hyd y gellir, i gysoni prosesau ac amseriadau ar gyfer cynlluniau uno, er enghraifft, a fydd hefyd o fudd i'r busnesau dan sylw. Yn yr un modd, mae trefniadau cydweithio mewn perthynas â gorfodi wedi esgor ar ganlyniadau cryf mewn sawl awdurdodaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd cysondeb rhyngwladol i fusnesau er mwyn lleihau'r baich a'r ansicrwydd rheoleiddiol.

Felly, rhagwelwn y bydd ein cydberthnasau agos a'n trefniadau rhannu gwybodaeth â'n hasiantaethau gorfodi cyfatebol yn UDA, yr UE ac mewn gwledydd eraill yn parhau. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gynigir gan gyfranogiad gweithredol mewn fforymau a rhwydweithiau rhyngwladol pwysig megis y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'r Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol, sef rhwydwaith byd-eang o awdurdodau cystadleuaeth cenedlaethol ac amlwladol o 129 o aelod-wledydd. Mae'r CMA yn ymfalchïo yn y ffaith y byddwn yn cynnal Cynhadledd Flynyddol y Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol ym mis Mai 2025 a byddwn yn gweithio tuag at hyn yn y flwyddyn i ddod.

### Gweithrediadau a galluogwyr craidd

Bydd y CMA yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ein Galluogwyr Craidd, fel y'u nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r rhain yn sail i gyflawni effeithiol ar ran y CMA ac maent yn rhan annatod o'n fframwaith strategol. Rhagwelwn gynnydd parhaus o ran gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant drwy ein rhaglenni meddalwedd ar gyfer Trawsnewid Digidol a Chynllunio Adnoddau Menter yn y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gyflawni llawer o nodau ein Cynllun Profiad Cyflogeion amlflwyddyn yn y flwyddyn sydd i ddod, yn ogystal â chynnig cyfleoedd dysgu a datblygu mwy uchelgeisiol. Rydym hefyd yn disgwyl cwblhau'r broses o ddatblygu

ein galluoedd sganio'r gorwel a'n galluoedd ar gyfer y dyfodol, a fydd yn ein galluogi i ragweld newidiadau i'n hamgylchedd allanol ac ymateb iddynt yn fwy effeithiol. Bydd ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bresennol yn cyrraedd ei phedwaredd flwyddyn eleni, sef blwyddyn olaf y strategaeth, a chaiff ei diweddaru y flwyddyn nesaf yn unol â strategaeth gyfatebol y Gwasanaeth Sifil, a fydd hefyd yn cyrraedd trydedd flwyddyn strategaeth tair blynedd yn 2025.

# Adegau allweddol eleni

**Mis Ebrill**

**Cap ar brisiau yn cael ei osod ar y Rhwydwaith Tonnau Awyr hollbwysig**

Gwnaethom arbed £200m y flwyddyn i drethdalwyr drwy osod cap ar faint y gall Motorola ei godi ar y gwasanaethau brys i ddefnyddio'r Rhwydwaith Tonnau Awyr.

**Cymerwyd camau yn erbyn ysbytai preifat er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion gael gwybodaeth**

Gwnaeth y CMA rymuso cleifion i wneud penderfyniadau hollbwysig ynghylch gofal iechyd drwy ei gwneud yn ofynnol i ddau glinig preifat lunio cynlluniau er mwyn darparu gwybodaeth ar berfformiad a chanlyniadau cleifion.

**Mis Mai**

**Cyhoeddwyd cyngor i ddefnyddwyr ar ôl i adroddiad dynnu sylw at anhawsterau wrth brynu cynhyrchion gwresogi cartref 'gwyrdd'**

Gwnaethom gyhoeddi cyngor clir er mwyn helpu pobl i wneud penderfyniadau wrth brynu cynhyrchion gwresogi 'gwyrdd' ar ôl i'n hadroddiad nodi bod diffyg ffynonellau cyngor dibynadwy, tirwedd safonau gymhleth a honiadau gwyrdd a allai fod yn gamarweiniol yn atal pobl rhag gallu gwneud dewidiadau da neu'r penderfyniadau cywir.

**Cymeradwywyd uno cwmnïau lloerennau yn dilyn ymchwiliad manwl**

Cymeradwyodd y CMA gytundeb rhwng Viasat ac Inmarsat ar ôl i'n dadansoddiad ddangos na fyddai'n peri risg i gystadleuaeth yn y farchnad cysylltiadau lloeren sy'n tyfu'n gyflym.

**Mis Mehefin**

**Cymeradwywyd camau mewn perthynas â chytundebau tir archfarchnadoedd**

Cytunodd Sainsbury's ac Asda i roi'r gorau i fwy na 30 o gytundebau tir gwrthgystadleuol annheg, gan helpu i gynyddu cystadleuaeth sydd ei mawr angen rhwng archfarchnadoedd mewn ardaloedd lleol ledled y DU.

**Ataliwyd cynllun uno Cochlear/Oticon yn rhannol**

Gwnaethom ddiogelu'r GIG rhag prisiau uwch drwy atal rhan o gynllun uno rhwng Cochlear Limited ac Oticon Medical, sef dau o'r cwmnïau mwyaf yn y sector mewnblannu dyfeisiau clywed.

**Mis Gorffennaf**

**CMA yn nodi cynllun er mwyn helpu gyrwyr i gael prisiau tanwydd mwy cystadleuol**

Argymhellodd y CMA y dylai llywodraeth y DU lunio cynllun canfod tanwydd newydd er mwyn helpu gyrwyr i ddod o hyd i'r tanwydd rhataf a lleihau prisiau a gwnaethom gymryd camau rhagweithiol i lenwi'r bwlch drwy gyflwyno cynllun dros dro.

**Amazon yn ymrwymo i newid rheolau ar gyfer gwerthwyr ar ei blatfform Marketplace**

Gwnaeth Amazon ymrwymiadau cyfreithiol gyfrwymol i newid y ffordd y mae'n trin gwerthwyr trydydd parti sy'n defnyddio ei blatfform Marketplace yn y DU, gan helpu i sicrhau mynediad teg i fusnesau i'r cwsmeriaid sydd eu hangen arnynt er mwyn ffynnu.

**Mis Awst**

**Microsoft yn cyflwyno cytundeb newydd ar gyfer adolygiad y CMA**

Cyflwynodd Microsoft gytundeb wedi'i ailstrwythuro i'r CMA a sbardunodd ymchwiliad Cam 1 newydd i gynllun uno. Yn y pen draw, helpodd hyn i sicrhau canlyniadau cryf i chwaraewyr gemau pan wnaethom glirio'r cynllun uno yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn dilyn ymchwiliad Cam 2, gan baratoi'r ffordd ar gyfer prisiau mwy cystadleuol, gwasanaethau gwell a mwy o ddewis yn y dyfodol.

**Cyhoeddwyd diweddariad ar waith yn y sector tai**

Gan adeiladu ar ein gwaith helaeth yn y sector tai, cyhoeddodd y CMA ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'n gwaith i ddiogelu defnyddwyr yn y sector rhent preifat, a arweiniodd at gamau pellach i sefyll i fyny dros rentwyr.

**Mis Medi**

**Lansio adolygiad o'r sector milfeddygon yn arwain at ymgysylltu â defnyddwyr na welwyd mo'i debyg o'r blaen**

Agorodd y CMA adolygiad o'r sector milfeddygon a gweld lefel ddigynsail o ymgysylltu gan y cyhoedd â'r gwaith hwn, gyda thua 56,000 o ymatebion gan y cyhoedd a'r diwydiant yn dod i law.

**Modelau Sylfaen Deallusrwydd Artiffisial – egwyddorion pro-gystadleuol arfaethedig yn cael eu cyhoeddi**

Cyhoeddodd y CMA ein hegwyddorion arfaethedig er mwyn er mwyn sicrhau bod diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth iach wrth wraidd prosesau ddatblygu a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, gan ysgogi sgwrs fyd-eang ymhlith rhanddeiliaid.

**Mis Hydref**

**Lansiwyd yr ymchwiliad i'r Farchnad Gwasanaethau Cwmwl**

Atgyfeiriodd Ofcom y sector gwasanaethau seilwaith cwmwl cyhoeddus gwerth £7.5bn, sy'n sail i amrywiaeth o wasanaethau ar-lein sy'n hanfodol i wneud busnes, at y CMA er mwyn iddo gynnal ymchwiliad trylwyr ac annibynnol i'r farchnad.

**Cyhoeddwyd y penderfyniad terfynol yn apêl reoleiddiol Maes Awyr Heathrow**

Daeth y CMA i benderfyniad terfynol ar ôl i Faes Awyr Heathrow a thri chwmni awyrennau apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch rheoli prisiau gan yr Awdurdod Hedfan Sifil, gan helpu i sicrhau manteision i economi'r DU drwy ddiwydiant hedfan cadarn.

**Mis Tachwedd**

**Fformiwla babanod a chynlluniau teyrngarwch archfarchnadoedd yn cael eu nodi ar gyfer camau gweithredu**

Gan adeiladu ar ddadansoddiad trylwyr o gystadleuaeth yn y sector manwerthu nwyddau groser, gwnaethom ymrwymo i weithredu ar bryderon yn y farchnad fformiwla babanod ac mewn cynlluniau teyrngarwch archfarchnadoedd, gan helpu i ddiogelu defnyddwyr.

**Sicrhawyd ymrwymiadau ynghylch Facebook Marketplace gan Meta**

Gwnaethom sicrhau ymrwymiadau gan Meta na fyddai'n defnyddio data penodol gan fusnesau sy'n cystadlu ag ef sy'n hysbysebu ar ei blatfformau mwyach er mwyn rhoi mantais annheg iddo'i hun.

**Mis Rhagfyr**

**Lansiwyd ymchwiliad i honiadau 'gwyrdd' Unilever**

Yn dilyn pryderon y gall cwsmeriaid fod yn cael eu camarwain, cyhoeddodd y CMA waith i ymchwilio i honiadau 'gwyrdd' a allai fod yn gamarweiniol a wnaed gan Unilever ar gyfer hanfodion y cwpwrdd storio.

**CMA yn ymgynghori ar ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024/25**

Gofynnodd y CMA am farn ar ein cynllun i gefnogi pobl, busnesau ac economi'r DU yn y flwyddyn i ddod  wedi'i ategu gan weithgarwch ymgysylltu â'r nifer uchaf erioed o sefydliadau ledled y DU, sef 90.

**Mis Ionawr**

**CMA yn cyhoeddi adroddiad ar farchnadoedd llafur**

Cyhoeddodd ein Huned Micro-economeg ei hadroddiad blaenllaw cyntaf ar farchnadoedd llafur y DU a all helpu i gynnig atebion i heriau economaidd pwysig.

**Lansiwyd ymchwiliad i gynllun uno Vodafone/Three**

Dechreuodd y CMA ein hymchwiliad Cam 1 i gynllun uno mewn perthynas â chytundeb a fyddai'n dwyn ynghyd ddau o'r cwmnïau mawr ym marchnad delathrebu'r DU sy'n hollbwysig yn strategol.

**Mis Chwefror**

**Lansiwyd astudiaeth o'r farchnad fformiwla babanod**

Gwnaethom lansio adolygiad o'r farchnad mewn perthynas â fformiwla babanod, sef cynnyrch sy'n hanfodol i iechyd miliynau o fabanod, a oedd yn seiliedig ar bryderon ynghylch prisiau ar' wybodaeth sydd ar gael i rieni.

**Cwblhawyd yr astudiaeth o'r farchnad adeiladu tai**

Gwnaethom gyflwyno cynigion a allai arwain at lawer mwyn o gartrefi yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn a gwella fforddiadwyedd.

**Mis Mawrth**

**Rhyddhawyd cannoedd o lesddeiliaid o delerau contract costus**

Rhyddhawyd 500 o aelwydydd o gymalau problemus yn eu contractau lesddaliad yn dilyn camau gweithredu gan y CMA, gan ddod â chyfanswm i 21,000 dros y pum mlynedd diwethaf.

**Sicrhawyd newidiadau arwyddocaol gan brif frandiau ffasiwn**

Arweiniodd gweithgareddau'r CMA at drobwynt i'r diwydiant ffasiwn, gan sicrhau ymrwymiadau nodedig gan dri brand blaenllaw, sef ASOS, Boohoo a George at Asda, mai dim ond honiadau ‘gwyrdd’ cywir a chlir y byddent yn eu defnyddio.

# Crynodeb o berfformiad

## Lle y gwnaethom wario ein harian yn 2023/24

Rydym wedi llwyddo i gyflawni o fewn ein cyfansymiau rheoli cyllidebau seneddol, gan wario cyfanswm o £147.20 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Mae meysydd gwariant sylweddol yn cynnwys:

- £123.06 miliwn ar ein gweithgareddau gweithredol craidd sy'n helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg. Rydym wedi nodi uchod sut rydym wedi gwneud hyn drwy wneud defnydd llawn o'n pecyn adnoddau, gan gynnwys drwy weithgarwch gorfodi effeithiol, gweithredu cyfundrefn rheoli prosesau uno effeithlon ac effeithiol, sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n well a bod yn llais cryf o blaid cystadleuaeth ac ar gyfer arferion busnes teg.
- £6.33 miliwn ar wariant cyfalaf wrth i ni barhau i fuddsoddi mewn prosiectau Technoleg Gwybodaeth (TGCh) a Chyfathrebu a'n Rhaglen Trawsnewid Eiddo er mwyn sicrhau cadernid ein seilwaith TGCh ac ehangu ein presenoldeb ledled y DU fel rhan o agenda 'Places for Growth' a Ffyniant Bro ehangach Llywodraeth y DU.
- £17.81 miliwn ar ddarpariaethau nad ydynt yn arian parod ar gyfer achosion ymgyfreitha parhaus a dadfeiliadau ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol fel y'u nodir yng nghytundebau prydlesu eiddo amrywiol y CMA.

Caiff esboniadau manwl o'r amrywiadau rhwng yr alldro a'r gyllideb eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol, sy'n dechrau ar 71.

Cyfeiriwch at y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2023/24 ar dudalen 132 i gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf a Nodyn 2, Elfennau Gweithredu yn y Datganiadau Ariannol ar dudalen 157 i gael rhagor o wybodaeth am wariant yn y swyddogaethau newydd.

## Twf y CMA

Dengys ein gwariant cynyddol ar ein gweithgareddau gweithredol craidd, sef £123.06 miliwn (2022/23: £99.94 miliwn) ymrwymiad y CMA i ddatblygu adran sydd â'r stwythur a'r model gweithredu mwyaf effeithlon i gyflawni ein cyfrifoldebau cynyddol i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, marchnadoedd a busnesau.

Rydym wedi defnyddio ein cyllid twf a gafwyd yn Adolygiad o Wariant 2021 yn effeithiol i barhau i ddatblygu ein Huned Marchnadoedd Digidol yn barod ar gyfer y pwerau statudol newydd y bydd y CMA yn eu cael o dan Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024.

At hynny, mae ein hymrwymiad i agendâu 'Places for Growth' a Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn golygu ein bod wedi defnyddio ein cyfansymiau rheoli yn effeithlon ac wedi aros o fewn y cyfansymiau hynny wrth i ni ddarparu swyddfeydd o ansawdd uchel ym Manceinion a Darlington er mwyn ategu ein twf. Mae hyn yn ein

galluogi i feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym ym mhob un o bedair gwlad y DU.

## Incwm o ddirwyon a chosbau

Gwnaethom gasglu £7.85 miliwn o ddirwyon a chosbau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, a osodwyd ar gwmnïau yn y sector Manwerthu a Chyfanwerthu a'r sector Cynhyrchion Fferyllol, sy'n dangos yr effaith amlwg y mae'r CMA wedi'i chael o ran cwtogi ar arferion gwrthgystadleuol.

Adroddir ar hyn ar wahân yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar dudalen 157.

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Pwerau statudol

Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o fewn Llywodraeth y DU a'r CMA yw prif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Rydym yn helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg. Caiff ein gwaith ei oruchwylio gan Fwrdd, a gadeirir gan Marcus Bokkerink, ac a arweinir gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac uwch-dîm. Gwneir penderfyniadau mewn rhai ymchwiliadau gan aelodau o'r Panel Cystadleuaeth, yn gweithredu'n annibynnol ar y Bwrdd.

Ein prif swyddogaethau yw:

- Ymchwilio i gynlluniau uno a gallai leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Os bydd cynllun uno yn debygol o leihau cystadleuaeth yn sylweddol, gall y CMA ei wahardd neu osod rhwymedïau er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath.

- Ymchwilio i fusnesau er mwyn penderfynu a ydynt wedi torri cyfraith cystadleuaeth y DU ac, os felly, roi terfyn ar y fath achosion o dor-cyfraith a'u hatal rhag digwydd. Rydym yn cyflawni hyn drwy ddirwyo busnesau a cheisio sicrhau bod cyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw yn cael eu hanghymhwyso, yn ogystal â mynd ar drywydd unigolion sy'n cyflawni'r drosedd o ffurfio cartel anghyfreithlon.

- Gorfodi ystod o ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gan gynnwys mewn achosion lle mae triniaeth annheg yn erbyn defnyddwyr neu'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth wneud dewisiadau yn awgrymu bod problem systemig yn y farchnad.

- Cynnal astudiaethau neu ymchwiliadau neu wneud gwaith arall i farchnadoedd penodol lle yr amheuir bod problemau o ran cystadleuaeth a defnyddwyr. Gall y CMA gymryd camau – ac argymell bod camau yn cael eu cymryd gan eraill – mewn marchnadoedd lle nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda o bosibl.

- Rhoi gwybodaeth neu gyngor ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau'r CMA i lunwyr polisi a gweinidogion, gan gynnwys sut y gallant lunio polisi a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau manteision cystadleuaeth ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl a busnesau am eu hawliau a'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr.

- Hyrwyddo cystadleuaeth gryfach yn y diwydiannau a reoleiddir (nwy, trydan, dŵr, hedfanaeth, rheilffyrdd, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol), gan weithio gyda rheoleiddwyr y sectorau.

- Cynnal apeliadau ac atgyfeiriadau rheoleiddiol mewn perthynas â systemau rheoli prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol.
- Rhoi cyngor, adrodd a monitro mewn perthynas â marchnad fewnol y DU, trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol.
- Rhoi cyngor, adrodd a monitro mewn perthynas â chymorthdaliadau'r llywodraeth, drwy'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.
- Dadansoddi a chynnig arbenigedd ar faterion cystadleuaeth yn y DU, hawliau defnyddwyr, arloesi, cynhyrchiant a diwygiadau i'r ochr gyflenwi drwy'r Uned Ficro-economeg.

Bydd ein swyddogaethau yn y dyfodol yn cynnwys cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chyfundrefn ddigidol newydd. Mae'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn darparu ar gyfer y pwerau newydd hyn i'r CMA. Yn y CMA, bydd yr Uned Marchnadoedd Digidol yn cynnwys ein swyddogaethau o dan y gyfundrefn ddigidol newydd er mwyn hyrwyddo mwy o gystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd digidol.

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr: Adolygiad ariannol

## Gwariant

*Cyflwyno gwariant*

Adroddir ar ein gwariant ar ddwy sail wahanol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Cyflenwi Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) ar dudalen 145 yn nodi gwariant net cynhwysfawr y CMA, sef £141.47 miliwn yn 2023/24 o gymharu â £105.33 miliwn yn 2022/23. Cyfrifir y gwariant hwn yn unol â safonau cyfrifyddu (IFRS) a chanllawiau ac ar sail debyg i'r rheolau hynny a ddefnyddir gan fusnesau yn y sector preifat.

Mae'r Datganiad Cyflenwi Seneddol ar dudalen 132 yn cyflwyno cyfanswm gwariant o £147.20 miliwn ac yn ei gymharu â'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Senedd, sef £168.66 miliwn. Cyfrifir y ffigurau hyn yn unol â Chanllawiau Trysorlys EF ar Gyllidebu Cyfunol ar gyfer y flwyddyn, sy'n wahanol i'r sail gyfrifyddu uchod mewn sawl ffordd.

*Trosolwg o'n gwariant*

Cyfanswm ein Gwariant a Reolir oedd £147.20 miliwn, wedi'i ddadansoddi yn ôl categorïau gwario Trysorlys EF fel y nodir yn y tabl isod:

| | Alldro 2023/24 | Cyllideb 2023/24 | Alldro 2022/23 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm y Gwariant a Reolir | **147,201** | **168,655** | **112,725** |
| • **DEL Adnoddau** | 123,059 | 131,662 | 115,349 |
| • **DEL Cyfalaf** | 6,330 | 12,993 | 6,528 |
| **Cyfanswm DEL**[13] | **129,389** | **144,655** | **121,877** |
| • **AME Adnoddau** | 18,157 | 22,000 | (8,979) |
| • **AME Cyfalaf** | (345) | 2,000 | (173) |
| **Cyfanswm AME**[14] | **17,812** | **24,000** | **(9,152)** |

Rydym yn atebol i'r Senedd am ein gwariant. Rhoddir cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer ein cynlluniau gwariant drwy'r Amcangyfrifon Cyflenwi a gyflwynir i Dŷ'r

[13] DEL yw cyfanswm y gyllideb y gellir ei rheoli, a roddir gan Drysorlys EF ar ran y Senedd, y mae'r adran yn ei defnyddio i ariannu'r gwaith o gyflawni ei hamcanion strategol.
[14] Mae cyllidebau gwariant a reolir yn flynyddol (AME) yn anwadal neu'n seiliedig ar alw mewn ffordd na all yr adran ei rheoli. Nid yw Trysorlys EF yn pennu cyllidebau AME pendant mewn adolygiadau o wariant ond mae'r adran yn monitro rhagolygon AME yn ofalus a chânt eu diweddaru'n flynyddol.

Cyffredin, gan nodi ein cyfansymiau rheoli cyllidebau dirprwyedig a gofyn am bleidlais ar y cyllid angenrheidiol. Rydym yn hawlio'r cyllid hwn gyda phleidlais yn ystod y flwyddyn o'r Gronfa Gyfunol yn ôl y gofyn

Mae'r Amcangyfrif Cyflenwi yn cynnwys disgrifiad ffurfiol o'r gwasanaethau (‘cwmpas’) sydd i'w cyllido Ni ellir defnyddio cyllid gyda phleidlais i gyllido gwasanaethau nad ydynt o fewn y cwmpas. Cyllideb DEL Adnoddau'r CMA ar gyfer 2023/24 oedd £131.66 miliwn, y cafodd £14.41 miliwn o'r swm hwnnw ei glustnodi ar gyfer dibrisiant nad yw'n cynnwys arian parod.

Cyllideb DEL Cyfalaf y CMA ar gyfer 2023/24 oedd £12.99 miliwn gan gynnwys £5.00 miliwn a drosglwyddwyd o'r Gyllideb DEL Adnoddau i'r Gyllideb DEL Cyfalaf yn ein Hamcangyfrif Atodol.

Cyllideb AME Cyfalaf y CMA ar gyfer 2023/24 oedd £2.00 filiwn i gwmpasu darpariaethau dadfeiliad mewn perthynas â'n prydlesau wedi'u cyfalafu sy'n ofynnol gan IFRS 16.

## Alldro

Mae'r CMA yn parhau i gyflawni ein dyletswydd statudol i hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr y tu mewn a'r tu allan i'r DU.

Ein halldro DEL Adnoddau ar gyfer 2023/24 yw £123.06 miliwn o gymharu â chyllideb o £131.66 miliwn, sy'n danwariant o £8.60 miliwn oherwydd gwahanol ffactorau, gan gynnwys:

- Achosion o oedi cyn dechrau gosod offer mewn eiddo a oedd y tu hwnt i reolaeth y CMA. Rydym wedi ailbroffilio cerrig milltir yn y gwaith o osod offer mewn eiddo yn ein Rhaglen Trawsnewid Eiddo, gan gynnwys Manceinion, Belfast a Chaerdydd. Cafodd hyn yr effaith ganlynol ar wariant DEL Adnoddau'r CMA:
    - Neilltuwyd cyllid wrth gefn gwerth £2.50 miliwn yn wreiddiol i reoli risgiau a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn yn y Rhaglen Trawsnewid Eiddo, na wnaethant godi (oherwydd oedi cyn dechrau gosod offer mewn eiddo) neu a gafodd eu rheoli mewn ffordd arall ac, felly, ni chafodd ei ddefnyddio.
    - Gan ein bod yn disgwyl costau dibrisiant blynyddol uwch yn sgil ehangu ein swyddfeydd, gwnaethom gynyddu ein cyllideb dibrisiant. Gan mai dim ond pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn cael eu defnyddio y gellir dibrisio asedau, ni fu'n bosibl cydnabod unrhyw wariant ar ddibrisiant sy'n gysylltiedig â swyddfeydd newydd y CMA y disgwylir bellach iddynt fod ar agor yn 2024/25. O ganlyniad, mae costau dibrisiant blynyddol £3.36 miliwn yn llai na'r disgwyl yn 2023/24.
- Casglodd y CMA £2.74 miliwn yn fwy mewn incwm nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol o apeliadau rheoleiddiol a chostau cyfreithiol a adenillwyd.

Ein halldro DEL Cyfalaf ar gyfer 2023/24 oedd £6.33 miliwn, o gymharu â chyllideb o £12.99 miliwn, sy'n danwariant o £6.66 miliwn ac mae i'w briodoli'n bennaf i ddau ffactor, sef:

- Ar ôl i adolygiad o rent ddechau mewn perthynas â'n swyddfa yn Llundain, sef y Cabot, gwnaethom neilltuo cyllid wrth gefn gwerth £4.00 miliwn yn ein cyllideb DEL Cyfalaf er mwyn darparu ar gyfer effaith ymlaen llaw unrhyw gynnydd mewn taliadau rhent yn y dyfodol a fyddai'n deillio o'r adolygiad hwnnw, fel sy'n ofynnol gan IFRS 16 Prydlesau. Nid oedd angen y cyllid wrth gefn hwn yn 2023/24 oherwydd canlyniad ffafriol.
- Roedd gweddill y tanwariant i'w briodoli i'r broses o ailbroffilio cerrig milltir yn y gwaith o osod offer mewn eiddo yn ein Rhaglen Trawsnewid Eiddo yn 2024/25.

Ein halldro AME Adnoddau ar gyfer 2023/24 yw £18.16 miliwn, o gymharu â chyllideb o £22.00 miliwn, sy'n danwariant o £3.84 miliwn ac mae i'w briodoli'n bennaf i natur ansicr darpariaethau (h.y. tebygolrwydd ynghylch amseriadau, darpariaethau a adferwyd, darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn a dad-ddirwyn disgowntiau). Mae sgorio gwariant yn AME Adnoddau hefyd yn cynnwys darpariaethau dadfeiliad ar gyfer eiddo nas cwmpesir gan IFRS 16 Prydlesau, pensiynau etifeddol a chostau anariannol eraill.

Ein halldro AME Cyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £0.35 miliwn (*negatif*), o gymharu â chyllideb o £2.00 filiwn. Mae'r alldro negatif i'w briodoli i'r canlynol:

- Cydnabod ychwanegiadau gwerth £0.18 miliwn at ddarpariaethau dadfeiliad a oedd yn ymwneud ag amcangyfrifon dadfeiliad diwygiedig ar gyfer pob un o'n swyddfeydd â phrydlesau wedi'u cyfalafu, fel sy'n ofynnol gan IFRS 16 Prydlesau.
- Gwrthdroi a defnyddio £0.13 miliwn a oedd yn ymwneud â darpariaeth dadfeiliad ar gyfer Finlaison House, Llundain ar ôl i ni adael yr eiddo ar ddiwedd cyfnod y brydles.
- Gostyngiadau gwerth £0.40 miliwn ym mhob un o'r darpariaethau dadfeiliad wedi'u cyfalafu oherwydd newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a gyhoeddir ym mhapur System Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EF.

Pennwyd ein cyllideb AME Cyfalaf gan ddisgwyl y byddem yn meddiannu swyddfeydd ychwanegol yn 2023/24 ac y byddai angen inni, felly, gydnabod darpariaethau dadfeiliad newydd ar adeg y gwaith gosod offer. Fel y trafodwyd uchod, o ganlyniad i ailbroffilio cerrig milltir yn y gwaith o osod offer mewn swyddfeydd yn ein Rhaglen Trawsnewid Eiddo, ni wnaethom ddefnyddio'r gyllideb hon yn ystod y flwyddyn.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi Cyfrifon Adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r adran a'i hincwm a'i gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r Cyfrifon Adnoddau mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- Arsylwi ar y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y Cyfrifon Adnoddau;
- Paratoi'r Cyfrifon Adnoddau ar sail busnes gweithredol;
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Brif Swyddog Cyfrifyddu'r adran. At hynny, mae Trysorlys EF wedi penodi Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i fod yn atebol am y rhannau hynny o gyfrifon yr adran sy'n ymwneud â cheisiadau penodol am adnoddau a'r asedau, rhwymedigaethau a llifau arian parod cysylltiedig, Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cyfrifon yr adran.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn yr adran wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- Swyddog Cyfrifyddu: Sarah Cardell, Prif Weithredwr.
- Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol: Erik Wilson, CBE, Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer adrannau A a B o'r Amcangyfrif.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra y cyllid cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, a'r cyfrifoldeb am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r CMA, yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod y

Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA




**Sarah Cardell**

Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2024

# Datganiad Llywodraethu'r CMA 2023/24

Yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF, mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CMA.

## Bwrdd a Phwyllgorau'r CMA




*Mae trefniadau'r pwyllgorau yn y diagram hwn yn gywir ar 31 Mawrth 2024. Rhoddir eglurhad pellach ar rôl pob pwyllgor a restrir isod.*

## Bwrdd y CMA

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol (y mae dau ohonynt hefyd yn aelodau o Banel Cystadleuaeth y CMA), y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwyr Gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr).

Dan arweiniad y Cadeirydd, mae'r Bwrdd yn pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y CMA o fewn y fframwaith polisi a osodwyd o dan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y CMA yn cyflawni ein dyletswyddau a'n swyddogaethau statudol, yn cynnal ein hannibyniaeth fel adran anweinidogol o'r Llywodraeth ac yn dilyn egwyddorion llywodraethu corfforaethol da. Bydd y Bwrdd yn ystyried barn ac adroddiadau Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac mae'n sicrhau bod y CMA yn gwneud defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am nifer o faterion gwahanol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl, fel y nodir yn y Ddeddf a Rheolau Gweithdrefnau'r CMA a gyhoeddir ar wefan y CMA. Mae'r Rheolau Gweithdrefnau yn nodi pwerau a swyddogaethau'r Bwrdd ac yn cynnwys Awdurdodiadau'r Bwrdd, y

Polisi Gwrthdaro Buddiannau. Cymeradwyodd y Bwrdd rai mân ddiweddariadau i'r Rheolau Gweithdrefnau ym mis Chwefror 2024. Mae adolygiad manwl o'r Rheolau Gweithdrefnau, a gynhelir bob dwy flynedd, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth gan y Pwyllgor Gweithredol er mwyn galluogi'r Bwrdd i rannu ei safbwyntiau ar gyfeiriad strategol y CMA a'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt achosion y CMA drwy adroddiadau gwybodaeth reoli rheolaidd. Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael data o amrywiaeth o ffynonellau o fewn y CMA, gan gynnwys asesiad o'r ffordd y mae'r CMA yn cyflawni ein blaenoriaethau strategol a'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau ariannol a'n hadnoddau staff.

Yn unol â pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA, cynhelir cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd, cynghorwyr y Bwrdd ac aelodau agos o'u teuluoedd ac fe'i cyhoeddir ar wefan y CMA. Caiff unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a nodir, ac unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau, sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd, eu rheoli yn unol â'r polisi Gwrthdaro Buddiannau a chaiff unrhyw achosion lle mae'n ofynnol i aelod o'r Bwrdd adael cyfarfod eu nodi yn y cofnodion cyhoeddedig.

Cyfarfu'r Bwrdd 16 o weithiau yn 2023/24. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd ym mhob mis heblaw ym mis Awst, gyda nifer o gyfarfodydd eithriadol yn cael eu cynnal yn ychwanegol at ei gyfarfodydd misol rheolaidd er mwyn ymdrin â materion pwysig sy'n codi mewn ffordd fwy amserol a hyblyg. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y CMA ar wefan y CMA. Nodir presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau isod.

***Aelodau'r Bwrdd***

Mae'r rhestr isod yn nodi aelodau'r Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gan gynnwys newidiadau diweddar ymhlith yr aelodau.

*Marcus Bokkerink* (Cadeirydd Anweithredol)
Penodwyd Marcus yn Gadeirydd Bwrdd y CMA ym mis Medi 2022. Mae Marcus yn aelod o Bwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phwyllgor Bancio Agored y CMA.

*Sarah Cardell* (Prif Weithredwr)
Penodwyd Sarah Cardell yn Brif Weithredwr y CMA ym mis Rhagfyr 2022, ar ôl gwasanaethu fel y Prif Weithredwr Dros Dro ers mis Gorffennaf 2022. Fe'i penodwyd yn Gwnsler Cyffredinol o fis Medi 2013. Sarah yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA ac mae'n cadeirio nifer o bwyllgorau bwrdd, gan gynnwys y Prif Bwyllgor Gweithredu, y Pwyllgor Achosion a Pholisi, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a'r Pwyllgor Bancio Agored. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Enwebiadau'r CMA.

*Kirstin Baker CBE (Cadeirydd Ymchwiliadau ar y Panel Cystadleuaeth, Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Penodwyd Kirstin Baker yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Medi 2018. Daeth ei thymor yn y swydd i ben ym mis Mawrth 2024. Mae'n dal i fod yn aelod o Banel Cystadleuaeth y CMA fel Cadeirydd Ymchwiliadau ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA ar Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Joel Bamford (Cyfarwyddwyr Gweithredol Uno)*
Penodwyd Joel Bamford yn Gyfarwyddwr Gweithredol Uno ac yn un o Gyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Mae Joel yn aelod o'r uwch-dîm gweithredol a'r Pwyllgor Cyngor ar Gymorthdaliadau. Mae'n arwain y swyddogaeth uno er mwyn sicrhau bod y CMA yn gweithredu cyfundrefn rheoli prosesau uno effeithlon a chadarn.

*Justin Basini (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Justin Basini yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024. Mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA.

*Martin Coleman* (Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth, Cyfarwyddwr Anweithredol)
Penodwyd Martin Coleman yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Hydref 2017. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd y Panel Cystadleuaeth ym mis Medi 2018 ac mae'n gweithredu fel Cadeirydd Ymchwiliadau. Martin yw Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA.

*Frank Dangeard (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Frank Dangeard yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024.

*Cynthia Dubin* (Cyfarwyddwr Anweithredol)
Penodwyd Cynthia Dubin yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Ionawr 2019. Cynthia yw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA a Phwyllgor Enwebiadau'r CMA. Fe'i penodwyd yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Chwefror 2024.

*Yr Athro Amelia Fletcher CBE (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Amelia Fletcher yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Hydref 2016 ac yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2020. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA. Daeth ei thymor yn y swydd i ben ym mis Rhagfyr 2023.

*Will Hayter (Cyfarwyddwr Gweithredol Marchnadoedd Digidol)*
Penodwyd Will Hayter yn Gyfarwyddwr Gweithredol Marchnadoedd Digidol ac yn un o Gyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Mae Will hefyd yn aelod o'r uwch-dîm gweithredol ac mae'n arwain ein gwaith ar Farchnadoedd Digidol wrth i ni baratoi i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr.

*Y Fonesig Patricia Hodgson (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024.

*Murdoch MacLennan (Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Murdoch MacLennan yn Gadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Ebrill 2022. Mae'n aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Cyrus Mehta (Cyfarwyddwr Anweithredol ac Aelod o'r Panel Cystadleuaeth)*
Penodwyd Cyrus Mehta yn Aelod o Banel y CMA ym mis Ebrill 2020 ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Chwefror 2024. Mae  Cyrus yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Dharmash Mistry (Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Penodwyd Dharmash Mistry yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA ym mis Chwefror 2024.

*Erik Wilson CBE* (Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredu)
Penodwyd Erik Wilson yn Brif Swyddog Gweithredu ym mis Mehefin 2020, ar ôl iddo fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Corfforaethol ers mis Medi 2013. Mae'n aelod o'r uwch-dîm gweithredol ac yn cadeirio'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau. Erik yw Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y CMA.

*Dr Michael Grenfell (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi)*
Penodwyd Michael Grenfell yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gorfodi ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Gorffennaf 2015. Gadawodd Michael y CMA ym mis Chwefror 2024.

*David Stewart (Cyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd ac Uno)*
Penodwyd David Stewart yn Gyfarwyddwr Gweithredol Marchnadoedd ac Uno ac yn un o Gyfarwyddwyr Gweithredol Bwrdd y CMA ym mis Ionawr 2022. Gadawodd David y CMA ym mis Medi 2023.

***Cynghorwyr y Bwrdd***

*Dr Mike Walker* (Prif Gynghorydd Economaidd)
Penodwyd Mike Walker yn Brif Gynghorydd Economaidd ac yn un o gynghorwyr y Bwrdd ym mis Medi 2013. Mae'n aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a Phwyllgor Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Chris Prevett* (Cwnsler Cyffredinol)
Penodwyd Chris Prevett yn Gwnsler Cyffredinol Dros Dro ac yn gynghorydd i Fwrdd y CMA ym mis Gorffennaf 2022, ac yn Gwnsler Cyffredinol ym mis Ionawr 2024. Mae'n aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a Phwyllgor Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Jessica Lennard (Prif Swyddog Strategaeth a Materion Allanol)*
Penodwyd Jessica Lennard yn Brif Swyddog Strategaeth a Materion Allanol ac yn gynghorydd i'r Bwrdd ym mis Awst 2023. Mae Jessica hefyd yn aelod o'r uwch-dîm gweithredol a'r Pwyllgor Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Lucy Robbins (Uwch-gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant)*
Penodwyd Lucy Robbins yn Uwch-gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant ym mis Tachwedd 2018. Daeth Lucy yn un o gynghorwyr Bwrdd y CMA ym mis Medi 2022 a gadawodd y CMA ym mis Mawrth 2024.

***Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd 2023/24***

| Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| **Marcus Bokkerink** | 16/16 |
| **Kirstin Baker** | 14/15 |
| **Joel Bamford** | 2/2 |
| **Justin Basini** | 2/2 |
| **Sarah Cardell** | 16/16 |
| **Martin Coleman** | 16/16 |
| **Frank Dangeard** | 1/2 |
| **Cynthia Dubin** | 16/16 |
| **Amelia Fletcher** | 12/12 |
| **Michael Grenfell** | 11/14 |
| **Will Hayter** | 2/2 |
| **Y Fonesig Patricia Hodgson** | 2/2 |
| **Murdoch MacLennan** | 13/16 |
| **Cyrus Mehta** | 2/2 |
| **Dharmash Mistry** | 2/2 |
| **David Stewart** | 7/7 |
| **Erik Wilson** | 15/16 |

***Gwerthuso'r Bwrdd***

Rydym yn adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd bob blwyddyn, a'i bwyllgorau bob dwy neu dair blynedd; bob trydedd flwyddyn cynhelir yr adolygiad hwn gan adolygwr annibynnol. Yn 2023, gwnaethom gomisiynu adolygiad allanol llawn o'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dilyn proses gaffael gystadleuol ac yn unol ag arfer gorau. Oherwydd nifer y penodiadau newydd i'r Bwrdd ar ddechrau 2024, cytunwyd y dylai'r adolygiad gael ei gynnal mewn tri cham, sef:

1. Adolygiad lefel uchel cychwynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd presennol a'i bwyllgorau er mwyn darparu rhai gwersi i Fwrdd newydd eu hystyried wrth iddo ddatblygu.

2. Gweithdy i'r Bwrdd newydd ystyried y gwersi o'r adolygiad cychwynnol a llunio unrhyw gynllun gweithredu perthnasol ar gyfer gwella.
3. Adolygiad llawnach o effeithiolrwydd y Bwrdd newydd a'i bwyllgorau unwaith y byddant wedi bod yn gweithredu am gyfnod.

Cyflwynwyd adroddiad ar ran gyntaf yr adolygiad hwn ym mis Ionawr 2024 a oedd yn nodi bod gan y CMA Fwrdd galluog a strategol a all ddarparu her seiliedig ar wybodaeth ac sy'n ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y CMA yn effeithiol ac yn cynnal ei enw da fel rheoleiddiwr.

Nododd yr her a oedd yn gysylltiedig â'r newid diweddar ymhlith Aelodau'r Bwrdd ac argymhellodd y dylid canolbwyntio ar sefydlu'r aelodau newydd hyn ar y bwrdd. Mae rhaglen sefydlu sylweddol ar gyfer aelodau newydd wedi cael ei llunio a'i rhoi ar waith.

Argymhellodd hefyd y dylai'r CMA ddatblygu dull y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o reoli risg ymhellach – gan atgyfnerthu'r gofrestr risgiau ac, o ganlyniad i hynny, fanteisio ar rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod y mesurau ar gyfer rheoli risgiau strategol allweddol yn effeithiol a'u bod yn sicrhau bod y Bwrdd cyfan yn llawn berchen ar risgiau strategol y CMA. Ceir rhagor o wybodaeth am ddull y CMA o reoli risg ar dudalen 89.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

### *Manteisio ar ein huwch-swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau*

Yn ystod haf 2023, fel rhan o raglen ‘Shaping the Future’ y CMA, gwnaethom ystyried sut y gallem atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau gan uwch-swyddogion pwyllgorau, a arweiniodd at newidiadau i wella'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth ag Uwch-gyfarwyddwyr a symleiddio strwythurau ein pwyllgorau. Roedd newidiadau yn cynnwys adnewyddu ein Pwyllgor Achosion a Pholisi a'n Pwyllgor Gweithrediadau ac ailenwi'r olaf yn Bwyllgor Pobl a Gweithrediadau. Gwnaethom hefyd gynyddu nifer yr aelodau o'r ddau bwyllgor hyn sy'n Uwch-gyfarwyddwyr, gan ganiatáu i'r Uwch-gyfarwyddwyr hyn hefyd fynd i gyfarfodydd pob pwyllgor ar gais, gan gefnogi'r broses o ddatblygu diwylliant o berchenogaeth o faterion risg ymhellach ar bob lefel o'r sefydliad, lle y caiff risgiau eu nodi a'u huwchgyfeirio.

### *Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*

Cadeirir y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, Cynthia Dubin. Mae'r aelodau fel a ganlyn: Kirstin Baker (sy'n gyfrifydd cymwysedig, Cadeirydd Ymchwiliadau'r Panel Cystadleuaeth a, hyd at fis Mawrth 2024, Gyfarwyddwr Anweithredol), Frances McLeman (un o aelodau Panel Cystadleuaeth y CMA) ac, ers mis Mawrth 2024, Justin Basini (sy'n Gyfarwyddwyr Anweithredol).

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a/neu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (y Prif Weithredwr a/neu’r Prif Swyddog Gweithredu yn y drefn honno), Cadeirydd y CMA, y

Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Risg ac aelod o'r uwch-dîm arwain yn y Gwasanaeth Cyfreithiol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cafodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth eu cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cwmpasu pob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y CMA. Mae'n rhoi cyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd y CMA ar briodolrwydd y datganiadau ariannol, a ydynt yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a digonolrwydd trefniadau archwilio (mewnol ac allanol). Mae hefyd ganddo rôl allweddol ar oblygiadau sicrwydd a roddir mewn perthynas â risg a rheolaeth, gyda'r bwriad o alluogi'r Bwrdd i roi sicrwydd i'w hun ynghylch effeithiolrwydd system rheoli risg a gweithdrefnau a rheoliadau mewnol y CMA gan gynnwys parhad busnes a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn canolbwyntio ar risg drwy gydol pob cyfarfod, yn aml gan ystyried yn fanylach faterion a allai beri risgiau penodol i'r CMA.

Gwnaeth yr adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2023/24 argymhellion i ddatblygu cydberthynas y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg â rheoli risg ymhellach (ceir rhagor o fanylion am yr adolygiad hwn ar dudalen 90). Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Cyfreithiol y CMA ar gyfer Llywodraethu, Cydymffurfiaeth a Risg a'r Arweinydd Risg a Chydymffurfiaeth i ddatblygu cynllun gwella prosesau rheoli risg ehangach er mwyn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad o effeithiolrwydd. Disgwylir i'r Bwrdd gymeradwyo fframwaith a datganiad awydd i fentro diwygiedig yng nghanol 2024, ar ôl i'r aelodau newydd o'r Bwrdd gael ei sefydlu. Bydd y fformat diwygiedig yn cyd-fynd yn agos â'r ‘Llyfr Oren – Nodyn Cyfarwyddyd ar yr Awydd i Fentro’ a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bedair gwaith yn 2023/24.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2023/24*

| Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| **Cynthia Dubin** | 4/4 |
| **Kirstin Baker** | 4/4 |
| **Justin Basini** | 0/1 |
| **Frances McLeman** | 4/4 |

***Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth***

Cadeiriwyd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, Amelia Fletcher, tan fis Mawrth 2024. Mae'r aelodau fel a ganlyn: Marcus Bokkerink,

Cadeirydd y CMA, Martin Coleman, Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Murdoch MacLennan, Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol ac, ers mis Mawrth 2024, Cyrus Mehta, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o'r Panel Cystadleuaeth.

Fel Prif Weithredwr, bu Sarah Cardell yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ynghyd â'r Prif Swyddog Gweithredu, Erik Wilson. Gall yr Uwch-gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant a Chyfarwyddwyr Adnoddau Dynol hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth i bob aelod o staff yr Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys goruchwylio pob elfen o reoli perfformiad SET a chymeradwyo dyfarniadau cyflog a bonysau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn unol â rheolau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth hefyd yn rhoi arweiniad strategol ar faterion cyflogau dirprwyedig.

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bedair gwaith yn ystod 2023/24.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth 2023/24*

| Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| **Amelia Fletcher** | 4/4 |
| **Marcus Bokkerink** | 4/4 |
| **Martin Coleman** | 2/4 |
| **Murdoch MacLennan** | 1/4 |

***Y Pwyllgor Enwebiadau***

Cadeirir y Pwyllgor Enwebiadau gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, Cynthia Dubin. Mae'r aelodau fel a ganlyn: Marcus Bokkerink, Cadeirydd y CMA a Sarah Cardell, y Prif Weithredwr.

Gall y Prif Swyddog Gweithredu, yr Uwch-gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Newid a Chyfarwyddwr y Swyddfa Weithredol hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Diben y Pwyllgor Enwediadau yw rhoi cyngor i'r Adran Busnes a Masnach ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer aelodau gweithredol ac anweithredol o'r Bwrdd a rhoi cyngor ar benodiadau i Fwrdd y CMA yn y dyfodol; Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn gyfrifol am roi cyngor i'r Bwrdd ar adolygiadau gwerthuso o'r Bwrdd.Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau unwaith yn 2023/24.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau 2023/24*

| Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| **Cynthia Dubin** | 1/1 |
| **Sarah Cardell** | 1/1 |
| **Marcus Bokkerink** | 1/1 |

***Y Pwyllgor Bancio Agored***

Cadeirir y Pwyllgor Bancio Agored gan Gadeirydd y Prif Weithredwr Sarah Cardell. Mae'r aelodau fel a ganlyn: Marcus Bokkerink, y Cadeirydd a Kirstin Baker, Cadeiydd Ymchwiliadau Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Anweithredol tan fis Mawrth 2024.

Gall y Cwnsler Cyffredinol a'r Uwch-gyfarwyddwyr yn y Gyfarwyddiaeth Marchnadoedd hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Bancio Agored.

Mae'r Pwyllgor Bancio Agored yn rhoi arweiniad ar y trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu Bancio Agored a gyflawnir gan yr Endid Gweithredu Bancio Agored, ac ar ddyfodol Bancio Agored, sy'n cael ei ddatblygu drwy'r Cyd-bwyllgor Goruchwyliaeth Reoleiddiol (sy'n cynnwys y CMA, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, y Rheoleiddiwr Systemau Talu a Thrysorlys EF. Cyfarfu'r Pwyllgor Bancio Agored ddwywaith yn 2023/24.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Bancio Agored 2023/24*

| Aelod o'r Pwyllgor Bancio Agored | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| **Marcus Bokkerink** | 1/2 |
| **Kirstin Baker** | 2/2 |
| **Sarah Cardell** | 2/2 |

***Yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau***

Cadeirir yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell. Mae'r aelodau fel a ganlyn: Kirstin Baker, Cyfarwyddwr Anweithredol, tan fis Mawrth 2024, a Chadeirydd Ymchwiliadau Cystadleuaeth, Murdoch MacLennan, Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol a Chyfarwyddwr Anweithredol, David Stewart, Cyfarwyddwr Gweithredol Marchnadoedd, Uno a Rhwymedïau tan fis Medi 2023, ac ers mis Mawrth 2024, Joel Bamford, Cyfarwyddwr Gweithredol Uno a Cyrus Mehta, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o'r Panel Cystadleuaeth. Dirprwyodd Sarah Cardell y cyfrifoldeb am gadeirio'r cyfarfod hwn rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Economydd, bob yn ail, pan nad oedd ar gael.

Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn ystyried materion strategol fel y maent yn ymwneud â swyddogaethau rheoli cymorthdaliadau yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Mae'r rhain yn cynnwys yn benodol strategaeth ac amcanion

cyffredinol, cyflawniad a pherfformiad yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, ei gwaith yn cynllunio ar gyfer atgyfeiriadau, materion cyfundrefnol ac o ran enw da, a pholisi a gweithdrefnau. Cyfarfu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau 19 o weithiau yn 2023/24.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau*

| Aelod o'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| **Sarah Cardell** | 9/19 |
| **Kirstin Baker** | 16/19 |
| **Joel Bamford** | 1/1 |
| **Murdoch MacLennan** | 15/19 |
| **David Stewart** | 8/10 |
| **Chris Prevett** | 14/19 |
| **Mike Walker** | 12/19 |
| **Jessica Lennard** | 4/10 |
| **Rachel Merelie** | 18/19 |

***Y Pwyllgor Gweithredol***

Y Pwyllgor Gweithredol yw'r corff gwneud penderfyniadau cyffredinol ar gyfer perfformiad a chyflawni. Fel y nodir yn ei gylch gwaith, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn goruchwylio ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch strategaeth, cyflawni a pherfformiad, portffolio a phrosiectau arfaethedig, cyllid a risg, staffio, trawsnewid sefydliadol, materion sy'n ymwneud â chyfundrefnau ac enw da. Mae hefyd yn gwneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'u hadolygu. Cadeirir y Pwyllgor Gweithredol gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell ac mae aelodau'r pwyllgor yn rhan o'r Uwch-dîm Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod bob wythnos.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn ystyried ac yn cymeradwyo argymhellion gan ei isbwyllgorau, sef y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau a'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig.

***Y Pwyllgor Achosion a Pholisi***

Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi'r CMA mewn perthynas â phob dull cyflawni ac yn goruchwylio achosion a phrosiectau, gan sicrhau dull gweithredu cyson, ac yn rhoi cyngor ar faterion cyfreithiol, economaidd neu bolisi lefel uchel wrth iddynt godi.

Cadeirir y Pwyllgor Achosion a Pholisi gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac mae ei aelodau yn cynnwys y mwyafrfif o aelodau'r Uwch-dîm Gweithredol, Uwch-

gyfarwyddwyr a dau o Gadeiryddion Ymchwiliadau'r Panel Cystadleuaeth. Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi yn cyfarfod bob pythefnos.

***Isbwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol***

*Y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau*

Mae'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau yn nodi ac yn rheoli risgiau corfforaethol allweddol a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n sicrhau amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol, yn llunio polisïau, prosesau a strwythurau sy'n pennu safonau ymddygiad, yn hyrwyddo cydymffurfiaeth ac yn sicrhau diogelwch staff ac asedau. Mae'r Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau hefyd yn goruchwylio'r gwaith o gynnal rhaglen archwilio mewnol ac yn rhoi cyngor ar hynny ac yn llywodraethu ac yn goruchwylio prosiectau corfforaethol â therfyn amser sydd ar waith ym mhob rhan o'r CMA drwy fwrdd rhaglen 'POC Plus'. Mae'r aelodau yn cynnwys Uwch-gyfarwyddwyr o bob rhan o'r CMA a Chyfarwyddwyr o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

*Y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig*

Mae'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig yn rhoi cyfeiriad strategol mewn perthynas â defnydd y CMA o'n hadnoddau yn ein rhaglen waith barhaus ac arfaethedig. Cadeirir y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch-gyfarwyddwyr o bob rhan o'r CMA.

***Y Pwyllgor Cynghori***

Ym mis Medi 2021, lansiodd y CMA Bwyllgor Cynghori fel rhan o'i waith ehangach ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a Chynllun Gweithredu ar Hil y CMA. Mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithio i wella syniadau amrywiol ar lefelau uwch o'r CMA, gan roi gwybodaeth a chyngor i lywio, cefnogi a herio penderfyniadau a wneir ar lefel uwch mewn modd adeiladol. Rôl gynghorol sydd gan y Pwyllgor Cynghori ac nid oes ganddo bwerau i wneud penderfyniadau, er bod yn rhaid i bwyllgorau ystyried cyngor ac argymhellion y Pwyllgor Cynghori. Mae hefyd yn rhoi cyngor i bwyllgorau gan gynnwys y Pwyllgor Gweithredu, y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau, y Pwyllgor Bancio Agored a 'POC Plus' a chyngor i dimau a grwpiau eraill pan ofynnir amdano.

Yn flaenorol roedd gan y Pwyllgor Cynghori Gadeirydd allanol ac annibynnol o'r Gwasanaeth Sifil a benodwyd ym mis Medi 2021 ac a ymddiswyddodd ym mis Chwefror 2024. Ar hyn o bryd, mae gan y Pwyllgor Cynghori Gadeirydd Dros Dro mewnol tra bod y broses o recriwtio'r Cadeirydd allanol nesaf yn mynd rhagddi. Daw aelodau'r Pwyllgor Cynghori o wahanol feysydd a phroffesiynau ym mhob rhan o'r CMA, ac o gefndiroedd a grwpiau a dangynrychiolir ar lefel uwch.

## Panel Cystadleuaeth y CMA

Fel y nodir yn y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, gwneir penderfyniadau ynghylch ymchwiliadau uno Cam 2, ymchwiliadau i farchnadoedd ac apeliadau rheoleiddiol gan grwpiau annibynnol sy'n cynnwys aelodau o Banel Cystadleuaeth y CMA. Mae gan bob grŵp o leiaf dri aelod ac fe'i harweinir gan Gadeirydd Ymchwiliadau. Gall aelodau'r Panel Cystadleuaeth hefyd gael eu penodi i grwpiau penderfynu ar achosion gwrthglymblaid (Deddf Cystadleuaeth 1998.

Mae'r grwpiau yn gwneud eu penderfyniadau yn annibynnol ar Fwrdd y CMA. Nid yw'r gofyniad i'r Grŵp weithredu'n annibynnol yn atal Bwrdd y CMA rhag rhoi gwybodaeth briodol yn ei feddiant i Grŵp ac fel arall. Caiff y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau, effeithlonrwydd, y ffordd y cymhwysir polisi'r CMA a'r prosesau staff sy'n cefnogi gwaith y Panel Cystadleuaeth. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un aelod o'r Panel Cystadleuaeth fod yn aelod o Fwrdd y CMA. Roedd Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth ac un o'r Cadeiryddion Ymchwiliadau yn aelodau o'r Bwrdd tan fis Mawrth 2024, pan ymddiswyddodd Kirstin Baker, Cadeirydd Ymchwiliadau, o'r Bwrdd ac ymunodd Cyrus Mehta, aelod o'r Panel Cystadleuaeth, â'r Bwrdd.

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o aelodau'r Panel Cystadleuaeth ar ein gwefan, a datgelir eu buddiannau fel rhan o'r broses benodi.  Cynhelir gwiriad gwrthdaro, fesul achos, pan bennir aelodau o'r Panel Cystadleuaeth i ymchwiliadau ac, os oes angen, cyhoeddir datganiad o fuddiant ar dudalen yr achos perthnasol.

***Cadeiryddion Ymchwiliadau'r Panel Cystadleuaeth***

*Martin Coleman (Cadeirydd y Panel, Cadeirydd Ymchwiliadau, Cyfarwyddwr Anweithredol)*
Gweler bywgraffiad Martin ar dudalen 78.

*Kirstin Baker CBE* (Cadeirydd Ymchwiliadau a Chyfarwyddwr Anweithredol)
Gweler bywgraffiad Kirstin ar dudalen 77. Ymddiswyddodd Kirstin o'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024.

*Margot Daly* (Cadeirydd Ymchwiliadau)
Penodwyd Margot yn un o Gadeiryddion Ymchwiliadau'r CMA ym mis Medi 2021, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Mai 2020.

*Richard Feasey* (Cadeirydd Ymchwiliadau)
Penodwyd Richard yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Ebrill 2021, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

*Stuart McIntosh* (Cadeirydd Ymchwiliadau)
Penodwyd Stuart yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Ebrill 2018, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

*Kip Meek* (Cadeirydd Ymchwiliadau)
Penodwyd Kip yn Gadeirydd Ymchwiliadau ac yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2018.

***Aelodau'r Panel Cystadleuaeth***

| | | |
|---|---|---|
| Jo Armstrong | Ulrike Hotopp | Syr Kenneth Parker |
| Humphrey Battcock | Paul Hughes | Keith Richards |
| Robin Cohen | Colleen Keck | Stephen Rose |
| Maria Da Cunha | Juliet Lazarus | Karthik Subramanya |
| Anne Fletcher | Sheila McClelland | John Thanassoulis |
| Robin Foster | Frances McLeman | Mark Thatcher |
| Roland Green | Cyrus Mehta | David Thomas |
| Ashleye Gunn | Paul Muysert | Claire Whyley |
| Susan Hankey | Jeremy Newman | Crispin Wright |

## Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhan o'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA). Mae Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn helpu Swyddfa'r Farchnad Fewnol i gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol, Murdoch MacLennan, yn aelod o Fwrdd y CMA.

Mae Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cymorth a chyngor cyffredinol i Swyddfa'r Farchnad Fewnol mewn perthynas â'i phortffolio cyffredinol (drwy 'Dasglu Sefydlog' sy'n cynnwys holl aelodau Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol) ac, mewn rhai achosion, ar ddarnau penodol o waith (drwy 'Tasgluoedd Prosiect-Benodol' a all gynnwys nifer llai o aelodau o Banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol). At hynny, gall y CMA awdurdodi Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol i gyflawni swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ar ran y CMA. Mewn achosion o'r fath, bydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn gweithredu'n annibynnol ar Fwrdd y CMA.

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o aelodau Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar ein gwefan, a datgelir buddiannau aelodau fel rhan o'r broses benodi.  . Cynhelir gwiriad gwrthdaro cyn pob cyfarfod o Banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac, os oes

angen, cyhoeddir datganiad o fuddiant ar dudalen we yr aelod perthnasol o Banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol.

***Aelodau Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol***

| | | |
|---|---|---|
| Angharad Butler | Michael Neilson | Tim Render |
| Stephen Gifford | Yr Athro Suzanne Rab | Yr Athro Andreas Stephan |
| Shane Lynch | | |

## Rheoli risg

Mae trefniadau rheoli risg cadarn yn helpu'r CMA i wneud penderfyniadau gwell. Mae dull y CMA o reoli risg yn ategu ein diben i helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

Trafodir risgiau mewn ffordd agored a thryloyw. Mae hyn yn galluogi'r CMA i nodi risgiau, ymdrin â nhw a'u huwchgyfeirio'n gyflym ac mae'n creu diwylliant o berchenogaeth o faterion risg ar bob lefel o'r sefydliad.

Yn 2023/24, parhaodd y CMA i adeiladu ar ein fframwaith rheoli risg presennol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag arfer da yn y Llyfr Oren ac ISO31000, am fod hyn rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Mae'r fframwaith rheoli risg yn sicrhau y caiff risgiau eu hasesu ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol, a bod risgiau yn cael eu nodi, eu rheoli a'u cofnodi yn gyson. Mae'r fframwaith hefyd yn helpu'r CMA i ymateb i ansicrwydd a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

Mae'r fframwaith rheoli risg yn gofyn am asesiad o broffil presennol unrhyw risg benodol a bod y risg weddilliol yn cael ei nodi'n glir. Risg weddilliol yw asesiad o'r risg ar ôl i'r holl gamau gweithredu a ragwelir gael eu rhoi ar waith i ddileu'r risg gynhenid. Mae'r gofyniad hwn yn golygu y rhoddir ystyriaeth weithredol i gamau lliniaru a beth fydd eu heffaith ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith. Caiff y lefelau risg gweddilliol eu hasesu yn erbyn Awydd y Bwrdd i Fentro (a ddiwygiwyd ym mis Ionawr 2023) ar gyfer pob un o'i chwe thema allweddol gan gynnwys strategol, ymgyfreitha, cyllid/gwerth am arian, gweithredol, cydymffurfiaeth gyfreithiol ac enw da. Mae'r Awydd i Fentro yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd mewn amgylchiadau cyfyngedig, yn amodol ar brosesau uwchgyfeirio a chymeradwyo priodol.

Mae cofrestr risgiau corfforaethol y CMA yn rhoi asesiad strwythuredig o effaith, tebygolrwydd a chyflymder ac mae'r Arweinydd Risg a Chydymffurfiaeth yn gweithio gyda'r Cyfarwyddiaethau i reoli cofrestrau risgiau lleol, sy'n bwydo i mewn i'r gofrestr risgiau corfforaethol ganolog bob mis. Mae'r gofrestr risgiau wedi'i rhannu'n ddwy haen o risgiau corfforaethol a strategol. Caiff y gofrestr risgiau ei hadolygu'n

rheolaidd gan y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd.

Mae gan y CMA system sefydledig o reolaethau mewnol, a chaiff y swyddogaeth risg ei harwain gan yr Arweinydd Risg a'r Cyfarwyddwr Cyfreithiol dros Lywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth (sydd yn ei dro yn adrodd i'r Cwnsler Cyffredinol). Fel rhan o'r systemau rheolaeth fewnol mae'r Cyfarwyddiaethau yn diweddaru eu cofrestrau risgiau lleol bob mis er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu; yn cynnal adolygiad o'r cofrestrau lleol a llunio cofrestr risgiau corfforaethol ganolog ar gyfer risg haen 1 a haen 2 gan y swyddogaeth risg; ac yn cynnal adolygiad a thrafodaeth o'r gofrestr risgiau corfforaethol ganolog a gweithrediad y fframwaith risgiau gan y Pwyllgor Gweithredol bob mis.

Hefyd, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnal adolygiad o'r portffolio risg yn erbyn Awydd y Bwrdd i Fentro bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r gofrestr risgiau ac effeithiolrwydd y fframwaith risgiau ac yn rhoi adborth ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth benodol i risgiau gweddilliol yn erbyn yr Awydd i Fentro ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn gweithredu'n gyson â'r Awydd i Fentro ac y caiff camau priodol eu cymryd er mwyn cysoni â'r Awydd i Fentro.

Mae'r Bwrdd yn adolygu risgiau haen 1, gan ystyried, yn arbennig, risgiau a uwchgyfeiriwyd. Mae'n monitro'r portffolio risg cyffredinol gan gynnwys y camau lliniaru ac yn herio lle y bo'n briodol Mae rheoli risg yn rhan allweddol o'r diweddariad a roddir gan y Prif Weithredwr ym mhob cyfarfod Bwrdd, pan gaiff y risgiau pwysicaf sy'n wynebu'r sefydliad eu codi gyda'r Bwrdd.

Gwnaeth yr adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2023/24 argymhellion i ddatblygu cydberthynas y Bwrdd a dull y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o reoli risg. Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn y broses o ddatblygu cynllun gwella prosesau rheoli risg ehangach er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu targedu'n dda a'u bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r CMA. Bydd y cynllun yn sicrhau gwelliannau pellach o ran effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, er mwyn cefnogi eu rolau rheoli a goruchwylio yn ystod 2024/25.
Hyrwyddir y dull o ymdrin â risg i'r staff ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys drwy dudalennu mewnrwyd y CMA a thrwy hyfforddiant. Mae'r gwaith penodol hwn ar risg wedi sicrhau bod risgiau yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n well ym mhob rhan o'r CMA. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth am risgiau, heriau a chyfleoedd yn yr Adroddiad ar Berfformiad uchod.

## Rhoi Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar Waith

Mae Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn cyfeirio at gyfres gyhoeddedig o safonau rheoli a ddatblygwyd gan Swyddfa'r Cabinet, y mae'n ofynnol eu defnyddio

ym mhob rhan o lywodraeth ganolog ers mis Medi 2021, gan gynnwys swyddogaethau megis cyflawni prosiectau, masnachol a chyllid. Diben Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yw creu dull gweithredu cydlynol, effeithiol a safonedig i ymgymryd â busnes o fewn gwaith llywodraethu ac i roi sylfaen sefydlog ar gyfer adeiladu gallu a gwelliant parhaus.

Mae ein fframwaith sicrwydd yn rhoi rolau ac atebolrwydd clir i'r sawl sy'n ymgymryd â gwaith cyflawni llinell flaen a gwaith goruchwylio corfforaethol cysylltiedig, ac mae'r defnydd o bob Safon wedi'i ymgorffori yn y sefydliad.

Mae ein fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth ar gyfer cydymffurfio â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth a rheolaethau gwario yn gweithio fel y bwriadwyd, er bod cyfleoedd i wella ac atgyfnerthu'r amgylchedd rheoli mewn perthynas â'r Safonau, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurffio yn yr hirdymor. Rydym wedi sefydlu protocol ar gyfer cynnal asesiadau blynyddol systematig o gydymffurfiaeth â'r Safonau, gan sicrhau y cyflwynir adroddiadau cyson a rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rydym hefyd yn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ym mis Mai 2023 ac rydym yn disgwyl y byddwn wedi rhoi argymhellion rheolwyr yr Asiantaeth ar waith yn llawn yn ystod 2024/25. Mae'r Asiantaeth wedi cymeradwyo cynllun ac amserlen arfaethedig gweithgareddau gwella parhaus mewn perthynas â goruchwylio'r Safonau ac rydym yn cyflwyno adroddiadau cynnydd bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Cydymffurfiaeth

### *Cod Llywodraethu Corfforaethol*

Mae'r CMA wedi cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Cod Arferion Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog, i'r graddau sy'n briodol ac yn unol â'n dyletswyddau statudol.

### *Nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau*

Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau y CMA yn nodi'r broses ar gyfer datgan buddiannau allanol a rheoli unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau a allai godi ar gyfer y Bwrdd, y Panel Cystadleuaeth ac aelodau o staff o ganlyniad i fuddiannau allanol. Yn unol â'r polisi hwn, mae pob aelod o'r Bwrdd a'r Panel a phob aelod o staff yn datgan buddiannau allanol a allai beri risg o wrthdaro buddiannau naill ai i'w rheolwyr a/neu'r Swyddog Cydymffurfiaeth er mwyn iddynt asesu a oes unrhyw risg y bydd gwrthdaro o ganlyniad i fuddiannau allanol ac, os felly, sut y dylid

ei rheoli. Mae'r polisi hwn yn gadarn ac mae'n cadw at ofynion perthnasol Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Yn Chwarter 1 2024, cynhaliwyd ymarfer sicrwydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn deillio o unrhyw gyflogaeth allanol â thâl a ddelir gan Uwch Weision Sifil yn y CMA.

Canfu'r ymarfer hwn, y mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA wedi craffu arnynt, nad oedd yr un o Uwch Weision Sifil y CMA yn dal swyddi â thâl na buddiannau ehangach a allai wrthdaro â'u rhwymedigaethau o dan bolisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA na Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Ddatgan a rheoli buddiannau allanol yn y Gwasanaeth Sifil, rydym wedi cyhoeddi, ar-lein, fanylion pedwar Uwch Was Sifil yn y CMA a gafodd gydnabyddiaeth y tu allan i'w cyflogaeth, y cytunwyd arni yn unol â pholisi Gwrthdaro Buddiannau y CMA.

***Penodiadau Busnes***

*Cymhwyso'r Rheolau Penodiadau Busnes*

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA yn nodi'n glir, pan fydd staff yn gadael y sefydliad, fod yn rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Rheolau Penodiadau Busnes (“BARs”) cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Hefyd, mae gan y CMA bolisi BARs sy'n nodi'n fanylach y broses sydd ar waith ar gyfer ymdrin â cheisiadau a wneir ar raddau gwahanol o dan y Rheolau Penodiadau Busnes. Mae'r CMA wedi cymryd camau i sicrhau bod y ddau bolisi'n cael cyhoeddusrwydd da yn y sefydliad, drwy ddulliau cyfathrebu mewnol, cyflwyniadau i dimau a phroses gadarnhau flynyddol a nodir yn y polisi Gwrthdaro Buddiannau.

Mae adran Adnoddau Dynol y CMA yn dilyn proses sydd wedi'i diffinio'n glir i sicrhau y caiff ceisiadau BARs eu cwblhau gan bob aelod o staff cyn iddynt adael y Gwasanaeth Sifil a bod pob cais gan uwch-aelod o staff yn cael ei ystyried gan y Swyddog Cydymffurfiaeth. Ym mis Tachwedd 2023, aseswyd bod i'r CMA statws Cydymffurfiaeth Sylweddol yn un o adolygiadau archwilio Dechreuwyr ac Ymadawyr Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth – Cyn cyflogi ac effeithiolrwydd BARS.

*Ceisiadau BARs 2023/24*

Yn 2023/24, cymhwysodd y CMA y BARs at bob aelod o staff a oedd yn gadael y Gwasanaeth Sifil ac mae'r CMA wedi bod yn dryloyw o ran y penderfyniadau a wnaed ar geisiadau unigol gan uwch-aelodau o staff, yn unol â gofynion adrodd tryloywder BARs, y nodir eu manylion ar ein gwefan.

Yn ogystal â'r ceisiadau BARs a amlinellir isod, roedd 27 o geisiadau Nodi Gwrthdaro ar gyfer trosglwyddiadau i Adrannau Eraill y Llywodraeth. Ni chafwyd

unrhyw geisiadau a oedd yn anaddas i'r ymgeisydd, ac ni chafwyd unrhyw achosion o dorri'r Rheolau. Yn 2024/25, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael adroddiadau rheolaidd ar BARs ar gyfer ei waith adolygu a monitro parhaus.

Ystyrir ymadawiadau Band Cyflog 3 o'r Uwch Wasanaeth Sifil gan Swyddog Cydymffurfiaeth y CMA sydd wedyn yn anfon y cais ac unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau Busnes (ACOBA) er mwyn cael cyngor ynghylch a all yr unigolyn dderbyn penodiad ac, os felly, a ddylai unrhyw amodau fod ynghlwm wrth y gwaith y gall ei wneud. Prif Weinidog y DU sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid derbyn cyngor ACOBA.

Os cymeradwyir penodiad, cyhoeddir y canlyniad hwnnw ar wefan ACOBA. Ni all unigolyn dderbyn swydd newydd oni fydd ACOBA wedi cymeradwyo'r cais ac ni chaniateir unrhyw gyhoeddiadau gan yr unigolyn, y CMA na chyflogwr yr unigolyn yn y dyfodol cyn i gymeradwyaeth gael ei rhoi.

Nifer y ceisiadau BARs a aseswyd gan yr adran dros y flwyddyn:

| Gradd | Nifer |
|---|---|
| **AO** | 17 |
| **EO** | 7 |
| **HEO** | 18 |
| **SEO** | 10 |
| **G7** | 52 |
| **G6** | 18 |
| **Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil** | 5 |
| **Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil** | 1 |

Nifer y ceisiadau BARs lle y gosodwyd amodau:

| Gradd | Nifer |
|---|---|
| **AO** | 0 |
| **EO** | 0 |
| **HEO** | 0 |
| **SEO** | 0 |
| **G7** | 1 |
| **G6** | 5 |
| **Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil** | 1 |
| **Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil** | 1 |

***Cwynion ac ymholiadau***

*Chwythu'r chwiban yn fewnol*

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol y CMA, a elwir yn ‘Speaking Out’, yn nodi'r broses i'w dilyn os bydd aelod o staff yn ymwybodol o gamymddwyn canfyddedig yn y CMA, gan gynnwys rhywbeth y mae'n credu ei fod yn mynd yn groes i werthoedd craidd Cod y Gwasanaeth Sifil (h.y. uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd). Mae'r polisi ar gael i bob aelod o staff ar y fewnrwyd a thynnir sylw aelodau newydd o staff ato yn ystod eu rhaglen sefydlu. Mae rhaglen gyfathrebu yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys blogiau a chymryd rhan yn wythnos 'Speak Up' sy'n cwmpasu pob rhan o'r Gwasanaeth Sifil. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd ddiweddaru mewnrwyd y CMA er mwyn nodi'n gliriach lle mae cymorth a gwybodaeth ar gael, gan gynnwys drwy'r polisi ‘Speaking Out’. Mae grŵp o Gynghorwyr 'Speaking Out' hyfforddedig ar gael i staff sydd am godi pryder ond nad ydynt yn siŵr sut i wneud hynny. Ers 2023 mae gennym Gynghorwyr ‘Speaking Out’ ym mhob un o'n swyddfeydd. Mae'r polisi yn rhan o fframwaith rheolaeth fewnol y CMA ac fe'i hadolygir bob blwyddyn. Ni chafodd y CMA unrhyw gwynion chwythu'r chwiban yn ystod 2023/24.

*Chwythu'r chwiban yn allanol*

Mae gan y CMA rôl ragnodedig o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ar gyfer materion sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, sy'n cael effaith andwyol ar fuddiannau defnyddwyr; neu mewn perthynas â chystadleuaeth sy'n effeithio ar farchnadoedd yn y DU. O dan y ddeddfwriaeth hon, gall aelodau o'r cyhoedd wneud ‘datgeliad gwarchodedig’ i'r CMA, os yw er budd y cyhoedd ac yn ymwneud â chamymddwyn posibl gan eu cyflogwr neu gyn-gyflogwr.

Mae Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiben y CMA wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2021 ac mae'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i wneud datgeliadau i ni dros y ffôn, drwy e-bost neu gan ddefnyddio ffurflen we newydd. Ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 23 a 31 Mawrth 24, cawsom 17 o ddatgeliadau cymwys, yr arweiniodd 10 ohonynt at ymchwiliad pellach ac y cyfnodwyd saith ohonynt er gwybodaeth Rydym yn cyhoeddi ein hystadegau bob blwyddyn ac yn cyflwyno adroddiad hefyd i'r Adran Busnes a Masnach.

*Cwynion corfforaethol*

Mae'r CMA yn cymryd cwynion a wneir yn ei erbyn o ddifrif. Mae gweithdrefn gwyno'r CMA yn darparu ar gyfer datrys cwynion yn gyflym mewn modd anffurfiol, er enghraifft drwy alwad ffôn, os bydd hynny'n foddhaol i'r achwynydd, neu drwy eu huwchgyfeirio at uwch-aelod annibynnol o staff os yw'n briodol. Mae'r CMA yn ymrwymedig i ymchwilio'n drylwyr i unrhyw gwynion sy'n codi materion difrifol sy'n ymwneud â'n hymddygiad.

Yn 2023/24, cafodd y CMA bedwar ymholiad a gododd faterion yn ymwneud â'n hymddygiad ac yr ymdriniwyd â nhw fel cwynion corfforaethol (2022/23: 7). O'r pedair cwyn hyn, gwrthodwyd tri a chafodd un ei chadarnhau'n rhannol.

Ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn y CMA i'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd yn ystod 2023/24 (2022/23: dim un).

*Gohebiaeth gyffredinol*

Yn 2023/24, ymdriniodd y CMA â 5,900 o eitemau o ohebiaeth ysgrifenedig gan y cyhoedd, a oedd yn cynnwys llawer o adroddiadau gan ddefnyddwyr a busnesau am ymddygiad gwrthgystadleuol neu broblemau mewn marchnadoedd, y gallai rhai ohonynt beri i ni graffu ar farchnadoedd neu ymchwilio i fusnesau a all fod yn torri'r gyfraith. Trafodir llawer o'r ymholiadau hyn mewn cyfarfodydd wythnosol lle yr ymdrinnir â phrosiectau arfaethedig, sy'n cynnig cyfle i lawer o dimau gwahanol ddod at ei gilydd a thrafod eu diddordebau mewn ymchwiliadau a phrosiectau yn y dyfodol.

Mae gennym darged i ymateb i'r ohebiaeth ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith. Yn 2023/24, gwnaethom ymateb i'r holl ohebiaeth a gawsom o fewn y DPA hwn.

Yn ystod 2023/24, cafodd y CMA 105 o eitemau o ohebiaeth gan ASau (heb gynnwys gohebiaeth adrannol weinidogol). Gwnaethom ymateb i 67% o fewn ein DPA, sef 15 diwrnod gwaith.

***Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth***

Yn 2023/24, ymatebodd y CMA i 89% o'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn y cyfnod statudol o 20 diwrnod gwaith. Roedd gan fwy na hanner yr 11% o geisiadau eraill na wnaethom ymateb iddynt o fewn 20 diwrnod estyniadau o dan y Prawf Er Budd y Cyhoedd, sy'n golygu ein bod wedi ymateb i 96% o'r ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfynau amser statudol.

Gall unigolyn sy'n gwneud cais am wybodaeth sy'n anfodlon ar ymateb y CMA ofyn i'r CMA adolygu ein penderfyniad yn fewnol. Cafodd y CMA 11 o geisiadau am adolygiadau mewnol ac ymatebodd iddynt. Cafodd wyth eu cadarnhau'n llawn a chafodd tri eu cadarnhau'n rhannol. Gall unigolyn sy'n gwneud cais am wybodaeth hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd y mae'r CMA wedi ymdrin â chais. Ni wnaeth yr un unigolyn a wnaeth gais am wybodaeth gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd roedd y CMA wedi ymdrin â'i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2023/2024.

Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.** | **146** |

| O'r rhain: | |
|---|---|
| **Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn llawn** | 52 |
| **Nifer y ceisiadau a wrthodwyd yn llwyr am nad yw'r CMA yn dal unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani** | 9 |
| **Nifer y ceisiadau a wrthodwyd am y byddai cost yr ymateb yn fwy na'r trothwy cost** | 5 |
| **Nifer y ceisiadau a wrthodwyd am fod y cais yn un blinderus** | 0 |
| **Nifer y ceisiadau lle y gwrthododd y CMA ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth** | 41 |
| **Nifer y ceisiadau lle y gwrthododd y CMA ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani** | 39 |

***Ceisiadau a gafwyd o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data***

Yn ystod yr un cyfnod, cafodd y CMA 11 o geisiadau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data hefyd. Cawsom naw cais am fynediad at ddata gan y testun, un cais i ddileu data ac un cais arall a oedd yn gyfuniad o gais am fynediad at ddata gan y testun a chais i gywiro data. Atebwyd chwech o'r ceisiadau hyn o fewn y cyfnod statudol o fis. Achoswyd yr oedi yn achos y pum cais arall gan yr angen i ddod o hyd i nifer mawr o ddogfennau, eu gwerthuso a'u golygu, a oedd yn anodd i'w wneud, o fewn y terfyn amser statudol yn ystod cyfnod gwyliau'r haf. Gwnaethom hysbysu unigolion a oedd wedi cyflwyno cais am yr oedi hwn a darparu terfyn amser diwygiedig. Gwnaethom lwyddo i ddarparu ymateb o fewn y terfyn amser newydd hwn ym mhob achos.

***Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Data Personol***

Ni chafodd unrhyw ddata personol mewn perthynas â digwyddiadau eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod 2023/24.

## Archwilio Mewnol

Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiad blynyddol a barn ar y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sydd ar waith yn y CMA yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwybodaeth am yr amgylchedd busnes a gwaith eraill megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Rhwng 2023 a 2024, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol farn gyffredinol o '**Cymedrol**' ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn y CMA ar gyfer 2023/24. Mae'r CMA yn parhau i ddangos bod gennym fframwaith rheolaeth fewnol priodol ac effeithiol ar waith sy'n parhau i aeddfedu wrth i'r sefydliad gyflawni ein hamcanion, strategaethau a chynlluniau hirdymor, ac ar ôl i'r newid i Beirianwaith y Llywodraeth gael ei roi ar waith a arweiniodd at newidiadau i

drefniadau llywodraethu a goruchwylio ar ôl i'r Adran Busnes a Masnach gael ei sefydlu.

Mae'r farn hon o '**Cymedrol**' yn adlewyrchu'r ffaith, er nad oes unrhyw wendidau sylfaenol yn yr amgylchedd rheolaeth fewnol presennol yn y meysydd hyn a archwiliwyd gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fod ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn cynnig cyfle i wella rheolaethau a gweithredu arferion da ymhellach. Mae'r CMA yn derbyn hyn, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wella'n barhaus. Asesiad Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a ystyriodd wybodaeth gan gyrff eraill y llywodraeth, yw bod y CMA yn cymharu'n ffafriol o ran ein dull o ddatblygu ein fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, gan gynnwys cefnogi'r broses o sefydlu ein swyddogaethau newydd, gan gysoni a chydgysylltu â strwythur llywodraethu'r Adran Busnes a Masnach.

Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer goruchwylio cyflawni strategol a gweithredol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau a Bwrdd Trawsnewid Pobl a Gweithrediadau (POC +) ac mae'n bwriadu cynnal adolygiad pellach o effeithiolrwydd Bwrdd y CMA fel rhan o'n rhaglen archwilio ar gyfer 2024-25.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd fod gwaith pellach eisoes yn mynd rhagddo er mwyn helpu i ymgorffori'r fframwaith rheoli risg gan gynnwys rhesymoli'r risgiau corfforaethol a strategol a sicrhau bod arferion gorau yn cael eu hymgorffori ar lefel weithredol. Codwyd hyn fel canfyddiad hefyd yn 2022/23. Mewn ymateb, mae'r CMA wedi penodi Arweinydd Risg a Chydymffuriaeth dynodedig newydd ac mae cynlluniau priodol (er enghraifft, cynllun Datblygu Fframwaith Rheoli Risg) wedi'u datblygu er mwyn helpu i ymgorffori arferion gorau ym mhob rhan o'r sefydliad. Ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith yn llawn, mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r farn y bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r fframwaith rheoli risg fewnol a chyflawni uchelgais y CMA i gael barn 'Sylweddol'.

Mae gwaith Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyda'r CMA hefyd yn parhau i nodi ymrwymiad cryf i sicrhau bod amgylchedd rheolaeth cymesur ar waith sy'n cyd-fynd ag arfer da ac anghenion busnes, gan gynnwys cysoni â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth. Er i Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth weld enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â phrosesau a gweithdrefnau penodol, nododd fod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â gwendidau ar ôl iddynt gael eu nodi.

Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gael ymgysylltiad cadarnhaol â'i waith â'r broses o roi argymhellion ar waith er mwyn mynd i'r afael â gwendidau neu wella'r amgylchedd rheolaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd unrhyw gamau heb eu cymryd, sy'n adlewyrchu ymrwymiad rheolwyr y CMA i amgylchedd rheolaeth effeithiol.

Mae'r CMA yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol sy'n newid drwy'r amser, sy'n adlewyrchu heriau ychwanegol i gyflawni gweithgareddau busnes fel arfer, yn erbyn amgylchedd economaidd a gwleidyddol anwadal. Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ein bod yn parhau i dyfu a datblygu ein systemau a'n galluoedd ERP a digidol craidd fel rhan o'n rhaglenni trawsnewid strategol. Eleni, cyflwynwyd y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr (sydd wedi'i ddeddfu ers hynny) a fydd rhoi pwerau cyfundrefn ddigidol newydd i'r CMA a phwerau cryfach i orfodi cyfraith cystadleuaeth a chyfraith defnyddwyr. Datblygwyd strategaethau a chynlluniau er mwyn sicrhau bod y CMA yn barod i weithredu o fewn y cyfundrefnau gorfodi newydd.

Mae recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn faes risg allweddol ar gyfer 2024/25, gyda mwy o gystadleuaeth â sefydliadau ehangach y llywodraeth a'r sector preifat mewn marchnad swyddi gystadleuol ar gyfer setiau sgiliau arbennig. Cydnabyddir hyn gan y CMA ac fe'i hadlewyrchir yn y Gofrestr Risg Strategol.

Yn ystod y flwyddyn, hysbysodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am newidiadau i'r cynllun archwilio ac atebolrwyddau ac ymgynghori â'r Pwyllgor yn eu cylch (ar ôl iddo gael ei benodi), yn ogystal â'i ymrwymiad i sicrhau y caiff pob un o gamau gweithredu'r rheolwyr nas cyflawnwyd, eu rhoi ar waith yn llawn gan y rheolwyr erbyn diwedd y flwyddyn.

## Adrodd ar Well Rheoleiddio

Mae rhan 4 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA adrodd ar gydymffurfiaeth â'n dyletswydd o dan y Ddeddf i osgoi gosod neu gynnal beichiau diangen ar fusnesau wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio. Pan fydd ein gwaith yn arwain at swyddogaethau rheoleiddio, mae'n gwneud hynny o dan gyfraith cystadleuaeth neu gyfraith uno, sydd wedi'u hepgor yn benodol o reolaethau adrodd ar well reoleiddio. Nid oes gennym unrhyw bŵer i wneud rheolau nac ychwaith osod beichiau sy'n effeithio ar fusnesau yn gyffredinol. Mae ein hymyriadau yn digwydd mewn perthynas â busnesau neu farchnadoedd penodol a dim ond os oes tystiolaeth glir o fethiant marchnad a/neu achosion o dorri'r gyfraith sy'n peryglu gweithrediad cywir marchnadoedd y byddwn yn ymyrryd.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

## Trosolwg

Fel sefydliad llywodraethol, mae'r CMA yn ymrwymedig i gyflawni targed o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyflawni targedau'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth sydd â'r nod o leihau'r defnydd o ddŵr, allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff, sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu caffael mewn ffordd gynaliadwy a lleihau effeithiau amgylcheddol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a thechnoleg ddigidol. Mae Adroddiad Cynaliadwyedd y CMA wedi'i lunio yn unol ag argymhellion cam 1 y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â'r Hinsawdd.

Mae Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn nodi'r camau y mae angen i adrannau llywodraeth y DU a'u sefydliadau partner eu cymryd er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae'r fframwaith targedau hwn wedi'i bennu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2025 ac mae'n seiliedig yn bennaf ar linell sylfaen o ffigurau cynaliadwyedd fel y'u cofnodwyd yn 2017/18.

Mae'r CMA yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau o ran cynaliadwyedd. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma, gofynnwyd i Gyfarwyddwyr y CMA sy'n cynrychioli'r adrannau rheoli cyfleusterau, caffael, eiddo a chyllid, arwain cam nesaf y broses o ddatblygu strategaeth y CMA yn y maes hwn, gan weithio gyda Rhwydwaith yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y CMA ac adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredu. Caiff y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn, sydd wedi'u diweddaru, eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn ystod 2024. Rhoddir diweddariad yn Adroddiad Blynyddol 2024/25.

Adran anweinidogol annibynnol gymharol fach o fewn y Llywodraeth ydym, sydd â swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain, Belfast, Darlington, Caeredin a Manceinion. Mae ein swyddfeydd presennol yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin wedi'u lleoli yn adeiladau adrannau eraill y llywodraeth ac rydym yn disgwyl agor swyddfeydd newydd yng Nghaerdydd, Manceinion a Belfast yn 2024. Darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn ein swyddfeydd nad ydynt wedi'u lleoli yn adeiladau adrannau eraill y llywodraeth, gan landlordiaid sy'n rhoi gwybodaeth i'r tenantiaid unigol.

Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod y CMA wedi tyfu'n sylweddol ers 2017/18 o ran ein staff, ein swyddfeydd a'n cyfrifoldebau. Mae nifer ein staff wedi cynyddu o gyfanswm o 628, ar gyfartaledd, yn 2017/18 i 1,008.5 yn 2023/24. Mae ein presenoldeb ffisegol hefyd wedi cynyddu o gymharu â 2017/18. Bryd hynny, dim ond yn Llundain yr oedd gennym swyddfeydd ac roedd gan ein staff lai o reswm i deithio ledled y DU ac i wledydd tramor nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae gennym staff yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin (wedi'u lleoli yng Nghanolfannau'r Llywodraeth) ac yn Darlington, Manceinion ac ardaloedd Temple a

Canary Wharf yn Llundain. Yn 2019, gwnaethom hefyd symud ein pencadlys i swyddfeydd newydd eu hadnewyddu yn Canary Wharf. Er bod y swyddfeydd hyn yn fwy na'n swyddfeydd blaenorol yn Holborn, dyfarnwyd gradd 'Ardderchog' BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) iddynt ac, felly, maent yn llawer mwy effeithlon na'r swyddfeydd blaenorol.

Felly, mae'n amlwg nad yw'r llinell sylfaen ar gyfer cynaliadwyedd a bennwyd yn 2017/18 yn adlewyrchu ein gweithrediadau presennol a byddwn yn ystyried gwneud cais i'r llinell sylfaen hon gael ei hailosod i flwyddyn sy'n adlewyrchu ein gweithrediadau presennol yn well. Er mwyn rhoi cyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr mewn persbectif, yn ein blwyddyn sylfaen, sef 2017/18, cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cyflogai CALI oedd 1.46 tunnell o'r hyn sy'n cyfateb i garbon deuocsid ($tCO_2e$) ac, yn 2023/24, gyfanswm ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cyflogai CALI yw 0.45 ($tCO_2e$). Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 69%. Mae'r gostyngiad hwn i'w briodoli i sawl ffactor, gan gynnwys swyddfeydd mwy effeithlon, cyfarpar TGCh mwy effeithlon, newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio, caffael ynni gwyrdd a'r defnydd o drenau fel y dull teithio a ffefrir.

At hynny, wrth i nifer ein staff a'n presenoldeb ffisegol barhau i gynyddu, adlewyrchir hyn yn y ffigurau cyffredinol ar gyfer allyriadau. Rydym yn parhau i wella a datblygu ein dull o ymdrin â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac o addasu i newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnwys gwneud newidiadau i'n gweithrediadau a'r ffordd rydym yn gweithredu fel sefydliad.

## Datganiad Cydymffurfiaeth y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â'r Hinsawdd

Cydnabu llywodraeth y DU argymhellion Tasglu'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â'r Hinsawdd fel un o'r fframweithiau mwyaf effeithiol i sefydliadau ddadansoddi a deall gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac, yn y pen draw, ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn ei erbyn. Mae argymhellion y Tasglu yn nodi sut y gall sefydliadau mewn gwahanol sectorau a daearyddiaethau asesu a datgelu eu strwythurau Llywodraethu, eu Strategaethau a'u harferion Rheoli Risg a Metrigau a Thargedau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cael ei gyflwyno mewn tri cham fel a ganlyn gyda cham 1 yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2023, cam 2 ym mis Mawrth 2024 a cham 3 ar ôl hynny.

Rydym wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn unol â chanllawiau cymhwyso datgeliadau Trysorlys EF, sy'n cyd-fynd ar argymhellion y Tasglu, sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith i'r sector cyhoeddus yn y DU. Rydym o'r farn bod newid yn yr hinsawdd yn brif risg ac, felly, rydym wedi cydymffurfio ag argymhellion y Tasglu a datgeliadau argymelledig fel isod:

(a) Llywodraethu – datganiadau argymelledig (a) a (b)
(b) Metrigau a Thargedau – datgeliad argymelledig (b).

Mae hyn yn unol ag amserlen gweithredu datgeliadau Llywodraeth y DU, sy'n cyd-fynd ag argymhellion y Tasglu, ar gyfer Cam 1. Rydym yn bwriadu darparu datgeliadau argymelledig ar gyfer Strategaeth mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol yn unol ag amserlen gweithredu llywodraeth ganolog.

Nid ydym wedi adrodd ar Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth y llywodraeth o ran fflydoedd gan nad oes gennym fflyd. Nid ydym wedi adrodd ar elfen adfer natur Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (Gwneud lle i blanhigion sy'n prifio ac ymrwymiadau o ran bywyd gwyllt), gan nad ydym yn rheoli unrhyw dir. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau elusennol lleol yn y dyfodol er mwyn helpu i gyflwyno cynlluniau adfer natur drwy fentrau gwirfoddoli.

## Llywodraethu

Nodir trefniadau llywodraethu'r CMA ar gyfer risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd isod yn unol â cham 1 argymhellion y Tasglu:

1. Disgrifiwch y ffordd y mae'r Bwrdd yn goruchwylio risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd:

   Cyflawnir gweithgarwch llywodraethu cynaliadwyedd corfforaethol gan y Pwyllgor Pobl a Gweithrediadau drwy'r Prif Swyddog Gweithredu ar lefel y Bwrdd.

2. Disgrifiwch rôl rheolwyr o ran asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd:

   Cyfarwyddwyr yn ein Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'u meysyddd o gyfrifoldeb gweithredol, yn unol â thargedau'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth ar gyfer 2021-25.

## Metrigau a Thargedau

Isod, rydym wedi datgelu'r metrigau a'r targedau a ddefnyddir i asesu a rheoli'r cyfleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, yn unol â cham 1 argymhellion y Tasglu:

b) Datgelwch allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1, Cwmpas 2 a, lle y bo'n briodol, Gwmpas 3, a'r risgiau cysylltiedig: Mae gennym brif darged i leihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o gymharu â llinell sylfaen 2017/18 fel y'i nodir yn

fframwaith Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth a bennwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2025.

## Lliniaru newid yn yr hinsawdd: gweithio tuag at Sero Net erbyn 2050

Targedau Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr yw lleihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau uniongyrchol ar gyfer yr ystad a gweithrediadau o gymharu â llinell sylfaen 2017/2018.[15] Yn achos y CMA, y targedau hyn yw lleihau cyfanswm yr allyriadau 62% a lleihau allyriadau uniongyrchol 30%.[16]

Dengys y tabl isod gyfanswm allyriadau'r CMA:

| Dangosyddion anariannol | Llinell sylfaen | 2023/24 | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm allyriadau NTG (tCO2e) | 914.49 | 456.91 | gostyngiad o 50% |
| Cyfanswm allyriadau NTG (tCO2e) fesul cyflogai CALI | 1.46 | 0.45 | gostyngiad o 69% |

Dengys y tabl isod allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1, 2 a 3 y CMA:

| Dangosyddion anariannol | Llinell sylfaen | 2023/24 | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|
| Allyriadau NTG Uniongyrchol Cwmpas 1 (tCO2e) | 147.42 | 54.86 | gostyngiad o 63% |
| Allyriadau NTG Uniongyrchol Cwmpas 1 (tCO2e) fesul cyflogai CALI | 0.23 | 0.054 | gostyngiad o 77% |
| Allyriadau NTG anuniongyrchol Ynni Cwmpas 2 (tCO2e) | 661.36 | 145.52 | gostyngiad o 78% |
| Allyriadau NTG anuniongyrchol Ynni Cwmpas 2 (tCO2e) fesul cyflogai CALI | 1.05 | 0.14 | gostyngiad o 86% |
| Allyriadau NTG anuniongyrchol Ynni Cwmpas 3 (tCO2e) Yn unol â gofynion adrodd yr Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth | 105.71 | 256.53 | cynnydd o 143% |

[15] Os nad oedd data ar gyfer blwyddyn sylfaen 2017/18 ar gael ar gyfer agwedd benodol, defnyddiwyd data'r flwyddyn nesaf a oedd ar gael.
[16] Mae'r CMA wedi mabwysiadu'r targedau hyn, a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer yr Adran dros Fusnes, yr Amgylchedd a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth 2021/25, gan mai BEIS oedd adran noddi weinidogol y llywodraeth ar gyfer y CMA pan osodwyd y targedau hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allyriadau NTG anuniongyrchol Ynni Cwmpas 3 (tCO2e) Yn unol â gofynion adrodd yr Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth fesul cyflogai CALI** | 0.17 | 0.25 | cynnydd o 51% |

Mae cyfanswm ein hallyriadau, ein hallyriadau cwmpas 1 a'n hallyriadau cwmpas 2 oll wedi lleihau, er bod ein sefydliad wedi tyfu. Mae hyn i'w briodoli i sawl ffactor, gan gynnwys gweithredu o swyddfeydd mwy effeithlon, cyfarpar TGCh mwy effeithlon, newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio, caffael ynni gwyrdd a'r defnydd o drenau fel y dull teithio a ffefrir. Nodir bod ein hallyriadau cwmpas 3 wedi cynyddu. Mae sawl ffactor wedi effeithio ar hyn, gan gynnwys y ffaith bod angen i'n staff wneud mwy o deithiau rhyngwladol o gymharu â'n blwyddyn sylfaen.

## Ynni

Rydym wedi casglu ein hystadegau ar gyfer ynni gan landlordiaid yr eiddo lle mae gennym brydlesau. Mae landlord ein heiddo yn Canary Wharf wedi cael holl drydan yr eiddo o gyflenwad adnewyddadwy o drydan, a ategir gan Warant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO). At hynny, mae landlord ein swyddfa yn Darlington yn darparu ynni solar fel canran o'r trydan a ddarperir i'r eiddo.[17] Mae ein costau ynni ar gyfer y flwyddyn hon yn cyfateb i £966,970.

Nodir ein defnydd o ynni yn y tabl isod ac mae'n seiliedig ar ddarllenniadau mesuryddion uniongyrchol lle y bo'n bosibl neu ddosraniad gan ein landlordiaid.

| | Blwyddyn | Defnydd (KWh) | Allyriadau (tCO2e) | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|---|
| **Trydan** | Llinell sylfaen 2017/18 | 1,471,900 | 661.36 | |
| **Trydan** | 2023/24 | 702,762 | 145.52 | gostyngiad o 52% |
| **Nwy** | Llinell sylfaen 2017/18 | 801,117 | 147.42 | |
| **Nwy** | 2023/24 | 299,889 | 54.86 | gostyngiad o 78% |

[17] Gwybodaeth gyfyngedig a gawn gan ein landlordiaid ac, felly, ni allwn wahanu costau ar gyfer ffrydiau cyfleustodau na chyflwyno costau manwl gywir ar gyfer y defnydd o ddŵr.

Mae'r cynnydd yn nifer ein staff a'n gweithrediadau, yn ogystal â'r swyddfa newydd yn Darlington a Manceinion, wedi effeithio ar ein defnydd o ynni. Gan fod gennym swyddfeydd newydd a fydd yn agor yn 2024, mae'n debygol y bydd y cynnydd yn ein gofynion gweithredol yn effeithio ymhellach ar ein hystadegau yn y dyfodol. Mae sawl ffactor wedi dylanwadu ar y lleihad yn ein defnydd o ynni, gan gynnwys: y penderfyniad i symud adeilad ein pencadlys o Holborn i'n swyddfeydd mwy effeithlon newydd yn Canary Wharf, newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio a chyfarpar TGCh mwy effeithlon.

## Teithio

Mae'r CMA yn cydnabod targed Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithiau awyr busnes domestig o leiaf 30% o gymharu â llinell sylfaen 2017/2018, a chofnodi'r pellter a deithiwyd ar gyfer teithiau awyr busnes rhyngwladol, er mwyn deall allyriadau cysylltiedig yn well a'u lleihau, lle y bo'n bosibl.

Yn 2017/18, nid oedd gan staff y CMA fawr o reswm i deithio o fewn y DU am fod bron pob un o'n cyflogeion yn gweithio mewn un lleoliad. Gan fod gennym swyddfeydd ledled y DU bellach a mwy o staff a chyfrifoldebau, mae'r angen i'n staff deithio i'r lleoliadau hyn yn ffactor a gyflwynwyd ar ôl i'r llinell sylfaen gael ei phennu. Mae hyn yn cynnwys yr angen i deithio i leoliadau megis Belfast a Chaeredin ac oddi yno mewn awyren. Er gwaethaf y cynnydd hwn mewn gweithgareddau gweithredol a nifer y staff, mae ein hallyriadau o deithiau awyr domestig wedi lleihau 33% o gymharu â 2017/18.

Mae ein buddsoddiadau mewn technoleg yn darparu galluoedd gweithio o bell a chyfarfod modern ac effeithiol i ni. Mae gennym drefniadau gweithio hybrid sefydledig, lle mae staff yn rhannu eu hamser rhwng y swyddfa a gweithio o bell. Yn 2023/24, roedd hyn yn seiliedig ar ofyniad presenoldeb o 40% o leiaf, er y gallai hyn newid yn unol â pholisi'r llywodraeth. Cydnabyddir bod y ffordd hon o weithio yn helpu i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau. Oherwydd natur ein gwaith, rydym hefyd yn ymwybodol o fanteision cyfarfod a rhyngweithio wyneb yn wyneb, lle y bo'n briodol.

Mae ein polisi teithio yn nodi mai teithio ar drên yw'r dull teithio a ffefrir lle y bo'n ymarferol ac y dylid hefyd barhau i ystyried opsiynau carbon isaf bob amser. Mae hyn a'r cynnydd yn ein gweithgareddau gweithredol ledled y DU wedi cynyddu'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r dull teithio hwn ond mae wedi cyfrannu at leihad yn nifer y teithiau awyr domestig, fel y nodwyd uchod.

Mae'r pellter a deithiwyd ar gyfer teithiau awyr busnes rhyngwladol yn 2023/24 yn cyfateb i 543,095 cilomedr (Km). Mae'r angen i ni deithio'n rhyngwladol wedi

cynyddu'n sylweddol ers llinell sylfaen 2017/18 ac adlewyrchir hyn yn y ffigurau ar gyfer teithiau isod ac yn ein hallyriadau cwmpas 3. Wrth i ni ehangu ein cyfrifoldebau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, rydym hefyd wedi cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu rhyngwladol er mwyn hyrwyddo buddiannau'r DU ledled y byd mewn perthynas â chystadleuaeth a diogelu defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd rhyngwladol amlochrog â'n cymheiriaid rhyngwladol, yn ogystal â rhanddeiliaid sy'n fusnesau rhyngwladol. Lle y bo'n bosibl, rydym yn teithio ar drên yn lle hedfan ac rydym bob amser yn ceisio rheoli ein presenoldeb er mwyn i ni sicrhau gwerth am arian, gan roi sylw, ar yr un pryd, i leihau ein hôl troed carbon.

Mae nifer ein teithiau mewn ceir ac ar fws wedi cynyddu ers i'r llinell sylfaen gael ei phennu. Mae hyn i'w briodoli i gynnydd mewn gweithgareddau gweithredol a'r ffaith bod ein gweithrediadau wedi ehangu ledled y DU.

Mae cyfanswm ein costau sy'n gysylltiedig â theithio ar gyfer y flwyddyn hon yn cyfateb i £502,588. Dengys y tabl isod y dull teithio, y pellter a deithiwyd a'r allyriadau ar gyfer y CMA yn 2023/24 o gymharu â'r llinell sylfaen a'r flwyddyn flaenorol. Nodwn fod y cynnydd yn nifer ein staff a'n gweithgareddau wedi dylanwadu ar y ffigurau o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

| Dangosyddion anariannol | Llinell sylfaen (km) | Allyriadau Llinell Sylfaen (tCO2e) | 2022/23 (Km) | Allyriadau 2022/23 (tCO2e) | 2023/24 (Km) | Allyriadau 2023/24 (tCO2e) | Gwahaniaeth canrannol o gymharu â'r llinell sylfaen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *** Cyfanswm y Teithiau Awyr (llinell sylfaen 2017/18)** | 623,795 | 91.01 | 663,949 | 91.80 | 872,220 | 197.14 | cynnydd o 117% |
| ***Teithiau Awyr Domestig (llinell sylfaen 2017/18)** | 502,687 | 79.31 | 214,285 | 27.86 | 329,125 | 52.98 | gostyngiad o 33% |
| *** Teithiau Awyr Rhyngwladol (llinell sylfaen 2017/18)** | 121,108 | 11.70 | 449,664 | 63.94 | 543,095 | 144.16 | cynnydd o 1,132% |
| *** Teithiau ar Drên, gan gynnwys Eurostar (llinell sylfaen 2017/18)** | 248,236 | 10.96 | 198,013 | 7.22 | 1,156,266 | 38.63 | cynnydd o 253% |
| *** **Teithiau mewn Ceir a Thacsis (*llinell sylfaen 2021/22)*** | 21,998 | 3.71 | 42,893 | 6.86 | 61,303 | 9.59 | cynnydd o 159% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *** **Teithiau Bws *(llinell sylfaen 2022/23)*** | 463 | 0.03 | Dd/G | Dd/G | 1,239 | 0.13 | cynnydd o 333% |

**Ffigurau hanesyddol ar gyfer carbon a gyfrifwyd gan ddefnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer y flwyddyn benodol.*
***Os nad oedd data ar gyfer blwyddyn sylfaen 2017/18 ar gael ar gyfer targed penodol, defnyddiwyd data'r flwyddyn nesaf a oedd ar gael*.

## Lleihau gwastraff a hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau

Bwriedir i'n gwaith i leihau gwastraff a hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau sicrhau cydymffurfiaeth ag Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth, gan gynnwys is-dargedau a'r prif darged i leihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir 15% o gymharu â'r llinell sylfaen.

Am fod y CMA yn meddiannu adeiladau aml-denant, fel arfer y landlordiaid sy'n darparu ein gwasanaethau rheoli gwastraff a'n rhaglenni ailgylchu. Ein nod yw ailgylchu gwastraff lle bynnag y gallwn a gweithio gyda'n landlordiaid er mwyn lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Eleni, cafodd 0.24% o'n gwastraff ei anfon i safleoedd tirlenwi, sy'n unol ag is-darged Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth o 5% erbyn 2025. At hynny, cafodd 43.98% ei ailgylchu a chafodd 55.78% ei anfon i gael ei losgi neu er mwyn cynhyrchu ynni o wastraff. Rydym yn gweithio gyda'n landlordiaid a'n staff er mwyn cyrraedd targedau Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth i ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025.

Ar gyfer y flwyddyn 2023/24, mae ein ffigurau ar gyfer ailgylchu gwastraff TGCh yn cyfateb i 1.037 o dunelli a ailgylchwyd yn allanol a 0.868 o dunelli a ailddefnyddiwyd yn allanol.

Mae cyfanswm y gwastraff (heb gynnwys gwastraff TGCh) wedi cynyddu 46% sy'n adlewyrchu ein twf fel sefydliad. Fodd bynnag, nodwn fod cyfanswm y gwastraff fesul cyflogai CALI wedi lleihau 9%.

Cyfanswm y gost ar gyfer gwastraff ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yw £7,342. Dengys y tabl isod gyfanswm y gwastraff a faint o wastraff a ailgylchwyd o gymharu â blwyddyn sylfaen 2017/18. Mae'r data hyn yn cynnwys y ffigurau ar gyfer ailgylchu gwastraff bwyd – 3.95 tunnell, a gwydr – 8.12 tunnell.

| Gwastraff (heb gynnwys gwastraff TGCh) | | 2017/18 | 2023/24 | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm y Gwastraff | 60.00 | 87.45 | cynnydd o 46% |
| | Cyfanswm y gwastraff fesul cyflogai CALI | 0.10 | 0.09 | gostyngiad o 9% |
| | Wedi'i ailgylchu | 26.00 | 38.46 | cynnydd o 48% |
| | Llosgwyd/ynni o wastraff | 34.00 | 48.78 | cynnydd o 43% |

Rydym yn annog staff i leihau'r defnydd o bapur drwy fabwysiadu opsiynau digidol amgen ac argraffu llai lle y bo'n bosibl, gan annog staff i beidio ag argraffu oni fydd yn gwbl angenrheidiol. Gosodiad diofyn ein hargraffyddion canolog yw dwyochrog ac maent wedi'u gosod ar fonocrom.

Dengys y tabl isod nifer y rimau o bapur a archebwyd gan ein cyflenwyr yn 2023/24 o gymharu â llinell sylfaen 2017/18. Mae'r lleihad yn y defnydd o bapur wedi rhagori ar darged Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth drwy leihau'r defnydd o bapur 50%. Byddwn yn parhau i gymryd camau a chwilio am gyfleoedd i leihau ein defnydd o bapur lle y gallwn wneud hynny.

| Dangosyddion anariannol | Llinell sylfaen | 2023/24 | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|
| **Rimau o bapur** | 8,361 | 627 | gostyngiad o 93% |

## Gwasanaethau arlwyo

Ein nod yw lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig ag arlwyo lle rydym yn darparu gwasanaethau o'r fath. Rydym hefyd yn ceisio cynnig bwyd maethlon i'n saff, dileu'r defnydd o eitemau plastig untro a chynhyrchion na ellir eu hailgylchu, cynnig dewisiadau amgen yn lle cig, cynnal prosesau prynu cymdeithasol a chynyddu gwybodaeth y staff o effaith ein darpariaeth arlwyo o ran allyriadau carbon. Mae landlordiaid neu eraill yn darparu'r gwasanaethau mewn rhai o'n swyddfeydd ac rydym hefyd yn awyddus i weithio gyda'r sefydliadau hyn er mwyn cyflawni'r nodau hyn hefyd.

Mae ein swyddfa yn Canary Wharf yn cynnig gwasanaeth o fath caffi sy'n darparu bwyd ffres a choffi barista. Yn ystod haf 2023, gwnaethom gyflogi contractwr arlwyo newydd i redeg y caffi hwn yn seiliedig ar dair egwyddor bwyd graidd, sef: Ffres, Lleol a Chynaliadwy. At hynny, rydym yn parhau i weithio gyda'r darparwr gwasanaeth hwn er mwyn darparu gwasanaeth arlwyo yn unol â chysyniad maeth WELL o greu amgylcheddau bwyd lle mai'r opsiwn iachaf yw'r dewis hawsaf.

Rydym wedi ymrwymo i roi'r gorau i ddefnyddio eitemau plastig untro defnydwyr yn ein caffi yn Canary Wharf. At hynny, mae darparwr newydd ein gwasanaeth arlwyo yn rhoi cynllun ailddefnyddio ar waith sy'n cyflwyno cynwysyddion cludfwyd y gellir eu hailddefnyddio ac yn rhoi cymhelliant i ddefnyddio cwmpanau y gellir eu hailddefnyddio. Dengys y tabl isod faint o ddarnau o blastig a ddefnyddiwyd yn y CMA yn 2023/24 o gymharu â'r llinell sylfaen.

| Dangosyddion anariannol | Llinell sylfaen | 2023/24 | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|
| ***Eitemau Plastig Untro (*defnyddiwyd 2021/22 fel llinell sylfaen*)** | 50,085 | 2,777 | gostyngiad o 94% |

**Os nad oedd data ar gyfer blwyddyn sylfaen 2017/18 ar gael ar gyfer targed penodol, defnyddiwyd data'r flwyddyn nesaf a oedd ar gael.*

## Lleihau ein defnydd o ddŵr

Mae ein dull o leihau ein defnydd o ddŵr yn cyd-fynd â'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth sy'n cynnwys lleihau'r defnydd o ddŵr o leiaf 8% o gymharu â llinell sylfaen 2017/18. Yn 2023/24, gwnaethom lwyddo i leihau ein defnydd o ddŵr 42%.

Rydym yn defnyddio tapiau sy'n cau eu hunain yn ein swyddfeydd ac mae gennym systemau fflysio deuol ym mhob un o'n toiledau er mwyn sicrhau na ddefnyddir gormod o ddŵr. Rydym hefyd yn nodi y dylai fod gan bob ffynhonnell o ddŵr yn ein swyddfeydd newydd fesuryddion penodol er mwyn i ni allu mesur faint o ddŵr a ddefnyddir. Yn ein swyddfa yn Canary Wharf, mae ein landlord wedi cynnal arolygon ar gyfer gosod mesuryddion dŵr i bob tenant, gan gynnwys y CMA. Mae'n bwriadu gwneud y gwaith hwn yn y dyfodol agos a fydd yn ein galluogi i fesur a thargedu ein defnydd o ddŵr.

Dengys y tabl isod y dŵr a ddefnyddiwyd yn y CMA yn 2023/24. Oherwydd y wybodaeth ariannol gyfyngedig a ddarparwyd gan ein landlordiaid, ni allwn ddarparu'r gwariant ar gyfer dŵr.

| Dangosyddion anariannol | Llinell sylfaen 2017/18 | 2023/24 | Gwahaniaeth canrannol |
|---|---|---|---|
| **Y defnydd o ddŵr (m3)** | 12,991 | 7,480 | gostyngiad o 42% |

## Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy

Mae ein gweithgarwch prynu yn parhau i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian a lleihau gwastraff ym mhob rhan o'n cadwyn gyflenwi. Rydym yn gwneud hyn drwy gyflawni Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth sy'n berthnasol i gaffael neu ragori

arnynt, gan gynnwys fel y maent yn ymwneud â ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac rydym yn sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl yn effeithiol ac yn gynhwysfawr wrth gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

Wrth gaffael nwyddau, gwasanaethau neu waith, rydym yn parhau i gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a pholisi caffael y llywodraeth fel y mae'n ymwneud â gwerth cymdeithasol, gan gynnwys lleihau allyriadau carbon, mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a defnyddio Model Gwerth Cymdeithasol y llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth a gofynion rheoleiddiol perthnasol y DU;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd yn y CMA a'n cadwyn gyflenwi;
- Cynnwys meini prawf cynaliadwyedd wrth werthuso cynigion cystadleuol lle y bo'n berthnasol.

Mae'r CMA yn cydnabod y cyfle i wneud newid cadarnhaol a, lle y bo'n bosibl, bydd ein contractau yn cyfrannu yn y meysydd canlynol:

- 
    - Helpu i leihau allgáu cymdeithasol, ynysigrwydd ac anghydraddoldeb.
    - Creu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i grwpiau dan anfantais.
    - Ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a chymunedol lleol.
- **Economaidd**
    - Hyrwyddo'r Cyflog Byw.
    - Cefnogi Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) drwy greu amlygrwydd a chyfle i fanteisio ar ein gwariant trydydd parti.
- **Amgylcheddol**
    - Ceisio lleihau allyriadau carbon.
    - Ceisio lleihau llygredd aer.
    - Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ailddefnyddio ac ailgylchu.

## Addasu i newid yn yr hinsawdd

Mae'r CMA yn cydnabod yr Ymrwymiad Gwyrddu Llywodraeth i ddatblygu strategaeth sefydliadol ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd yn ein hystadau a'n gweithrediadau.

Megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu ein dull o addasu i newid yn yr hinsawdd mewn perthynas â'n hystadau a'n gweithredoedd. Mae ein Timau Gwasanaethau Corfforaethol yn adolygu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd wrth wneud penderfyniadau allweddol, er enghraifft wrth ddewis lleoliadau ar gyfer eiddo newydd er mwyn sicrhau nad yw mewn ardaloedd y rhagwelir y byddant yn agored i lifogydd.

Bydd ein dull gweithredu yn y dyfodol yn cynnwys datblygu ein strategaeth ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd, asesu risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a rhoi cynllun gweithredu ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd ar waith. Nid ydym wedi llwyddo i ddatblygu'r gwaith hwn ar raddfa fawr hyd yma oherwydd newidiadau yn y darparwr gwasanaeth cyfleusterau sy'n rheoli cynaliadwyedd, yn ogystal â newidiadau allweddol i'n tîm gweithredol.

## Lleihau effeithiau amgylcheddol TGCh a thechnoleg ddigidol

Mae dull y CMA o leihau effeithiau amgylcheddol TGCh a thechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth.

Mae ein tîm Datrysiadau Technoleg a Busnes yn integreiddio cynaliadwyedd fel gwerth craidd mewn penderfyniadau ynghylch technoleg. Rydym yn dewis gweinyddion, canolfannau data a dyfeisiau ynni-effeithlon, yn ogystal â gweinyddion rhithwir a chyfrifiadura cwmwl er mwyn lleihau seilwaith ffisegol. Rydym hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr er mwyn sicrhau arferion cynaliadwy ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi ac yn cynllunio ar gyfer gwaredu cyfarpar TG neu ei ailgylchu mewn modd cyfrifol, yn unol ag arferion rheoli diwedd oes cyfrifol. Rydym yn parhau i ddefnyddio uwch-dechnolegau i fonitro ac optimeiddio'r defnydd o adnoddau, lleihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd ynni a thechnegau optimeiddio pŵer parhaus yn ein platfformau cwmwl.

## Eiddo

Mae ein swyddfa yn Canary Wharf, Llundain wedi'i dylunio i safon ‘Ardderchog’ Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Rheolir y systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru gan System Rheoli Adeilad sy'n cyd-fynd â safon adeiladu WELL. Mae hyn yn rheoli ac yn monitro'r defnydd o ynni, gan wneud y swyddfa yn fwy ynni-effeithlon drwy reoli ein gwasanaethau gwresogi ac awyru. Mae gennym system rheoli goleuadau fodern hefyd, sy'n sicrhau arbedion drwy synhwyro presenoldeb.

Yn 2023, gwnaethom agor swyddfa newydd fach yn Darlington. Mae'r swyddfa hon yn defnyddio systemau gwahanol megis dyfeisiau rheoli goleuadau a wellodd ein perfformiad o ran effeithlonrwydd ynni.

Yn 2024/25, rydym yn bwriadu agor swyddfeydd newydd yng Nghaerdydd, Manceinion a Belfast a sicrhau bod yr eiddo rydym yn ei rentu ar brydles yn cael ei adnewyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth a safonau Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Mae'r CMA hefyd wedi datblygu ein Safonau Dylunio ein hunain gyda Chynaliadwyedd yn agwedd allweddol ar y safonau hyn.

## Ein data

Darperir y cyfleustodau a'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau i ni drwy ein landlordiaid a thrwy daliadau gwasanaeth sy'n ymwneud â'n cytundeb prydlesu. Gan nad ydym wedi cael unrhyw wybodaeth fanwl gan ein landlordiaid, rydym wedi defnyddio gwybodaeth ariannol. Mae'r symiau a nodir wedi'u cyfrifo ar sail y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i denantiaid mewn eiddo aml-denant.

Lle rydym yn meddiannu swyddfeydd yng nghanolfannau'r llywodraeth, caiff y data cynaliadwyedd sy'n ymwneud â gweithredu'r eiddo hwn eu cofnodi drwy'r lletywr.

Os nad oedd data ar gyfer blwyddyn sylfaen 2017/18 ar gael ar gyfer agwedd benodol, defnyddiwyd data'r flwyddyn nesaf a oedd ar gael.

# Yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

### Uwch-reolwyr – un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth (archwiliwyd)

| Uwch-reolwyr | Cyflog | | Lwfansau | | Bonysau[18] | | Pensiynau[19] | | Taliadau wrth ymadael[20] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Andrea Coscelli[21]** | - | 70-75 | - | - | - | - | - | 12 | - | - | - | 80-85 |
| **Chris Prevett[22]** | 160-165 | 140-145 | - | - | 10-15 | 10-15 | 62 | 40 | - | - | 235-240 | 195-200 |
| **David Stewart[23]** | 75-80 | 170-175 | - | - | - | - | 37 | 66 | 25-30 | - | 140-145 | 235-240 |
| **Erik Wilson CBE** | 150-155 | 140-145 | - | - | 10-15 | 15-20 | 118 | (55) | - | - | 280-285 | 100-105 |
| **Jessica Lennard[24]** | 95-100 | - | - | - | - | - | 45 | - | - | - | 140-145 | - |
| **Joel Bamford[25]** | 20-25 | - | - | - | - | - | 10 | - | - | - | 35-40 | - |
| **Lucy Robbins** | 130-135 | 125-130 | 0-5 | 5-10 | 10-15 | 15-20 | 52 | 27 | - | - | 200-205 | 175-180 |
| **Michael Grenfell[26]** | 155-160 | 170-175 | - | - | - | 15-20 | 27 | 26 | 155-160 | - | 340-345 | 210-215 |

[18] Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw'r canllawiau ar daliadau bonws ar gyfer staff sy'n Uwch Weision Sifil mewn perthynas â pherfformiad yn ystod blwyddyn perfformiad 2023/24 wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth eto. Mae'r ffigurau ar gyfer blwyddyn perfformiad 2022/23, a dalwyd yn 2023/24, wedi'u defnyddio.

[19] Caiff gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwm wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant nag unrhyw gynnydd na gostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

[20] Mae taliad wrth ymadael yn cynnwys gwyliau blynyddol nas cymerwyd yr oedd gan yr unigolyn hawl iddynt hyd at ddyddiad olaf ei gyflogaeth, taliad yn lle rhybudd ac unrhyw daliadau sy'n rhan o becyn ymadael.

[21] Gadawodd Andrea Coscelli y CMA ar 27 Gorffennaf 2022. Ei chyflog am flwyddyn lawn yn 2022/23 oedd £200k-£205k.

[22] Cafodd Chris Prevett ei ddyrchafu dros dro i rôl Cwnsler Cyffredinol dros dro rhwng 26 Gorffennaf 2022 a 31 Ionawr 2024. Penodwyd Chris yn Gwnsler Cyffredinol o 01 Chwefror 2024. Ei gyflog am flwyddyn lawn o'r dyrchafiad dros dro yn 2022/23 oedd £145k-£150k.

[23] Gadawodd David Stewart y CMA ar 8 Medi 2023. Ei gyflog blynyddol am flwyddyn lawn yn 2023/24 oedd £170k-£175k.

[24] Ymunodd Jessica Lennard â'r CMA ar 14 Awst 2023. Nid yw ffigurau ar gyfer 2022/23 yn adroddadwy. Ei chyflog am flwyddyn lawn yw £145k-£150k.

[25] Ymunodd Joel Bamford â'r CMA ar 12 Chwefror 2024. Nid yw ffigurau ar gyfer 2022/23 yn adroddadwy. Ei gyflog am flwyddyn lawn yw £180k-£185k.

[26] Gadawodd Michael Grenfell y CMA ar 09 Chwefror 2024. Ei gyflog blynyddol am flwyddyn lawn yn 2023/24 oedd £180k-£185k.

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mike Walker**[27] | 190-195 | 185-190 | - | - | 5-10 | 15-20 | 70 | 70 | - | - | 270-275 | 270-275 |
| **Sarah Cardell**[28] | 220-225 | 205-210 | - | - | 10-15 | 15-20 | 33 | 31 | - | - | 265-270 | 250-255 |
| **Stuart Hudson**[29] | - | 135-140 | - | - | - | 15-20 | - | 54 | - | - | - | 205-210 |
| **Will Hayter**[30] | 140-145 | - | - | - | 10-15 | - | 55 | - | - | - | 210-215 | - |

## Datganiadau cyflog teg (archwiliwyd)

*Newid canrannol mewn cyflog*

Ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf[31], gwelwyd cynnydd o 7.2% o gymharu canol y band ar gyfer cyfanswm cyflog a lwfansau 2023/24 (£220k – £225k) â ffigur 2022/23 (£205k - £210k). Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i daliadau anghyfunol a gafwyd fel rhan o ddyfarniad cyflog 2023/24 am fod ei gyflog wedi cyrraedd uwchlaw terfyn uchaf ei fand cyflog. Ar y llaw arall, bu gostyngiad o 28.6% i ganol y band ar gyfer tâl perfformiad a bonysau 2023/24 (£10k - £15k) o gymharu â 2022/23 (£15k – £20k). Wrth ystyried cyfanswm cyflog, lwfansau a bonysau, gwelwyd cynnydd o 6.7% yn gyffredinol o gymharu canol y band ar gyfer 2023/24 (£235k – £240k) â chanol y band ar gyfer 2022/23 (£220k - £225k).

Heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, mae'r cyflog a'r lwfansau cyfartalog ar gyfer pob cyflogai[32] wedi cynyddu 2.1% ers 2022/23. Ochr yn ochr â hyn, bu cynnydd nodedig o 75.5% mewn tâl cysylltiedig â pherfformiad cyfartalog a bonysau dros yr un cyfnod. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r taliad anghyfunol o £1,500 a wnaed ym mis Mehefin 2023 a gynhwyswyd yn yr atodiad i ganllawiau cylch cyflog y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2023/24.

Mae'r newidiadau i gyflog a lwfansau yn adlewyrchu effaith dyfarniad cyflog 2023/24, a gyfrannodd at y cynnydd yn y cyflog cyfartalog.

---

[27] Cyflog sylfaenol Mike Walker yw £180k-£185k. Mae'r golofn cyflogau yn cynnwys swm anghyfunol, sef £10k-£15k.
[28] Cyflog sylfaenol Sarah Cardell yw £205k-£210k. Mae'r golofn cyflogau yn cynnwys swm anghyfunol, sef £10k-£15k.
[29] Gadawodd Stuart Hudson y CMA ar 26 Mawrth 2023. Ei gyflog blynyddol am flwyddyn lawn yn 2022/23 oedd £140k-£145k.
[30] Cafodd Will Hayter ei ddyrchafu i rôl Cyfarwyddwr Gweithredol ar 01 Chwefror 2024. Felly, nid oedd data cydnabyddiaeth yn adroddadwy ar gyfer 2022/23.

[31] Ar gyfer y CMA, y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yw'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf ar y Pwyllgor Gweithredol.

[32] Ar gyfer 2023/24, mae'r datganiad cyflog teg yn cynnwys cyflogeion nad ydynt ar y gyflogres (h.y. staff asiantaeth a secondeion tuag i mewn), tra bod y datganiad cyflog teg ar gyfer 2022/23 ond yn cynnwys cyflogeion ar y gyflogres. Mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd cyfanswm y costau ar gyfer cyflogeion nad oeddent ar y gyflogres yn adran costau staff yr adroddiad.

*Cymarebau cyflog*

Dengys y cymarebau cyflog y gydberthynas rhwng cyfanswm cyflog a buddiannau'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a chyfanswm cyflog a buddiannau gweddill gweithlu'r CMA. Mae cyfanswm cyflog a buddiannau yn cynnwys cyflog, lwfansau, tâl anghyfunol a buddiannau mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod pensiynau.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, roedd band cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn y CMA yn amrywio o £235k i £240k, o gymharu â £220k i £225k yn 2022/23.

Yn 2023/24, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (2022/23: dim). Roedd cydnabyddiaeth cyflogeion, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, yn amrywio o £25.4k i £202.9k (2022/23: £23.2k – £202.6k).

Dengys y tabl isod y cymarebau rhwng y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a'i gydnabyddiaeth a chyflog a buddiannau'r cyflogai yn y 25ain ganradd, y canolrif a'r 75ain ganradd.

| | 2023/24 | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflog a buddiannau (£) | Cyflog (£) | Cymhareb dâl | Cyfanswm cyflog a buddiannau (£) | Cyflog (£) | Cymhareb dâl |
| **Y 25ain ganradd** | 41,777 | 40,356 | 5.68: 1 | 39,193 | 38,259 | 5.68:1 |
| **Canolrif** | 63,106 | 60,481 | 3.76: 1 | 58,947 | 58,047 | 3.77:1 |
| **Y 75ain ganradd** | 84,176 | 81,313 | 2.82: 1 | 78,038 | 76,632 | 2.85:1 |

Ni fu unrhyw gynnydd yn y gymhareb dâl yn y 25ain ganradd. Bu gostyngiad o 0.01 yn y gymhareb dâl yn y 50fed ganradd a chynnydd o 0.03 yn y gymhareb dâl yn y 75ain ganradd.

## Uwch-reolwyr – buddiannau pensiwn (archwiliwyd)

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2024 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2024 | CETV ar 31 Mawrth 2023[33] | Cynnydd / (lleihad) gwirioneddol yn CETV | Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Chris Prevett** | 30-35 | 2.5-5 | 385 | 304 | 33 | |
| **David Stewart** | 5-10 | 0-2.5 | 109 | 72 | 24 | |
| **Erik Wilson CBE** | 105-110 | 5-7.5 | 2,293 | 2041 | 112 | |
| **Jessica Lennard** | 0-5 | 2.5-5 | 31 | - | 24 | |
| **Joel Bamford** | 0-5 | 0-2.5 | 7 | - | 6 | |
| **Lucy Robbins** | 20-25 | 2.5-5 | 307 | 233 | 35 | |
| **Michael Grenfell** | - | - | - | - | - | 27 |
| **Mike Walker** | 50-55 | 2.5-5 | 795 | 651 | 52 | |
| **Sarah Cardell** | - | - | - | - | - | 33 |
| **Stuart Hudson[34]** | - | - | - | 101 | - | - |
| **Will Hayter** | 40-45 | 2.5-5 | 511 | 420 | 31 | |

[33] Caiff buddiannau pensiwn unrhyw aelodau y mae rhwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus wedi effeithio arnynt a gofnodwyd yn 2022-23 ar sail aelodaeth o **alpha** ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 eu cofnodi yn 2023-24 ar sail aelodaeth o PCSPS ar gyfer yr un cyfnod.
[34] Gadawodd Stuart Hudson y CMA ar 26 Mawrth 2023. Nid yw'r data ar gyfer 2023/24 yn adroddadwy.

## Cydnabyddiaeth aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (archwiliwyd)

| | 2023/24 | | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn nwyddau | Cyflog | Buddiannau mewn nwyddau |
| | £000 | £100 agosaf | £000 | £100 agosaf |
| **Amelia Fletcher[35]** | 20-25 | - | 25-30 | - |
| **Cynthia Dubin** | 25-30 | - | 25-30 | - |
| **Cyrus Mehta[36]** | 0-5 | - | - | - |
| **Y Fonesig Patricia Hodgson[37]** | 0-5 | - | - | - |
| **Dharmash Mistry[38]** | 0-5 | - | - | - |
| **Franck Dangeard[39]** | 0-5 | - | - | - |
| **Jonathan Scott[40]** | - | - | 45-50 | - |
| **Justin Basini[41]** | 0-5 | - | - | - |
| **Kirstin Baker[42]** | 25-30 | - | 25-30 | - |
| **Marcus Bokkerink** | 105-110 | - | 60-65 | - |
| **Martin Coleman[43]** | 25-30 | - | 25-30 | - |
| **Murdoch MacLennan[44]** | 25-30 | - | 25-30 | - |

---

[35] Gadawodd Amelia Fletcher y CMA ar 30 Rhagfyr 2023. Ei chyflog am flwyddyn lawn oedd £25k-£30k.
[36] Ymunodd Cyrus Metha ag aelodau Anweithredol y Bwrdd ar 21 Chwefror 2024. Ei gyflog am flwyddyn lawn fel aelod Anweithredol o'r Bwrdd oedd £25k-£30k
[37] Ymunodd y Fonesig Patricia Hodgson â'r CMA ar 21 Chwefror 2024. Nid yw ffigurau ar gyfer 2022/23 yn adroddadwy. Ei chyflog am flwyddyn lawn oedd £25k-£30k.
[38] Ymunodd Dharmash Mistry â'r CMA ar 21 Chwefror 2024. Nid yw ffigurau ar gyfer 2022/23 yn adroddadwy. Ei gyflog am flwyddyn lawn oedd £25k-£30k.
[39] Ymunodd Franck Dangeard â'r CMA ar 21 Chwefror 2024. Nid yw ffigurau ar gyfer 2022/23 yn adroddadwy. Ei gyflog am flwyddyn lawn oedd £25k-£30k.
[40] Gadawodd Jonathan Scott y CMA ar 6 Medi 2022. Ei gyflog am flwyddyn lawn yn 2022/23 oedd £105k-£110k. Cyflogwyd Jonathan Scott i ymrwymo i ddau ddiwrnod yr wythnos o leiaf yn 2022/23.
[41] Ymunodd Justin Basini â'r CMA ar 21 Chwefror 2024. Nid yw ffigurau ar gyfer 2022/23 yn adroddadwy. Ei gyflog am flwyddyn lawn oedd £25k-£30k.
[42] Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Kirstin Baker â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2023/24, roedd Kirstin hefyd yn cael ei chyflogi fel un o Gadeiryddion Ymchwiliadau'r CMA ac yn 2023/24 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £110k-£115k am ei gwaith ar Fwrdd a Phanel y CMA.
[43] Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Martin Coleman â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2023/24, roedd Martin hefyd yn cael ei gyflogi fel Cadeirydd Panel y CMA ac yn 2023/24 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £135k-£140k am ei waith ar Fwrdd a Phanel y CMA.
[44] Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Murdoch MacLennan â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2023/24, roedd Murdoch hefyd yn cael ei gyflogi fel un o Gadeiryddion y CMA ar gyfer Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac yn 2023/24 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £35k-£40k am ei waith ar Fwrdd a Phanel y CMA.

Roedd holl aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu cyflogi ar sail 30 diwrnod y flwyddyn ar wahân i Marcus Bokkerink a gafodd ei gyflogi i ymrwymo i ddau 2 ddiwrnod yr wythnos o leiaf.

Nid yw'r Cadeirydd na'r Aelodau Anweithredol yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid oes ganddynt unrhyw hawliau eraill i bensiwn gyda'r CMA (2022/23: dim).

## Polisi cydnabyddiaeth

Pennir cydnabyddiaeth Uwch Weision Sifil (SCS) gan y Prif Weinidog gan ddilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion.
Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn rhoi cyngor i'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar gyflog, pensiynau a lwfansau gweinidogion ac eraill y pennir eu cyflog gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975 (fel y'i diwygiwyd).

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn ystyried y canlynol:

- Yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl â gallu a chymwysterau priodol i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff.
- Polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i adrannau gyflawni'r targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol.
- Y cyllid sydd ar gael i adrannau fel y'i nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth.
- targed y Llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn ystyried y dystiolaeth y mae'n ei chael am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau i'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir gwneud penodiadau mewn ffordd arall.

Oni nodir yn wahanol, mae'r swyddogion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai eu terfynu'n gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Yn 2023/24 gwnaed un taliad (2022/23: dim).

## Cyflog a bonysau

Mae cyflog yn cwmpasu symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflogau gros ond nid yw, o reidrwydd, yn gyfyngedig iddynt; goramser; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat; lwfansau eraill (i'r graddau y maent yn ddarostyngedig i drethiant y DU); ac unrhyw daliadau ex-gratia eraill. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y CMA.

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd fel rhan o'r broses adolygu perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn. Talwyd y bonysau a ddatgelwyd ar gyfer uwch-reolwyr yn 2023/24 ac maent yn ymwneud â pherfformiad yn 2022/23. Mae'r bonysau cymaradwy a gofnodwyd ar gyfer 2022/23 yn ymwneud â pherfformiad yn 2021/22.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.  Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n nifer bach o adrannau gwahanol – mae **classic, premium, a classic plus** yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol, tra bod **nuvos** yn darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa.  O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa.  Ymunodd pob gwas sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes â'r cynllun newydd.

Mae PCSPS ac alpha yn gynlluniau statudol nas ariennir. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio o 4.6% i 8.05%, yn dibynnu ar eu cyflog). Mae balans cost buddiannau mewn tâl yn cael ei dalu ag arian gyda phleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau mewn tâl eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle trefniadau buddiannau diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniad diffiniedig gyda chyfraniad gan y cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yng nghynllun alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn a chaiff y cyfanswm a gronnwyd ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Caiff aelodau ddewis ildio pensiwn a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004. Cafodd buddiannau PCSPS pob aelod a drosglwyddodd i alpha o PCSPS eu ‘bancio’, a

bydd buddiannau cynharach aelodau mewn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu yn alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan aelod fuddiannau yn y PCSPS ac yn alpha, dengys y ffigurau werth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond nodwch y gall y rhannau cyfansoddol o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau cynlluniau presennol yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn cynllun PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau yn cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny a wnaed yn 2015, er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r cynlluniau pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i rwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus. Caeodd y rhan gyntaf gynllun PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o alpha o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i gynllun PCSPS ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn “ddirwyn yn ôl”.

Ar gyfer aelodau a gwmpesir gan rwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, mae'r dull o gyfrifo eu buddiannau at ddibenion cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a'u cyfanswm unigol o gydnabyddiaeth, ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn yn ôl i gynllun PCSPS. Er y bydd yr aelodau yn cael cyfle, maes o law, i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddiannau PCSPS neu fuddiannau alpha, dengys y ffigurau y sefyllfa ar ôl dirwyn aelodaeth yn ôl h.y., buddiannau PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannau ond lle mae'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at derfyn uchaf o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn

ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad ar sail afiechyd).

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd buddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod digwyddiadol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun neu'n dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd i'w hen gynllun. Mae a wnelo'r ffigurau ar gyfer pensiynau a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth ar lefel uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni drwy brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun.

Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosibl mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn daladwy pan gymerir buddiannau pensiwn.

## Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad ar y Staff

## Cyflwyniad

Staff talentog y CMA yw sail ein llwyddiant a nhw yw ein hased pwysicaf wrth gyflawni ein cynlluniau a'n hamcanion uchelgeisiol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn gyflogwr gwych sy'n gwerthfawrogi ac yn croesawu'r wybodaeth, syniadau, sgiliau, ymddygiadau a phrofiadau gwahanol y mae ein holl gydweithwyr yn eu cyfrannu i'r CMA.

Ein nod yw meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo llesiant ac iechyd meddwl er mwyn i gydweithwyr allu ffynnu. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar sawl menter sy'n ymwneud â phobl, er mwyn sicrhau bod yn cyflogeion yn cael y profiad gorau posibl.

## Datganiad gwerth i gyflogeion a'n cynllun profiad cyflogeion: sicrhau bod y CMA yn lle gwych i weithio ynddo

*Datganiad Gwerth i Gyflogeion*
Yn ystod 2022/23, gwnaethom gynnal cyfres eang o sesiynau ymgysylltu â chydweithwyr i ddeall barn cydweithwyr am eu profiad o weithio yn y CMA – beth roeddent yn ei werthfawrogi a beth roeddent am ei weld yn gwella. Yna, gwnaethom ddadansoddi canlyniadau ein harolwg staff er mwyn croeswirio'r data a'r wybodaeth. Yn ystod 2023/24, rydym wedi cwblhau a gweithredu cyfres o Ddatganiadau Gwerth i Gyflogeion sy'n cael eu defnyddio i ddenu darpar gydweithwyr i'r CMA. Mae'r rhain yn cyflwyno naratif a mynegiant cyson am brofiad y CMA. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru ein deunydd a thudalennau gwe recriwtio cyhoeddus.

*Cynllun Profiad Cyflogeion*
Mae gennym Gynllun Profiad Cyflogeion sy'n rhoi cyfeiriad strategol tymor hwy er mwyn i ni wella'r profiad y mae cydweithwyr yn ei gael. Rydym wedi dechrau cymryd camau allweddol gan gynnwys gwaith ar ein strategaeth cyfathrebu mewnol, cynllunio gyrfaoedd yn effeithiol, adolygu ein dulliau o ymdrin â pherfformiad a datblygiad a'r ffordd rydym yn cefnogi cydweithwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar bum thema: dysgu a datblygu gyrfa; cynhwysiant; hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith; y gwaith a wnawn; grymuso.

*Gwerthoedd*
Ers lansio ein gwerthoedd wedi'u diweddaru ym mis Ionawr 2023, rydym yn cyflawni **canlyniadau trawiadol** – i bobl, busnesau a'r economi. Rydym yn **uchelgeisiol** ac yn **seiliedig ar dystiolaeth** a bob amser yn ymdrechu i sicrhau **rhagoriaeth.** Rydym yn trin pawb â **pharch**, ac rydym yn **gydweithredol** a **chynhwysol.** Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar werthoedd y Gwasanaeth Sifil: Uniondeb, Gonestrwydd,

Gwrthrychedd a Diduedddrwydd. Rydym bellach yn cynnal set flynyddol o weithgareddau er mwyn tynnu sylw at y ffyrdd ymarferol rydym yn byw ein gwerthoedd.

*Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*
Mae hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dal yn ffocws allweddol i'r CMA. Rydym wedi parhau i gyflwyno ein hail gynllun gweithredu dwy flynedd fel rhan o'n strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pedair blynedd bresennol. Mae gennym gamau gweithredu ar waith mewn pum maes thematig: recriwtio a ffyniant, camu ymlaen a datblygu gyrfa, gwella cynrychiolaeth, tâl gwobrwyo a diwylliant o gynhwysiant.

*Llesiant*
Rydym yn hyrwyddo amgylchedd gwaith iach â phecynnau cymorth, polisïau, Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig a Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sydd hefyd yn darparu amrywiaeth eang o gymorth a chyngor i staff mewn perthynas â chydberthnasau a materion teuluol ac ariannol, yn ogystal â mynediad at wasanaeth cwnsela.

## Ymgysylltu â staff

Mae'r CMA yn cymryd rhan yn Arolwg Staff Blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Yng nghanlyniadau arolwg staff 2023, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, cyfradd ymateb y CMA oedd 72% a'n sgôr ymgysylltu oedd 65%. Mae'r gwaith dadansoddi data yn darparu gwybodaeth i'n galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol o ran profiad cyflogeion.

Rydym yn cwblhau'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol. Bydd y strategaeth yn sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu ystyrlon er mwyn atgyfnerthu cysylltiadau rhwng ein staff a bydd hefyd yn meithrin dealltwriaeth a rennir o'n diben, gwerthoedd a blaenoriaethau sefydliadol ac yn creu cysylltiad â nhw.

## Dysgu a datblygu

Mae Academi'r CMA yn parhau i gynnig amrywiaeth ehangach o gyfleoedd dysgu a datblygu sy'n cefnogi rhagoriaeth broffesiynol, gan ymdrin â sgiliau busnes a sgiliau rhyngbersonol craidd, hyfforddiant a mentora, arwain a rheoli, sgiliau proffesiynol a datblygu talent a gyrfaoedd.

Mae'r Academi yn ganolfan ragoriaeth, sy'n cynnig prosbectws o raglenni dysgu sy'n ymdrin â mwy na phum thema: prentisiaethau, sgiliau craidd, arwain a rheoli, sgiliau proffesiynol a datblygu talent.

Mae'r Academi yn hwyluso datblygiad proffesiynol, aelodaethau, cynadleddau a chymwysterau ac yn cefnogi llwybrau gyrfa. Cefnogodd gyfanswm o 92 o aelodaethau proffesiynol a galluogodd 42 o gydweithwyr i fynd i gynadleddau proffesiynol. At hynny, cefnogodd geisiadau i gynnal cofrestriad drwy'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, a cheisiadau tuag at gymwysterau proffesiynol/astudio pellach. Roedd gan y CMA 44 o brentisiaid mewn swydd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2023, gan gynnwys rolau newydd ym meysydd Data, Gweinyddu Busnes, Masnachol ac Economeg, gan barhau â'n hymrwymiad i ddatblygu ein cyflenwad o dalent amrywiol a meithrin gallu.

Mae gwaith yr Academi yn cynnwys ymgynghori â phroffesiynau ac adrannau traws-sefydliadol ynghylch anghenion datblygu ac asesiadau sgiliau wedi'u halinio'n strategol.

Mae'n rheoli rhaglen sgiliau digidol y CMA er mwyn gwneud defnydd gwell o adnoddau digidol, technoleg a data. Mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, mae'r CMA yn rhedeg cyrsiau wedi'u teilwra ar gydweithio a chydawdura'n effeithiol gan ddefnyddio templedi Microsoft Word. Mae'r rhaglen sgiliau digidol hefyd yn rhoi sylw i dddeallusrwydd artiffisial, data ac awtomeiddio, gan gysylltu â'n Rhaglen Drawsnewid Ddigidol.

Mae'r Academi wedi gwella prosesau cyfathrebu ynghylch dysgu a datblygu drwy blatfform digidol hygyrch (Upskill) sy'n nodi cyfleoedd misol ac adnoddau ac yn cyfeirio at raglenni allweddol yn fewnol ac yn allanol.

Mae hefyd yn goruchwylio rhaglen sefydlu'r CMA er mwyn cynnwys rhaglen rheolwyr llinell y Gwasanaeth Sifil ac mae wedi gwerthuso'r profiad sefydlu ym mhob un o'n swyddfeydd, gan sicrhau cyfradd boddhad o 88%.

Gweithiodd yr Academi â rhwydweithiau a rhanddeiliaid mewnol er mwyn diweddaru rhaglenni hyfforddi a mentora'r CMA, i gynnwys hyfforddiant i garfan newydd o hyfforddwyr mewnol er mwyn helpu staff i ddatblygu eu gyrfa a'u huwchsgilio, a gwella'r rhaglen er mwyn cefnogi cydweithwyr â nodweddion gwarchodedig.

Gan gefnogi'r gwaith o ddiogelu defnyddwyr, mae'r CMA yn parhau i ymgysylltu â Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth er mwyn cyflwyno rhaglen i alluogi ein cydweithwyr ym maes Defnyddwyr i ymweld â chanolfannau cyswllt a dysgu o brofiad defnyddwyr.

## Allgymorth recriwtio

Mae gweithgareddau allgymorth recriwtio wedi parhau drwy gydol y flwyddyn yn lleol. Mae hyn wedi cynnwys diwrnodau agored, ffeiriau gyrfaoedd, sgyrsiau a seminarau, yn ogystal â digwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar y Gwledydd Datganoledig a'r rhanbarthau:

- Cwblhaodd cydweithwyr o Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd gyfres o ddarlithoedd economeg mewn prifysgolion ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.
- Aeth cydweithwyr o'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ffeiriau gyrfaoedd yn City University yn Llundain, ynghyd â phartneriaeth micro-leoliadau, gan gynnig lleoliadau byrdymor yn y CMA. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd wedi ymgysylltu â Chymdeithas Cyfreithwyr Manceinion.
- Aeth cydweithwyr o'r Uned Marchnadoedd Digidol i ddigwyddiad Talent ym Maes Technoleg ym Manceinion a oedd yn canolbwyntio ar yrfaoedd cynnar mewn meysydd digidol, data a thechnoleg, wrth ragweld twf yn y CMA yn y dyfodol.
- Rydym wedi parhau i feithrin cydberthnasau â Grŵp Allgymorth Campws Economaidd Darlington, gyda chydweithwyr wedi'u lleoli yn Darlington gan gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithdai lleol.

## Polisïau staff a gymhwyswyd ar gyfer staff anabl

*Ceisiadau ar gyfer cyflogaeth*
Mae ymgeiswyr sy'n gwneud cais drwy'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn sicr o gael cyfweliad os bydd sgôr eu cais yn cyrraedd y lefel ofynnol dderbyniol, neu uwch, ar gyfer pob elfen a gaiff ei hasesu, ni waeth a oes ymgeiswyr sy'n sgorio'n uwch.
Yn ystod y broses recriwtio rydym yn annog ymgeiswyr i ddweud wrthym pa newidiadau neu gymorth y gallai fod eu hangen (ei angen) arnynt, er mwyn i ni allu gwneud addasiadau rhesymol i'w cefnogi gyda'u cais.

*Cyflogaeth barhaus*
Mae iechyd a llesiant ein staff yn ffactor allweddol sy'n ein galluogi i gyflawni ein hamcanion a chyfrannu at lwyddiant ein sefydliad. Rydym yn llwyr gydnabod ein cyfrifoldebau a'n dyletswydd gofal i'n holl staff a'n nod yw galluogi staff i gynnal eu hiechyd, eu llesiant a'u diogelwch yn y gwaith.

Rydym wedi cyflwyno Pasbort Addasu'r Gweithle ar draws y llywodraeth sydd â'r nod o gefnogi'r sgwrs rhwng unigolyn a'i reolwr am ei anabledd, ei gyflwr iechyd neu ei statws ailbennu rhywedd ac unrhyw addasiadau y gall fod angen eu gwneud i'r gweithle.

Prif nod ein rhwydwaith staff VisAbility yw codi ymwybyddiaeth a dathlu galluoedd ein staff sydd ag anabledd (corfforol ac iechyd meddwl) neu gyflwr iechyd hirdymor gweladwy a/neu nad yw'n weladwy. Mae'r rhwydwaith VisAbility yn creu partneriaeth â'r Rhwydwaith Dyslecsia er budd eu haelodau.

*Hyfforddiant a datblygiad*
Yn ogystal â chynnig datblygiad gyrfa drwy raglenni talent y Gwasanaeth Sifil (fel rhaglen DELTA Cynllun Arweinwyr y Dyfodol), rydym wedi datblygu ein rhaglen datblygu gyrfa ein hunain, Aspire.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r CMA yn rhoi gwerth ar iechyd, diogelwch a llesiant ein staff, ein contractwyr a'n hymwelwyr. Rydym yn sicrhau dull cynhwysfawr a chyson yn holl leoliadau swyddfeydd y CMA. Dewisir unrhyw swyddfa newydd yn dilyn arolwg er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant ein staff, ein contractwyr a'n hymwelwyr. Ein nod yw mabwysiadu dull gweithredu cyson a sicrhau cydymffurfiaeth â set ofynnol o safonau (gan nodi nad ydym yn darparu'r un trefniadau llesiant ym mhob swyddfa gyda'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu megis caffis, ystafelloedd llesiant, ystafelloedd gweddïo amlgrefydd ac ati yn amrywio o leoliad i leoliad).

Mae profion cydymffuriaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch wedi'u cynnal ar bob un o safleoedd y CMA, megis archwiliadau o adeiladau, archwiliadau diogelwch, asesiadau risg o dân, archwiliadau o ddioddefwyr tân, cynnal a chadw ar achwilio lifftiau, asesiadau risg dŵr, Profi Dyfeisiau Cludadwy, archwiliadau o ddrysau tân a phrofi systemau atal tân.

Cyflawnwyd hyfforddiant cymorth cyntaf, cymorth cyntaf iechyd meddwl a wardeniaid tân er mwyn sicrhau y caiff pob aelod o staff ar bob safle eu cwmpasu a'u cefnogi, a chafodd cynllun a gweithdrefn y CMA ar wagio adeiladau mewn argyfwng eu hadolygu cyn cynnal ymarferion tân a gynlluniwyd. Adolygwyd aelodaeth y pwyllgor iechyd a diogelwch sefydlog a phenodwyd aelodau newydd o holl leoliadau swyddfeydd y CMA.

Yn ystod 2023/24, cafodd tair damwain a phum damwain a fu bron â digwydd eu cofnodi, ond nid oedd yr un o'r damweiniau hyn yn bodloni'r gofynion ar gyfer damwain adroddadwy (2022/23: chwe damwain a naw damwain a fu bron â digwydd). Mae'r gostyngiad hwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o ymwybyddiaeth o'r swyddfeydd.

## Absenoldeb salwch

Y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd yn 2023/24 oherwydd absenoldeb fesul cyflogai CALI oedd 4.11 diwrnod (2022/23: 4.57 diwrnod). Y ffigur a gyhoeddwyd ddiwethaf gan y Gwasanaeth Sifil oedd cyfartaledd o 7.9 diwrnod.

Yn ystod 2023/24, roedd COVID-19 yn dal i effeithio ar absenoldebau staff gan gyfrif am 6.9% o'r holl ddiwrnodau gwaith a gollwyd yn ystod y flwyddyn (21.6% yn 2022/23).

## Trosiant staff

Cyfradd trosiant staff blynyddol y CMA ar gyfer staff parhaol yn 2023/24 oedd 10.4% (2022/23: 15.6%).

Mae ein trosiant wedi gostwng eleni. Rydym yn gwahodd pawb sy'n gadael y CMA i roi adborth ar eu profiad yn y CMA a'u rhesymau dros adael. Y prif ffactorau a nodwyd fel rheswm dros adael yn 2023/24 oedd gwell cyflog a buddiannau (54.7% o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur) a chamu ymlaen mewn gyrfa (64%). Hyd yn oed pan nad oedd cyflog yn ffactor allweddol wrth adael, nododd mwyafrif sylweddol o'r rheini a adawodd (89%) y byddent yn cael cyflog uwch gan eu cyflogwr newydd.

Mae gan ein staff sgiliau a phrofiad sy'n ddymunol ar draws sectorau gwahanol. Nododd 69% o'r rheini a adawodd ac a gwblhaodd yr holiadur gadael eu bod yn gadael y Gwasanaeth Sifil i symud i sefydliadau sector preifat, rheoleiddwyr, sefydliadau sector cyhoeddus ac elusennau.

Ymysg y rhesymau eraill dros adael roedd boddhad swydd, newid gyrfa ac oriau gwaith. Nodwyd presenoldeb yn y swyddfa, a lleoliad y swyddfa hefyd; ers y pandemig a'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio, mae rhai aelodau o staff wedi dewis symud i sefydliadau lle maent yn cael hyd yn oed mwy o hyblygrwydd ynghylch eu lleoliad gwaith.

## Amser Cyfleuster Undebau Llafur

Amser Cyfleuster yw pan gaiff cyflogai amser â thâl neu amser di-dâl i ffwrdd o'i rôl arferol i ymgymryd â dyletswyddau a gweithgareddau undeb llafur fel cynrychiolydd undeb llafur.

*Swyddogion undeb perthnasol*
Roedd 20 o aelodau o staff (19.46 CALI) yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2023/24 (2022/23: 17 CALI). Treuliodd pum swyddog undeb 0% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn 2023/24 (2022/23: 4) a threuliodd 15 o swyddogion undeb hyd at 50% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn 2023/24 (2022/23:14).

Yr amser a dreuliwyd gan swyddogion undeb ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr amser cyfleuster â thâl yn 2023/24 oedd 6.76% (2022/23: 3.61%).

Canran cyfanswm y bil cyflogau yn 2023/24 a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster oedd 0.056% (2022/23: 0.063%).

## Penodiadau oddi ar y gyflogres

Penodiadau gweithwyr oddi ar y gyflogres, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy, ar 31 Mawrth 2024.

| **Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2024** | |
|---|---|
| **O'r rheini, y nifer a barodd:** | 34 |
| **Llai na blwyddyn** | 17 |
| **Rhwng 1 a 2 flynedd** | 13 |
| **Rhwng 2 a 3 blynedd** | 4 |
| **Rhwng 3 a 4 blynedd** | - |
| **4 blynedd neu fwy** | - |

Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres a benodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy.

| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024** | |
|---|---|
| **O'u plith:** | 37 |
| **Nifer y rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres** | 31 |
| **Nifer y rhai sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod o fewn cwmpas IR35** | - |
| **Nifer y rhai sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod y tu allan i gwmpas IR35** | 6 |
| **Nifer y penodiadau a ailasesir at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn** | - |
| **O'u plith: Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 yn dilyn adolygiad** | - |

Fel arfer, penodir gweithwyr oddi ar y gyflogres naill ai drwy gontractau masnachol i ddarparu gwasanaethau arbenigol neu fel gweithwyr asiantaeth dros dro i lenwi rolau sy'n anodd eu llenwi, i gyflenwi dros dro mewn rolau allweddol neu i gyflawni prosiectau brys a lle ceir cyfyngiadau amser.

Nid oedd unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau Bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol sylweddol.

Roedd tri unigolyn ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau Bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol sylweddol.

## Costau staff (archwiliedig)

Mae costau staff yn cynnwys:

| | | | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill[45] | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau | 66,728 | 2,400 | 69,128 | 58,576 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 7,796 | - | 7,796 | 6,894 |
| Costau pensiwn | 17,174 | - | 17,174 | 14,733 |
| **Is-gyfanswm** | **91,698** | **2,400** | **94,098** | **80,203** |
| Costau staff eraill | 611 | - | 611 | 207 |
| Adennill incwm mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (16) | - | (16) | (164) |
| **Cyfanswm** | **92,293** | **2,400** | **94,693** | **80,246** |

Mae cyfanswm y cyflogau ar gyfer 2023/24 wedi cynyddu o gymharu â 2022/23. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y bobl a gyflogir.

## Nifer y bobl a gyflogir (archwiliedig)

Nifer y bobl (CALI) a gyflogir ar 31 Mawrth 2024 a nifer cyfartalog y bobl (CALI) a gyflogir yn ystod y flwyddyn:

| | Ar ddiwedd y flwyddyn | | Y cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 |
| | Rhif | Rhif | Rhif | Rhif |
| Staff parhaol | 955.84 | 813.7 | 884.6 | 804.6 |
| Eraill[46] | 131.8 | 114.3 | 123.9 | 99.0 |

[45] Mae Cyflogau Eraill yn cynnwys staff asiantaeth a staff dros dro.
[46] Mae eraill yn cynnwys benthyciadau i mewn, secondiadau i mewn, contractau cyfnod penodol a gweithwyr asiantaeth. Nid oes gan y CMA unrhyw weinidogion na chynghorwyr arbennig.

| Cyfanswm | 1,087.7 | 928.0 | 1,008.5 | 903.6 |
|---|---|---|---|---|

Mae'r ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2023/24, sef 159.7 CALl yn uwch na'r ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2022/23. Mae hyn am fod y CMA wedi cwblhau mwy o benodiadau recriwtio na'r hyn a welwyd yn 2022/23. Gellir priodoli hyn i dwf y CMA ar draws amrywiaeth o swyddogaethau sy'n cynnwys yr Uned Marchnadoedd Digidol, yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r cynnydd cysylltiedig yn ein swyddogaethau Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth, Eiriolaeth a Chyfathrebu er mwyn cefnogi twf y sefydliad.

## Cyfansoddiad staff

Cyfansoddiad staff a benodwyd ar gontract cyflogaeth[47], ar 31 Mawrth 2024 yn ôl gradd:

| | 2023/24 | | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| SCS3 (Cyfarwyddwr) | 0.0 | 1.0 | 2.0 | 1.0 |
| SCS2 (Cyfarwyddwr) | 12.9 | 11.9 | 12.7 | 8.3 |
| SCS1 (Cyfarwyddwr) | 60.2 | 51.9 | 56.5 | 42.8 |
| Gradd 6 | 127.1 | 113.3 | 114.2 | 106.8 |
| Gradd 7 | 138.6 | 141.9 | 127.3 | 115.1 |
| SEO | 54.6 | 42.3 | 36.8 | 30.7 |
| HEO | 92.0 | 103.7 | 71.8 | 86.3 |
| EO | 27.5 | 43.6 | 22.5 | 35.9 |
| AO | 17.0 | 18.0 | 12.6 | 13.0 |
| Cyfanswm | 529.9 | 527.5 | 456.4 | 439.8 |

[47] Mae'r data ar gyfansoddiad staff yn wahanol i'r data ar nifer y bobl a gyflogir gan eu bod ond yn cynnwys unigolion a gyflogir ar gontract cyflogaeth ac nad yw'n cynnwys unigolion ar secondiad a gweithwyr asiantaeth.

## Staff ar fenthyg

Yn 2023/24, cyfanswm y benthyciadau a ddefnyddiwyd gan y CMA oedd 77 (2022/23: 80). Mae'r mwyafrif o'r benthyciadau wedi bod gyda'r Gyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chyfarwyddiaeth Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd, gyda 35 o fenthyciadau. Derbyniodd yr adran Gyfreithiol 18 o staff ar fenthyg a derbyniodd Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd 17 o staff ar fenthyg, Economegwyr yn bennaf.

Y ffactor ysgogol ar gyfer defnyddio benthyciadau yw mynd ati i ddod o hyd i staff sydd â'r wybodaeth a'r profiad perthnasol, ynghyd â dulliau'r Gwasanaeth Sifil o weithio, er mwyn ategu ymgyrchoedd recriwtio allanol. Mae rhai benthyciadau wedi deillio o ofynion am wybodaeth arbenigol ar gyfer ein gwaith achos, ac mae'n ffordd o gaffael staff yn gyflym. Drwy ddefnyddio aelodau o staff o'r tu mewn a'r tu allan i'r CMA, llwyddom i feithrin profiad ac arbenigedd mewn meysydd busnes, ynghyd ag uwchsgilio staff sy'n dychwelyd i'w adran gartref yn y pen draw. Mae'r un peth yn wir am staff sy'n dychwelyd i'r CMA ar ôl bod ar fenthyg mewn mannau eraill.

| | **Benthyciadau staff tuag allan 2023/24** | | **Benthyciadau staff tuag i mewn 2023/24** | |
|---|---|---|---|---|
| | Llai na 6 mis | Mwy na 6 mis | Llai na 6 mis | Mwy na 6 mis |
| **SCS3 (Cyfarwyddwr)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **SCS2 (Cyfarwyddwr)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **SCS1 (Cyfarwyddwr)** | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Gradd 6** | 0 | 10 | 5 | 6 |
| **Gradd 7** | 2 | 6 | 15 | 22 |
| **SEO** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **HEO** | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **EO** | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **AO** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **6** | **20** | **21** | **30** |

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Yn 2023/24, gwariodd y CMA £1.8 miliwn ar wasanaethau ymgynghori (2022/23: £0.8 miliwn). Mae'r cynnydd hwn mewn gwariant i'w briodoli'n bennaf i gostau cam darganfod prosiectau, megis Trawsnewid Digidol sy'n cynnwys y system Cynllunio Adnoddau Menter ac adolygiad o ddull y CMA o ddatblygu a gwobrwyo perfformiad.

## Pecynnau ymadael (archwiliedig)

Telir pecynnau ymadael, lle y bo'n gymwys, yn unol â thelerau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir ar gyfer costau ymadael yn llawn pan fydd ymrwymiad wedi'i wneud gan y CMA a chânt eu talu yn y flwyddyn ymadael.
Roedd pecynau ymadael yn 2023/24 fel a ganlyn:

| **Band cost pecynnau ymadael** | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| **<£10k** | 0 | 0 | 0 |
| **£10k - £25k** | 0 | 0 | 0 |
| **£25k - £50k** | 0 | 0 | 0 |
| **£50k - £100k** | 0 | 0 | 0 |
| **£100k - £150k** | 0 | 1 | 1 |
| **£150k - £200k** | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **0** | **1** | **1** |

Mae costau diswyddiadau a chostau ymadawiadau eraill wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a grëwyd o dan Deddf Blwydd-Daliadau 1972. Dengys y tabl uchod gyfanswm cost pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2023/24 (2022/23: dim). talwyd costau ymadael gwerth £100k-£150k yn 2023/24, sef y flwyddyn ymadael (2022/23: dim).

Os bydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Tellir costau ymddeoliadau oherwydd salwch gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS) a nodiadau ategol.

Caiff y SOPS a'r nodiadau ategol eu harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r SOPS yn ddatganiad allweddol o atebolrwydd sy'n dangos, yn fanwl, sut mae'r CMA wedi gwario yn erbyn ein Hamcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw'n bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau eu defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd y CMA yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a nodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn cael barn amodol.

Mae fformat y SOPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrif o Gyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SOPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian parod a wariwyd (caiff cyllidebau eu llunio ar sail croniadau ac, felly, ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gwaith gweinyddol.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro yn ôl llinell Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoniad o'r alldro i wariant gweithredu net yn yr SOCNE, er mwyn cysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoniad o'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Caiff y SOPS a'r Amcangyfrif o Gyflenwad eu llunio yn unol â fframwaith cyllidebu Trysorlys EF. Ceir esboniad o'r fframwaith cyllidebu a'r termau allweddol yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adran yr Adolygiad Ariannol o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n dechrau ar dudalen 69. Ceir rhagor o wybodaeth am Fframwaith Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EF a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd ym mhennod 1 o'r Canllawiau ar Gyllidebu Cyfunol, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF

Mae'r SOPS yn rhoi darlun manwl o'r perfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan y Senedd. Mae adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yn darparu trafodaeth gryno ynghylch alldro yn erbyn yr Amcangyfrif o Gyflenwad a swyddogaethau fel cyflwyniad i ddatgeliadau SOPS.

# Tabl cryno 2023/24

| | | 2023/24 | | | | | | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o Gymharu â'r Amcangyfrif, arbedion/ (gormodedd) | | Alldro |
| Math o wariant | Nodyn ar SoPS | Gyda phleidlais | Heb bleidlais | Cyfanswm | Gyda phleidlais | Heb bleidlais | Cyfanswm | Gyda phleidlais | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 1.1 | 123,059 | - | 123,059 | 131,662 | - | 131,662 | 8,603 | 8,603 | **115,349** |
| **Cyfalaf** | 1.2 | 6,330 | - | **6,330** | 12,993 | - | **12,993** | 6,663 | 6,663 | **6,528** |
| **Cyfanswm** | | **129,389** | **-** | **129,389** | **144,655** | **-** | **144,655** | **15,266** | **15,266** | **121,877** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | **1.1** | **18,157** | **-** | **18,157** | **22,000** | **-** | **22,000** | **3,843** | **3,843** | **(8,979)** |
| **Cyfalaf** | 1.2 | (345) | - | **(345)** | 2,000 | - | **2,000** | 2,345 | 2,345 | **(173)** |
| **Cyfanswm** | | **17,812** | **-** | **17,812** | **24,000** | **-** | **24,000** | **6,188** | **6,188** | **(9,152)** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 1.1 | 141,216 | - | **141,216** | 153,662 | - | **153,662** | 12,446 | 12,446 | **106,370** |
| **Cyfalaf** | 1.2 | 5,985 | - | **5,985** | 14,993 | - | **14,993** | 9,008 | 9,008 | **6,355** |
| **Cyfanswm Gwariant Cyllideb** | | **147,201** | **-** | **147,201** | **168,655** | **-** | **168,655** | **21,454** | **21,454** | **112,725** |
| **Gwariant Heb Gyllideb** | | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm Cyllideb a Heb Gyllideb** | | **147,201** | **-** | **147,201** | **168,655** | **-** | **168,655** | **21,454** | **21,454** | **112,725** |

Mae ffigurau yn y meysydd a amlinellir mewn llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli gyda phleidlais y pleidleisiodd y Senedd arnynt. Cyfeiriwch at y llawlyfr Cyflenwi i gael manylion y terfynau rheoli y pleidleisiodd y Senedd arnynt.

## Gofyniad arian parod net 2023/24

| | | 2023/24 | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Eitem | Nodyn ar SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: Arbedion/(Gormodedd) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gofyniad Arian Parod Net | 3 | 120,383 | 136,242 | 15,859 | 113,701 |

## Costau gweinyddu 2023/24

| | | 2023/24 | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Math o wariant | Nodyn ar SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: Arbedion/(Gormodedd) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau gweinyddol | 1 | 24,349 | 31,395 | 7,046 | 19,777 |

Er nad yw'n gyfyngiad ar wahân gyda phleidlais, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais ar ormodedd.

# Nodiadau ar y Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2023/24

## SOPS 1 Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

### *SOPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau fesul Llinell Amcangyfrif*

| Math o wariant: (Adnoddau) | 2023/24 | | | | | | | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro adnoddau | | | | | | Amcangyfrif | | | Alldro |
| | Gweinyddiaeth | | | Rhaglen | | | | | | |
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm alldro | Cyfanswm net | Alldro o Gymharu â'r Amcangyfrif, arbedion/ (gormodedd) | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: A Deunydd Hyrwyddo ar gyfer Cystadleuaeth | 24,476 | (127) | **24,349** | 104,340 | (5,630) | **98,710** | **123,059** | **131,662** | **8,603** | 115,349 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: B Deunydd Hyrwyddo ar gyfer Cystadleuaeth | (78) | - | (78) | 18,235 | - | **18,235** | **18,157** | **22,000** | **3,843** | (8,979) |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **24,398** | **(127)** | **24,271** | **122,575** | **(5,630)** | **116,945** | **141,216** | **153,662** | **12,446** | **106,370** |

***SOPS 1.2*** Dadansoddiad o alldro cyfalaf fesul Llinell amcangyfrif

| | 2023/24 | | | | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro |
| **Math o wariant: (Cyfalaf)** | **Gros** | **Incwm** | **Net** | **Net** | **Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif** | Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif, wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau [48] | **Net** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: A | 6,330 | - | **6,330** | **12,993** | **6,663** | **6,663** | **6,528** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: B | (345) | - | **(345)** | **2,000** | **2,345** | **2,345** | **(173)** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **5,985** | **-** | **5,985** | **14,993** | **9,008** | **9,008** | **6,355** |

**SOPS 2** Cysoni alldro i'r gwariant gweithredu net

| | Nodyn | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Eitem** | | **Alldro** | **Alldro** |
| | | **£000** | **£000** |
| **Cyfanswm Alldro adnoddau** | **SOPS 1.1** | **141,216** | 106,370 |
| **Ychwanegu: Ymchwil wedi'i chynnwys mewn alldro cyllideb gyfalaf[49]** | | 777 | 14 |
| **Llai: Disgowntio darpariaeth dadfeiliad wedi'i gyfalafu ar gyfer IFRS 16 Prydlesau** | | (515) | (808) |
| **Gwariant gweithredu net / (incwm) ar gyfer y flwyddyn** | **SoCNE** | **141,478** | **105,576** |

[48] Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau yn 2023/24.
[49] Y system Ewropeaidd o gyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol 2010.

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, caiff yr alldro a'r Amcangyfrif o Gyflenwad eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu Trysorlys EF. Mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r SOPS â'r SoCNE yn y datganiadau ariannol.

Mae gwariant ar ymchwil, o fewn cwmpas y system Ewropeaidd o gyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol 2010 (ESA 10), yn sgorio yn y gyllideb gyfalaf (yn elfen DEL) ac mae cyfalafu darpariaethau dadfeiliad, ar gyfer prydlesau o fewn cwmpas IFRS 16, hefyd yn sgorio yn y gyllideb gyfalaf (yn elfen AME). Fodd bynnag, cyfrifir am y naill a'r llall fel gwariant yn yr SoCNE.

Bu cynnydd sylweddol yng ngwariant ESA 10 yn 2023/24 o gymharu â 2022/23, sydd i'w briodoli'n bennaf i gostau cam darganfod prosiectau yn cael eu cyfalafu o dan y diffiniad hwn. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys Trawsnewid Digidol, sy'n cynnwys y system Cynllunio Adnoddau Menter ac ymchwil rheng flaen a fydd yn helpu i lunio achosion yn y dyfodol.

**SOPS 3 Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net**

| | | | | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbedion/(gormodedd) | Alldro |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm Alldro adnoddau** | SOPS 1.1 | 141,216 | 153,662 | 12,446 | 106,370 |
| **Cyfanswm Alldro cyfalaf** | SOPS 1.2 | 5,985 | 14,993 | 9,008 | 6,355 |
| ***Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:*** | | | | | |
| Dibrisiant (gan gynnwys lleihad mewn gwerth asedau a cholled ar waredu) | 4 | (11,052) | (14,413) | (3,361) | (10,579) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 4 | (18,898) | (24,000) | (5,102) | 6,128 |
| Eitemau eraill nad ydynt yn rhai arian parod | 4,5 | (602) | - | 602 | (496) |
| ***Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:*** | | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | 10 | 602 | - | (602) | (76) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | 12 | (5,067) | 6,000 | 11,067 | (1,152) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn rhwymedigaethau prydles | 13 | 5,231 | - | (5,231) | 4,306 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau prydles derbyniadwy | 11 | (35) | - | 35 | (47) |
| Cynnydd/(gostyngiad) i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol | | 1,917 | - | (1,917) | (199) |
| Y defnydd o ddarpariaethau | 12,14 | 1,086 | - | (1,086) | 3,091 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **120,383** | **136,242** | **15,859** | **113,701** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, caiff yr alldro a'r Amcangyfrif o Gyflenwad eu llunio yn erbyn fframwaith cyllidebu Trysorlys EF, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

Mae'r tabl isod yn cysoni'r gofyniad arian parod net yn SOPS 3, sef £120.38 miliwn, â'r Datganiad o Lif Arian Parod ar dudalen 148.

| | Nodyn | £000 |
|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 109,642 |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | 5,366 |
| Talu rhwymedigaethau prydles | | 5,413 |
| Derbyn rhwymedigaethau prydles | | (38) |
| **Gofyniad arian parod net** | Datganiad o Lif Arian Parod | **120,383** |
| **Gofyniad arian parod net** | SoPs 3 | **120,383** |

### SOPS 4 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

***SoPS 4.1*** Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ystod 2023/24, nid oedd unrhyw incwm perthnasol (er enghraifft, incwm y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrif o Gyflenwad neu'r arian parod dros ben y gellir ei ildio i'r Gronfa Gyfunol) sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (2022/23: dim).

***SOPS 4.2*** Incwm o'r Gronfa Gyfunol

Cofnodir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel cyfrwng ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedolaeth 2023/24 y CMA o'r datganiadau ariannol hyn, yn dechrau ar dudalen 175.

## Datgeliadau atebolrwydd Seneddol

***Colledion a thaliadau arbennig (archwiliedig)***

Yn 2023/24 nid oedd unrhyw golledion adroddadwy (2022/23: £1.06 million) nac unrhyw daliadau arbennig adroddadwy (2022/23: dim).

### *Rhwymedigaethau digwyddiadol nad yw'n ofynnol iddynt gael eu datgelu o dan IAS 37 (archwiliedig)*

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn y datganiadau ariannol yn Nodyn 17, mae hefyd yn ofynnol i'r CMA ddatgelu rhwymedigaethau y mae'r tebygolrwydd y trosglwyddir budd economaidd mewn setliad ar eu cyfer yn rhy fach i ateb y ddiffiniad o rwymedigaeth ddigwyddiadol neu rwymedigaeth ddigwyddiadol sydd fel arall y tu hwnt i gwmpas IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol), megis gwarantau ariannol.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol o bell yn 2023/24 (2022/23: dim).

Mae paragraff 6.7.1 (g) y FReM yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau gynnwys cysoniad o rwymedigaethau digwyddiadol a gofnodir yn yr Amcangyfrif o Gyflenwad â'r rhai a gofnodir yn y cyfrifon. Gan na chofnodwyd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol yn y naill na'r llall ar gyfer 2023/24, nid oes angen cysoni yn yr achos hwn. Byddwn yn asesu'r angen am gysoniad fesul blwyddyn.

Mae'r CMA yn cydymffurfio â holl Safonau Swyddogaethol perthnasol y Llywodraeth fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu 2023/24 o dan y pennawd, Rhoi Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar waith ar dudalen 91.

### *Taliadau diswyddo arbennig (archwiliwyd)*

Nid oedd unrhyw daliadau diswyddo arbennig yn 2023/24 (2022/23: dim).

### *Rhoddion (archwiliwyd)*

Nid oedd unrhyw roddion adroddadwy yn 2023/24 (2022/23: dim).

### *Ffioedd a thaliadau (archwiliwyd)*

Nid oedd unrhyw ffioedd na thaliadau adroddadwy yn 2023/24 (2022/23: dim).

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA



Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2024

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad yr Adran o'i Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;

- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2024, ac o'i wariant net gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a roddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol:

- mae'r Datganiad o Alldro yn Erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 ac mae'n dangos nas rhagorwyd ar y cyfansymiau hynny;
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Chysondeb o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

# Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad fel archwilydd. Fy Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

# Barn ar faterion eraill

Yn fy marn ni, paratowyd y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb o Berfformiad, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

# Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r amgylchedd a sicrhaodd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

# Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth a disgwyliadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd ei angen arno ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad heb gyfyngiadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae'r archwilydd yn nodi bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y rheolaeth fewnol angenrheidiol ar waith i baratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- asesu gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

# Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac

ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

### Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwneuthum y canlynol:

- ystyried natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys cynllunio polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd,
- gwneud ymholiadau â'r rheolwyr a'r sawl sy'n llywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â:
    - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
    - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt;
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus.
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr, a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- wedi trafod â'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, rhannu cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfrifon perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn mae Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Neilltuo Arian (Prif Amcangyfrifon) 2024, y Ddeddf Gyflogaeth, Deddfwriaeth Treth, Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

### Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- cynnal ymholiadau â rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch materion cyfreithia a hawliadau posibl;
- adolygais gyfrifon cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Euthum i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r farn a luniwyd ar amcangyfrifon yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol;

Gwneuthum hefyd hysbysu pob aelod o'r tîm ymgysylltu am gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll, gan gadw'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd arall

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais ac nas rhagorwyd ar y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais yw Cyfyngiadau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae'n yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

# Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.



**Gareth Davies** **24 Gorffennaf 2024**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

London

SW1W 9SP

# Datganiadau Ariannol y CMA

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu | 5 | (5,757) | (386) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(5,757)** | **(386)** |
| Costau staff | 3 | 94,693 | 80,246 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 4 | 52,542 | 25,716 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **147,235** | **105,962** |
| | | | |
| **Gwariant gweithredu net / (incwm) ar gyfer y flwyddyn** | | **141,478** | **105,576** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Colled/(elw) net actiwaraidd ar gynllun pensiwn cydweddol | 14 | (12) | (244) |
| **Gwariant net cynhwysfawr / (incwm) ar gyfer y flwyddyn** | | **141,466** | **105,332** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 151 i 184 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>(Ailgyflwynwyd)<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 6 | 30,274 | 31,334 |
| Asedau Hawl i Ddefnyddio | 7 | 42,218 | 47,339 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 2,845 | 2,471 |
| Symiau prydles derbyniadwy | 11 | 257 | 292 |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **75,594** | **81,436** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 5,522 | 4,920 |
| Symiau prydles derbyniadwy | 11 | 35 | 35 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 2,839 | 922 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **8,396** | **5,877** |
| **Cyfanswm asedau** | | **83,990** | **87,313** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 12 | (17,760) | (12,693) |
| Rhwymedigaethau Prydles | 13 | (4,942) | (4,642) |
| Darpariaethau | 14.1 | (14,023) | (2,380) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(36,725)** | **(19,715)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **47,265** | **67,598** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 12 | - | - |
| Rhwymedigaethau Prydles | 13 | (37,857) | (43,388) |
| Darpariaethau | 14 | (15,980) | (9,823) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **(53,837)** | **(53,211)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai (atebolrwydd)** | | **(6,572)** | **14,387** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ecwiti a chronfeydd wrth gefn trethdalwyr** | | |
| Cronfa gyffredinol | (6,572) | 14,387 |
| **Cyfanswm yr ecwiti** | **(6,572)** | **14,387** |

Mae'r ffigurau a ailgyflwynwyd ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ailddosbarthiadau o asedau diriaethol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (AUC) a drosglwyddwyd i asedau anniriaethol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 151 i 184 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.



Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2024

# Datganiad o Lif Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Incwm/(gwariant) gweithredu net | SoCNE | (141,478) | (105,576) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod | 4,5 | 29,893 | 3,924 |
| Addasiad ar gyfer llog anariannol rhwymedigaethau prydles | 4 | 481 | 388 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | (602) | 1,164 |
| Symudiad mewn symiau derbyniadwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r SoCNE | | - | (1,088) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 12 | 5,067 | (9,655) |
| Symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r SoCNE | | (1,917) | 11,006 |
| Y defnydd o ddarpariaethau | 10,14 | (1,086) | (3,091) |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(109,642)** | **(102,928)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 6,13 | (4,200) | (5,158) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | (1,192) | (66) |
| Enillion o waredu asedau anariannol | | 26 | - |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(5,366)** | **(5,224)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (cyflenwi) | | 122,300 | 113,900 |
| Talu rhwymedigaethau prydles | | (5,413) | (5,596) |
| Derbynebau o symiau prydles derbyniadwy | | 38 | 47 |
| **Llif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **116,925** | **108,351** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn, cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **1,917** | **199** |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | - | - |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **1,917** | **199** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **922** | **723** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **2,839** | **922** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 151 i 184 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol<br>£000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(2,346)** |
| Addasiad i'r balans agoriadol ar gyfer IFRS 16 mabwysiadu: gwrthdroi credydwr di-rent i Gronfeydd Wrth Gefn | | 8,253 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | | **5,907** |
| **Cyllid Seneddol Net** | | |
| Cyflenwad wedi'i dynnu i lawr | | 113,900 |
| Cyflenwad Tybiedig | | 723 |
| Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (922) |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – tâl archwilwyr | 4 | 111 |
| Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (105,576) |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiwn | 14 | 244 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **14,387** |
| **Cyllid Seneddol Net** | | |
| Cyflenwad wedi'i dynnu i lawr | | 122,300 |
| Cyflenwad Tybiedig | | 922 |
| Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (2,839) |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – tâl archwilwyr | 4 | 124 |
| Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (141,478) |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiwn | 14 | 12 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **(6,572)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 151 i 184 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2023/24, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, a Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd a/neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r CMA yn dewis polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol a nodiadau ategol yn dadansoddi'r adnoddau net a'r alldro cyfalaf yn erbyn cyfansymiau rheoli gyda phleidlais gan y Senedd drwy'r Amcangyfrif. Caiff y rhain eu cynnwys yn adran Atebolrwydd Seneddol y ddogfen hon.

Yn gyffredin ag adrannau eraill y llywodraeth, caiff gwasanaethau a rhwymedigaethau'r CMA yn y dyfodol eu hariannu gan grantiau o Gyflenwad yn y dyfodol o'r Gronfa Gyfunol a thrwy ddefnyddio incwm yn y dyfodol, a'u cymeradwyo bob blwyddyn gan y Senedd. Mae Senedd y DU wedi awdurdodi gwariant ar gyfer 2024/25 ym Mhrif Amcangyfrifon Cyflenwi llywodraeth ganolog ac nid oes rheswm dros gredu na chaiff cymeradwyaeth ei rhoi yn y dyfodol. Ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio'r offerynnau ariannol hynny a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio, fel yr eglurir yn y polisïau cyfrifyddu isod, ac fel y pennir gan y safonau cyfrifyddu perthnasol a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

### *1.2 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol*

Mae'r CMA yn cydnabod darpariaethau yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol. Mae'r gwaith o gydnabod a phrisio darpariaethau'n dibynnu ar gymhwyso barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Caiff darpariaeth ei chydnabod pan fydd yn debygol y bydd rhwymedigaeth yn crisialu a phan ellir mesur darpariaeth o'r fath yn gymharol bendant. Caiff darpariaethau eu cyfrifo gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael, ond gall canlyniadau gwirioneddol eitemau y darperir ar eu cyfer fod yn wahanol i'r disgwyliadau.

Pan fydd gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio safonol Trysorlys EF (sef, ar hyn o bryd, gyfradd enwol o 5.10% ar gyfer rhwymedigaethau buddiannau ar ôl cyflogaeth a chyfradd enwol o 4.26% ar gyfer darpariaethau cyffredinol byrdymor).

Bob blwyddyn, mae'r newidiadau cyllido yn y SoCNE yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt un flwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau yn ôl lefelau prisiau presennol.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ond fe'u datgelir yn y nodiadau i'r cyfrifon. Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol naill ai: yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol, y caiff ei bodolaeth ei chadarnhau pan fydd un digwyddiad ansicr yn y dyfodol neu fwy yn digwydd neu'n peidio â digwydd; neu'n rhwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ond nas cydnabyddir naill ai am nad yw all-lif o fuddiannau economaidd yn debygol i setlo'r rhwymedigaeth neu am na ellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn y cyfrifon yn unol ag IAS 37, mae'r CMA yn datgelu (os yw'n gymwys) yn ein hadroddiad atebolrwydd, at ddibenion adrodd ac atebolrwydd i'r Senedd, rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol nas cwmpesir gan IAS 37 yr hysbyswyd y Senedd amdanynt yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

### *1.3 Safonau wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto*

Cyhoeddwyd IFRS 17 Contractau Yswiriant ym mis Mai 2017 ac mae'n gymwys i'r sector cyhoeddus ar gyfer y cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2025. Mae IFRS 17 yn sefydlu'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant a gwmpesir gan y safon.

Amcan IFRS 17 yw sicrhau bod endid yn darparu gwybodaeth berthnasol sy'n rhoi darlun cywir o'r contractau hynny. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi sail i ddefnyddwyr datganiadau ariannol asesu'r effaith y mae contractau yswiriant yn ei chael ar sefyllfa ariannol, perfformiad ariannol a llifau arian parod yr endid. Unwaith y bydd yn weithredol, bydd IFRS 17 yn disodli IFRS 4 Contractau Yswiriant.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y CMA unrhyw gontractau yswiriant a gwmpesir gan IRS 4 nac IFRS 17. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa hon ei hailasesu yn 2025/26 pan ddaw'r safon yn weithredol yn y sector cyhoeddus.

Nid oes unrhyw ddehongliadau gan IFRS neu IFRIC nad ydynt yn weithredol eto y disgwylid iddynt gael effaith berthnasol ar y CMA.

### *1.4 Incwm*

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid yn gymwys i incwm a dderbyniwyd gan y CMA. Caiff pob incwm ei gydnabod pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu neu pan fydd penderfyniad cyfreithiol wedi'i wneud.

Mae incwm cydnabyddedig yn cynnwys y canlynol yn bennaf:

- Apeliadau Rheoleiddio;
- Ad-dalu costau apelio (yn ymwneud â chostau cyfreithiol a adenillwyd) ac incwm arall.

*Apeliadau rheoleiddiol*

Egwyddor graidd IFRS 15 yw y bydd endid yn cydnabod refeniw er mwyn dangos y broses o drosglwyddo nwyddau neu wasanaethau a addawyd i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl y bydd ganddo hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny.

Caiff yr egwyddor graidd hon ei chyflawni mewn fframwaith model 5 cam: [IFRS 15:IN7]

- Cam 1: Nodi'r contract â chwsmer – Caiff yr amod hon ei bodloni pan fydd trydydd parti yn herio penderfyniadau rheoleiddio gan reoleiddiwr sector a phan gaiff y mater ei gyfeirio at y CMA. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract o dan addasiad Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth o IFRS 15.
- Cam 2: Nodi'r rhwymedigaethau o ran perfformiad yn y contract, sef bod yn rhaid i'r CMA weithredu fel tribiwnlys arbenigol, i benderfynu ar yr achos sylfaenol, ac i adennill costau er mwyn bod yn orfodadwy.
- Cam 3: Penderfynu ar bris y trafodyn, sef y gost yr eir iddi gan y CMA yn gweithredu fel tribiwnlys arbenigol, fel y'i nodir yn yr archeb costau terfynol.
- Cam 4: Dyrannu pris y trafodyn i'r rhwymedigaethau o ran perfformiad yn y contract ar ôl cwblhau camau 2 a 3.
- Cam 5: Cydnabyddir y refeniw pan fydd y cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad y CMA wedi dod i ben neu pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau.

*Adennill costau apelio*

Caiff incwm ar ffurf adennill costau apelio ei adfer gan bartïon sydd wedi apelio'n aflwyddiannus yn erbyn penderfyniad cyfreithiol a wnaed gan y CMA. Mae'r CMA yn cyfrif am incwm sy'n ymwneud ag adennill elfen fewnol y costau hyn ac unrhyw gostau allanol (alldaliadau) na chawsant eu gwrthbwyso yn flaenorol o incwm dirwy o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 (CA98) ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA.

Y pwynt cydnabod incwm ar gyfer ad-daliadau costau cyfreithiol yw pan gaiff Dyfarniad Llys neu Dribiwnlys ei drosglwyddo i lawr gan nodi bod yr apêl wedi cael ei gwrthod, bod penderfyniad y CMA yn cael ei gadarnhau ac y cytunir neu y gorchmynnir gan y Llys neu'r Tribiwnlys y dylai'r apelydd dalu holl gostau'r CMA yn yr achos apelio i'r CMA neu gyfran ohonynt.

### *1.5 Pensiynau*

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil fel y'u nodir yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

Mae'r CMA yn cydnabod y costau pensiwn disgwyliedig ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y bydd yn manteisio ar wasanaeth cyflogeion drwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae atebolrwydd i dalu buddiannau yn y

dyfodol yn dâl ar y PCSPS. Mewn perthynas â'r cynlluniau cyfraniad diffiniedig, mae'r CMA yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

Mae gan y CMA gynllun ar wahân ar gyfer y Cadeiryddion blaenorol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr y Swyddfa Masnachu Teg, sy'n debyg i'r PCSPS. Mae darpariaeth pensiwn etifeddol wedi'i chofnodi ar gyfer costau buddiannau o dan y cynllun hwn yn y dyfodol.

### *1.6 Prydlesau*

*Mae'r CMA yn brydlesai*

Mae a wnelo prydlesau perthnasol y CMA ag eiddo sy'n cael ei rentu ar gyfer swyddfeydd. Mae IFRS 16 Prydlesau yn darparu model cyfrifyddu unigol i brydlesai, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai mai 12 mis neu lai yw cyfnod y brydles neu fod yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased o ‘werth isel’.

Mae'r CMA wedi pennu gwerth isel yn £5,000, yn unol â'r trothwy cyfalafu ar gyfer asedau. Ar gyfer prydlesau sy'n para 12 mis neu lai a phrydlesau asedau o werth isel, cydnabyddir y taliadau prydles fel traul ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth wedi'i ddisgowntio'r taliadau prydles gofynnol dros gyfnod cymwys y brydles. Mae'r CMA yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EF fel y gyfradd fenthyca gynyddrannol wrth gyfrifo'r gwerth wedi'i ddisgowntio (4.71% ar gyfer prydlesau a gydnabyddir yn 2024).

Ar ôl eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig y brydles a chydnabyddir llog ar y rhwymedigaethau. O ganlyniad, bydd amseriad cydnabod cyfanswm costau prydlesu yn newid, oherwydd bydd costau llog yn fwy ar ddechrau prydles. Caiff taliadau prydles eu gwrthbwyso yn erbyn y rhwymedigaethau prydles sy'n ddyledus.

Mae'r CMA asesu'r tebygolrwydd y bydd yn arfer cymalau terfynu neu opsiynau ar gyfer estyniad o fewn telerau prydles. Mae'r amcangyfrif hwn yn pennu hyd cyfnod y brydles sy'n effeithio ar rwymedigaethau'r brydles ac asedau hawl i ddefnyddio. Adolygir asesiadau o'r fath os bydd digwyddiad arwyddocaol neu newid sylweddol mewn amgylchiadau.

Nid oes gan y CMA unrhyw brydlesau hedyn pupur.

*Y CMA fel prydleswr*

Y CMA yw'r prydleswr mewn un cytundeb sy'n isosod rhan o ofod swyddfa'r Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser ac a ddosberthir yn isbrydles cyllid a gwmpesir gan IFRS 16..

### *1.7 Eiddo, peiriannau a chyfarpar*

Delir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer y gwerth presennol, am fod hyn yn adlewyrchiad realistig o'r defnydd o'r ased. Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol. Mae'r CMA yn cyfalafu gwariant o £5,000 (yn cynnwys TAW) neu fwy ar gyfer asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio pan gânt eu defnyddio am fwy na 12 mis.. Pan fydd llawer o asedau unigol wedi'u prynu sydd, ar wahân, islaw'r trothwy cyfalafu, mewn perthynas ag un prosiect, cânt eu trin fel ased wedi'i grwpio.

Caiff gwerth gweddilliol ac oes ddefnyddiol yr asedau eu hadolygu a'u haddasu os bydd yn briodol ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw ailbrisiad yn 2023/24.

### *1.8 Asedau Anniriaethol*

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys platfformau Technoleg Gwybodaeth (TG) a ddatblygwyd i'w defnyddio ym mhob rhan o'r CMA, meddalwedd arall a thrwyddedau meddalwedd wedi'u cyfalafu ar gost lle maent yn bodloni meini prawf cyfalafu'r CMA i gyfalafu gwariant gwerth £5,000 (gan gynnwys TAW) neu fwy ar gyfer eitemau unigol a brynwyd ac asedau wedi'u grwpio; y disgwylir i'r ased gael ei ddefnyddio am fwy na 12 mia ac mae'r CMA yn rheoli'r ased. Pan fydd llawer o asedau unigol wedi'u prynu sydd, ar wahân, islaw'r trothwy cyfalafu, mewn perthynas ag un prosiect, cânt eu trin fel ased wedi'i grwpio.

Cydnabyddir asedau anniriaethol ar gost hanesyddol llai unrhyw amorteiddio a cholledion o ganlyniad i leihad mewn gwerth asedau a gronnwyd yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol.

Caiff costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o ddylunio a phrofi meddalwedd, eu cyfalafu pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 Asedau Anniriaethol (fel y'i haddaswyd gan y FReM). Cofnodir gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf fel yr aed iddo.

### *1.9 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu*

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli costau yr eir iddynt wrth ddatblygu asedau diriaethol ac anniriaethol. Ar ôl cwblhau hyn a phan fydd yr asedau ar gael i'w defnyddio, caiff gwerth perthnasol yr asedau hyn eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau priodol a'u dibrisio (neu eu hamorteiddio) yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol. Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredu yn y flwyddyn yr aed iddo.

### *1.10 Dibrisio ac amorteiddio*

Mae'r CMA yn dibrisio asedau hawl i ddefnyddio o dan IFTS 16 ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol yr ased, sydd hyd at ddyddiad terfynu'r brydles.

O dan IFRS 16, mae'r CMA asesu'r tebygolrwydd y bydd yn arfer cymalau terfynu neu opsiynau ar gyfer estyniad o fewn telerau prydles. Mae'r amcangyfrif hwn yn pennu hyd cyfnod y brydles sy'n effeithio ar rwymedigaethau'r brydles ac asedau

hawl i ddefnyddio. Adolygir asesiadau o'r fath os bydd digwyddiad arwyddocaol neu newid sylweddol mewn amgylchiadau. Os bydd y CMA yn penderfynu arfer y cymal terfynu mewn cytundeb prydlesu, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio i'r dyddiad terfynu newydd hwn a chaiff y broses ddibrisio ei chyflymu.

Caiff y dosbarthiadau asedau eraill eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir i ostwng eu gwerth, llai unrhyw werth gweddilliol amcangyfrifedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Pan bennir newid yng nghyfnod ased, caiff yr ased ei ddibrisio neu ei amorteiddio drwy weddill ei gyfnod a asesir ar sail llinell syth gan ddefnyddio dibrisiant cyflymedig.

Caiff dibrisiant ac amorteiddio eu codi ar yr SoCNE o'r mis yn dilyn y mis y mae'r ased ar gael i'w ddefnyddio.

Caiff gwerthoedd asedau eu hadolygu ar gyfer lleihad mewn gwerth ar gyfer digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau sy'n nodi bod y gwerth cario yn anadferadwy o bosibl a chânt eu hysgrifennu ar unwaith i'w swm adferadwy.

Mae ansicrwydd ynglŷn ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau anghyfredol; caiff y rhain eu hadolygu ar y dyddiad adrodd a'u diweddaru os bydd disgwyliadau yn wahanol i amcangyfrifon blaenorol oherwydd traul ffisegol, darfodiad technegol neu fasnachol neu gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau eraill ar y defnydd a wneir ohonynt.

Mae cyfnodau defnyddiol amcangyfrifedig asedau o fewn yr ystodau canlynol:

*Eiddo, offer a chyfarpar (dibrisiant)*

Costau gwella prydles (yn cynnwys ased dadfeiliadau) dros weddill cyfnod y brydles

| | |
|---|---|
| Technoleg gwybodaeth | 2 i 6 blynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | 5 i 10 mlynedd |

*Asedau anniriaethol (amorteiddio)*

| | |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd | 2 i 5 mlynedd (cyfnod y drwydded) |
| Meddalwedd | 2 i 5 mlynedd |

### *1.11 Offerynnau ariannol*

Nid oes gan y CMA unrhyw offerynnau ariannol cymhleth a gwmpesir gan IFRS 9 Offerynnau Ariannol ac mae'r rhai sydd ganddo yn cynnwys symiau masnach derbyniadwy a symiau masnach taladwy. Caiff symiau derbyniadwy eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio.

Nid yw model ‘Colled Credyd Ddisgwyliedig’ IFRS 9 Offerynnau Ariannol ar gyfer asesu lleihad mewn gwerth ar gyfer asedau ariannol yn effeithio'n sylweddol ar y cyfrifon hyn. Symiau masnach derbyniadwy a ddelir ar gyfer casglu arian parod yng nghwrs busnes arferol sydd gan y CMA yn bennaf ac, felly, mae'n defnyddio'r dull

‘wedi'i symleiddio’ a ganiateir gan IFRS 9 Offerynnau Ariannol sy'n dileu'r angen i gyfrifo Colled Credyd Ddisgwyliedig dros 12 mis. Os bydd risg credyd swm masnach derbyniadwy yn cynyddu'n sylweddol ac na chaiff ei ystyried yn isel, caiff Colled Credyd Ddisgwyliedig ei chydnabod.

### *1.12* Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

Mae arian parod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynrychioli'r balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Nid yw'r CMA yn dal yr hyn sy'n cyfateb i arian parod fel y'i diffinnir ym mharagraff 6 o IAS 7 Datganiad o Lifau Arian Parod.

### *1.13* Treth ar Werth

Mae llawer o weithgareddau'r CMA y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid oes treth allbwn yn gymwys ac ni ellir adennill treth fewnbwn ar bryniannau. Caiff TAW anadenilladwy ei chodi i'r categori gwariant ar adnoddau perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau nad ydynt yn gyfredol. Pan gaiff treth allbwn ei chodi, neu pan fydd treth fewnbwn yn adenilladwy, caiff y symiau eu nodi heb gynnwys TAW.

## 2 Datganiad o gostau gweithredu yn ôl elfen weithredu

### *2.1 Dadansoddiad yn ôl elfen weithredu*

Cydnabu'r CMA 10 segment adroddadwy yn ein cyfrifon rheoli gyda chyfanswm y gwariant gros wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| | Cyfanswm y gwariant gros 2023/24 £000 | Cyfanswm y gwariant gros Ailgyflwynwyd) £000 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol** | 32,463 | 26,961 |
| Uned Marchnadoedd Digidol | 4,872 | 2,994 |
| Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | 1,663 | 1,499 |
| Gorfodi | 18,290 | 16,699 |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 24,304 | 28,756 |
| Marchnadoedd, Rhwymedïau a Rheoleiddio | 8,684 | 7,162 |
| Uno | 6,562 | 5,706 |
| Swyddfa'r Farchnad Fewnol | 1,805 | 1,762 |
| Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd | 19,181 | 14,350 |
| Strategaeth, Cysylltiadau ac Eiriolaeth | 4,443 | 3,585 |

| | | |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth** | **122,267** | **109,474** |

Yn 2023/24, newidiodd y CMA strwythur y sefydliad a arweiniodd at gyfarwyddiaeth Uno annibynnol, a oedd yn arfer bod yn rhan o'r segment Marchnadoedd ac Uno.

Mae'r gwariant cynyddol mewn meysydd rheng flaen, yn arbennig yr Uned Marchnadoedd Digidol a Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd, i'w briodoli i ymgyrch recriwtio i sicrhau twf y CMA a'i strwythur yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r gyfundrefn marchnadoedd digidol.

Mae a wnelo'r lefel is o wariant o fewn Gwasanaeth Cyfreithiol ag incwm CA98. Yn 2022/23, cydnabuwyd incwm CA98 annigonol yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA i dalu costau ymgyfreitha a oedd yn golygu bod cyllid cyflenwi'r CMA wedi'i ddefnyddio i dalu'r costau hyn. Gweler nodyn 4 am ragor o gyd-destun am y dull gwrthbwyso ymgyfreitha a gymeradwyir gan Drysorlys EF.

O 2024/25, bydd y CMA yn rhoi sawl newid strwythurol ar waith, sef: caiff Gorfodi a Marchnadoedd, Rhwymedïau a Rheoleiddio eu had-drefnu ar draws tair cyfarwyddiaeth newydd, sef Diogelu Defnyddwyr a Marchnadoedd, Gorfodi Cystadleuaeth a Rheoleiddio; bydd Gwasanaethau Technoleg a Busnes a DaTA yn symud o Wasanaethau Corfforaethol a Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd, yn y drefn honno, i Gyfarwyddiaeth newydd y Prif Swyddog Data, Technoleg a Gwybodaeth; caiff elfen ryngwladol Polisi a Rhyngwladol ei symud o Wasanaethau Cyfreithiol i Strategaeth, Cysylltiadau ac Eiriolaeth.

**Caiff cyfanswm gwariant gros Gwasanaethau Corfforaethol o £32.46 miliwn ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| | Cyfanswm y gwariant gros<br>2023/24<br>£000 | Cyfanswm y gwariant gros<br>2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Safleoedd | 7,208 | 6,932 |
| Technoleg Gwybodaeth | 4,825 | 4,655 |
| Costau staff a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff | 20,430 | 15,374 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **32,463** | **26,961** |

Mae'r cynnydd yng nghyfanswm gwariant gros Gwasanaethau Corfforaethol i'w briodoli'n bennaf i gynnydd mewn costau staff a chostau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â staff oherwydd yr ymgyrch recriwtio barhaus i gefnogi twf CMA a'i strwythur yn y dyfodol, yn arbennig twf yr Uned Marchnadoedd Digidol a phroffesiynau cynghori i gefnogi'r gyfundrefn marchnadoedd digidol.

Mae costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff wedi cynyddu ochr yn ochr â'r cynnydd ym maint y CMA a'n huchelgais i ehangu ein presenoldeb ledled y DU. Maent yn cynnwys cost darparu ein swyddfeydd newydd ym Manceinion a Darlington a buddsoddiad parhaus mewn technolegau newydd megis Rhaglen Drawsnewid Ddigidol.

### *2.2 Cysoni rhwng elfennau gweithredu a'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr*

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant gros a nodir ar gyfer elfennau gweithredu | 122,267 | 109,474 |
| Eitemau cysoni: | | |
| Incwm | (5,757) | (386) |
| Defnyddio darpariaeth gyfreithiol | - | (3,025) |
| Gwrthbwyso ymgyfreitha | (5,406) | (4,800) |
| Dibrisiant ac eitemau nad ydynt yn rhai arian parod | 30,374 | 4,313 |
| **Cyfanswm y gwriant net yn ôl y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **141,478** | **105,576** |

## 3 Costau staff

Cyfanswm y costau staff ar 31 Mawrth 2024 oedd £94.69 miliwn (2022/23: £80.20 miliwn), gan gynnwys: £69.13 miliwn ar gyflogau; £7.80 miliwn ar nawdd cymdeithasol; ac £17.17 miliwn ar gostau pensiwn staff. Gweler y nodyn ar gostau staff yn yr Adroddiad ar y Staff, sy'n dechrau ar dudalen 112 am ragor o wybodaeth.

## 4 Gwariant

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhent (prydlesau gweithredol) | 316 | 109 |
| Ardrethi | 1,628 | 1,673 |
| Treth stamp | - | 34 |
| Cyfleustodau | 967 | 807 |
| Cynnal a chadw | (19) | 8 |
| Costau Safleoedd Eraill | 69 | 427 |
| Tâl Gwasanaeth | 3,132 | 2,808 |

| | | |
|---|---|---|
| **Costau safleoedd net** | **6,093** | **5,866** |
| **Gwariant ar ymchwil** | **808** | **134** |
| Costau Ymgyfreitha | - | 3,003 |
| Llogi offer a pheiriannau | 4 | - |
| Gwasanaethau proffesiynol | 4,056 | 2,175 |
| Hyfforddiant | 1,753 | 1,725 |
| Cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd | 368 | 511 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,019 | 608 |
| Recriwtio | 1,096 | 619 |
| Telathrebu | 316 | 545 |
| TG (yn cynnwys cynnal a chadw) | 4,544 | 4,132 |
| Argraffu, copïo a phostio | 175 | 393 |
| Cyhoeddiadau | 136 | 12 |
| Rheoli Cyfleusterau | 1,295 | 1,238 |
| Gwariant arall | 378 | 353 |
| **Cyfanswm prynu nwyddau a gwasanaethau** | **15,140** | **15,314** |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod** | | |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | 5,174 | 4,520 |
| Dibrisio asedau hawl i ddefnyddio | 4,899 | 4,296 |
| Dibrisio asedau anniriaethol | 748 | 678 |
| Lleihad mewn gwerth eiddo, offer a chyfarpar | - | 1,058 |
| Symiau masnach derbyniadwy – nad yw'r swm yn ofynnol, a adferwyd | - | (2) |
| Colled /(elw) ar waredu asedau diriaethol ac anniriaethol | 231 | 27 |
| Ardoll Prentisiaeth – hyfforddiant | 124 | 87 |
| Darpariaethau - symiau y darparwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn | 25,838 | 1,119 |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr | 124 | 111 |
| Darpariaethau – nad yw'r swm yn ofynnol, a adferwyd | (6,234) | (5,615) |
| Darpariaethau – newidiadau i ddisgowntio | (762) | (1,962) |
| Cost fenthyca (dad-ddirwyn disgownt) | (122) | (303) |
| Costau llog asedau hawl i ddefnyddio | 481 | 388 |
| **Cyfanswm yr eitemau nad ydynt yn rhai arian parod** | **30,501** | **4,402** |
| **Cyfanswm costau** | **52,542** | **25,716** |

Mae ein gwariant o ran costau safleoedd eraill wedi gostwng £0.36 miliwn yn 2023/24 o ganlyniad i ostyngiad mewn costau storio a dosbarthu.

Mae'r CMA wedi cael caniatâd gan Drysorlys EF i wrthbwyso ein holl gostau ymgyfreitha cymwys gan ddefnyddio incwm o gosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 a

gasglwyr yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA. Yn 2022/23, cofnododd y CMA gost ymgyfreitha o £3.00 miliwn a oedd yn cynrhychioli'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm costau ymgyfreitha o £7.80 miliwn ac incwm cosb CA98 o £4.80 miliwn, i wrthbwyso'r costau hyn. Yn 2023/24, casglodd y CMA ddigon o incwm o gosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 i wrthbwyso ein costau ymgyfreitha net, sef £4.51 miliwn, yn llawn, sy'n cael effaith sero net ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae gwariant ar wasanaethau proffesiynol wedi cynyddu £1.88 miliwn yn 2023/24. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn technolegau newydd megis y Rhaglen Drawsnewid Ddigidol sy'n cynnwys uwchraddio'r system Cynllunio Adnoddau Menter a'r prosiect Datblygu a Gwobrwyo Perfformiad.

Mae gwariant ar deithio a chynhaliaeth wedi cynyddu £0.41 miliwn yn 2023/24 wrth i'r CMA dyfu ac ehangu ein presenoldeb ledled y DU.

Cynyddodd gwariant ar recriwtio £0.48 miliwn a gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ymgyrch recriwtio i sicrhau twf y CMA a'i strwythur yn y dyfodol.

Mae gwariant ar TGCh (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw) wedi cynyddu £0.41 miliwn yn 2023/24 wrth i ni barhau i fuddsoddi yn ein galluoedd digidol er mwyn sicrhau cadernid seilwaith TGCh y CMA i gynnal y sefydliad yn y dyfodol, wrth inni dyfu ym mhob un o bedair gwlad y DU.

Gwariant nad yw'n arian parod ar gydnabyddiaeth a threuliau'r archwilydd yw £0.11 miliwn (2022/23: £0.10 miliwn) am archwilio'r cyfrifon hyn a £0.01 miliwn (2022/23: £0.01 million) am archwilio'r Datganiad Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o £0.12 miliwn (2022/23: £0.11 miliwn)

Gweler nodyn 14 ar dudalen 170 am ragor o fanylion am y newidiadau i ddarpariaethau.

## *5 Incwm*

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Adennill costau adeiladau | - | 46 |
| Adennill costau apelio | 1,939 | 244 |
| Apeliadau rheoleiddiol | 3,686 | - |
| Incwm arall | 5 | 6 |
| **Cyfanswm incwm (eitemau arian parod)** | **5,630** | **296** |
| | | |
| Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod: | | |
| Ardoll Prentisiaeth – grant tybiannol | 124 | 87 |

| | | |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd: Ased hawl i ddefnyddio wedi'i dadgydnabod | 3 | 3 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **5,757** | **386** |

Yn 2023/24, cyfrifodd y CMA am ad-daliadau costau apêl gwerth £1.94 miliwn mewn pedwar achos cyfreithiol (2022/23: tri achos) a oedd yn cynnwys:

- £1.48 miliwn ar gyfer costgau cyfreithiol mewnol;
- £0.46 miliwn ar gyfer costau cyfreithiol allanol nad oeddent wedi'u gwrthbwyso'n flaenorol o incwm o gosbau Deddf Cystadleuaeth 1998.

Adenillodd y CMA gostau gwerth £3.69 miliwn a oedd yn ymwneud â phedair Apêl Reoleiddiol (2022/23: dim).

Mae'r CMA yn cynnig rhaglenni hyfforddiant ar gyfer prentisiaid mewn amrywiaeth o rolau ym mhob rhan o'r adran a phroffesiynau amrywiol. Ar 31 Mawrth 2023, dechreuodd 92 o brentisiaid newydd â'r CMA. Cynyddodd hyn wrth i 23 o brentisiaid newydd eraill ddechrau yn ystod 2023/24, ac roedd 115 o brentisiaid newydd wedi dechrau yn y CMA erbyn 31 Mawrth 2024. Mae'r CMA yn cael grant tybiannol ar gyfer cost hyfforddi prentisiaid sy'n arwain at effaith sero net ar y datganiadau ariannol. Gweler nodyn 4 ar dudalen 159 am y gwariant cysylltiedig.

## *6 Eiddo, offer a chyfarpar*

| | Gwelliannau i lesddaliadau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a ffitiadau | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | 2023/24 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 28,693 | 12,485 | 4,279 | 360 | 45,817 |
| Ychwanegiadau | 100 | 1,072 | 12 | 3,091 | 4.275 |
| Gwarediadau | (240) | (445) | (8) | - | (693) |
| Ailddosbarthu | 314 | 2 | 33 | (363) | (14) |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **28,867** | **13,114** | **4,316** | **3,088** | **49,385** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 6,538 | 6,485 | 1,460 | - | 14,483 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 2,151 | 2,591 | 432 | - | 5,174 |
| Gwarediadau | (232) | (292) | (8) | - | (532) |
| Ailddosbarthu | - | - | (14) | - | (14) |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **8,457** | **8,784** | **1,870** | **-** | **19,111** |
| | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **20,410** | **4,330** | **2,446** | **3,088** | **30,274** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 (ailgyflwynwyd) | 22,155 | 6,000 | 2,819 | 360 | 31,334 |

Yn 2023/24, gwariodd y CMA £3.09 miliwn mewn perthynas ag asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys:

- £2.73 miliwn ar gyfer One New Bailey, Manceinion;
- £0.36 miliwn ar gyfer Conscliffe House, Darlington. Meddiannodd y CMA y safle hwn yn 2023/24 gan ailddosbarthu costau i welliannau lesddaliadol a dodrefn a ffitiadau o asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Gwariodd y CMA £1.07 miliwn ar asedau technoleg gwybodaeth hefyd, megis gweinyddion a hybiau arwyneb, er mwyn sicrhau bod staff y CMA yn cael y profiad cyfrifiadura defnyddiwr terfynol gorau posibl, p'un a ydynt yn gweithio gartref neu yn un o swyddfeydd y CMA.

Yn 2023/24, gwaredodd y CMA asedau TGCh gwerth £0.45 miliwn a oedd yn cynnwys:

- caledwedd TGCh gwerth £0.19 miliwn ar gyfer system archebu ystafell y CMA a adnewyddwyd ym mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r galedwedd hon wedi'i dibrisio'n llawn eto, gyda cholled ar waredu yn cael ei chydnabod yn Nodyn 4;
- asedau seilwaith caledwedd TGCh gwerth £0.18 miliwn a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol, fel y'i pennwyd gan y gwerthwr. Nid yw'r galedwedd hon wedi'i dibrisio'n llawn eto, gyda cholled ar waredu yn cael ei chydnabod yn Nodyn 4.

Yn 2023/24, ailgyflwynodd y CMA asedau diriaethol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu gwerth £0.65 miliwn yn 2022/23 fel asedau anniriaethol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Roedd hyn yn ymwneud â gwahanol raglenni trawsnewid digidol.

| | Gwelliannau i lesddaliadau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a ffitiadau | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | 2022/23 Cyfanswm Ailgyflwynwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 28,359 | 9,529 | 4,279 | 143 | 42,310 |
| Ychwanegiadau | 263 | 3,292 | - | 288 | 3,843 |
| Gwarediadau | - | (336) | - | - | (336) |
| Ailddosbarthu | 71 | - | - | (71) | - |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **28,693** | **12,485** | **4,279** | **360** | **45,817** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 4,302 | 4,937 | 1,033 | - | 10,272 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 2,236 | 1,857 | 427 | - | 4,520 |
| Gwarediadau | - | (309) | - | - | (309) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **6,538** | **6,485** | **1,460** | **-** | **14,483** |
| | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **22,155** | **6,000** | **2,819** | **360** | **31,334** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2022 | 24,057 | 4,592 | 3,246 | 143 | 32,038 |

## *7 Asedau Hawl i Ddefnyddio*

| | Adeiladau 2023/24 £000 | Cyfanswm 2023/24 £000 | Cyfanswm 2022/23 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill | 51,635 | 51,635 | 49,710 |
| Ychwanegiadau | 257 | 257 | 1,925 |
| Gwarediadau | (706) | (706) | - |
| Ailddosbarthiadau a Throsglwyddiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **51,186** | **51,186** | **51,635** |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill | 4,296 | 4,296 | - |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 4,899 | 4,899 | 4,296 |
| Gwarediadau | (227) | (227) | - |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | 8,968 | 8,968 | 4,296 |
| | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth** | **42,218** | **42,218** | **47,339** |

Roedd yr ychwanegiadau ased hawl i ddefnyddio gwerth £0.26 miliwn ar gyfer 2023/24 i'w priodoli i'r canlynol:

- £0.15 miliwn ar gyfer prydles newydd a gwmpesir gan IFRS 16 Prydlesau a ddaeth ‘ar y fantolen’ yn 2023/24 ac sy'n ymwneud â'r safle yn Darlington. Cynyddodd hyn rwymedigaethau prydles IFRS 16:
- £0.11 miliwn o ganlyniad i gynnydd mewn darpariaethau dadfeiliad wedi'u cyfalafu, yn dilyn asesiad o brisiad allanol annibynnol.

Roedd y gwarediadau cost asedau hawl i ddefnyddio gwerth £0.71 miliwn ar gyfer 2023/24 yn ymwneud â thri eiddo fel a ganlyn:

- gadawyd swyddfa Finlaison House, Llundain, ar ddiwedd cytundeb cyfnod y prydles a chafodd yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio'n llawn gyda'r gwerth gwaredu yn cynrychioli'r gwerth gweddilliol a ddilewyd o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol SoFP;
- cafodd telerau prydles dau safle; Erskine House, Belfast; a Thŷ William Morgan, Caerdydd, eu hailasesu yn 2023/24 a chafodd y rhwymedigaethau prydles eu hailgyfrifo wedyn o ddyddiad terfynu'r cytundeb prydlesu i ddyddiad cyntaf y cymal terfynu. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £0.48 miliwn yn yr ased hawl i ddefnyddio a gostyngiad o £0.45 miliwn yn y rhwymedigaethau prydles.

## *8 Asedau anniriaethol*

| | Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd 2023/24 £000 | Ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu 2023/24 £000 | Cyfanswm 2023/24 £000 | Cyfanswm 2022/23 Ailgyflwynwyd £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 4,983 | 655 | 5,638 | 5,418 |
| Ychwanegiadau | 226 | 966 | 1,192 | 1,381 |
| Gwarediadau | (849) | - | (849) | (1,161) |
| Ailddosbarthu | 833 | (819) | 14 | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **5,193** | **802** | **5,995** | **5,638** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 3,167 | - | 3,167 | 2,592 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 748 | - | 748 | 678 |
| Gwarediadau | (779) | - | (779) | (103) |
| Ailddosbarthu | 14 | - | 14 | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth** | **3,150** | **-** | **3,150** | **3,167** |
| | | | | |
| **Swm cario** | **2,043** | **802** | **2,845** | **2,471** |

Yn 2023/24, gwaredodd y CMA feddalwedd gwerth £0.23 miliwn a thrwyddedau meddalwedd gwerth £0.62 miliwn. Roedd yr asedau hyn naill ai:

- wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol ac wedi cael eu dibrisio'n llawn. Penderfynwyd na fyddai'r asedau hyn yn cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol a chawsant eu gwaredu neu
- nid oeddent wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol ond cawsant eu gwaredu gan eu bod wedi cael eu disodli gan feddalwedd well.

Yn 2023/24, ailgyflwynodd y CMA asedau diriaethol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu gwerth £0.65 miliwn yn 2022/23 fel asedau anniriaethol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Roedd hyn yn ymwneud â gwahanol raglenni trawsnewid digidol.

## *9* Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 922 | 723 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddynt | 1,917 | 199 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **2,839** | **922** |
| Daliwyd y balans ar 31 Mawrth yng | | |
| Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 2,839 | 922 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **2,839** | **922** |

## 10 Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill

*Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy (gros) | 260 | 51 |
| Lwfans lleihad mewn gwerth | - | - |
| **Symiau masnach derbyniadwy (net)** | **260** | **51** |
| | | |
| Adneuon a blaensymiau | 35 | 25 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 179 | 171 |
| TAW | 176 | 301 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 4,872 | 4,372 |
| **Cyfanswm** | **5,522** | **4,920** |

Mae'r cynnydd o £0.21 miliwn mewn symiau masnach derbyniadwy i'w briodoli i ddwy anfoneb ar gyfer Apeliadau Rheoleiddiol a gyflwynwyd gan y CMA ym mis Mawrth 2024 mewn cysylltiad â'r apêl yn erbyn y penderfyniad i addasu Trwydded Ynni.

Mae'r cynnydd o £0.50 miliwn mewn rhagdaliadau ac incwm cronedig i'w briodoli i ddechrau dwy brydles rentu newydd ar gyfer Darlington ac One New Bailey ym Manceinion a delir ymlaen llaw bob chwarter.

Nid oes unrhyw symiau masnach derbyniadwy na symiau derbyniadwy eraill yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 11 Symiau prydles derbyniadwy

Mae'r tabl isod yn cynnwys dadansoddiad aeddfedrwydd o symiau prydles derbyniadwy a gwmpesir gan IFRS 16 Prydlesau, sy'n seiliedig ar lifau arian parod gros heb eu disgowntio.

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Dadansoddiad aeddfedrwydd – llifau arian parod cytundebol heb eu disgowntio | | |
| Llai na blwyddyn | 38 | 38 |
| Un i bum mlynedd | 127 | 154 |
| Mwy na phum mlynedd | 141 | 152 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm symiau prydles derbyniadwy: heb eu disgowntio** | **306** | **344** |

***Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau prydles derbyniadwy: symiau derbyniadwy cyfredol | 35 | 35 |
| Symiau prydles derbyniadwy: symiau derbyniadwy nad ydynt yn gyfredol | 257 | 292 |
| **Cyfanswm symiau prydles derbyniadwy: wedi'u disgowntio** | **292** | **327** |

Mae'r symiau prydles derbyniadwy (cyfredol ac anghyfredol) yn rhan o arwynebedd llawr Cabot sy'n cael ei isosod i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser.

## 12 Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

*Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 407 | 545 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 8,615 | 7,841 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 3,150 | 1,811 |
| TAW | 46 | 20 |
| Symiau taladwy eraill | 2,703 | 1,554 |
| Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nas gwariwyd ar 31 Mawrth: | 2,839 | 922 |
| Derbyniadau ychwanegol y Gronfa Gyfunol y disgwylir iddynt gael eu talu i'r Gronfa Gyfunol – derbyniwyd | - | - |
| **Cyfanswm** | **17,760** | **12,693** |

Mae symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nad oeddent wedi'u gwario ar 31 Mawrth, wedi cynyddu £1.92 miliwn. Yn ymarferol, nid yw'r safle arian parod terfynol hwn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol. Caiff ei ddidynnu o ofyniad arian parod net y CMA ar gyfer 2024/25 y gellir ei ostwng o'r Gronfa Gyfunol yn y flwyddyn ariannol nesaf a'i ddosbarthu'n ‘gyflenwad tybiedig’.

## 13 Rhwymedigaethau Prydles

Mae'r tabl isod yn cynnwys dadansoddiad aeddfedrwydd o rwymedigaethau prydles a gwmpesir gan IFRS 16 Prydlesau, sy'n seiliedig ar lifau arian parod gros heb eu disgowntio. Risg hylifedd yw'r posibilrwydd na all y CMA gyflawni ein hymrwymiadau

o rwymedigaethau prydles sydd i'w setlo gydag arian parod. Am fod y CMA yn cael hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol ac, os oes angen, gwneud cais[50] ymlaen llaw i Drysorlys EF am arian parod ychwanegol o'r Gronfa Hapddigwyddiadau, mae ein risg hylifedd yn fach.

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Dadansoddiad aeddfedrwydd – llifau arian parod cytundebol heb eu disgowntio | | |
| Llai na blwyddyn | 5,528 | 5,207 |
| Un i bum mlynedd | 16,790 | 20,862 |
| Mwy na phum mlynedd | 22,697 | 24,706 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau prydles: heb eu disgowntio** | **45,015** | **50,775** |

*Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol*

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau Prydles: rhwymedigaethau cyfredol | 4,942 | 4,642 |
| Rhwymedigaethau Prydles: rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol | 37,857 | 43,388 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau prydles: wedi'u disgowntio** | **42,799** | **48,030** |

Mae prydlesau wedi'u disgowntio ar gyfradd enwol unigol ar gyfer prydlesau, sy'n 4.72% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2024 (2023: 3.51%), a gyhoeddir ym mhapurau system gwariant cyhoeddus Trysorlys EF.

[50] Mae angen cael swm ymlaen llaw o'r Gronfa Hapddigwyddiadau er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau nes i'r Amcangyfrif Atodol gael Cydsyniad Brenhinol, pan all y CMA hawlio'r arian parod o'r Gronfa Gyfunol yn y ffordd arferol, er mwyn ad-dalu'r swm a gafwyd ymlaen llaw o'r Gronfa Hapddigwyddiadau.

# 14 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Pensiynau etifeddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cyfanswm 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2023 | 943 | 6,543 | 4,717 | 12,203 |
| Darperir yn ystod y flwyddyn | 38 | 199 | 25,779 | 26,016 |
| Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd | - | (112) | (6,122) | (6,234) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (78) | (8) | (1,000) | (1,086) |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio | - | (399) | (363) | (762) |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgownt) | - | (5) | (117) | (122) |
| Colled/(elw) actiwaraidd | (12) | - | - | (12) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **891** | **6,218** | **22,894** | **30,003** |

| | Pensiynau etifeddol | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cyfanswm 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 1,239 | 7,809 | 12,621 | 21,669 |
| Darperir yn ystod y flwyddyn | 19 | 635 | 1,100 | 1,754 |
| Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd | - | - | (5,615) | (5,615) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (71) | - | (3,025) | (3,096) |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio | - | (1,901) | (61) | (1,962) |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgownt) | - | - | (303) | (303) |
| Colled/(elw) actiwaraidd | (244) | - | - | (244) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **943** | **6,543** | **4,717** | **12,203** |

Yn 2023/24, disgowntiodd y CMA y darpariaethau dadfeiliadau a chyfreithiol i'w gwerthoedd gan ddefnyddio cyfraddau diweddaraf Trysorlys EF gan fod gwerth amser arian wedi arwain at wahaniaeth sylweddol.

Cyflwynir cyfraddau Trysorlys EF isod:

| Cyfraddau Trysorlys EF | | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | Blwyddyn 1 | 3.60% | 7.40% |
| | Blwyddyn 2 | 1.80% | 0.60% |
| | I fytholbarhad | 2.00% | 2.00% |
| Cyfradd Ddisgowntio Enwol | Cyfnod byr (Blynyddoedd 1-5) | 4.26% | 3.27% |
| | Tymor canolig (Blynyddoedd 6-10) | 4.03% | 3.20% |
| | Hirdymor (Blynyddoedd 11-40) | 4.72% | 3.51% |
| | Hirdymor iawn (Blynyddoedd 41-100) | 4.40% | 3.00% |

Mae'r newid mewn cyfraddau disgowntio wedi arwain at ostyngiad o £0.40 miliwn yn y ddarpariaeth dadfeiliadau (2022/23: £1.90 miliwn) a gostyngiad o £0.16 miliwm mewn darpariaethau cyfreithiol (2022/23: £0.06 miliwn)

Cafodd y ddarpariaeth pensiwn etifeddol ei disgowntio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio cyfraddau yr adroddwyd arnynt yn nodyn 14.2 ar dudalen 172.

### *14.1 Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau arian parod*

| | Pensiynau etifeddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cyfanswm 2023/24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 78 | 2 | 13,943 | **14,023** |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 312 | 538 | 8,951 | **9,801** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 501 | 5,678 | - | **6,179** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **891** | **6,218** | **22,894** | **30,003** |
| | **Pensiynau etifeddol £000** | **Dadfeiliadau £000** | **Cyfreithiol £000** | **Cyfanswm 2022/23 £000** |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 71 | 125 | 2,184 | **2,380** |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 284 | 440 | 2,533 | **3,257** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 588 | 5,978 | - | **6,566** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **943** | **6,543** | **4,717** | **12,203** |

### *14.2 Pensiynau etifeddol*

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â Chadeiryddion blaenorol a Chyfarwyddwyr Cyffredinol yr hen Swyddfa Masnachu Teg, un o gyrff rhagflaenol y CMA.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2024.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

- Y gyfradd gros a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun oedd 5.10% y flwyddyn (2022/23: 4.15% y flwyddyn);
- Cyfradd gros y cynnydd ar gyfer pensiynau sy'n cael eu talu a phensiynau gohiriedig oedd 2.55% y flwyddyn (2022/23: 2.40% y flwyddyn);
- Mewn termau enwol, mae'r tybiaethau hyn yn golygu chwyddiant prisiau o 2.55% y flwyddyn (2022/23: 2.40% y flwyddyn).

Symiau eraill a ddatgelir er mwyn esbonio'r newid mewn darpariaeth yw:

| | 2023/24<br>Cyfanswm<br>£000 | 2022/23<br>Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|
| Cost llog | 38 | 19 |
| Colled actiwaraidd | (12) | (244) |
| Cyfanswm | **26** | **(225)** |
| Buddiannau a dalwyd | (78) | (71) |
| **Lleihad mewn darpariaeth** | **(52)** | **(296)** |

### *14.3 Dadfeiliadau*

Mae'r ddarpariaeth hon yn amcangyfrif o'r gwariant sy'n ofynnol yn y dyfodol i sicrhau bod gofod swyddfa'r CMA, a ddefnyddir ym mhob adeilad a feddiennir gennym, yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd cyfnod y brydles.

Yr ystyriaethau allweddol wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon yw:

- Bwriad y CMA i feddiannu'r gofod swyddfa naill ai tan ddyddiad terfynu pob cytundeb prydlesu neu hyd at ddyddiad opsiwn terfynu ym mhob cytundeb prydlesu;
- Caiff y gofod swyddfa ei gynnal a'i gadw'n dda a dim ond mân atgyweiriadau y bydd eu hangen.

Ym mis Rhagfyr 2023, ailasesodd y CMA briodolrwydd y ddarpariaeth dadfeiliadau ar gyfer yr holl eiddo a feddiennir ganddo ac, o ganlyniad, mae wedi cynyddu'r

ddarpariaeth hon £0.20 miliwn, cyn disgowntio, gan ddefnyddio asesiad o brisiad allanol annibynnol.  Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys eiddo a gwmpesir gan IFRS 16 Prydlesau sy'n arwain at gynnydd o £0.11 miliwn ar gyfer ychwanegiadau ased hawl i ddefnyddio yn nodyn 7 ar dudalen 164.

### *14.4 Cyfreithiol*

Gall penderfyniadau rheoleiddiol gan y CMA fod yn agored i apêl. Gall apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r CMA arwain at rwymedigaethau tebygol ar gyfer costau cyfreithiol.

Er bod ansicrwydd cynhenid mewn apeliadau parhaus o hyd, mae'r CMA wedi penderfynu, yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol a gafwyd, ei bod yn debygol y ceir all-lif o adnoddau sy'n cynnig buddiannau economaidd mewn rhai achosion.

Oherwydd ansicrwydd mewn apeliadau parhaus eraill, o ran y tebygolrwydd y bydd CMA yn llwyddo, amseru gweithrediadau a swm y rhwymedigaeth costau posibl, mae'r CMA wedi cydnabod apeliadau eraill fel rhwymedigaethau digwyddiadol yn nodyn 17 ar dudalen 174 gan nad ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 ar gyfer cydnabod darpariaeth.

## 15 Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

### *15.1 Ymrwymiadau cyfalaf*

Ar ddiwedd 2023/24, roedd gan y CMA ymrwymiadau cyfalaf o £0.42 miliwn (2022/23: £0.20 miliwn) ar gyfer gwasanaethau a oedd yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth.

*Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol*

Cofnodir y taliadau prydles yn y dyfodol ar dri eiddo a feddiennir gan y CMA: Caspian Point, Caerdsydd; Adeiliad BLOC, Manceinion; a Thanet House, Llundain, nas cwmpesir gan IFRS 16, yn y tabl isod.

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhoddir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredol yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol: | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 430 | 42 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 46 | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | **476** | **42** |

## 16 Trafodion â Phartïon Cysylltiedig

Mae gan y CMA drafodion ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yr oedd ein prif drafodion. Heblaw am y gydnabyddiaeth a geir yn adran Adroddiad Cydnabyddiaeth yr Adroddiad Atebolrwydd, nid oes unrhyw aelod Bwrdd, rheolwr allweddol na pharti perthnasol wedi llunio unrhyw drafodyn perthnasol â'r CMA yn ystod y flwyddyn. Ceir gwybodaeth am Gofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Bwrdd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr o dan yr adran Cofrestr o Fuddiannau.

Mae'r CMA yn isosod rhan o'n swyddfa yn y Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser, a noddir gan yr Adran Busnes a Masnach, (yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gynt). Mae'r CMA hefyd yn rhentu safleoedd ar brydles o fewn Canolfannau'r Llywodraeth gan adrannau eraill y llywodraeth, fel CThEM ac Ofcom, fel rhan o'n presenoldeb cynyddol yn y pedair gwlad.

## 17 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae posibilrwydd y caiff buddiannau economaidd perthnasol eu trosglwyddo i drydydd partïon pan fydd y CMA yn rhan o broses ymgyfreitha weithredol. Mae a wnelo'r achosion cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau wrth gefn ag achosion cyfreithiol drwy'r llysoedd ac mae'r canlyniadau yn dibynnu ar ddyfarniadau a chanfyddiadau llysoedd.

Canlyniad dyfarniad Phenytoin yn y Goruchaf Lys ar 25 Mai 2022 yw mai'r man cychwyn yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu, yw bod costau yn dilyn y digwyddiad ond bod gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu ddisgresiwn, o dan ei reolau, i wneud gorchymyn sy'n briodol ym marn y Tribiwnlys, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos. Dyma oedd y sefyllfa yn 2019 lle roedd y CMA yn atebol am dalu costau mewn achosion a gollwyd ganddo yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn llysoedd eraill lle mae'r CMA yn ymgyfreitha'n rheolaidd.

Ni ellir datgelu rhagor o fanylion oherwydd, yn unol ag IAS 37 (paragraff 92), mae'r CMA o'r farn y gallai datgelu gwerthoedd ar gyfer unrhyw rwymedigaeth wrth gefn neu amlygiad ariannol posibl cyfunol sy'n gysylltiedig ag achos cyfreithiol fod yn niweidiol iawn i achosion ymgyfreitha sy'n mynd rhagddynt, oherwydd y nifer cyfyngedig o achosion ymgyfraitha parhaus y mae'r CMA yn rhan ohonynt.

## 18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 ‘Digwyddiadau ar ôl Cyfnod Llunio'r Adroddiad’, caiff digwyddiadau eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w gyhoeddi, a ddehonglir fel yr un dyddiad ag y caiff y cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w nodi.

# Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA

## Datganiad Ymddiriedolaeth

Caiff Datganiad Ymddiriedolaeth ar wahân ei lunio ar gyfer ffioedd a gesglir o dan Ddeddf Menter 2002 (diwygiwyd yn 2013) a dirwyon a gesglir o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae'r refeniw hwn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu**

Mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa cyfrif Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a'n refeniw, ein gwariant a'n llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae Trysorlys EF wedi penodi Prif Weithredwr y CMA fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf cyfrifol am baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Wrth baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, i:

- arsylwi ar y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi Datganiad Ymddiriedolaeth fel busnes gweithredol.

Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrif hwn o'r Datganiad Ymddiriedolaeth, ac i sicrhau bod fy archwilwyr yn cael eu hysbysu. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw fy archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Rwy'n cadarnhau bod y Datganiad Ymddiriedolaeth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA



Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2024

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;
- Datganiad o Refeniw, Datganiad o Incwm a Gwariant Arall ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa [Name of audited entity] ar 31 Mawrth 2024, ac o'i wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a roddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Chysondeb o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol y datganiad ymddiriedolaeth yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad fel archwilydd. Fy Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyllid y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb o Berfformiad, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r amgylchedd a sicrhaodd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth a disgwyliadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd ei angen arno ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad digyfyngiad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at Ddatganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae'n angenrheidiol iddo gael mynediad atynt ym marn yr archwilydd er mwyn cael tystiolaeth archwilio;
- sicrhau bod y rheolaeth fewnol angenrheidiol ar waith i baratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- asesu gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

## Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwneuthum y canlynol:

- ystyried natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys cynllunio polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr a'r sawl sy'n llywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar:
    - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
    - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt;
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr, a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- wedi trafod â'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, rhannu cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfrifon perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn mae Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Neilltuo Arian (Prif Amcangyfrifon) 2024, y Ddeddf Menter a Deddf Cystadleuaeth 1998.

## Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- cynhaliais ymholiadau â rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch materion cyfreithia a hawliadau posibl;

- adolygais gyfrifon cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Euthum i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r farn a luniwyd ar amcangyfrifon yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol;

Gwneuthum hefyd hysbysu pob aelod o'r tîm ymgysylltu am gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll, gan gadw'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd arall

Mae'n yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

# Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.



**Gareth Davies** **24 Gorffennaf 2024**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

London

SW1W 9SP

# Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| **Incwm o ddirwyon a chosbau** | | | |
| Cosbau a osodwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1998 | | 7,080 | 43,504 |
| Llog a enillwyd ar gosbau a osodwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1998 | | 768 | 84 |
| **Cyfanswm yr incwm o ddirwyon a chosbau** | | **7,848** | **43,588** |
| **Ffioedd uno** | | | |
| Ffioedd a gafwyd o dan Ddeddf Menter 2002 | | 3,360 | 4,520 |
| **Cyfanswm y ffioedd uno** | | **3,360** | **4,520** |
| **Cosbau gweinyddol** | | | |
| Cosbau a osodwyd o dan Ddeddf Menter 2002[51] | | 2,585 | - |
| **Cyfanswm cosbau gweinyddol** | | **2,585** | **-** |
| **Cyfanswm y refeniw** | | **13,793** | **48,108** |
| **Gwariant** | | | |
| CA98 Gwrthbwyso cosbau ar gyfer costau ymgyfreitha[52] | | (4,508) | (4,682) |
| Dyledion a gafodd eu dileu neu y mae eu gwerth wedi lleihau fel arall[53] | 2.2 | 1,053 | (1,930) |
| **Cyfanswm y gwariant [54]** | | **(3,455)** | **(6,612)** |

[51] Gall y CMA osod cosbau ariannol 'gweinyddol' ar berson (gan gynnwys cwmni) sydd: (i) yn methu â chydymffurfio â chais am wybodaeth/pwerau casglu tystiolaeth o dan adrannau 26, 26A, 27, 28 neu 28A o Ddeddf Cystadleuaeth 1998; adran 109 o Ddeddf Menter 2002; neu adran 174 o Ddeddf Menter 2002 a (ii) yn torri gorchymyn gorfodi cychwynnol, gorchymyn interim neu ymgymeriad interim.

[52] Mae'r CMA wedi cael cymeradwyaeth i wrthbwyso ei gostau ymgyfreitha ei hun yn llawn yn erbyn incwm o gosbau Deddf Cystadleuaeth 1998.

[53] Mae dyledion a gafodd eu dileu neu y mae eu gwerth wedi lleihau fel arall yn swm positif eleni sydd i'w briodoli'n bennaf i ostyngiad net o £1.3 miliwn yn y ddarpariaeth gostyngiad mewn gwerth ar gyfer Colled Credyd Ddisgwyliedig yn ystod y flwyddyn. Gweler nodyn 2.2 ar dudalen 187 am ragor o fanylion.

[54] Ffi archwiliad tybiannol y CMA ar gyfer y Datganiad Ymddiriedolaeth yw £14,000 (2022/23: £13,000). Gweler nodyn 4 ar dudalen 188 am ddatgeliad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | **5** | **10,338** | **41,496** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 185 i 189 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy | 2.1 | 5,671 | 1,470 |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **5,671** | **1,470** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy | 2.2 | 3,594 | 41,332 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 3 | 19,470 | 4,766 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **23,064** | **46,098** |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **28,735** | **47,568** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 4 | (64) | - |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(64)** | **-** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | **28,671** | **47,568** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **28,671** | **47,568** |
| | | | |
| Cynrychiolwyd gan: | | | |
| **Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol** | **5** | **28,671** | **47,568** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 185 i 189 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.



Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2024

## Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 3 | 43,939 | 4,766 |
| Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | 5 | (29,235) | (100,921) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **14,704** | **(96,155)** |

## Nodiadau i'r Datganiad o Lifau Arian Parod

| A: Cysoni'r Llif Arian Parod i symudiadau yn y Cronfeydd Net | Nodyn | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | | 10,338 | 41,496 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn asedau nad ydynt yn arian parod | | 33,537 | (36,382) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | | 64 | (348) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **43,939** | **4,766** |

| B: Dadansoddiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Net | Nodyn | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|

| | | £000 | £000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | 3 | 14,704 | (96,155) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill (arian parod net yn y banc) | | 4,766 | 100,921 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth (balans wrth gau)** | | **19,470** | **4,766** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 185 i 189 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

# Nodiadau i'r Datganiad Ymddiriedolaeth

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r CMA yn gweithredu fel asiant sy'n gyfrifol am gasglu ffioedd unol a chosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 (CA98) ar ran y Gronfa Gyfunol. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn rhoi cyfrif o'r broses o gasglu refeniw, sy'n daladwy o dan gyfraith neu gonfensiwn i'r Gronfa Gyfunol, lle mae'r CMA yn ymgymryd â'r broses gasglu ac yn gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif arferydd. Nodir y gofyniad deddfwriaethol yn Neddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2023/24 a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae’r CMA yn dewis polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i’r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg.

Disgrifir y polisïau a fabwysiadwyd gan y CMA isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes gweithredol.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth wedi'i baratoi ar sail croniadau yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### *1.2 Safbwyntiau ac amcangyfrifon sylweddol*

Wrth gyfrifo incwm cronedig ar gyfer gwasanaethau gorfodi a gwasanaethau eraill, caiff barn ac amcangyfrifon eu llunio ar statws gweithgareddau sylfaenol. Mae darpariaeth ar gyfer symiau anadenilladwy a ragwelir wedi'i chynnwys. Yn ogystal â hyn, wrth gyfrifo'r Golled Credyd Ddisgwyliedig sy'n ofynnol gan IFRS 9 Offerynnau Ariannol, caiff barn ei llunio a thybiaethau eu gwneud ynglŷn â'r amodau economaidd yn y dyfodol a'r effaith y gallai'r amodau hyn ei chael ar risg credyd. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, rydym yn ystyried bod lefel y risg credyd yn isel ac felly rydym yn defnyddio'r dull syml wrth gyfrifo'r golled credyd a ddisgwylir. Yna caiff darpariaeth ar gyfer lwfans lleihad mewn gwerth ei chydnabod. Gweler nodyn 1.4 (Symiau derbyniadwy) ar dudalen 186 am ragor o wybodaeth. Eir i'r afael â barn ac amcangyfrifon eraill sydd â risg sylweddol o achosi unrhyw addasiad perthnasol i werth cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn y Datganiad Ymddiriedolaeth.

### *1.3 Cydnabod refeniw*

Caiff ffioedd a chosbau eu mesur yn unol ag IFRS 15 ‘Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid. Caiff refeniw ei gydnabod unwaith y bydd y CMA wedi ymchwilio i'r

uniad arfaethedig ac wedi rhoi ein penderfyniad; pan fydd cosb wedi'i gosod, llythyr penderfyniad wedi'i anfon at yr endid dan sylw, a phan fydd yr endid wedi cael dau fis calendr i apelio yn erbyn y penderfyniad os bydd yn dymuno. Yn gryno o dan IFRS 15, caiff y refeniw ei gydnabod pan fydd llythyr penderfyniad wedi'i anfon a phan fydd y terfyn amser i endid apelio yn erbyn y penderfyniad wedi mynd heibio.

Mae'r dull hwn yn gyson ag addasiadau FReM mewn perthynas ag IFRS 15 ar gyfer gwerthuso faint o refeniw a gaiff ei gydnabod a phryd y caiff ei gydnabod o dan FReM 11.3.9.

Caiff ffioedd a chosbau eu mesur ar werth teg symiau a dderbynnir neu sy'n dderbyniadwy, heb gynnwys unrhyw ad-daliadau.

### *1.4 Symiau derbyniadwy*

Mae IFRS 9 'Offerynnau ariannol' yn cynnwys gofynion ar gyfer dosbarthu, cydnabod a mesur, lleihad mewn gwerth a dadgydnabod offerynnau ariannol.

O dan IFRS 9, gwneir lwfansau ar gyfer colledion credyd ar sail colled credyd a ddisgwylir.

Yn unol â dull syml IFRS 9 mewn perthynas â lleihad mewn gwerth, rydym wedi cydnabod lwfans colled ar swm sy'n cyfateb i golled credyd a ddisgwylir gydol oes o'r adeg y caiff y symiau derbyniadwy eu cydnabod i ddechrau. Amcangyfrifwyd y rhain drwy gyfeirio at brofiad diofyn o'r gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer effaith ddisgwyliedig amodau economaidd presennol ac yn y dyfodol.

Caiff symiau derbyniadwy eu hadolygu'n rheolaidd ar gyfer yr holl gosbau CA98 sy'n weddill er mwyn pennu i ba raddau y gellir eu hadennill ac asesu unrhyw lwfans ar gyfer symiau na ellir eu casglu a fesurir yn unol ag IFRS 9. Nod y lwfans lleihad mewn gwerth yw lleihau'r swm sy'n dderbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, ond mae hefyd yn lleihau'r balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol. Caiff y broses o greu'r lwfans lleihad mewn gwerth hwn, ac unrhyw symudiad dilynol, neu unrhyw symiau a gaiff eu dileu nas darparwyd ar eu cyfer yn flaenorol, eu cynnwys yn y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall.

Os bydd parti wedi cael cynnig yr opsiwn i dalu ei gosb mewn rhandaliadau, a'i fod wedyn yn methu taliadau am unrhyw reswm, er enghraifft os bydd yn mynd i ddwylo gweinyddwyr, cymerir pob cam i olrhain y ddyled. Fodd bynnag, fel arfer, caiff gwerth y balans sy'n ddyledus ei leihau'n llawn nes bydd y broses adennill wedi'i chwblhau, pan gaiff unrhyw lwfans nas defnyddiwyd ei ryddhau. Mae hyn hefyd yn gymwys pan gaiff cosb ei gosod ar endid sydd wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu sy'n gwneud hynny cyn y gellir talu'r gosb.

### *1.5 Treth ar Werth (TAW)*

Mae ffioedd uno a chosbau CA98 y tu allan i gwmpas TAW.

## 2 Symiau derbyniadwy

### *2.1* Symiau derbyniadwy nad ydynt yn gyfredol

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 | 5,671 | 1,470 |
| **Cyfanswm** | **5,671** | **1,470** |

### *2.2 Symiau derbyniadwy cyfredol*

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 | 3,760 | 42,496 |
| Llai lwfans lleihad mewn gwerth | (938) | (2,402) |
| **Cosbau Deddf Cystadleuaeth Net 1998** | **2,822** | **40,094** |
| Symiau derbyniadwy ffioedd uno | 420 | 680 |
| Llai lwfans lleihad mewn gwerth | (263) | (2) |
| **Ffioedd Uno Net** | **157** | **678** |
| Swm sy'n ddyledus o Brif Gyfrif y CMA | 55 | - |
| Incwm a gronnwyd | 560 | 560 |
| **Cyfanswm** | **3,594** | **41,332** |

Mae'r gostyngiad mewn symiau derbyniadwy yn 2023/24 i'w briodoli'n bennaf i benderfyniad a gyhoeddwyd gan y CMA ar 23 Mawrth 2023 a ddyfarnodd fod 10 cyflenwr gwasanaethau dymchwel a gwaredu asbestos wedi torri cyfraith cystadleuaeth drwy gymryd rhan mewn cynlluniau rigio ceisiadau, ar ffurf 'cover bidding'. Yn unol â pholisi cyfrifyddu'r CMA, cydnabuwyd cosbau CA98 gwerth £41.3 miliwn fel rhai a oedd yn ddyledus gan wyth cyflenwr yn 2022/23. Apeliodd dau gyflenwr, a gafodd ddirwyon gwerth cyfanswm o £18.0 miliwn, yn erbyn penderfyniad y CMA ac, felly, ni chawsant eu cydnabod fel swm derbyniadwy. Yn ystod 2023/24, cafodd y CMA £33.5 milliwn o'r £41.3 miliwn a oedd yn ddyledus o 2022/23, gan leihau'r symiau derbyniadwy a oedd yn ddyledus i'r CMA yn unol â hynny.

Mae a wnelo'r ddarpariaeth ostyngiad mewn gwerth ar gyfer ffioedd uno, sef £0.26 miliwn, â ffioedd uno sy'n ddyledus ers dros chwe mis. Mae'r CMA yn cysylltu â'r trydydd partïon perthnasol er mwyn ceisio adennill yr arian. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2024, roedd y CMA yn ystyried bod y symiau derbyniadwy hyn yn ‘ddyled amheus’ oherwydd oedran y ddyled a thystiolaeth sy'n codi amheuon ynghylch a ellir casglu'r ddyled.

Yn unol ag IFRS 9 a FReM 2023/24, mae asesiad y CMA o golledion credyd disgwyliedig a gymhwyswyd yn erbyn symiau derbyniadwy cyfredol yn ostyngiad o £1.3 miliwn yn y ddarpariaeth lleihad mewn gwerth gan ddefnyddio cyfradd o 1.32%. Amcangyfrifir y gyfradd golled hon gan ddefnyddio data hanesyddol ar y symiau derbyniadwy a gaiff eu dileu neu y caiff eu gwerth ei leihau'n llawn, er enghraifft, am fod endid wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu wedi’i ddiddymu, fel cyfan o gyfanswm y swm net sy'n dderbyniadwy ar ddyddiad llunio'r adroddiad.

Er y gwneir pob ymdrech i adennill dyledion, oherwydd natur ansicr diddymiadau endidau, gwneid lwfans colled ar gyfer swm llawn y ddyled ar yr adeg y bydd endid yn mynd i ddwylo gweinyddwyr.

## 3 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill | 4,766 | 100,921 |
| Newid net mewn balansau arian parod | 14,704 | (96,155) |
| **Balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 31 Mawrth** | **19,470** | **4,766** |

Mae'r cynnydd mewn balans arian parod i'w briodoli i gynnydd mewn cosbau gwerth uchel a gasglwyd yn 2023/24 o gymharu â 2022/23.

Bydd y CMA yn trosglwyddo'r balans wrth gau hwn i Drysorlys EF ym mlwyddyn ariannol 2024/25. Gweler nodyn 5 sy'n adlewyrchu'r balans cychwynnol a oedd yn cael ei ddal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill 2023 a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol yn 2023/24.

## 4 Symiau taladwy

| | 2023/24<br>£000 | 2022/23<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Gwrthbwyso cosbau CA98 ar gyfer costau ymgyfreitha | 64 | - |
| **Cyfanswm** | **64** | **-** |

## 5 Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol

| | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill | 47,568 | 106,993 |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | 10,338 | 41,496 |
| Llai y swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | (29,235) | (100,921) |
| **Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth** | **28,671** | **47,568** |

## 6 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 ‘Digwyddiadau ar ôl Cyfnod Llunio'r Adroddiad’, caiff digwyddiadau eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r Datganiad Ariannol wedi'i awdurdodi i'w gyhoeddi, a ddehonglir fel yr un dyddiad ag y caiff ei ardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w nodi.